# Bundle Health Board - Welsh 28 September 2023


1 MATERION RHAGARWEINIOL

1.1 Gair o groeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau am absenoldeb - ar lafar
*Cadeirydd*
HB23.206 CYM - HB Agenda 28 September 2023 v6 REVISED for ibabs - Welsh

1.2 Datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda - ar lafar
*Cadeirydd*

1.3 Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2023 a 24 Awst 2023
*Cadeirydd*
HB23.208a Draft Health Board Minutes 31.07.23 Public v.04.2 Chair reviewed_final version Cymraeg
HB23.208b Health Board Minutes 24.08.23 Public draft v.04 final CYM

1.4 Cofnod Camau Gweithredu
*Cadeirydd*
HB23.209 Action Tracker HB 28 Sept 2023 board vf CYM

1.5 Stori/Profiad y Claf
*Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth*
HB23.210 Patient Story - A patient journey through cancer services Cymraeg

1.6 Adroddiad y Cadeirydd
*Cadeirydd*
HB23.211 Chairs Report 28.09.23 CYM

1.7 Adroddiad y Prif Weithredwr
*Prif Weithredwr dros dro*
HB23.212 Board CEO report Sept 2023 CYM

1.8 Cwestiynau gan y Cyhoedd - ar lafar
*Cadeirydd*

2 EITEMAU I'W CYMERADWYO/CADARNHAU/PENDERFYNU

2.1 Mesurau Arbennig - Adroddiad cylch 90 diwrnod llawn
*Prif Weithredwr dros dro*
HB23.215 CY - FINAL 2023-09-28 - Special Measures Cycle 1 Closure and Cycle 2 Commencement Report v06

2.2 Fframwaith i'w Gymeradwyo: •Fframwaith Rheoli Risg
*Prif Weithredwr dros dro ac Ysgrifennydd y Bwrdd dros dro*
HB23.217a CYM - Risk Framework - Coversheet - Developmental Board Session Risk Sept Board V2
HB23.217b CYM - Appendix 1 Risk Appetite 2023 V5
HB23.217c CYM - Risk Management Framework V4
HB23.217d CYM - AC 23.84d EqIA RM01 2023

2.3 Fframwaith i'w Gymeradwyo •Fframwaith Perfformiad
*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dros dro*

2.4 Fframwaith i'w Gymeradwyo •Fframwaith Cynllunio
*Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol*
HB23.219a Integrated Planning Framework-cym
HB23.219b Integrated Planning Framework-E1Final-Cym (2)
HB23.219c 2Cym-Planning timeline
HB23.219d 3Cym-IAST IPF

2.5 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol
*Ysgrifennydd y Bwrdd dros dro*
*· Ceisiadau'r Sêl Gyffredin a Gweithrediadau'r Cadeirydd*
*· Rheolau Sefydlog - Model newydd o'r rheolau sefydlog wedi'i dderbyn gan y gweinidog*
*· Cylch Gorchwyl Drafft ar gyfer holl Bwyllgorau'r Bwrdd*
*Adroddiad y Pwyllgor Archwilio - Cadeirydd Pwyllgor Archwilio*
*Adroddiad y Pwyllgor Taliadau - Cadeirydd Pwyllgor Taliadau*
HB23.220f Audit Committee Chairs Assurance Report CYM
HB23.220g RemCom Chairs Assurance Report CYM

3 3.EITEMAU I'W TRAFOD/SICRHAU

*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dros dro*
*Mis 05 (i'w gadarnhau) < em>gan ganolbwyntio ar adferiad< /em>*
*Adroddiad y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth   -*
*Cadeirydd  Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth*

3.2 Adroddiad ar Berfformiad Integredig
*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dros dro*
HB23.222f PFIG Chairs Assurance Report CYM

3.3 Adroddiad ar Ansawdd Integredig
*Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol, Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd dros dro*
*Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau -   Cadeirydd  Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau*
HB23.224a Quality Report - September 2023 Cymraeg
HB23.224b Copy of HB - Quality Report - Appendix - Sept 2023 Cymraeg
HB23.224c QSE Chair Assurance Report 22.08.23 v3 CYM

3.4 Adroddiad Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltiad
*Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl*
HB23.225 Board Report on Culture Leadership and Engagement CYM

3.5 Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg  2022/23
*Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd*
HB23.226a Welsh Language Services Annual Monitoring Report 2022-2023_CY
HB23.226b Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg 2022-2023
HB23.226c BIPBC - MNG_MJW Adroddiad Diweddariad Blynyddol GIG 2022-2023

3.6 Adroddiad Partneriaethau -
*Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau*
*Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol*
*Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus*
*Cynnwys WHSSC*

3.7 Adroddiad y Cydbwyllgorau:
*Prif Weithredwr dros dro /  Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid dros dro*
*EASC*
*Partneriaeth Cydwasanaethau*

3.8 Adroddiadau gan Fforymau Cynghorol:
*Aelodau Cyswllt*
*Fforwm Proffesiynau Iechyd*
*Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid*
*Fforwm Partneriaeth Lleol (Undebau Llafur)*
HB23.229 HPF Chairs Assurance Report - 01 September 2023 v1.0 CYM

4 MATERION ERAILL

4.1 Unrhyw fater arall
*Cadeirydd*

4.2 Dyddiad y cyfarfod nesaf
*Cadeirydd*

5 Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd
*"Bod cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn o gofio natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod, ac y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960."*
*Cadeirydd*

**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

**CYFARFOD Y BWRDD**
**DYDD IAU 28 MEDI 2023**
**9.30 – 13.30**
**VENUE CYMRU, LLANDUDNO**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AGENDA'R BWRDD** | | | | |
| **1. MATERION RHAGARWEINIOL** | | | | |
| 9.30 | 1.1 | Gair o groeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau am absenoldeb | Ar lafar | Cadeirydd |
| 09:32 | 1.2 | Datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda | Ar lafar | Cadeirydd |
| 9:34 | 1.3 | Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2023 a 24 Awst 2023 | Mewn Atodiad | Cadeirydd |
| 9:40 | 1.4 | Cofnod Camau Gweithredu | Mewn Atodiad | Cadeirydd |
| 9:45 | 1.5 | Stori/Profiad y Claf | Cyflwyniad | Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| 10:05 | 1.6 | Adroddiad y Cadeirydd | Mewn Atodiad | Cadeirydd |
| 10:20 | 1.7 | Adroddiad y Prif Weithredwr | Mewn Atodiad | Prif Weithredwr |
| 10:35 | 1.8 | Cwestiynau gan y Cyhoedd | Ar lafar | Cadeirydd |
| **2. EITEMAU I'W CYMERADWYO/CADARNHAU/PENDERFYNU** | | | | |
| 10.45 | 2.1 | Mesurau Arbennig – *Adroddiad cylch 90 diwrnod llawn* | Mewn Atodiad | Prif Swyddog Gweithredol |
| 10:55 | 2.2 | Datblygu Hwb Llawfeddygol Orthopedig Dewisol yn Ysbyty Llandudno – Achos Busnes Un Cam | Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol |
| 11:05 | 2.3 | Fframwaith i'w Gymeradwyo<br>• Fframwaith Rheoli Risg | Mewn Atodiad | Prif Swyddog Gweithredol ac Ysgrifennydd y Bwrdd dros dro |
| 11:20 | 2.4 | Fframwaith i'w Gymeradwyo<br>• Fframwaith Perfformiad | Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Cyllid |
| 11:35 | 2.5 | Fframwaith i'w Gymeradwyo<br>• Fframwaith Cynllunio | | Cyfarwyddwr Strategol a Chynllunio Strategol |
| 11:50 | 2.6 | Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Ceisiadau'r Sêl Gyffredin a diweddariad ar Weithrediadau'r Cadeirydd<br>• Rheolau Sefydlog – Model newydd o'r rheolau sefydlog wedi'i dderbyn gan y gweinidog<br>• Cynnig ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd a Grwpiau Cynghorol<br><br>- Adroddiad y Pwyllgor Archwilio<br>- Adroddiad y Pwyllgor Taliadau | Mewn Atodiad<br><br>Mewn Atodiad<br>Mewn Atodiad | Ysgrifennydd y Bwrdd<br><br>Cadeirydd – Archwilio<br>Cadeirydd – Taliadau |
| **3. EITEMAU I'W TRAFOD/SICRHAU** | | | | |
| 12:10 | 3.1 | Perfformiad Ariannol 2023/24<br>- Mis 05 *gan ganolbwyntio ar adferiad*<br><br>- Adroddiad y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth | Mewn Atodiad<br><br>Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Cyllid<br><br>Cadeirydd – Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth |
| 12:20 | 3.2 | Adroddiad ar Berfformiad Integredig | Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Cyllid |
| 12:30 | 3.3 | Adroddiad ar Ansawdd Integredig<br><br>- Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau | Mewn Atodiad<br><br>Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd<br><br>Cadeirydd – Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau |
| 12:40 | 3.4 | Adroddiad Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu | Mewn Atodiad | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl |
| 12:50 | 3.5 | Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg | Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus |
| 13:00 | 3.6 | Adroddiad Partneriaethau<br>- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol<br>- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>- Partneriaeth Cydwasanaethau | Mewn Atodiad | Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau |
| 13:10 | 3.7 | Adroddiad y Cydbwyllgorau:<br>- EASC<br>- WHSCC | Mewn Atodiad | Prif Swyddog Gweithredol |
| 13:15 | 3.8 | Adroddiadau gan Fforymau Cynghorol:<br>- Fforwm Proffesiynau Iechyd | | Aelodau Cyswllt |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | - Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid<br>- Fforwm Partneriaeth Lleol (Undebau Llafur) | Mewn Atodiad | |
| **4.MATERION ERAILL** | | | | |
| 13:25 | 4.1 | Unrhyw fater arall | Ar lafar | Cadeirydd |
| 13:30 | 4.2 | Dyddiad y Cyfarfod Nesaf | Ar lafar | Cadeirydd |
| Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd - "Bod cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn o gofio natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod, ac y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960." | | | | |

| **AELODAU O'R BWRDD** | **SWYDD** |
|---|---|
| Dyfed Edwards | Aelod Annibynnol/Cadeirydd |
| Karen Balmer | Aelod Annibynnol |
| Clare Budden | Aelod Annibynnol |
| Russell Caldicott | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro |
| Gareth Evans | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwasanaethau Iechyd |
| Adele Gittoes | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Dros Dro |
| Y Cyng. Dyfed Jones | Aelod Annibynnol |
| Dr Mike Larvin | Aelod Annibynnol |
| Dr Nick Lyons | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol |
| Teresa Owen | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus |
| Jane Wild | Aelod Cyswllt, Fforwm Proffesiynau Gofal Iechyd |
| Fôn Roberts | Aelod Cyswllt, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Carol Shillabeer | Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro |
| Chris Stockport | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol |
| Rhian Watcyn Jones | Aelod Annibynnol |
| Gareth Williams | Aelod Annibynnol |
| Angela Wood | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| **YN BRESENNOL** | |
| Jason Brannan | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl |
| Richard Coxon | Pennaeth Materion Corfforaethol Dros Dro (cofnodion) |
| Phil Meakin | Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro |
| Helen Stevens-Jones | Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| Dylan Roberts | Prif Swyddog Gwybodaeth Ddigidol |

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**
**Cofnodion Drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 31 Gorffennaf 2023 yn yr Ystafell Gynadledda, Canolfan Optic, Llanelwy a drwy ffrwd fyw zoom**

DRAFT

| **Aelodau'r Bwrdd yn Bresennol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Teitl** |
| Dyfed Edwards | Cadeirydd |
| Jason Brannan | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl |
| Clare Budden | Aelod Annibynnol |
| Russell Caldicott (RC) | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro |
| Gareth Evans | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd |
| Yr Athro Mike Larvin | Aelod Annibynnol |
| Dr Nick Lyons (NL) | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol / Dirprwy Brif Weithredwr |
| Phil Meakin (PM) | Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd |
| Teresa Owen | Cyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd |
| Carol Shillabeer | Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro |
| Helen Stevens-Jones | Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| Dr Chris Stockport (CS) | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio |
| Rhian Watcyn Jones | Aelod Annibynnol |
| Gareth Williams | Aelod Annibynnol |
| Angela Wood (AW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| **Yn Bresennol** | |
|---|---|
| Richard Coxon | Pennaeth Materion Corfforaethol Dros Dro (cofnodion) |
| Jody Evans | Swyddog Llywodraethiant Corfforaethol (ar gyfer cymorth ffrydio byw) |
| Lowri Gwyn | Cyfieithu |
| Fiona Lewis | Swyddog Busnes Corfforaethol |
| Marty Mcauley | Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol/Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Llinos Roberts | Rheolwr Busnes Gweithredol (Rheoli'r cyswllt zoom) |
| Rebecca Sands | Arweinydd Tîm, Gwasanaeth 111 dewis 2 (Eitem HB23.154 yn unig) |
| **Yn arsylwi** | |
| Barbara Cummings | Cyfarwyddwr Perfformiad Dros Dro |
| Adele Gittoes | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol Dros Dro (dynodedig) |
| David Jenkins | Cynghorydd Llywodraeth Cymru |
| Matthew Joyes | Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd |

| | |
|---|---|
| Geoff Ryall-Harvey | Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru |
| Iain Wilkie | Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu |
| Aelodau o'r Cyhoedd | |

| **Eitem ar yr Agenda** | **Cam gweithredu** |
|---|---|
| **MATERION AGORIADOL** | |
| **HB23/150 Gair o groeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>**HB23/150.1** Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd.<br><br>**HB23/150.2** Cafwyd ymddiheuriadau gan:<br>• Dylan Roberts, Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth<br>• Fôn Roberts, Aelod Cyswllt<br>• Jane Wild, Aelod Cyswllt | |
| **HB23/151 Datganiadau o fuddiant ar yr agenda gyfredol**<br><br>Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb. | |
| **HB23/152 Cofnodion drafft y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Mai 2023 a 22 Mehefin 2023**<br><br>**HB23/152.1** Cymeradwywyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mai 2023. Cymeradwywyd cofnodion 22 Mehefin 2023 yn amodol ar y *diwygiadau a ganlyn*:<br><br>• HB23.137.18 Dywedodd yr Athro Mike Larvin fod y *cwricwlwm cenedlaethol gorfodol* ar gyfer meddygon dan hyfforddiant bellach yn cynnwys sut i ddelio ag ymddygiad heriol cleifion<br>• Dywedodd hefyd fod Prifysgol Bangor yn cynyddu nifer y myfyrwyr ar gyfer *glanweithwyr deintyddol*<br>• Nododd Aelod Annibynnol nad oedd y polisi di-fwg mor glir ar ddefnyddio e-sigaréts ag y gallai fod, felly cymeradwywyd y polisi *ar yr amod bod cyfeiriad at ddefnyddio e-sigaréts yn cael ei gynnwys*. | |
| **HB23/153 Cofnod o Weithredoedd**<br><br>**HB23/153.1** Tynnodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd sylw at y camau gweithredu a oedd wedi cael eu cwblhau. Nodwyd y byddai'r eitemau agored sy'n weddill yn cael sylw yn y cyfarfod a gynhelir ar 28 Medi 2023. | |

| | |
|---|---|
| **HB23/153.2** Byddai cam gweithredu HB23.137.16 yn cael ei ddiweddaru i roi mwy o eglurder ynghylch y cais i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd ddarparu adborth ar ddefnyddio/hyfforddi Eiriolwyr Iechyd yn dilyn trafodaeth â Phrifysgolion.<br><br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn nodi'r cofnod gweithredu wedi ei ddiweddaru.<br><br>**GWEITHREDU: Dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd y byddai cam gweithredu HB23/137.18 yn cael eu neilltuo i'r cofnod cywir er mwyn hwyluso dealltwriaeth.** | <br><br><br><br><br>**PM** |
| **HB23/154 Profiad y Claf - Gwasanaeth Iechyd Meddwl '111 Dewis 2'**<br><br>**HB23/154.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd stori'r claf a oedd yn canolbwyntio ar Wasanaeth 111 Dewis 2 GIG Cymru a lansiwyd ledled Gogledd Cymru ar 17 Ionawr 2023, gan ddarparu cymorth ffôn 24/7 ar gyfer pryderon iechyd meddwl brys unigolion neu'r rhai sy'n hysbys iddynt.<br><br>**HB23/154.2** Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd fod Gwasanaeth 111 Dewis 2 GIG Cymru wedi ei leoli yn Rhanbarth y Dwyrain yn Uned Heddfan, er bod y gwasanaeth yn gwasanaethu gogledd Cymru gyfan. Roedd y gwasanaeth wedi cael ei ddefnyddio'n arbennig o dda gan ddinasyddion ar draws Gogledd Cymru a chafwyd adborth cadarnhaol gan asiantaethau partner yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys adborth gan Glystyrau Meddygon Teulu, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Heddlu Gogledd Cymru.<br><br>**HB23/154.3** Edrychodd y Bwrdd ar stori ddigidol am y gwasanaeth a chlywodd gan Gareth, a rannodd ei daith o gael mynediad at y gwasanaeth pan oedd ei wraig yn angheuol wael a'r gefnogaeth barhaus ddilynol yn dilyn marwolaeth drist ei wraig. Mynegodd Gareth ei ddiolch dwysaf i'r holl staff Trin Galwadau a oedd wedi ei gynorthwyo a disgrifiodd y gwasanaeth fel un 'hanfodol'<br><br>**HB23/154.4** Ymunodd Rebecca Sands, Arweinydd Tîm y gwasanaeth 111 dewis 2, â'r cyfarfod ac eglurodd fod y gwasanaeth yn rhan allweddol o waith argyfwng iechyd meddwl. Nodwyd bod y gwasanaeth wedi cael dros 5,000 o alwadau ers iddo ddechrau, yn unol â'r lefel a ragwelwyd. Roedd yr adroddiad yn amlinellu prif nodau'r gwasanaeth.<br><br>**HB23/154.5** Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch hyfforddiant a chefnogaeth i staff, dywedodd yr Arweinydd Tîm eu bod wedi paratoi'n dda ar gyfer eu rôl ar ôl cael sesiwn gynefino ddwys, hyfforddiant, cefnogaeth gan | |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| gymheiriaid a chyngor therapi. Roedd cymorth ychwanegol ar gael bob amser hefyd. Nodwyd bod y gwasanaeth hefyd yn gweithio'n agos gyda'r heddlu ar atgyfeiriadau cleifion.<br><br>**HB23/154.6** Cytunwyd bod hwn yn wasanaeth cadarnhaol iawn a oedd yn lleihau presenoldeb mewn Adrannau Achosion Brys a gostyngiad cyffredinol mewn derbyniadau. Nodwyd bod potensial i ddatblygu modelau tebyg ym maes Gofal Sylfaenol neu Ofal Brys. Fodd bynnag, roedd gwaith adolygu pellach yn cael ei wneud i symud hyn yn ei flaen.<br><br>**Penderfynwyd** bod y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad a diolchwyd i bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth. | |
| **HB23/155 Adroddiad y Cadeirydd**<br><br>**HB23/155.1** Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a phwysleisiodd ei fod yn parhau i ddysgu llawer o'i ymweliadau niferus ag amrywiol leoliadau ar draws Gogledd Cymru gan gynnwys Tywyn a Dolgellau yr wythnos flaenorol. Pwysleisiodd fanteision gwrando'n uniongyrchol ar bryderon a syniadau staff.<br><br>**HB23/155.2** Dywedodd hefyd ei fod ef a'r Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro wedi mynd i sesiwn gaeedig o Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, wedi ei ddilyn gan gyflwyniad gan y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro ar gyfer aelodau etholedig ar waith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch mesurau arbennig. Rhagwelwyd y byddai cyfle i fynd ar drywydd hyn gyda chyflwyniad a thrafodaeth bellach yn yr hydref.<br><br>**HB23/155.3** Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi symud i broses benodi newydd ar gyfer Aelodau Annibynnol ac Is-gadeirydd. Roedd hysbysebion ar gyfer y rolau hyn yn y Bwrdd iechyd bellach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl cadarnhad ynghylch y swydd wag ar gyfer Aelod Annibynnol o Undeb Llafur. Rhagwelwyd y byddai rhagor o eglurder yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.<br><br>**HB23/155.4** Cydnabu amryw o aelodau annibynnol faint o waith roedd y Cadeirydd wedi ei gyfrannu a mynegodd werthfawrogiad aelodau'r Bwrdd. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod annibynnol ynghylch deiliadaethau a phryd y byddai penodiadau aelodau annibynnol pellach yn cael eu hysbysebu, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu annog penodiadau pedair blynedd yn y dyfodol. Byddai hyn yn cael ei drafod cyn yr ymgyrch recriwtio nesaf a ddisgwylir cyn diwedd blwyddyn galendr 2023. | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **HB23/155.5** Dywedodd aelod annibynnol y byddai hi ac aelodau annibynnol eraill yn croesawu'r cyfle i gwrdd â chleifion a staff ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd a gofynnodd am ddatblygu rhaglen arfaethedig o ymweliadau ar gyfer yr hydref.<br><br>**HB23/155.6** Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth ei bod hi'n gweithio gyda'r tîm profiad cleifion i ddatblygu rhaglen arfaethedig o ymweliadau ar gyfer aelodau'r Bwrdd.<br><br>**HB23/155.7** Fe wnaeth aelod annibynnol gydnabod gwerth ymweliadau a natur agored staff. Diolchodd i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro a oedd yn bresennol yn ymweliad cymeradwyo Ysgol Feddygol Gogledd Cymru gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Dywedodd y byddai'r Brifysgol yn recriwtio'r myfyrwyr meddygol cyntaf cyn bo hir. Roedd y Prif Weithredwr Dros Dro a'r Cadeirydd yn falch o fod wedi bod yn rhan o'r digwyddiad llwyddiannus.<br><br>**HB23/155.8** Nodwyd hefyd fod aelod annibynnol wedi cael ei galonogi'n fawr gan sgyrsiau gyda staff mewn sawl adran yr oedd eisoes wedi ymweld â nhw. Er ei fod yn gwerthfawrogi'r cyfle i wrando ar staff, nododd hefyd fod llawer wedi diolch i Aelodau'r Bwrdd am ymweld.<br><br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn derbyn yr adroddiad.<br><br>**GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth i ddosbarthu'r rhaglen arfaethedig o ymweliadau â'r Bwrdd** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**AW** |
| **HB23/156 Adroddiad y Prif Weithredwr**<br><br>**HB23/156.1** Siaradodd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro am ei rhaglen ymweliadau a chafodd ei sbarduno gan gymhelliant staff, rheolwyr ac arweinwyr clinigol a geisiodd welliannau. Mewn sgyrsiau gyda myfyrwyr meddygol, dysgodd am eu brwdfrydedd i gael gwybodaeth am wasanaethau iechyd meddwl, gofal cymunedol a gofal sylfaenol nid yn unig mewn ysbytai. Dysgodd am rai o'r heriau gwirioneddol o ran llwybrau a derbyniadau, a oedd yn fater a gafodd sylw yn y gwaith mesurau arbennig. Roedd llawer o waith partneriaeth wedi cael ei wneud yn ystod y misoedd blaenorol a oedd hefyd wedi cael ei amlygu i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.<br><br>**HB23/156.2** Roedd y Bwrdd yn falch iawn o gefnogi'r prosiect Climb ym Mhrifysgol Bangor a sefydlu Adran Cynfyfyrwyr Arweinyddiaeth. Dywedodd fod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr arweinwyr clinigol ac anghlinigol cryf iawn yr oedd y sefydliad yn awyddus i'w datblygu a'u meithrin yn y dyfodol. | |

DRAFFT

Roedd prosiectau eraill yn cynnwys cynorthwyo pobl i gael gwaith a darparu cyfleoedd datblygu, ac roedd rhai ohonynt hefyd wedi derbyn gwobrau.

**HB23/156.3** Mewn ymateb i aelod annibynnol, roedd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro yn falch o ddweud bod y prosiect Ymgysylltu i Newid wedi arwain at recriwtio hanner yr interniaid presennol yn llwyddiannus i rolau yn y Bwrdd Iechyd.

**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn derbyn yr adroddiad.

**HB23/157 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

**HB23.157.1** Dywedodd y Cadeirydd fod 20 o gwestiynau a gyflwynwyd gan aelodau o'r cyhoedd cyn y cyfarfod wedi cael eu hateb a'u bod bellach ar gael ar wefan gyhoeddus y Bwrdd Iechyd. Rhoddodd grynodeb o'r themâu a oedd yn cynnwys cynlluniau'r pandemig ac ymatebion y Bwrdd a Llywodraeth Cymru; adroddiadau'r Crwner a Grŵp Gweithredu Tywyn.

**HB23/157.2** Dywedodd y Cadeirydd fod y Bwrdd yn agored i dryloywder a rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd. Estynnodd hefyd y gwahoddiad i gyflwyno cwestiynau, ar unrhyw adeg, iddo ef ei hun neu'r Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro yn uniongyrchol.

**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn derbyn yr adroddiad.

**HB23/158 EITEMAU I'W CYMERADWYO/CADARNHAU/PENDERFYNU**

**HB23/159 Adroddiad Mesurau Arbennig**

**HB23/159.1** Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr adroddiad hwn, gan nodi bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr tua dwy ran o dair o'r ffordd drwy'r cylch 90 diwrnod cyntaf a'i fod wedi gosod rhaglen ymateb uchelgeisiol yr oedd yn gweithio'n galed i'w chyflawni. Nodwyd y byddai rhai camau gweithredu'n parhau i'r ail gylch a bod nifer o adolygiadau annibynnol yn cael eu cynnal a fyddai'n rhoi cipolwg ychwanegol i'r Bwrdd ar yr heriau ac yn helpu i lywio'r ail gylch 90 diwrnod.

**HB23/159.2** Roedd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro yn falch o ddweud bod 500 o arweinwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ymgysylltu ar draws y sefydliad i helpu staff i ddeall y dull gweithredu ar gyfer mesurau arbennig a sut mae'n effeithio ar eu harferion bob dydd.

**HB23/159.3** Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio, o'r 51 carreg filltir a gwblhawyd, fod rhai meysydd ychydig ymhellach ar ôl na'r

DRAFT

| | |
|---|---|
| disgwyl. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf ag oedi wrth dderbyn rhai adolygiadau allanol, fodd bynnag, roedd nifer o'r adroddiadau bellach wedi dod i law a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar amserlenni.<br><br>**HB23/159.4** Nodwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu'r model sicrwydd tair llinell amddiffyn a bod paratoadau bellach ar waith i sicrhau trosglwyddiad di-dor o gylch un i gylch dau. Roedd y Gweinidog wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cynnydd a wnaed hyd yma.<br><br>**HB23/159.5** Rhoddodd aelod annibynnol adborth cadarnhaol ar gynllun a dyluniad yr adroddiad, a oedd yn glir ac yn gymorth hawdd i ddeall y materion ar y lefel briodol o oruchwyliaeth strategol. Mewn perthynas â chwestiynau a godwyd ynghylch yr heriau mewn Orthodonteg a amlygwyd mewn nifer o adroddiadau, yn enwedig yr amseroedd aros 156 wythnos i gleifion, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio fod hyn yn ymwneud â darpariaeth Orthodonteg gymhleth arbenigol yn hytrach na thriniaeth ddeintyddol arferol. Er nad oedd Orthodonteg yn rhan o'r matrics cenedlaethol, aeth ati i archwilio'r data ymhellach. Cytunodd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro fod darpariaeth Orthodontig hefyd yn her mewn rhai Byrddau Iechyd eraill. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod angen gwneud cynnydd er mwyn i boblogaeth y Bwrdd Iechyd gael mynediad cyflymach at y gwasanaeth. | |
| **GWEITHREDU: Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio yn adolygu'r data ac yn adrodd yn ôl** | **CS** |
| **HB23/159.5** Mewn ymateb i Aelod Annibynnol, dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd y byddai pecyn cynefino mwy strwythuredig a chadarn ar gyfer aelodau Bwrdd Betsi Cadwaladr yn y dyfodol yn cael ei ategu gan becyn cynefino a ddatblygwyd drwy adolygu arferion Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru.<br><br>**HB23/159.6** Nodwyd bod prosesau llywodraethu ar waith i dderbyn adroddiadau Mesurau Arbennig gan Bwyllgorau'r Bwrdd Iechyd. Roedd aelod annibynnol yn awyddus i bwysleisio y dylid cael ymwybyddiaeth o 'flinder Mesurau Arbennig' posibl a bod angen canolbwyntio ar y busnes craidd yn yr un modd.<br><br>**HB23/159.7** O ran gwelliannau Orthopaedig a amlygwyd gan aelod annibynnol, roedd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro yn falch o adrodd am ffocws parhaus ar draws pob safle ar gynyddu cynhyrchiant, a thynnodd sylw at waith allweddol ar lwybrau brys. Dywedodd fod y profiad hwn wedi rhoi llawer o gyfleoedd dysgu buddiol i'r Bwrdd.<br><br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn cymeradwyo'r adroddiad. | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **HB23/160 Cynllun Blynyddol – Cynllun Cyflawni**<br><br>**HB23/160.1** Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio fod y Cynllun Blynyddol drafft a adolygwyd yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd wedi cael ei gyflwyno mewn pryd i Lywodraeth Cymru. Nodwyd bod cynnydd eisoes wedi ei wneud ar fonitro'r cynllun blynyddol a fyddai'n dilyn arddull adrodd y Mesurau Arbennig ac yn cael ei gyflwyno yn y Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd.<br><br>**HB23/160.2** Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol fod y cynllun yn heriol. Fodd bynnag, cafodd ei gysuro a'i annog gan drafodaeth staff a oedd yn adlewyrchu optimistiaeth fawr o ran ymgysylltu â chyfleoedd i wneud gwelliannau drwy newid.<br><br>**HB23/160.3** Mewn ymateb i aelod annibynnol, ymrwymodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio i ddarparu data meincnodi i ddarparu gwell dealltwriaeth o lwybrau a thargedau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o gymharu â Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru. | |
| **GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio i ddarparu data meincnodi clir** | **CS** |
| **HB23/160.4** Fe wnaeth y Prif Weithredwr Dros Dro sylw pellach ar feincnodi, gan nodi bod y rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd Cymru yn cael trafferth gyda rhai o'r meysydd allweddol, yn enwedig gofal wedi ei gynllunio a gofal brys. Dywedodd fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu fframwaith perfformiad newydd ar gyfer y sefydliad a fyddai'n ystyried meincnodi o ran mynediad at wasanaethau a hefyd yn adlewyrchu ansawdd perfformiad ynghyd â pherfformiad ariannol. Cafwyd trafodaeth ar feincnodi a oedd yn cynnwys yr angen am ganlyniadau mesuradwy ac uchelgeisiau ehangach. Roedd hefyd yn bwysig cydnabod perfformiad da a manteisio ar gyfleoedd i ddysgu gan eraill lle'r oedd perfformiad gwael.<br><br>**HB23/160.5** Mewn ymateb i aelod annibynnol, cafwyd trafodaeth ar yr effeithiau posibl yn y dyfodol ar bobl ifanc nad ydynt yn cael ymyriadau amserol. Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol, tynnu sylw at heriau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a ledled Cymru o ran darparu niwroddatblygiad, gan gydnabod bod arferion da'n cael eu cyflwyno i gynorthwyo'r blynyddoedd cynnar a'r angen i wrando ar leisiau pobl ifanc a'u rhieni, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ar yr un pryd.<br><br>**HB23/160.6** Mewn perthynas â chyflawni a chynaliadwyedd targedau, bu aelod annibynnol yn myfyrio ar yr angen i roi cyd-destun i'r ffaith mai profiad y cyhoedd o wasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd y mesur | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| perfformiad terfynol ac y byddai'n bwysig sicrhau na fyddai'r ffocws ar 'fodloni'r targed' yn 'methu'r pwynt'.<br><br>**HB23/160.7** Rhannodd aelod annibynnol ei sylw bod thema ynghylch digonolrwydd staffio Iechyd Meddwl wedi cael ei chodi yn ystod Cynhadledd Wyddonol Flynyddol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a allai fod yn destun ystyriaeth gan y Bwrdd yn y dyfodol.<br><br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn derbyn yr adroddiad | |
| **HB23/161 Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol**<br><br>**HB23/161.1** Cyflwynodd Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd yr adroddiad llywodraethu corfforaethol steil newydd a oedd yn cynnwys y Gofrestr Risg Gorfforaethol, diweddariad ar ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i adroddiad Effeithiolrwydd Bwrdd Archwilio Cymru, diweddariad ar Ymchwiliad Covid Cenedlaethol y Deyrnas Unedig a diweddariad ar gamau gweithredu'r Cadeirydd a cheisiadau am Sêl Gyffredin.<br><br>**HB23/161.2** O ran y Gofrestr Risg Gorfforaethol, disgrifiodd yr adroddiad y gwelliannau a wnaed a nodwyd y byddai fframwaith rheoli risg newydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. Nododd y Cadeirydd fod hyn wedi cael ei rannu ag aelodau'r Bwrdd, bod cyfraniadau wedi cael eu gwneud a bod cwestiynau wedi cael eu codi.<br><br>**HB23/161.3** Pwysleisiodd y Prif Weithredwr Dros Dro y dyddiad olaf ar gyfer cwblhau'r fframwaith rheoli risg, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau dealltwriaeth glir a syml o risgiau corfforaethol lefel uchel sylweddol y sefydliad a'r camau lliniaru sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw.<br><br>**HB23/161.4** Darparwyd amrywiaeth o adborth gan aelodau annibynnol a oedd yn cynnwys sylwadau cadarnhaol o ran cynllun tudalen ac eglurder statws RAG. Fodd bynnag, roedd angen rhagor o eglurder o ran y gwahaniaeth rhwng y Gofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a allai fod rhai risgiau'n rhy weithredol i'w hystyried ar lefel y Bwrdd. Soniodd aelodau annibynnol hefyd am bwysigrwydd mynd i'r afael â diwylliant sefydliadol a chwestiynu'r defnydd o dermau fel trychinebus.<br><br>**HB23/161.5** Yn ogystal, roedd aelod annibynnol yn cwestiynu'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â strwythur y model gweithredol newydd yn y canol, risg ariannol o ran cyflawni targedau a diffyg ariannol ynghyd â pheidio â chyflawni dyletswyddau statudol. Cafwyd trafodaeth ar yr angen am ddiffiniadau clir, deall y gwahaniaeth | |

| | |
|---|---|
| rhwng risg ar lefel strategol a gweithredol, ac eglurder ynghylch a oedd digon o risgiau'n gysylltiedig â pheidio â chyflawni'r gwelliannau perfformiad sydd eu hangen i adael mesurau arbennig yn unol â'r amserlenni a amlinellir.<br><br>**HB23/161.6** Cydnabuwyd bod cynnydd wedi ei wneud, ond roedd angen gwneud rhagor o waith. Dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd y byddai'r sylwadau a dderbynnir yn cael eu bwydo'n ôl i'r Grŵp Rheoli Risg ac y byddai gwaith yn parhau gyda'r Pwyllgor Archwilio i fwrw ymlaen yn y maes pwysig hwn. Roedd disgwyl i sesiwn Datblygu'r Bwrdd ar archwaeth risg gael ei chynnal ar 24 Awst 2023, a fyddai'n cael ei hwyluso gan y Pennaeth Rheoli Risg sydd newydd ei benodi.<br><br>**HB23/161.7** Mewn perthynas ag Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd a oedd yn pwysleisio'r angen i ailadeiladu a chryfhau'r uwch arweinyddiaeth, capasiti Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chreu bwrdd a thîm arwain mwy cydlynol ac effeithiol. Gofynnodd aelod annibynnol a oedd rhai o'r ymatebion yn cynnwys achosion o ddyblygu, a gofynnodd am gynnwys rhagor o ddiweddariadau ar y newidiadau a gyflwynwyd i fynd i'r afael â diwylliant y Bwrdd. Roedd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro yn cydnabod y berthynas ag adroddiadau mesurau arbennig ac yn myfyrio ar yr angen i sicrhau cysondeb. Dywedodd fod angen ymgorffori diweddariadau pellach ac y byddai Archwilio Cymru yn adolygu ac yn trafod ymateb y Bwrdd Iechyd ymhellach fel rhan o'i waith asesu strwythur arferol. Y prawf sicrwydd yn y pen draw oedd a yw'r Bwrdd yn effeithiol wrth gyflawni ei ddyletswyddau. | |
| **GWEITHREDU: Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro yn darparu fersiwn derfynol yr ymateb i Archwilio Cymru ar ôl cwblhau diweddariadau adran 3.** | **PM** |
| **HB23/161.8** Mewn perthynas ag adroddiad Ymchwiliad Covid 19, dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd fod dyletswydd ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ymateb. Nodwyd bod llawer o newidiadau i aelodau'r Bwrdd wedi digwydd ers i'r Bwrdd Iechyd ymateb i Covid 19 am y tro cyntaf. Cydnabu faint y dasg a dywedodd fod cyngor cyfreithiol priodol yn cael ei geisio drwy dîm cyfreithiol Gwasanaethau a Rennir Cymru. Nodwyd bod Pennaeth Dros Dro Ymchwiliad Covid wedi cael ei benodi. Y Prif Swyddog Gweithredol oedd y Swyddog Atebol ac Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd oedd yr Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y prosiect hwn.<br><br>**HB23/161.9** Dywedodd yr aelod annibynnol Gareth Williams fod y Cyngor Cyffredinol blaenorol a'r gweinidog Brexit wedi gofyn iddo gefnogi cais rheol naw a oedd yn ymwneud â'i sefyllfa flaenorol yr oedd wedi ymddeol ohoni yn 2021. Nodwyd hyn. | |

| | |
|---|---|
| **HB23/161.10** Dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd na chafwyd enillion o ran camau gweithredu'r Cadeirydd a bod dau gais ffurfiol am sêl wedi cael eu rhoi ar waith.<br><br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn cytuno ar y canlynol:<br>• Cafodd y Bwrdd sicrwydd o'r gwaith parhaus ar y fframwaith rheoli risg a oedd yn waith da ar y gweill. Ar ôl sesiwn datblygu'r bwrdd, deallwyd y byddai'r fformat terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi 2023.<br><br>• Ystyriodd y Bwrdd ddrafft cyfredol y gofrestr risg gorfforaethol o risgiau a nodwyd, gan nodi y byddai cyfle i ddatblygu'r rhain ymhellach.<br><br>• Nododd y Bwrdd gynnydd adroddiad Archwilio Cymru.<br><br>• Derbyniodd y Bwrdd y cynnydd a amlinellwyd yn adroddiad yr Ymchwiliad Covid<br><br>• Nododd y Bwrdd y ceisiadau am Sêl Gyffredin | |
| **HB23/162 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio**<br><br>**HB23/162.1** Rhoddodd aelod annibynnol/Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ddiweddariad llafar ar y cyfarfod preifat a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2023.<br><br>**HB23/162.2** Cafwyd cyflwyniad da gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro ar ôl cwblhau Cyfrifon Blynyddol 2022/23 lle nododd y tanwariant o £1.2m cronnol ac aeth drwy'r prif wariant ariannol. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at heriau IFRS16, gan gynnwys mynegeio. Cafwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro ar y darpariaethau a oedd wedi eu gwneud a chroniadau o wyliau blynyddol. Rhoddodd sicrwydd hefyd ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno cyfrifon dros y tair wythnos nesaf, gan nodi oedi yn y broses gyfrifon. Roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol, ac rydym yn gweithio tuag at ddyddiad cau newydd. Cyflwynwyd y cyfrifon i Archwilio Cymru yr un prynhawn a rhagwelwyd adroddiad ISA260 drafft yr wythnos hon.<br><br>**HB23/162.3** Byddai Pwyllgor Archwilio Eithriadol a chyfarfod Bwrdd Iechyd Eithriadol ar 24 Awst 2023 i gymeradwyo'r cyfrifon.<br><br>**HB23/162.4** Cynigiwyd y dylid ychwanegu materion yn ymwneud â llywodraethu ariannol a materion cysylltiedig â staffio at y gofrestr risg.<br><br>**GWEITHREDU: Ysgrifennydd y Bwrdd i adolygu'r gofrestr risg mewn perthynas â'r cynnig a amlinellwyd.** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**PM** |

| | |
|---|---|
| **HB23/162.5** Nodwyd bod Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn datgan y gellir rhoi dirwy i aelodau'r Bwrdd. Mae angen diweddaru ein staff a'n polisïau yn unol â hynny.<br><br>**GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro i ddiweddaru'r Polisi/Polisïau Cyllid perthnasol a chysylltu â'r Tîm Cyfathrebu i fynd i'r afael ag ymwybyddiaeth staff**<br><br>**HB23/162.6** Canmolodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio y tîm Cyllid a hefyd Archwilio Cymru am y prosesau cadarn a gynhaliwyd, gan ychwanegu bod angen gwaith ychwanegol o hyd i gwblhau'r broses eleni.<br><br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn derbyn yr adroddiad. | <br><br>**RC** |
| **HB23/163 Adroddiad y Pwyllgor Taliadau**<br><br>**HB23/163.1** Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau mai Carol Shillabeer yw'r Prif Weithredwr Dros Dro tan ddiwedd mis Mawrth 2024, a oedd yn newyddion gwych. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac yn enwedig y Cadeirydd, yn ddiolchgar i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys am alluogi'r estyniad hwn. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro am ei hymrwymiad a'i hegni i'r rôl.<br><br>**HB23/163.2** Nodwyd y gallai dyddiad cyfarfod mis Awst newid o bosibl.<br><br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn nodi'r adroddiad. | |
| **HB23/164 EITEMAU I'W TRAFOD/SICRWYDD** | |
| **HB23/165 Perfformiad Ariannol 2023/24 (Mis 2)**<br><br>**HB23/165.1** Croesawodd y Cadeirydd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro yn ffurfiol i'w gyfarfod cyntaf, a estynnodd ei ddiolch i bawb a oedd wedi gwneud iddo deimlo mor gartrefol. Roedd yr adroddiad yn darparu data ar gyfer mis 2, ond roedd yn bwriadu darparu diweddariad ar lafar ynghylch mis 3.<br><br>**HB23/165.2** Dywedwyd mai £648 miliwn oedd y diffyg cyfun gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd fod hyn yn golygu bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ymrwymo adnoddau o ran arian parod a oedd yn mynd y tu hwnt i'w enillion am y flwyddyn. Byddai angen sicrhau'r arian ychwanegol drwy ein cyflwyniadau arfaethedig. Roedd mis 2 wedi gweld dirywiad o £2.9 miliwn yn y sefyllfa, er bod dirywiad o £1 miliwn ym mis un, felly roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn sefyllfa gronnus o £3.9 miliwn ar ddiwedd mis 2. Roedd y dirywiad hwnnw wedi parhau i fis tri, gyda diffyg o £5.4 miliwn yn ystod y mis felly roedd gan y Bwrdd Iechyd sefyllfa diffyg cronnus o £9.3 miliwn ar ddiwedd mis 3. | |

DRAFT

**HB23/165.3** Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro fod y daliadau arian cyfredol yn £4.8 miliwn gan bwysleisio ein bod yn mynd y tu hwnt i'r cynllun ac yn ymrwymo mwy o adnoddau ariannol. Dywedodd y byddai dod o hyd i'r arian ychwanegol yn dasg hynod o heriol.

**HB23/165.4** Mynegodd aelod annibynnol siom ynghylch sefyllfa'r mis hyd yma.

**HB23/165.5** Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro mai ychydig iawn o arbedion oedd yn yr adroddiad misol yn y categori RAG gwyrdd. Dywedodd fod perfformiad arbedion gwyrdd wedi gwella'n sylweddol dros fis 2 gan symud i £12.8 miliwn o arbedion gwyrdd wedi eu nodi, a chadarnhaodd fod piblinell a chynlluniau rheoledig yn aros am gymeradwyaeth. Nodwyd y byddai hyn yn arwain at drothwy o tua £20 miliwn a fyddai £4 miliwn yn llai na'r targed o £25.2 miliwn ar gyfer y flwyddyn. Dywedwyd bod costau staff asiantaeth yn £6.67 miliwn ym mis Mai. Roedd hyn wedi dirywio ac roedd £7 miliwn o gostau asiantaeth wedi cael ei ymrwymo i fis Mehefin, a oedd tua £1 miliwn yn uwch na chyfradd rhedeg gyfartalog Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn blynyddoedd blaenorol, rhywbeth a oedd yn peri pryder o ystyried dull gweithredu'r gaeaf a'r pwysau cysylltiedig.

**HB23/165.6** Rhoddodd y Prif Weithredwr Dros Dro sylwadau ar ddifrifoldeb y sefyllfa bresennol a'r sefyllfa sy'n gwaethygu. Cydnabu nad oedd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar ei ben ei hun fel Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, materion allweddol y Bwrdd Iechyd oedd mynd i'r afael â'r gyfradd rhedeg o fewn cyfnod byr iawn, felly roedd angen canolbwyntio ar y broses a chytuno ar ba lefelau gweithredu oedd angen eu cyflawni fel Bwrdd. Dywedodd y byddai angen i'r Bwrdd ystyried dewisiadau fel adolygu buddsoddiadau a diwygio'r cynllun gweithredu presennol. Nodwyd pwysigrwydd gweithio'n agos gyda phartneriaid undebau llafur.

**HB23/165.7** Awgrymodd y Cadeirydd y dylid sefydlu grŵp bach i oruchwylio'r gwaith hwn ar sail yr egwyddorion y cytunwyd arnynt. Gan fod angen i'r sefydliad cyfan ganolbwyntio, byddai'n croesawu ymgysylltu ar draws gweithlu'r Bwrdd Iechyd. Cydnabu'r Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro y cydbwysedd rhwng arbed arian a diogelu perfformiad. Nododd y Bwrdd yr angen i ystyried unrhyw ganlyniad anfwriadol fel rhan o'r darlun ehangach o'i gymharu â'r angen tymor byr i leihau costau.

**HB23/165.8** Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro sylwadau ar y potensial i edrych ar feincnodi i ystyried pa gyfleoedd eraill oedd ar gael o hyd.

**HB23/165.9** Mewn ymateb i'r cwestiwn a fyddai dyfarniadau cyflog 2023/24 yn cael eu cyllido'n llawn gan Lywodraeth Cymru, cadarnhaodd y Prif Weithredwr

DRAFT

Dros Dro, mewn egwyddor, fod Llywodraeth Cymru bob amser wedi cyllido dyfarniadau cyflog ac nad oedd wedi disgwyl i Fyrddau Iechyd wneud hynny. Dywedodd fod angen i'r Bwrdd Iechyd wneud rhywbeth yn wahanol er mwyn mynd i'r afael â'r materion dan sylw.

**Penderfynwyd bod** y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad, gan nodi'r addasiad i'r adroddiad cyfalaf.

**HB23/166 Adroddiad y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth**

**HB23/166.1** Cyflwynodd yr aelod annibynnol/Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yr adroddiad, a thynnodd sylw at y canlynol:-

- Pryder ynghylch oedi wrth ryddhau cleifion ac amseroedd aros i drosglwyddo o ambiwlansiau
- Roedd y bartneriaeth rhannu gwasanaethau wedi adrodd ar arbedion sylweddol ar gyffuriau ac roedd y Pwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth.
- Pryderon ynghylch yr amserlenni hir iawn ar gyfer penodi staff gan fod potensial y gallai ymgeiswyr llwyddiannus dderbyn swyddi mewn mannau eraill yn ystod y cyfnod estynedig hwn. Roedd angen proses well gan fod cynifer o swyddi heb eu llenwi.

**HB23/166.2** Cytunodd y Prif Weithredwr Dros Dro nad oedd gan y Bwrdd Iechyd gynllun cynhwysfawr ar ofal sylfaenol ac oedi wrth ryddhau cleifion. Fodd bynnag, roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid Awdurdodau Lleol i ddatrys y broblem o 'rwystro gwelyau' er mwyn gwneud cynnydd a fyddai o fudd i gleifion ac ein sefyllfa ariannol yn unol â hynny.
**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn derbyn yr adroddiad.

**HB23/167 Cyfrifon Blynyddol 2022-23**

Nid oedd gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro unrhyw beth arall i'w ychwanegu ynghylch Cyfrifon Blynyddol 2022-23 yn dilyn Gweithdy'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Gorffennaf 2023 ac adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn derbyn yr adroddiad.

**HB23/168 Adroddiad Perfformiad Integredig**

**HB23/168.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro yr adroddiad a oedd yn ymwneud â mis 3. Metrigau allweddol:

DRAFT

| | |
|---|---|
| • Gwelliannau i ofal wedi ei gynllunio o ran amseroedd aros. Adroddwyd am berfformiad da triniaeth canser o gymharu â Byrddau Iechyd eraill ond gallai pethau wella ymhellach.<br>• Roedd perfformiad o ran y targed 4 awr ym mis Mehefin 2023 wedi gwella i 70.4% am y pedwerydd mis yn olynol, ac mae'r gwaith o wella perfformiad yn raddol ar gyfer y targed hwn wedi cael ei gyflawni.<br>• Roedd gostyngiad yn nifer yr amseroedd aros dros 12 awr ar gyfer derbyniadau, gydag adroddiad am 2,691 (Mai 23, 2,994) o gymharu â llwybr gostyngiad o 2,640.<br>• Roedd salwch staff o flwyddyn i flwyddyn wedi gostwng ers y llynedd.<br><br>**HB23/168.2** Croesawodd aelod annibynnol yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd yn bryderus bod y Bwrdd Iechyd eisoes oddi ar y targed o gymharu â'r Cynllun Blynyddol. Roedd amseroedd aros ar gyfer Niwroddatblygiad yn faes a oedd yn peri pryder penodol. Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod gweithdy wedi ei drefnu yn ystod yr wythnosau nesaf gyda Byrddau Iechyd eraill gan fod hwn yn fater cenedlaethol ac yn aml roedd angen asesiad ar deuluoedd fel porth i gael gafael ar gymorth arall, gan gynnwys addysg.<br><br>**HB23/168.3** Dywedodd y Cyfarwyddwr Dros Dro Therapïau a Gwyddor Iechyd fod Gwybodeg wedi ychwanegu 900 o gleifion at y rhestr aros ar gyfer niwroffisioleg oherwydd gwall blaenorol.<br><br>**HB23/168.4** Mewn ymateb i ymholiad gan aelod annibynnol ynghylch a oedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweithiol o ran cefnogi llesiant staff, dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl fod y Bwrdd Iechyd yn cael gafael ar gwnsela allanol i gyfeirio staff at gymorth, gydag amrywiaeth o gynigion.<br><br>**HB23/168.5** Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol fod llawer o waith yn cael ei wneud ar newid llwybrau cleifion er mwyn galluogi arferion gwell a mwy effeithlon i staff a chleifion. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn archwilio arferion gorau Byrddau Iechyd eraill.<br><br>**HB23/168.6** Mewn ymateb i ymholiad gan aelod annibynnol yn ymwneud â throsglwyddo cleifion strôc i ofal arbenigol a allai fod yn hanfodol i'w hadferiad, aeth y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ati i roi adborth ar y weithdrefn sydd ei hangen.<br><br>**GWEITHREDU: Byddai'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn darparu ymateb llawn ynghylch trosglwyddo cleifion strôc** | **NL** |
| **HB23/169 Adroddiad ansawdd** | |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| **HB23/169.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yr eitem hon a thynnodd sylw at y meysydd a ganlyn yn yr adroddiad Ansawdd:<br>• Dysgu sy'n arwain at newid arferion<br>• Cdiff yn Wrecsam, llawer o waith gyda glanhau dwfn, timau'n gweithio gyda'i gilydd, rhagnodi gwrthfiotigau cyfrifol<br>• Hysbysiadau'r crwner ar farwolaethau yn y dyfodol, er mwyn atal rhagor o waith.<br>• Oedi wrth drosglwyddo o ambiwlansiau<br>• Gweithio gyda phartneriaid<br>• Dad-ddwysáu gwasanaethau fasgwlaidd, gyda llawer mwy o waith i'w wneud o hyd.<br>• Mae llawer o waith i'w wneud i sicrhau gweithredu amserol ar gwynion. Roedd ansawdd yr ymatebion wedi gwella.<br><br>**HB23/169.2** Mewn ymateb i ymholiad gan aelod annibynnol ynghylch prydlondeb ymatebion yn dilyn cwynion, pwysleisiwyd bod angen mwy o symleiddio a bod pwylais ar ddysgu o fewn y fframwaith.<br><br>**HB23/169.3** Mewn ymateb i ymholiad gan aelod annibynnol am nifer y cwynion, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod nifer y cwynion, yn gyffredinol, yn gyson, gyda gostyngiad bychan yn ddiweddar. Dywedodd hefyd fod gwaith wedi ei wneud gyda chleifion wrth erchwyn y gwely i sicrhau bod materion yn cael sylw'n brydlon cyn uwchgyfeirio i gŵyn ffurfiol.<br><br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn derbyn yr adroddiad | |
| **HB23/170 Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau**<br><br>**HB23/170.1** Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau sylw at yr eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2023 a nododd fod y Pwyllgor hefyd wedi cyfarfod ar 25 Gorffennaf 2023.<br><br>**HB23/170.2** Dywedodd fod y Pwyllgor wedi cael stori claf bwerus iawn a oedd wedi bod yn glaf mewnol am 3 blynedd ac wedi gorfod colli dau aelod o'r corff.<br><br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn derbyn yr adroddiad | |
| **HB23/171 Diweddaru'r Gofrestr o Glinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) a Diweddaru'r Gofrestr o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar gyfer Cymru**<br><br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yr adroddiad. | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn derbyn yr adroddiad. | |
| **HB23/173 Adroddiad y Cydbwyllgorau:**<br>**Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru; Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys; Partneriaeth Cydwasanaethau**<br><br>**HB23/173.1** Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiadau'r Cyd-bwyllgorau.<br><br>**HB23/173.2** Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ei fod wedi mynd i gyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ar ran y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro. Roedd ffocws enfawr ar anghenion lleol a sut mae'r ddarpariaeth yn gweithio. Roedd hefyd yn bresennol yng nghyfarfod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ynghylch monitro ansawdd. Roeddent wedi trafod ceisiadau am gyllid cleifion – rhai gwasanaethau arbenigol iawn a'r angen i sicrhau llywodraethu cywir.<br><br>**HB23/173.3** Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro nad oedd y Bartneriaeth Cydwasanaethau wedi cyfarfod yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn derbyn yr adroddiadau. | |
| **HB23/174 Adroddiadau gan y Grwpiau Cynghori:**<br>**Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol; Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid; Fforwm Partneriaeth Lleol (Undebau Llafur)**<br><br>**HB23/174.1** Adroddodd y Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu ar gyfarfod y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar 12.6.23 dan gadeiryddiaeth Is-gadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Mike Parry yn dilyn penodi Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid i rôl Aelod Annibynnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd Pennaeth Elusen Ambiwlans Awyr wedi rhoi cyflwyniad a oedd yn ddiddorol yng ngolwg y Grŵp, ynghyd â diweddariad ar Fesurau Arbennig. Roedd y Grŵp yn awyddus i gynnal momentwm y gwaith a chyd-greu.<br><br>**HB23/174.2** Dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd fod etholiad wedi cael ei gynnal ar gyfer Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.<br><br>**HB23/174.3** Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro nad oedd y Fforwm Partneriaeth Lleol wedi cyfarfod yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, roedd i fod i gyfarfod yn ystod yr wythnosau nesaf.<br><br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn derbyn yr adroddiadau. | |
| **HB23/175 MATERION ERAILL** | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **HB23/176 Unrhyw fater brys arall**<br><br>**HB23/176.1** Gofynnodd aelod annibynnol am eglurder ynghylch y risg i BIPBC tra bod gweithredu diwydiannol yn GIG Lloegr yn parhau.<br><br>**HB23/176.2** Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod Llywodraeth Cymru yn mynd ati mewn ffordd wahanol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd nifer o Undebau yn dod i ddiwedd eu mandadau streicio a byddai angen iddynt gynnal pleidlais arall ymysg eu haelodau a fyddai'n rhoi gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol. Roedd rhai o'r materion yn ehangach na chyflogau fel yn achos amodau Meddygon Iau a'r gefnogaeth ehangach oedd ar gael. Roedd cynnig y Bwrdd Iechyd fel cyflogwr, a phethau y gallwn eu gwneud yn wahanol, yn ffactorau allweddol y gallwn ddylanwadu arnynt wrth recriwtio a chadw staff. | |
| **HB23/177** Dyddiad y cyfarfod nesaf – 24 Awst 2023 a 28 Medi 2023 | |
| HB23/178 Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd | |
| ***Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o gyfarfod Bwrdd Preifat*** | |

DRAFFT

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**
**Cofnodion drafft cyfarfod Eithriadol y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus**
**ar 24 Awst 2023 yn yr Ystafell Gynadledda, Canolfan Optic, Llanelwy a drwy ffrwd fyw zoom**

| **Aelodau'r Bwrdd yn Bresennol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Teitl** |
| Dyfed Edwards | Cadeirydd |
| Karen Balmer | Aelod Annibynnol |
| Jason Brannan | Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl |
| Clare Budden | Aelod Annibynnol |
| Russell Caldicott | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro |
| Adele Gittoes | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol Dros Dro (drwy Teams) |
| Dyfed Jones | Aelod Annibynnol |
| Dr Nick Lyons | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol / Dirprwy Brif Weithredwr |
| Phil Meakin | Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro |
| Teresa Owen | Cyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd |
| Dylan Roberts | Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth |
| Carol Shillabeer | Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro |
| Helen Stevens-Jones | Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| Rhian Watcyn Jones | Aelod Annibynnol |
| Jane Wild | Aelod Cyswllt |
| Angela Wood | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |

| **Yn Bresennol** | |
|---|---|
| Simon Cookson | Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd, Archwiliad Mewnol |
| Richard Coxon | Pennaeth Materion Corfforaethol Dros Dro (cofnodion) |
| Diane Davies | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (ffrwd fyw) |
| Andrew Doughton | Archwilio Cymru |
| Matt Edwards | Archwilio Cymru |
| Lowri Gwyn | Cyfieithu |
| Andrea Hughes | Cyfarwyddwr Dros Dro: Cyllid Gweithredol |
| Marty Mcauley | Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol/Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Michelle Phoenix | Archwilio Cymru |
| Tony Uttley | Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro |
| Simon Weaver | Pennaeth Rheoli Ariannol |

| Eitem ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| **MATERION AGORIADOL** | |
| **HB23/188 Gair o groeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>**HB23/188.1** Croesawodd y Cadeirydd bawb a nododd ymddiheuriadau gan:<br><br>• Gareth Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddor Iechyd<br>• David Jenkins, Cynghorydd Llywodraeth Cymru<br>• Yr Athro Mike Larvin, Aelod Annibynnol<br>• Fôn Roberts, Aelod Cyswllt<br>• Chris Stockport, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio<br>• Gareth Williams, Aelod Annibynnol<br><br>**HB23/189.2** Dywedodd y Cadeirydd mai pwrpas y cyfarfod eithriadol oedd ystyried cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 2022/23. Daeth hyn yng nghysgod achos Lucy Letby. Rhannodd empathi dwys ag unrhyw un yr effeithiwyd arno ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac ymunodd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro ag ef i estyn cydymdeimlad i deuluoedd y dioddefwyr a chydweithwyr yn y GIG sy'n gweithio yn Ysbyty Iarlles Caer. Nodwyd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn fodlon ymuno ag unrhyw ymchwiliad ac yn atgyfnerthu ymrwymiad y sefydliad i fod yn sefydliad dysgu a fyddai'n ystyried yr holl ddysgu a nodwyd drwy'r profiad trychinebus hwn. | |
| **HB23/189 Datganiadau o Fuddiant ar yr agenda gyfredol**<br><br>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant. | |
| **EITEMAU I'W CYMERADWYO/CADARNHAU/PENDERFYNU** | |
| **HB23/191 Cyfrifon Blynyddol 2022/23 a Chyhoeddiadau**<br><br>Nodwyd bod Cyfrifon Blynyddol 2022/23 a chyhoeddiadau wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a oedd wedi cyfarfod yn gynharach y diwrnod hwnnw. | |
| **HB23/192 Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig 2022/23**<br><br>**HB23/192.1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro yr eitem a thynnodd sylw at y prif bwyntiau, gan egluro bod y cyfrifon i fod i gael eu | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| cyflwyno erbyn 31 Gorffennaf 2023. Fodd bynnag, nid oedd y targed hwn wedi cael ei gyrraedd. Cadarnhawyd hefyd na fu unrhyw newidiadau o'r drafft i'r sefyllfa derfynol.<br><br>**HB23/192.2** Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro y cymhwyster ar y cyfrifon (balansau terfynol 2021/22 a dod yn falans agoriadol cyfrifon 2022/23) a thynnodd sylw at y ffaith bod taliad wedi'i dorri'n rheoleiddiol i aelod o staff nad oedd wedi gofyn am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru (LlC).<br><br>**HB23/192.3** Ychwanegodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio eu bod wedi cyfarfod fel pwyllgor y bore hwnnw gan ddweud ei fod wedi bod yn flwyddyn heriol ac yn archwiliad heriol. Cytunwyd ar rai mân ddiwygiadau a diolchodd i bawb am eu hymdrechion i gyflawni hyn.<br><br>**HB23/192.4** Cadarnhaodd Matt Edwards o Archwilio Cymru y gellid eu gosod yn ffurfiol ar ôl i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo. Ategodd y sylwadau a wnaed ynghylch y farn amodol a chydnabu yr ymrwymiad a'r cyfathrebu gyda'r Bwrdd Iechyd, yn enwedig y tîm Cyllid.<br><br>**HB23/192.5** Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod nifer o faterion yn ymwneud â llywodraethu ac ymarfer a fyddai'n cael eu gweithredu a'u plethu â chynllun ymateb y mesur arbennig. Pwysleisiodd nad oedd hwn yn safle cyfforddus i'r Bwrdd Iechyd a bod ymrwymiad cadarn i wella a symud ymlaen.<br><br>**HB23/192.6** Pwysleisiodd y Cadeirydd ymrwymiad llawn y Bwrdd Iechyd i gryfhau llywodraethu a chynllun clir i wella, gan roi sicrwydd i'r cyhoedd na fyddai'r gweithredu hwn yn y gorffennol yn digwydd eto.<br><br>**HB23/192.7** Diolchodd i bawb a oedd yn gysylltiedig â pharatoi'r cyfrifon, gan gydnabod faint o ddiwydrwydd, gwaith ac ymrwymiad a wnaed, a oedd yn cynnwys cefnogaeth cydweithwyr newydd. Diolchwyd i gydweithwyr Archwilio Cymru hefyd am eu gwaith caled. Gwnaeth y Cadeirydd ymrwymiad cadarn i barhau â dull effeithiol ac effeithlon y gwaith a wnaed hyd yma.<br><br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol 2022/23. | |
| **HB23/193 Archwilio Cymru**<br><br>**HB23/193.1** Cyflwynodd Matt Edwards o Archwilio Cymru, ganfyddiadau allweddol adroddiad yr archwilwyr a rannwyd â'r Pwyllgor Archwilio.<br><br>**HB23/193.2** Dywedodd bod hyn yn cynnwys datgeliadau ynghylch lefel perthnasedd. Roedd y cysyniad o berthnasedd a ddefnyddiwyd ychydig dros | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| £2m, fodd bynnag, nid oedd unrhyw broblemau gyda gwariant yn ystod y flwyddyn.<br><br>**HB23/193.3** Tynnodd yr adroddiad sylw at ddau ddatganiad heb eu cywiro yr oedd y Pwyllgor Archwilio wedi cael eu briffio'n llawn arnynt, gan nodi bod rhai yn eithaf technegol eu natur. Roedd hyn yn cynnwys gweithredu safon cyfrifyddu IFRS16 a thrin prydlesi, nad oeddent yn ddatgeliadau perthnasol.<br><br>**HB23/193.4** Roedd materion sylweddol a nodwyd ac a rannwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r ddyletswydd ariannol. Roedd y sefyllfa tair blynedd o ran y ddyletswydd ariannol yn gywir. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o amheuaeth o hyd ynghylch y gwariant. Roedd lle hefyd i wella ansawdd y cyfrifon gan gynnwys rhai o'r prif ddatganiadau, ynghyd â chymorth i helpu'r Bwrdd Iechyd i wella.<br><br>Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn cymeradwyo Adroddiad Archwilio ar Ddatganiadau Ariannol 2022/23 gan Archwilio Cymru. | |
| **HB23/194 Adroddiad Blynyddol 2022-23**<br><br>**HB23/194.1** Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro Adroddiad Blynyddol 2022/23, gan nodi nad oedd yn ei swydd yn ystod y cyfnod. Cydnabuwyd bod yr adroddiad yn hir oherwydd ei fod yn cyd-fynd â thempledi safonol, fodd bynnag, byddai fersiwn haws ei ddefnyddio yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi.<br><br>**HB23/194.2** Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro y bu llawer o heriau sylweddol yn ystod 2022/23, ond roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar nifer o'r rhain. Soniodd am bwysau ehangach ar y system fel recriwtio, mynediad at wasanaethau a rhyddhau gyda chymorth priodol a osodwyd mewn cefndir ariannol heriol. Cadarnhawyd y byddai fersiwn terfynol yr Adroddiad Blynyddol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn fwy hygyrch ac yn cael ei gyfieithu.<br><br>HB23/194.3 Nododd Aelod Annibynnol yr her o adrodd ar y flwyddyn flaenorol gan nad oedd yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn a fyddai'n cael ei rannu yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol<br>**Penderfynwyd y byddai'r** Bwrdd yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2022/23. | |
| **HB23/195 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23** | |

| | |
|---|---|
| **HB23/195.1** Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 a oedd yn galluogi'r Prif Weithredwr i roi golwg ar gadernid llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn y sefydliad. Nodwyd nad oedd y Prif Weithredwr Dros Dro yn ei swydd yn ystod y cyfnod a adroddwyd. Cydnabu gefnogaeth cydweithwyr wrth gasglu'r dystiolaeth i gefnogi'r cais fel y Swyddog Atebol presennol.<br><br>**HB23/195.2** Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod angen gwneud llawer o waith i weithredu a gwreiddio systemau rheoli risg effeithiol yn y sefydliad. Byddai Fframwaith Rheoli Risg diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'w ystyried yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd fis Medi.<br><br>**HB23/195.3** Diolchodd i Archwilio Cymru am drylwyredd y gwaith craffu a wnaed ynghylch gweithrediad y Bwrdd a'r cymorth a ddarparwyd, a fyddai'n cyd-fynd â chynllun ymateb Mesurau Arbennig PBC.<br><br>**HB23/195.4** Nodwyd bod y system rheolaeth fewnol yn dangos gwendidau, fel mecanweithiau sicrwydd, yn ogystal â'r agwedd at iechyd a diogelwch. Roedd hyn, ynghyd â barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ac uwchgyfeirio llywodraethu ansawdd rhai gwasanaethau, yn gosod llwybr clir ar gyfer yr hyn yr oedd angen mynd i'r afael ag ef.<br><br>**Penderfynwyd** y byddai'r Bwrdd yn cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23. | |
| **HB23/175 MATERION ERAILL** | |
| **HB23/176** Unrhyw fater brys arall<br><br>Doedd dim mater arall i'w drafod. | |
| **HB23/177** Dyddiad y cyfarfod nesaf<br><br>28 Medi 2023, Venue Cymru, Llandudno. | |
| **HB23/178 Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd** | |
| ***Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o gyfarfod Bwrdd Preifat*** | |

DRAFT

## Cofnod Camau Gweithredu (Cyhoeddus) Cyfarfod y Bwrdd Iechyd – ar ôl cyfarfod 31 Gorffennaf 2023

| Cyf | Arweinydd Swyddog Gweithredol Arweiniol / Aelod | Cyfeirnod y cofnod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt | Amserlen Gwreiddiol | Diweddariad (dyddiad) | Statws gweithredu | Statws Coch Melyn Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HB23.23 | Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Pobl | **Adroddiad y Cabinet** Trafod y gofynion ar gyfer eitem arall ar yr agenda ar y Strategaeth Pobl yng nghyfarfod mis Mawrth | Chwefror 2023 | **Diweddarwyd 18/09/23** – Y Bwrdd i gytuno ar ddull gweithredu ar gyfer diwylliant ac arweinyddiaeth dros y ddau fis nesaf a fydd yn sail i'r strategaeth adolygu pobl. Mae adroddiad ar yr agenda. | Cynnig ei gau | |
| HB23.137.10 | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu | **Cynllun Blynyddol 2024-25** Bydd y gwaith cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf yn dechrau lawer yn gynharach a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Iechyd ym mis Medi. | Medi 2023 | **Diweddarwyd 18/09/23** Ar yr agenda – Wedi'i gynnwys yn Adroddiad y Prif Weithredwr | Cynnig ei gau. | |
| HB23.137.14 | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu | **Cynllun Blynyddol** – roedd angen cerrig milltir clir ar gyfer yr adroddiad er mwyn deall cynnydd yn y cynllun.<br>Nodwyd y bydd cylch un a dau o ganlyniadau Mesurau Arbennig yn cael eu hadrodd yn y Bwrdd Iechyd ym mis Medi neu fis Tachwedd. | Medi/Tachwedd 2023 | **Diweddarwyd 18/09/23** Ar yr agenda – Wedi'i gynnwys yn Adroddiad y Prif Weithredwr | Cynnig ei gau. | |

| Cyf | Arweinydd Swyddog Gweithredol Arweiniol / Aelod | Cyfeirnod y cofnod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt | Amserlen Gwreiddiol | Diweddariad (dyddiad) | Statws gweithredu | Statws Coch Melyn Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HB23.137.16 | Cyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd | **Gweithio mewn partneriaeth** Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd i drafod gyda Phrifysgol Bangor (a phrifysgolion eraill) ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar ddefnyddio/hyfforddi Eiriolwyr Iechyd. | Medi 2023 | **Diweddarwyd 20.09.23** Mae'r Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd wedi cysylltu â chydweithwyr ym Mhrifysgol Bangor (Medi 2023) a bydd yn adrodd yn ôl wrth i sgyrsiau fynd rhagddynt. | Parhaus | |
| HB23/153 | Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd | Dywedodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd y byddai cam gweithredu HB23/137.18 yn cael ei neilltuo i'r cofnod cywir er mwyn hwyluso dealltwriaeth. | Awst 2023 | **Diweddarwyd 19.09.23** Cwblhawyd. | Cynnig ei gau. | |
| HB23/155 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth | **Ymweliadau safle'r Bwrdd** Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth i ddosbarthu'r rhaglen arfaethedig o ymweliadau â'r Bwrdd | Medi 2023 | **Diweddarwyd 19.09.23** Bydd diweddariad llafar yn cael ei roi yn y cyfarfod gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio. Mae rhai ymweliadau wedi cael eu cynnal yn barod. | | |
| HB23/159.5 | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio | **Data Orthodonteg** Y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio i adolygu'r | Mis Hydref 2023 | **Diweddarwyd 19.09.23** Mae problemau capasiti sylweddol o fewn Orthodonteg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac er bod y Bwrdd Iechyd wedi | | |

| Cyf | Arweinydd Swyddog Gweithredol Arweiniol / Aelod | Cyfeirnod y cofnod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt | Amserlen Gwreiddiol | Diweddariad (dyddiad) | Statws gweithredu | Statws Coch Melyn Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | data ar Orthodonteg a gafodd ei eithrio o'r matrics cenedlaethol. Addawodd archwilio'r data ymhellach ac adrodd yn ôl | | cyrraedd ei darged 156 wythnos, nid yw hyn yn cynnwys orthodonteg (106 o gleifion). Mae cynllun tymor byr i drin yr ôl-groniad hwn yn cael ei drafod ag arweinwyr clinigol a bydd yn cael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol ddechrau mis Hydref. Mae trafodaethau pellach yn cael eu cynnal ar draws y system i ddatblygu model gwasanaeth integredig cynaliadwy ar gyfer darparu orthodonteg. | | |
| HB23/161 | Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd | **Adran 3 Diweddariadau Archwilio** Dywedodd fod angen ymgorffori diweddariadau pellach ac y byddai Archwilio Cymru yn adolygu ac yn trafod ymateb y Bwrdd Iechyd ymhellach fel rhan o'i waith asesu strwythur arferol. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro yn darparu fersiwn derfynol yr ymateb i Archwilio Cymru ar ôl cwblhau diweddariadau adran 3. | Medi 2023 | **Diweddarwyd 20.09.23** Mae'r asesiad strwythuredig wedi cael ei ddarparu i Archwilio Cymru. | Cynnig ei gau | |

| Cyf | Arweinydd<br>Swyddog Gweithredol Arweiniol / Aelod | Cyfeirnod y cofnod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt | Amserlen Gwreiddiol | Diweddariad (dyddiad) | Statws gweithredu | Statws Coch Melyn Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| HB23/162 | Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd | **Llywodraethu Risg/Ariannol** Cynigiwyd y dylid ychwanegu materion yn ymwneud â llywodraethu ariannol a materion cysylltiedig â staffio at y gofrestr risg. Ysgrifennydd y Bwrdd i adolygu'r gofrestr risg ynghylch y cynnig a amlinellwyd. | Medi 2023 | **Diweddarwyd 19.09.23** Cododd y Pennaeth Risg gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl i'w symud ymlaen ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. | Cynnig ei gau | |
| HB23/162 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro | **Deddf Llwgrwobrwyo/Polisi PBC** Nodwyd bod Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn datgan y gellir rhoi dirwy i aelodau'r Bwrdd. Mae angen diweddaru ein staff a'n polisïau yn unol â hynny. Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro i ddiweddaru'r Polisi/Polisïau Cyllid perthnasol a chysylltu â'r Tîm Cyfathrebu i fynd i'r afael ag ymwybyddiaeth staff | Tachwedd 2023 | **Diweddarwyd 20.09.23** Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio bapur i adolygu'r holl bolisïau sydd heb eu cwblhau yn ei gyfarfod ar 15.09.23. O ran cynnydd ar yr holl bolisïau (gan gynnwys ynghylch y Ddeddf Llwgrwobrwyo) byddai Pwyllgorau Archwilio yn y dyfodol yn eu goruchwylio. | Cynnig ei gau | |

| Cyf | Arweinydd Swyddog Gweithredol Arweiniol / Aelod | Cyfeirnod y cofnod a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt | Amserlen Gwreiddiol | Diweddariad (dyddiad) | Statws gweithredu | Statws Coch Melyn Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| HB23/168 | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | **Trosglwyddo cleifion sydd wedi cael strôc** Mewn ymateb i ymholiad gan aelod annibynnol yn ymwneud â throsglwyddo cleifion sydd wedi cael strôc i ofal arbenigol a allai fod yn hanfodol i'w hadferiad, aeth y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ati i roi adborth ar y weithdrefn sydd ei hangen. Byddai'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn darparu ymateb llawn ynghylch trosglwyddo cleifion sydd wedi cael strôc | Mis Hydref 2023 | **Diweddarwyd 20.09.23** Bydd ymateb llafar yn cael ei roi yn y cyfarfod. | | |

| **Statws Coch Melyn Gwyrdd** | |
|---|---|
| Cam Gweithredu wedi'i Gau | |
| Cam gweithredu'n Parhau | |
| Cam gweithredu heb ei Gwblhau | |

<table>
<tr><td colspan="2">Teitl yr adroddiad:<br>Report title:</td><td colspan="4">Stori Claf</td></tr>
<tr><td colspan="2">Adrodd i:<br>Report to:</td><td colspan="4">Y Bwrdd</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:<br>Date of Meeting:</td><td colspan="4">Dydd Iau 28 Medi 2023</td></tr>
<tr><td colspan="2">Crynodeb Gweithredol:<br>Executive Summary:</td><td colspan="4">Cyflwynir hanes claf neu hanes gofalwr i’r Bwrdd er mwyn dod â llais y bobl rydyn ni’n eu gwasanaethu yn uniongyrchol i’r cyfarfod. Bydd y stori ddigidol yn cael ei chwarae yn y cyfarfod. Mae crynodeb byr wedi ei gynnwys yn y papur sydd ynghlwm.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhellion:<br>Recommendations:</td><td colspan="4">Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r adroddiad hwn.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Arweinydd Gweithredol:<br>Executive Lead:</td><td colspan="4">Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth</td></tr>
<tr><td colspan="2">Awdur yr Adroddiad:<br>Report Author:</td><td colspan="4">Mandy Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio<br>Leon Marsh, Pennaeth Profiad Cleifion<br>Rachel Wright, Rheolwr Arweiniol Profiad Cleifion a Gofalwyr</td></tr>
<tr><td colspan="2">Pwrpas yr adroddiad:<br>Purpose of report:</td><td>I’w Nodi<br>For Noting<br>☐</td><td colspan="2">I Benderfynu arno<br>For Decision<br>☐</td><td>Am sicrwydd<br>For Assurance<br>☒</td></tr>
<tr><td colspan="2">Lefel sicrwydd:<br>Assurance level:</td><td>Arwyddocaol<br>Significant<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td>Derbyniol<br>Acceptable<br>☒<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Rhannol<br>Partial<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Dim Sicrwydd<br>No Assurance<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>No confidence / evidence in delivery</td></tr>
<tr><td colspan="6">Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:<br>Justification for the above assurance rating. Where ‘Partial’ or ‘No’ assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve ‘Acceptable’ assurance or above, and the timeframe for achieving this:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Yn unol ag arferion gorau, cyflwynir stori claf neu ofalwr i’r Bwrdd er mwyn dod â llais y bobl rydyn ni’n eu gwasanaethu yn uniongyrchol i’r cyfarfod, ond nid yw’n cael ei gyflwyno fel eitem sicrwydd. Fodd bynnag, mae’r papur cysylltiedig yn disgrifio rhywfaint o’r dysgu a’r camau a gymerwyd mewn ymateb i’r stori.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:<br>Link to Strategic Objective(s):</td><td colspan="3">Ansawdd</td></tr>
<tr><td colspan="3">Goblygiadau rheoleiddio a lleol:<br>Regulatory and legal implications:</td><td colspan="3">Amh.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?<br>In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?</td><td colspan="3">Amh.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?<br>In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?</td><td colspan="3">Amh.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | BAF21-10 – Gwrando a Dysgu |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Amh. |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Amh. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amh. |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | BAF21-10 – Gwrando a Dysgu |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amh. |
| **Camau Nesaf: Gweithredu argymhellion**<br>***Y Camau Nesaf: Implementation of recommendations***<br>Amh. | |
| **Rhestr o Atodiadau:**<br><br>Fersiwn fer a gymeradwywyd –<br>CYMERADWYWYD - A patient's journey through cancer services - short version.mov (sharepoint.com)<br><br>***Rhestr o Atodiadau:***<br>Atodiad A - Crynodeb o Stori'r Claf | |

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

***Taith y Claf drwy Wasanaethau Canser***

*Bydd fideo o'r stori yn cael ei chwarae yn ystod y cyfarfod.*

## Trosolwg o Stori'r Claf

Nodwyd y stori hon pan gysylltodd y claf â'r Gwasanaeth Cymorth a Chyswllt Cleifion (PALS) i drafod rhai pryderon oedd ganddi ynghylch ei thriniaeth, ond nid oedd eisiau unrhyw ymyrraeth uniongyrchol gan PALS. Cafodd y claf hefyd ei gyfeirio gan Arweinydd Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn mewn Gwasanaethau Canser Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ôl cwrdd â'r claf hwn yn Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru ac a oedd yn dymuno tynnu sylw at ei phrofiadau o ofal canser.

Roedd y storïwr yn dymuno disgrifio'r pryderon a oedd ganddi ynghylch ei thaith fel claf ar ffurf fideo stori claf i ategu gwaith dysgu a datblygu'r gwasanaeth.

Mae'r stori hon yn dilyn taith triniaeth pum mlynedd y storïwr drwy Wasanaethau Canser yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn yr Uned Seren Wib, gan ddechrau yn 2017.

Mae'r storïwr yn disgrifio ei thaith o gael diagnosis sylfaenol o ganser y fron, diagnosis canser eilaidd a gofal lliniarol parhaus.

Mae'r storïwr yn disgrifio ei rhwystredigaeth ynghylch 'nad oes neb yn gwrando arni' drwy gydol ei thaith fel claf a'i bod yn 'cael triniaeth, ond ddim yn derbyn gofal'.

## Negeseuon Allweddol

- Nid yw'r claf yn cael ei chlywed ac mae'n teimlo ei bod yn cael ei "hanwybyddu" drwy gydol ei thaith triniaeth ac effaith bosibl hyn ar ddatblygiad / lledaeniad canser.

- Y gwahaniaeth rhwng profiadau oncolegwyr – profiad rhwystredig a phrofiad cadarnhaol a chydweithredol iawn wedi ei amlygu.

- Rhwystredigaethau taith y claf, gan gynnwys cyfathrebu gwael, anhawster gyda galwadau ffôn mewn ysbytai, parcio, amseroedd aros, aneffeithlonrwydd a diffyg cofnodion digidol cleifion. Yr anhawster o orfod 'brwydro'n barhaus i gael trefn ar bethau a symud pethau ymlaen' pan oedd y claf yn teimlo'n sâl.

- Diwylliant y 'clinigwr sy'n gwybod orau' a pheidio ymddiried bod cleifion yn adnabod eu cyrff eu hunain a'u rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Diffyg dewis i gleifion.

- Staff yn ymddangos dan ormod o bwysau, yn brysur ac o dan straen ac yn gweithio mewn seilos 'ar eu rhan, ond dim ond eu rhan' a'r effaith ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

- Y teimlad amlwg "Rydw i'n cael triniaeth, ond nid gofal".

- Y teimlad amlwg "Buaswn yn hoffi bywyd y tu allan i'r driniaeth".

**Crynodeb o Ddysgu a Gwelliannau**

Mae'r stori hon am gleifion wedi cael ei rhannu'n eang ar gyfer dysgu ar draws Gwasanaethau Canser Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r Pennaeth Nyrsio a Metronau ar gyfer Gwasanaethau Canser wedi arwain y gwaith o rannu'r stori ar gyfer myfyrio a'r gwersi a ddysgwyd o daith y storïwr yn yr Adran Ganser. Mae stori'r claf wedi cael ei rhannu â Grŵp Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Gwasanaethau Canser drwy'r Arweinydd Llywodraethiant ar gyfer Gwasanaethau Canser. Mae'r stori wedi ei gwreiddio yn Adroddiad y Grŵp Ansawdd a Diogelwch Cleifion, ac mae wedi cael ei rhannu â phob un o dair Cymuned Iechyd Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn dysgu ar y cyd drwy'r cylch busnes. Mae'r stori wedi bod yn rhan greiddiol o'r holl adroddiadau o fewn Gwasanaethau Canser i rannu'r stori'n eang.

Mae'r storïwr yn tynnu sylw at y ffaith bod staff yn ymddangos dan ormod o bwysau, yn brysur, dan straen ac mae'n disgrifio effaith hyn ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf. Mae'r storïwr yn disgrifio taith, sy'n cynnwys triniaeth yn ystod y pandemig COVID-19, ac felly bydd yn debygol o adlewyrchu profiadau a gwersi i'w dysgu o'r newidiadau i'r modd o ddarparu a chyflawni gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn. Mae stori'r claf wedi ei rhannu â Phrif Nyrs yr Uned Seren Wib yn Ysbyty Maelor Wrecsam lle cafodd y storïwr ei thriniaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg y tîm clinigol o staff sy'n darparu gofal. Mae'r storïwr yn disgrifio y gwahaniaeth yn ei phrofiadau gydag oncolegwyr. O'r herwydd, mae stori'r claf wedi cael ei rhannu yng Nghyfarfod Busnes Oncoleg Gwasanaethau Canser, lle mae Oncolegwyr Ymgynghorol yn bresennol, sydd wedi bod yn fodd i fyfyrio a dysgu. Mae'r storïwr yn disgrifio diffyg dewis i gleifion, diffyg cyfranogiad cleifion yn y broses o wneud penderfyniadau a theimlo nad oes neb yn gwrando arnynt. Mae'r stori wedi cael ei rhannu â Thîm Gofal y Fron yn Ysbyty Maelor Wrecsam, gan gynnwys Nyrs Glinigol Arbenigol y Fron, Llawfeddyg Ymgynghorol y Fron, Arweinydd Clinigol ar gyfer Llawfeddygaeth y Fron (Dwyrain) a CAG y Fron ar gyfer ymwybyddiaeth ac i agor sgyrsiau ynghylch y cynnig o ddewis / darparu rhesymeg fanwl pan fydd cleifion yn cael llawdriniaeth ac i lywio gwelliant parhaus y gofal cyffredinol ar gyfer cleifion canser y fron.

Mae'r storïwr yn disgrifio teimlad 'Rydw i'n cael triniaeth, ond dydw i ddim yn cael gofal' a'r effaith ar fywyd y tu allan i'r driniaeth. O'r herwydd, mae stori'r claf wedi cael ei rhannu â'r Arweinydd Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ar gyfer Gwasanaethau Canser er mwyn dysgu am ofal holistaidd cleifion sy'n defnyddio Gwasanaethau Canser. Mae Is-grŵp Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Claf y Gwasanaethau Canser ochr yn ochr ag aelodau o Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru (NWCPF) wedi datblygu Cynllun Gweithredu Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn BIPBC i fynd i'r afael â materion allweddol a amlygwyd yn Arolwg Profiad Cleifion Canser Cymru (WCPES) 2021/22, sy'n cael ei gomisiynu a'i reoli gan elusen Cymorth Canser Macmillan a Rhwydwaith Canser Cymru. Mae'r arolwg hwn yn mesur ac yn deall profiadau cleifion o ofal a thriniaeth canser yng Nghymru er mwyn helpu i ysgogi gwelliannau. Mae'r Cynllun Gweithredu Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Claf yn

cynnwys pob rhan o'r arolwg i sicrhau bod meysydd arfer da yn cael eu cynnal ynghyd â'r meysydd hynny y mae angen eu gwella ac sy'n gysylltiedig â'r Safonau Ansawdd. Mae'r cynnydd yn cael ei fonitro drwy'r Bwrdd Partneriaeth Canser, Ansawdd a Diogelwch Cleifion a PCE Adrannol a'r grŵp PCE Strategol. Mae stori'r claf wedi cael ei rhannu ag Is-grŵp Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Claf i lywio'r dysgu ar sail y cynllun gweithredu hwn. Roedd cynrychiolaeth o Rwydwaith Canser Cymru a Chynghrair Canser Cymru yn bresennol ac maent wedi gofyn am gael rhannu'r stori ymhellach gyda'r Bwrdd Partneriaeth Canser ar gyfer dysgu ehangach.

Mae'r storïwr yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd ganddi Weithiwr Allweddol, ac mae'n disgrifio'r rhwystredigaethau ynghylch cydlynu ei gofal a'r anhawster o orfod 'brwydro'n gyson i gael trefn ar bethau a symud pethau ymlaen' pan fydd yn teimlo'n sâl. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd rôl y 'Gweithiwr Allweddol' mewn gofal canser. Mae'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Canser ar gyfer GIG Cymru (2023-2026) yn datgan y dylai pob claf canser yng Nghymru gael cyswllt proffesiynol penodol, sef 'gweithiwr allweddol' Nyrs Glinigol Canser Arbenigol a / neu Glinigydd gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd i sicrhau bod pob claf sy'n cael diagnosis o ganser yn BIPBC yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chymorth amserol.

Mae hyn yn atgyfnerthu ymhellach yr angen am Wasanaeth Canser Metastatig y Fron / Colon a'r Rhefr BIPBC sydd newydd ei ddatblygu, nad oedd ar gael ar adeg taith canser y storïwr. Wedi ei lansio ym mis Ionawr 2023, mae cleifion â chanser y fron nad oes modd ei wella bellach yn elwa ar gefnogaeth tair Nyrs Arbenigol Clinigol Metastatig newydd, un ar gyfer pob tîm ardal yn y Bwrdd Iechyd. Ar ôl nodi bwlch sylweddol yn y cymorth i gleifion â chanser metastatig gan gleifion a thimau clinigol, fel y tynnwyd sylw ato ymhellach yn y stori hon, mae'r swyddi nyrsio y mae mawr eu hangen yn ffynhonnell o gymorth pwrpasol o'r diagnosis, drwy driniaeth a thu hwnt. Maent wrth law i gynorthwyo cleifion drwy effeithiau corfforol ac emosiynol cymhleth y clefyd, cydlynu triniaeth a gofal, cyfeirio at wasanaethau cymorth a bod yn bwynt cyswllt uniongyrchol ar gyfer cwestiynau neu bryderon, gan sicrhau eu bod yn cael y driniaeth a'r gofal personol gorau posibl ar draws y Bwrdd Iechyd. Maent yn cynorthwyo ag anghenion meddygol a holistaidd cleifion o'r adeg y cânt y diagnosis, drwy'r broses o fynd i apwyntiadau, gweld cleifion pan fyddant yn mynd am driniaeth, bod ar gael dros y ffôn a chyfeirio / atgyfeirio yn dibynnu ar anghenion unigol y claf. Mae nifer y cleifion sydd angen mynediad at y gwasanaeth yn cynyddu bob dydd. Mae stori'r claf wedi cael ei rhannu â thair Nyrs Glinigol Arbenigol Metastatig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i lywio'r gwaith o ddysgu a datblygu'r gwasanaeth newydd hwn yn y dyfodol, yn seiliedig ar anghenion cleifion. Mae stori'r claf hefyd wedi cael ei rhannu yn y Fforwm Nyrsys Clinigol Arbenigol Canser i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau effeithiol i gynorthwyo gofal canser sy'n canolbwyntio ar y claf.

Mae rôl yr Ymarferydd Cynorthwyol yn rôl gymharol newydd ym maes gofal canser. Dros y flwyddyn ddiwethaf, recriwtiwyd 27 Ymarferydd Cynorthwyol ar draws pob safle tiwmor yn BIPBC. Fel y pwynt cyswllt cyntaf yn aml, mae Ymarferwyr Cynorthwyol yn rhan annatod o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gefnogi cleifion drwy eu taith canser, atgyfeirio a chyfeirio at rwydweithiau ac adnoddau cymorth. Maent yn rhyddhau'r CNS i'w galluogi i ganolbwyntio ar rannau mwy arbenigol eu rolau. Ar hyn o bryd, nid oes Ymarferydd Cynorthwyol yn y tîm Metastatig, ond mae ceisiadau yn cael eu cyflwyno am gymorth a chyllid yn awr i ddarparu'r rôl bwysig hon i'r cleifion hyn yn y dyfodol.

Mae'r storïwr yn tynnu sylw at y ffaith nad yw hi erioed wedi cael cynnig Asesiad Anghenion Holistig, ac mae'n disgrifio pwysigrwydd y teimlad hwnnw o gael ei deall. Mae profiad y storïwr yn atgyfnerthu pwysigrwydd a chodi ymwybyddiaeth o argaeledd yr Adnodd Asesu Anghenion Holistig Electronig (eHNA) mewn gofal canser. Mae Datganiad Ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Canser (2021) a'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Canser ar gyfer GIG Cymru (2023-2026) ill dau yn datgan y dylid rhoi cyfle i glaf canser gael asesiad o'i 'anghenion heb eu diwallu'. Nododd Arolwg Profiad Cleifion Canser Cymru (WCPES) 2021/22 mai dim ond 35% o gleifion canser gafodd gynnig y cyfle i drafod eu hanghenion a'u pryderon. Nod Cynllun Gweithredu Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw y 'bydd pob claf yn cael asesiad cyfannol o anghenion bob hyn a hyn yn ystod ei daith canser, a bydd unrhyw angen penodol yn cael ei gofnodi a'i ddiwallu' fel rhan o ofal arferion gorau. Mae offeryn Asesu Anghenion Holistig Electronig Macmillan yn set o gwestiynau am anghenion corfforol, emosiynol, ymarferol, ariannol ac ysbrydol claf yn dilyn diagnosis o ganser ac mae'n rhoi gwell dealltwriaeth i weithwyr proffesiynol o'u hanghenion ac yn helpu i nodi a mynd i'r afael â phroblemau penodol. Byddai hyn yn ategu'r gofal cyfannol y tu hwnt i driniaeth, fel y tynnwyd sylw ato yn y stori.

Yn dilyn cyfarfod gyda'r Arweinydd Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ar gyfer Gwasanaethau Canser, trefnwyd bod y storïwr yn cysylltu â'r Ymarferydd Cynorthwyol ar gyfer y Fron yn ei hardal i gael cefnogaeth barhaus ac i gael y cyfle i gwblhau Asesiad Anghenion Holistig Electronig.

Mae Cynllun Gweithredu Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cael ei ddatblygu. Mae'r camau gweithredu allweddol yn cynnwys mapio pob safle tiwmor i system adborth CIVICA i roi cyfle i gleifion, perthnasau a gofalwyr roi adborth am eu profiadau mewn gwasanaethau canser, rhannu adborth gyda Nyrsys Arbenigol Clinigol Canser, Ymarferwyr Cynorthwyol a Fforymau Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd o fewn CAG lleoliad tiwmor, gan gynhyrchu a rhannu adroddiadau chwarterol gyda'r holl randdeiliaid allweddol. Mae'r adroddiadau hyn yn nodi themâu allweddol, gan ddathlu canmoliaeth a rhannu arferion gorau i helpu i wella gwasanaethau. Mae gwaith diweddar yn cynnwys cynorthwyo â nifer o ymholiadau PALS ac ymgysylltu ag uwch staff i lywio datblygiad gwasanaethau yn seiliedig ar adborth a phrofiadau cleifion, cynnal cyfweliadau Care 2 Share gyda chleifion ar wardiau, gan gynnwys Ward Enfys, Uned Ddydd Heulwen ac Uned Seren Wib, a chynnal Hyfforddiant Profiad Cleifion a Gofalwyr gyda staff y ward.

Mae gwasanaethau canser wrthi'n recriwtio Hwylusydd Cynnwys Defnyddwyr o fewn Gwasanaethau Canser. Mae'r rôl hon yn rhan annatod o'r Tîm Canser Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn sydd newydd ei ffurfio a bydd yn gweithio fel rhan o dîm penodol sy'n gyfrifol am ddarparu prosiectau Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ar gyfer y Bwrdd Iechyd i helpu i wella profiad cleifion a gofalwyr. Bydd y swydd hon yn cydlynu ac yn darparu gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu fel y'u diffinnir yng nghynllun gweithredu WCPES ac yn gweithio'n agos gyda Fforwm Cleifion Canser Gogledd Cymru i wrando a deall beth sy'n bwysig i'n poblogaeth ac i lunio gwasanaethau canser yn unol â hynny.

Bydd y Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn rhannu'r adborth hwn ac yn gofyn am sicrwydd gan adrannau drwy dystiolaeth bod y dysgu wedi ei wreiddio. Mae'r Bwrdd Iechyd yn estyn eu diolch a'u gwerthfawrogiad i'r adroddwraig am rannu ei phrofiad.

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Adroddiad y Cadeirydd |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Y Bwrdd Iechyd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | 29 Medi, 2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd am faterion allweddol yn y sefydliad, gwaith allanol gyda phartneriaid a gwasanaethau sy'n cael eu cydnabod drwy enwebiadau a gwobrau. Dyma'r pynciau:<br><br>• Cyfarfodydd gyda Chynrychiolwyr Etholedig<br>• Trefniadau llywodraethu<br>• Cysylltu â phobl<br><br>Y diweddaraf am ymweliadau a chyfarfodydd |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Bod y Bwrdd yn nodi cynnwys yr adroddiad. |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Cadeirydd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Cadeirydd |

| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☒ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☐ | Ar gyfer sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☐ |
|---|---|---|---|

| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☒<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |
|---|---|---|---|---|

| |
|---|
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:** |

| | |
|---|---|
| ***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** | |
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Mae'r cyfarfodydd yn ymdrin ag amrywiaeth o flaenoriaethau strategol. |
| **Goblygiadau rheoleiddio a lleol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn. |
| **Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd. |
| **Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd. |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Mae'r materion a godwyd yn effeithio ar amrywiaeth o risgiau. |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn. |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw oblygiadau penodol yn codi o'r adroddiad hwn. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amherthnasol. |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Mae'r materion a godwyd yn effeithio ar amrywiaeth o risgiau. |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i bwyllgor cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)** | Amherthnasol. |

| *Reason for submission of report to confidential Committee (where relevant)* | |
|---|---|
| ***Y Camau Nesaf:***<br>***Implementation of recommendations***<br>Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn. | |

**Adroddiad y Cadeirydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
**29 Medi, 2023**

Mae rhywfaint o'r gwaith rwyf wedi'i wneud ers fy adroddiad i Fwrdd mis Gorffennaf wedi'i grynhoi isod.

**Cyfarfodydd gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
Mae cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Gweinidog yn parhau i fod yn nodwedd bwysig o'n gwaith gan eu bod yn rhoi sicrwydd i'r Gweinidog a'r Llywodraeth ynghylch ein perfformiad a'n cynnydd. Byddaf yn cael cyfarfodydd misol gyda'r Gweinidog, ynghyd â Fforymau Mesurau Arbennig chwarterol. Mae'r Gweinidog yn ei dro yn adrodd ar gynnydd i'r Senedd yn ei datganiadau a'i hadroddiadau rheolaidd. Mae cefnogaeth amrywiaeth o Gynghorwyr Annibynnol a benodwyd gan y Llywodraeth wedi dod i ben i raddau helaeth. Mae adolygiadau a gomisiynwyd yn cael eu cyflwyno ac maent wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Wrth i ni ddod at ddiwedd Mesurau Arbennig Cam 1, mae hyn yn rhoi cyfle i ni bwyso a mesur ac ystyried pa gymorth wedi'i deilwra sydd ei angen arnom fel sefydliad i gynnal ein cynnydd.

Mae'r Gweinidog bellach wedi cadarnhau'r amcanion y mae wedi'u gosod i mi fel Cadeirydd Dros Dro. Mae hon yn broses flynyddol ar gyfer pob Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd yng Nghymru. Nodaf fy amcanion fel a ganlyn: -

1. Sicrhau bod y Bwrdd yn craffu'n effeithiol ar ei gyfrifoldebau cyflenwi drwy gyflawni cynllun blynyddol 2023/24, fframwaith mesurau arbennig gyda phwyslais penodol ar flaenoriaethau'r Gweinidog, a gofynion atebolrwydd ac uwchgyfeirio. Dangos gwelliant cyson mewn perfformiad ar draws gofal wedi'i gynllunio, trosglwyddo ambiwlans, amseroedd aros gofal brys, canser ac iechyd meddwl. Cefnogi'r gwelliannau mewn gwasanaethau sy'n profi heriau gan gynnwys gwasanaethau fasgwlaidd, Ysbyty Glan Clwyd, a gwasanaethau iechyd meddwl, orthopedig, offthalmoleg, wroleg ac oncoleg.
2. Sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu ei swyddogaethau atebolrwydd a chraffu a fydd yn cynnwys effeithiolrwydd y Bwrdd, trefniadau llywodraethu da, mesurau rheoli risg cadarn, rheolaeth ac atebolrwydd ariannol, gofynion ansawdd a diogelwch, a chydymffurfiaeth â gofynion uwchgyfeirio, atebolrwydd a rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod perfformiad yr aelodau annibynnol a'r Prif Weithredwr Dros Dro yn effeithiol.
3. Arwain, ar y cyd â'r Prif Weithredwr, ar raglen o newid diwylliant sy'n gefnogol o'r staff, ac sydd wedi'i hadeiladu ar sail egwyddorion arweinyddiaeth

dosturiol gyda phwyslais cryf ar iechyd a llesiant. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod trefniadau cyfathrebu effeithiol ar waith a bod y bobl a gyflogir ganddynt yn gallu codi llais yn ddiogel.

4. Dangos sut rydych wedi darparu arweiniad i'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, a gofynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu cyflawni a sut rydych wedi ymwreiddio'r egwyddor o gydraddoldeb ar draws y sefydliad cyfan.
5. Sicrhau bod y Bwrdd yn craffu ar y trefniadau sydd ar waith i reoli'r disgwyliadau ac ymateb yn amserol i bryderon sy'n cael eu codi gan gleifion, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill.
6. Sicrhau bod y sefydliad yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er budd y boblogaeth.

Byddaf yn adrodd ar gynnydd ar yr amcanion hyn i'r Gweinidog a byddaf yn rhannu hyn gyda'r Bwrdd yn unol â hynny.

Hoffwn hefyd nodi cyfarfodydd gyda'r Prif Weinidog, Mark Drakeford AS a Carol a minnau. Mae'r trafodaethau hyn wedi bod yn gyfle inni roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Prif Weinidog am y cynnydd, ac iddo godi unrhyw faterion sy'n peri pryder.

**Llywodraethu**

Rydym wrthi'n penodi Is-gadeirydd ac Aelodau Annibynnol ychwanegol ynghyd â chynrychiolydd Undeb Llafur. Bydd hwn yn ddatblygiad i'w groesawu'n fawr, yn enwedig gan y bydd yn caniatáu i ni ychwanegu rhagor o bwyllgorau at ein strwythur llywodraethu a sicrhau ein bod yn gallu cefnogi, craffu ac adrodd ar rai meysydd allweddol o'n gwaith. Mae'r ymgyrch recriwtio ar gyfer rôl barhaol y Prif Swyddog Gweithredol yn mynd rhagddi, a'r dyddiad cau ar gyfer ymgeiswyr yw 2 Hydref.

**Y Cyd-destun Presennol**

Bydd llawer yn ymwybodol o sefyllfa GIG Cymru a'r pwyslais y mae'r Gweinidog wedi'i roi ar yr angen i sicrhau arbedion sylweddol. Mae hi hefyd wedi tynnu sylw at yr angen am fodel newydd ar gyfer GIG Cymru a newid tuag at atal ac ymyrryd yn gynnar, gyda'r cyhoedd yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant. I ni ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'r ddau yn cynnig cryn her, ond mae hefyd yn gyfle gwych. Wrth i ni nesáu at gam nesaf ein taith wella, gallwn geisio creu newid cynaliadwy gydag arweinyddiaeth eang a diwylliant sy'n gadarnhaol, yn garedig ac yn gefnogol gydag eglurder o ran disgwyliadau a safonau, gan groesawu newid a chreadigrwydd i ddarparu gwasanaethau iechyd gwell i bobl a chymunedau Gogledd Cymru.

**Cysylltu â Phobl**

Un o'r pethau y mae llawer ohonom yn eu gwerthfawrogi yw ein bod yn sefydliad sydd ag agwedd agored. Er ein bod yn dymuno sicrhau bod ein peiriannau mewnol yn gweithredu'n gywir, mae gennym y gallu i estyn allan at bobl yn ein cymunedau a gwrando ar eu pryderon a'u dyheadau. Bydd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ei newydd wedd wedi bod yn arwydd i'r perwyl hwn ac edrychaf ymlaen at weld rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu â chymunedau ar draws ein rhanbarth dros y misoedd nesaf.

Ceir crynodeb isod o rai o'm cyfarfodydd a'm hymweliadau ar gyfer y cyfnod hyd at 15 Medi, 2023

| Dyddiad | Cyfarfod / Ymweliad |
|---|---|
| 17 Gorffennaf | Pwyllgor Taliadau |
| 18 Gorffennaf | Ysbyty Dolgellau |
| 18 Gorffennaf | Ysbyty Tywyn i gwrdd â staff a thrafod gyda chynrychiolwyr etholedig lleol |
| 18 Gorffennaf | Canolfan Iechyd Tywyn i gyfarfod y staff |
| 19 Gorffennaf | Henry Englehardt, cyn Prif Swyddog Gweithredol Admiral |
| 20 Gorffennaf | Gwasanaeth Anhwylder Bwyta i Oedolion ym Mryn y Neuadd |
| 20 Gorffennaf | Prif Swyddog Gweithredol ac Arweinydd Awdurdod Lleol Conwy |
| 20 Gorffennaf | Cyfarfod Gweinidogion brys gyda'r holl Fyrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd ynghylch pwysau ariannol |
| 24 Gorffennaf | Y Pwyllgor Archwilio |
| 25 Gorffennaf | Alder Hey ac Liverpool Heart and Chest Hospital – cyfarfodydd gyda Chadeiryddion y ddwy Ymddiriedolaeth |
| 26 Gorffennaf | Cyfarfod misol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Ysbyty Maelor Wrecsam |
| 31 Gorffennaf | Bwrdd Iechyd, Optic Llanelwy |
| 31 Gorffennaf | Cyfarfod gyda David Jenkins, Cynghorydd Arbennig |
| 2 Awst | Ymweliad y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â llinell gymorth 111 CALL yn Wrecsam |
| 2 Awst | Arweinydd a Phrif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir Ynys Môn |
| 7 Awst | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| 8 Awst | Lansio ymgyrch recriwtio myfyrwyr yr Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer Ysgol Meddygaeth Prifysgol Bangor |
| 9 Awst | Cyfarfod y Bwrdd gyda Chynghorwyr Annibynnol a Llywodraeth Cymru – Asesiad o Fesurau Arbennig Cam 1 |
| 9 Awst | Sally Attwood, Cynghorydd Annibynnol (Cynllunio) |
| 11 Awst | Cyfarfod cyhoeddus gydag Eluned Morgan, sef y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 11 Awst | Eisteddfod Genedlaethol – Mwy na Geiriau |
| 11 Awst | Eisteddfod Genedlaethol – Rhaglen Radio Cymru, Dros Ginio |

| | |
|---|---|
| 21 Awst | Cyfweliadau ar gyfer Asiantaeth Recriwtio |
| 22 Awst | Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau, Cwrt Carlton |
| 24 Awst | Pwyllgor Archwilio, Optic Llanelwy |
| 24 Awst | Bwrdd Iechyd |
| 24 Awst | Sesiwn ar Ddatblygu'r Bwrdd |
| 24 Awst | Pwyllgor Taliadau |
| 25 Awst | Cyn-fyfyrwyr Arweinyddiaeth gyda'r Prif Swyddog Gweithredol |
| 29 Awst | Cadeirio Cyfarfod Grŵp Cyfoed |
| 29 Awst | Cyfarfod gyda'r Asiantaeth Recriwtio |
| 30 Awst | Arweinydd, Aelod Cabinet a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych parthed Ysbyty Brenhinol Alexandra, Y Rhyl |
| 31 Awst | Datblygu'r Bwrdd, Cwrt Carlton |
| 31 Awst | Ysbyty Llandudno i drafod cynlluniau Orthopedeg |
| 1 Medi | Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (Teams) |
| 4 Medi | Diwrnod Astudio Dementia Ysbyty Gwynedd |
| 4 Medi | Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd a thrafodaeth gyda staff |
| Medi 4 | Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid |
| 4 Medi | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| 5 Medi | Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol GIG Cymru yn Ysbyty Maelor Wrecsam |
| 5 Medi | Ymweliadau gyda Judith Paget i'r Adrannau Coffa, Newyddenedigol, Mamolaeth a Phediatreg newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam |
| 7 Medi | Briffio Arwain gyda'r Prif Swyddog Gweithredol |
| 11 Medi | Comisiynydd y Gymraeg, Caerdydd |
| 11-12 Medi | Cynhadledd Flynyddol Conffederasiwn GIG Cymru, Caerdydd |
| 13 Medi | Fforwm Mesurau Arbennig gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 14 Medi | Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau, Carlton Court, i dderbyn adolygiadau |
| 15 Medi | Y Prif Weinidog, Cwrt Carlton |
| 15 Medi | Y Pwyllgor Archwilio, Cwrt Carlton, i dderbyn adolygiadau |

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:** ***Report title:*** | Adroddiad y Prif Weithredwr |
| **Adrodd i:** ***Report to:*** | Bwrdd BIPBC |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** ***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 28 Medi 2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ddatblygu i roi trosolwg o'r prif weithgareddau, y cynnydd a'r materion gan y Prif Weithredwr. Mae'n cynnwys y cyfnod o ddiwedd mis Gorffennaf i 20 Medi 2023. Mae rhywfaint o'r cynnwys yn cael ei ehangu ymhellach mewn adroddiadau eraill ar agenda'r Bwrdd.<br><br>Mae'r adroddiad yn amlinellu rhai o'r prif weithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd yn y bwrdd iechyd ac yn ehangach gyda phartneriaid a'r cyhoedd.<br><br>Ceir trosolwg o'r gwaith sy'n ymwneud â Mesurau Arbennig gan gynnwys y rhyngweithio â Llywodraeth Cymru. Darperir adroddiad ar wahân hefyd fel rhan o'r agenda.<br><br>Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at faterion gwasanaeth, ansawdd ac ariannol sy'n arbennig o allweddol a lle mae camau gweithredu penodol ac wedi'u huwchgyfeirio yn cael eu cymryd. |
| **Argymhellion:** ***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Pwyllgor **DRAFOD** A **NODI'R** adroddiad. |
| **Arweinydd Gweithredol:** ***Executive Lead:*** | Prif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:** ***Report Author:*** | Prif Weithredwr |

| **Pwrpas yr adroddiad:** ***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☒ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☐ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☐ | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |

**Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**

***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:***

| | |
|---|---|
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:** | Yn ymwneud â phob amcan |

| | |
|---|---|
| ***Link to Strategic Objective(s):*** | |
| **Goblygiadau rheoleiddio a lleol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | |
| **Yn unol â WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Amh. |
| **Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Amh. |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw argymhelliad yn arwain at benderfyniad neu oblygiad ariannol |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw argymhelliad yn arwain at benderfyniad neu oblygiad gan y gweithlu |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amh. |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amh. |
| **Y Camau Nesaf:**<br>**Gweithredu argymhellion** | |

| *Y Camau Nesaf:*<br><br>Mae amrywiaeth o gamau gweithredu sy'n parhau o ran cynnwys yr adroddiad, gan gynnwys:<br>- Datblygu arweinyddiaeth a diwylliant, gan gynnwys amlygrwydd arweinyddiaeth<br>- Cynllun ymateb Mesurau Arbennig – gweithredu Cylch 2<br>- Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid<br>- Gweithredu'r Cynllun Blynyddol<br><br>***Gweithredu argymhellion***<br>.<br>Mae argymhellion i'w trafod a'u nodi. |
|---|
| **Rhestr o Atodiadau:** |

**Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ddatblygu i roi trosolwg o'r prif weithgareddau, y cynnydd a'r materion gan y Prif Weithredwr. Mae'n cynnwys y cyfnod o ddiwedd mis Gorffennaf i 20 Medi 2023. Mae rhywfaint o'r cynnwys yn cael ei ehangu ymhellach mewn adroddiadau eraill ar agenda'r Bwrdd.

**Ymweliadau Gwasanaeth**

Mae nifer o ymweliadau gwasanaeth allweddol wedi parhau i gael eu cynnal fel rhan o ymgysylltu â chydweithwyr ar draws y sefydliad i ddysgu am eu gwaith, eu llwyddiannau a'u heriau. Mae rhagor o ymweliadau wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

- Ysbyty Abergele: cynhaliwyd ymweliad gyda'r nos ag **Ysbyty Abergele** gyda sgyrsiau â staff a chleifion yn y gwasanaeth Orthopedig yn cael eu cynnal. Rhannodd cydweithwyr eu dymuniad i gynyddu nifer y llawdriniaethau cleifion er mwyn lleihau'r amseroedd aros ar gyfer llawdriniaeth.  Esboniodd cydweithwyr o'r Tîm Ystadau heriau cyflwr yr ystâd. Serch hynny, roedd y cymhelliant i wella gwasanaethau yn sylweddol ac roedd y cleifion yn ganmoliaethus iawn o'r gofal a oedd yn cael ei roi.

- Cynhaliwyd ymweliad ag **Uned Iechyd Meddwl Ablett** i gwrdd â staff ac i ddeall heriau'r ystâd bresennol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y bwriad i ddatblygu uned iechyd meddwl newydd a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol bresennol. Mae angen gweithio ar ystafell Adran 136 (a ddefnyddir ar gyfer cleientiaid sydd angen asesiad brys) i wella diogelwch ac effeithiolrwydd yr adran benodol hon ac mae'r tîm amlbroffesiynol ynghyd â staff y ward yn ystyried hyn fel blaenoriaeth. Wrth siarad â staff, roedd yn amlwg bod buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant a datblygiad ar waith gyda chydweithwyr yn rhannu eu profiadau o ddatblygu gyrfa.

- Cynhaliwyd ymweliad hefyd â llety staff ar safle **Ysbyty Glan Clwyd.** Un o'r heriau allweddol yw argaeledd cartrefi fforddiadwy yn yr ardal ar gyfer cydweithwyr gofal iechyd. Mae hwn yn fater pwysig o ran recriwtio a chadw staff, ac roedd y drafodaeth a gynhaliwyd ar yr ymweliad yn tynnu sylw at y gwaith sydd yn mynd rhagddo, yn ogystal â'r gwaith pellach sydd angen ei wneud i wella mynediad ac ansawdd llety i staff. Bydd angen i hyn fod yn ystyriaeth allweddol mewn cynlluniau ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol, yn enwedig wrth ddatblygu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru.

- Cynhaliwyd ymweliad ag **Uned Heddfan** yn Wrecsam gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Roedd yr ymweliad yn canolbwyntio ar ddysgu mwy am ddatblygu gwasanaeth 111 Dewis 2 GIG Cymru ar gyfer pobl sydd angen mynediad at gymorth emosiynol ac iechyd meddwl. Un o'r llwyddiannau allweddol fu sefydlu'r gwasanaethau dros gyfnod o 24 awr, gan sicrhau bod ymateb bob amser ar ben arall y ffôn i bobl Gogledd Cymru. Roedd yn gadarnhaol iawn clywed am gefndiroedd amrywiol y staff, gan gynnwys y rheini a oedd wedi gweithio ym maes bancio o'r blaen, gan rannu gwybodaeth a dealltwriaeth werthfawr am bryderon ariannol, sy'n achos pryder mawr ar hyn o bryd. Roedd gan gydweithwyr eraill brofiad yn y sector gwirfoddol a darpariaeth cartrefi gofal i bobl â dementia. Roedd yn amlwg bod y gwasanaeth newydd hwn eisoes yn cael ei ddefnyddio'n helaeth a bod bwriad i godi proffil ymhellach yn y dyfodol. Yn ogystal, cynhaliwyd ymweliad â'r llinellau cymorth cenedlaethol sy'n cael eu cynnal gan y bwrdd iechyd ar hyn o bryd. Yn benodol, y rhain yw **DAN 24/7** a **CALL** (Llinell Gwrando a Chyngor Cymunedol). Dangoswyd pwysigrwydd y llinellau hyn gan yr arweinydd tîm a eglurodd y cynnydd sylweddol mewn galwadau yn ystod y pandemig. Roedd pryderon ynghylch costau byw a'r pwysau sy'n gysylltiedig â hynny wedi disodli hyn i raddau helaeth. Yn bwysig, mae'r gwasanaeth hwn yn gwbl ddwyieithog, gan ddarparu gwasanaeth allweddol yn yr iaith a ddewisir. Yn olaf, y prynhawn hwnnw, cafwyd ymweliad â'r **gwasanaeth camddefnyddio sylweddau** gydag arweinwyr ac ymarferwyr yn rhannu'r dulliau a ddefnyddiwyd i gynnwys pobl yn y gwasanaeth hwn; yn aml yn manteisio ar gyfleoedd i gefnogi pobl gydag amrywiaeth eang o gyngor iechyd a llesiant o'r cerbyd 'cartref modur' sy'n gweithredu fel sylfaen symudol i'r tîm.

- Cynhaliwyd ymweliad â nifer o **Ysbytai Cymunedol yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint.** Mae Ysbyty Cymuned Treffynnon yn Sir y Fflint yn cynnig ystod gref o wasanaethau i bobl leol a'r rheini sydd hefyd yn teithio cryn bellter i gael mynediad at arbenigeddau cleifion allanol mewn amgylchedd nad yw'n Ysbyty Cyffredinol Dosbarth. Mae'r Uned Mân Anafiadau a'r adran Cleifion Allanol brysur yn dangos gwerth cyfleusterau cymunedol a soniodd nifer o gleifion am ba mor hawdd oedd cael gafael ar wasanaethau. Mae'r wardiau'n rhoi cymorth allweddol i bobl sydd naill ai'n rhoi'r gorau i ofal acíwt yr Ysbyty Cyffredinol Dosbarth neu'n camu ymlaen mewn gofal er mwyn osgoi cael eu derbyn i wasanaethau acíwt. Trafodwyd heriau darpariaeth gofal cymunedol gyda staff yn ogystal â'r heriau sy'n bodoli o ran y gweithlu, er ei bod yn braf iawn siarad â chydweithwyr a oedd wedi ymuno â'r gwasanaeth iechyd yn ddiweddar ac a oedd wedi cael cyfleoedd sylweddol i ddatblygu eu gyrfa. Ymwelwyd ag Ysbyty Cymunedol Dinbych ac er bod yr adeilad a agorodd yn gynnar yn y 1800au yn heriol ar gyfer gofal cleifion modern, roedd yr awyrgylch cadarnhaol o ofal a chefnogaeth i gleifion a theuluoedd yn amlwg. Roedd yn arbennig o gadarnhaol clywed am waith y Gweithwyr Cymorth Gofal Dementia sy'n cefnogi cleifion a'u teuluoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n helpu i ysgogi a hyrwyddo llesiant. Roedd hon yn nodwedd amlwg o'r 3 ysbyty cymunedol yr ymwelwyd â nhw. Ymwelwyd ag Ysbyty Cymuned Rhuthun ac roedd y gwaith o uwchraddio'r cyfleusterau'n glir gyda naws ffres a modern mewn adeilad hŷn. Roedd y balchder sydd gan gydweithwyr o fod yn rhan o'r GIG yn amlwg o weld wal yn llawn lluniau staff yn dangos hyd y gwasanaeth a'r cyfraniad i'r GIG.

- Cynhaliodd **Canolfan Feddygol West End** gyfarfod gyda Darren Millar, Aelod o'r Senedd, i drafod rhai o'r heriau a'r datblygiadau yn y practis gofal sylfaenol. Mae'r practis prysur iawn, sy'n cael ei redeg gan y bwrdd iechyd, yn gyfuniad o 2 bractis gofal sylfaenol blaenorol, ac mae ganddo restr sylweddol o gleifion mewn ardal lle mae'r angen am iechyd yn sylweddol. Er ei bod yn amlwg bod problemau o ran cyfateb nifer y cleifion y mae angen apwyntiadau arnynt â nifer yr apwyntiadau sydd ar gael, fe wnaeth clywed am y datblygiadau sydd ar y gweill greu argraff. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r Uwch Ymarferydd Nyrsio yn y Practis yn ddiweddar drwy wobr genedlaethol am ymchwil, sy'n cyfrannu'n allweddol at ddatblygu gofal ac ymarfer rhagorol. Mae recriwtio Cymdeithion Meddygol a'r gwaith gyda'r Academi Gofal Sylfaenol fel practis hyfforddi yn dangos ymrwymiad a chymhelliant y Practis i oresgyn rhai o'i heriau allweddol.

- Cynhaliwyd ymweliad, ynghyd ag Aelodau eraill o'r Bwrdd, ag **Ysbyty Llandudno**. Roedd hyn yn arbennig o gysylltiedig â chyflwyno'r Achos Busnes ar gyfer y Ganolfan Orthopedig Gofal

wedi'i Gynllunio i'r Bwrdd. Fe wnaeth y tîm sydd wedi bod yn gweithio ar y datblygiad amlinellu'r datblygiad seilwaith arfaethedig ar gyfer y safle, gan wella ei effeithiolrwydd a'i gynaliadwyedd, yn ogystal â darpariaeth y gwasanaethau 'gofal wedi'i gynllunio' newydd, a'r cam cyntaf yw'r Ganolfan Orthopedig. Mae potensial sylweddol i ehangu darpariaeth gofal wedi'i gynllunio ymhellach ar y safle gan gynnig cyfleuster sy'n llawer llai tebygol o gael ei effeithio gan y pwysau a brofir mewn Ysbytai Cyffredinol a chynyddu nifer y bobl sy'n gallu cael eu gweld gan wasanaethau.

**Gweithio gyda Phartneriaid**

- Mae cyfres o ddigwyddiadau a chyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda phartneriaid allweddol a gwerthfawr i'r bwrdd iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfod gyda Chyfarwyddwr Llais Gogledd Cymru. Cafodd trafodaeth a mewnbwn rheolaidd i weithgarwch ymgysylltu a datblygu gwasanaethau'r byrddau iechyd eu trafod a chafwyd ymrwymiad i adeiladu ar y cyfraniad helaeth a wnaed yn hanesyddol.
- Ymwelwyd â'r Eisteddfod i gefnogi ymgysylltiad timau'r byrddau iechyd ag aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill. Roedd yr ymwelwyr sylweddol â stondin y bwrdd iechyd yn gyfle gwych i bobl gymryd rhan mewn trafodaethau a chael cyngor am lesiant ac i gydweithwyr wneud cysylltiadau newydd â chyrff allweddol eraill yng ngogledd Cymru a thu hwnt.
- Cynhaliwyd cyfarfod gydag arweinwyr Fforwm Gofal Cymru i drafod yr heriau a'r cyfleoedd mwyaf sy'n wynebu'r sector gofal yng ngogledd Cymru. Mae'r un heriau sy'n bodoli i sefydliadau'r GIG ar gyfer darparwyr gofal yn y sector annibynnol o ran costau chwyddiant, cynnydd yn y galw am wasanaethau a llai o weithlu ar gael. Cytunwyd bod dull strategol o ddarparu gofal ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir yn hanfodol er mwyn osgoi pwysau pellach gan y sector gofal heb ei gynllunio, gan gynnwys cau cyfleusterau. Heb os, bydd hwn yn faes pwysig i'w drafod a'i ddatblygu ymhellach yn y dyfodol.
- Roedd yn bleser unwaith eto ymuno â Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd lle cafwyd trafodaeth allweddol ynghylch gwerth cyfraniadau cynnar y grŵp i gynigion a datblygiadau'r bwrdd iechyd. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â Chanlyniad 3 y Cynllun Ymateb i Fesurau Arbennig – Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Cryfach.
- Cynhaliwyd cyfarfod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac mae'n destun adroddiad ar wahân ar yr agenda. Roedd yn gyfle gwych i rannu'r cynnydd sy'n cael ei wneud a'r heriau sy'n wynebu'r bwrdd iechyd, gyda thrafodaeth bwysig yn cael ei chynnal ynghylch y materion sy'n ymwneud ag achos Letby yng Nghaer.
- Yn olaf yn yr adran hon, cyfarfu'r Fforwm Partneriaeth Lleol (Undeb Llafur) gyda threfniadau cyd-gadeirio newydd ar waith. Gwnaed ymrwymiad cryf i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth gyda chytundeb i gynnal digwyddiad penodol i ganolbwyntio ar y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a'r ddealltwriaeth a'r ymrwymiad i fwrw ymlaen â chamau gweithredu allweddol. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu maes o law.

**Cydnabod staff a datblygu arweinyddiaeth**

Mae'r gyfres Gwobrau Gwasanaeth Hir ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhaliwyd digwyddiad cyntaf yr hydref yng Nghaernarfon lle'r oedd yn bleser cyflwyno gwobrau Cydnabod Gwasanaeth Hir i 25 o staff. Mae gan bob cydweithiwr stori unigryw am ei amser a'i gyfraniad yn y GIG.

Cynhaliwyd Briff i Arweinwyr a chyfarfod cydweithwyr sy'n helpu i sefydlu'r Adran Cynfyfyrwyr Arweinyddiaeth. Ymunodd dros 300 o gydweithwyr sy'n arwain â'r briff, gan ddangos ymrwymiad i gysylltu ar draws y sefydliad. Mae arweinyddiaeth yn rhan hanfodol o'r ffordd y bydd y sefydliad yn datblygu yn y dyfodol ac mae'r mater yn destun adroddiad ar wahân i'r Bwrdd. Ochr yn ochr â hyn, roedd yn bleser cyfrannu at Banel cenedlaethol a oedd yn ystyried ceisiadau ar gyfer y Rhaglen Darpar Arweinwyr Gweithredol. Derbyniwyd nifer sylweddol o geisiadau a chafodd pob un ystyriaeth ofalus i'r cam datblygu arweinyddiaeth. Mae wedi bod yn braf clywed bod nifer o gydweithwyr y bwrdd iechyd wedi cael eu derbyn i'r Rhaglen.

Ddydd Gwener 15 Medi 2023, derbyniodd June Lovell ei Medal Ymerodraeth Brydeinig (BEM) gan Arglwydd Raglaw Clwyd yng Nghanolfan Optic. Daeth nifer o gydweithwyr a gwesteion i ddathlu'r llwyddiant gwych hwn gyda June ac i ddiolch iddi am ei gwaith sylweddol ym maes Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Caethiwed a Chwnsela. Mae June wedi arwain y gwasanaeth cymorth meddyginiaeth ar bresgripsiwn ledled Gogledd Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r unig fwrdd iechyd yng Nghymru i redeg gwasanaeth o'r math hwn. Mae June hefyd yn rheoli'r gwasanaeth cwnsela iechyd meddwl gofal sylfaenol. Mae'r gwasanaeth hwn yn unigryw, ac mae'n cynnwys cwnselwyr cymwysedig, cwnselwyr cymwysedig sesiynol a rhaglen myfyrwyr gweithredol.

**Materion yn ymwneud â'r gwasanaeth**

Mae nifer o feysydd allweddol i'w dwyn i sylw'r Bwrdd, gan gynnwys y canlynol:

- Mae **Cynllun Gaeaf** 2023/24 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo ym mis Tachwedd 2023. Mae deialog a chydweithio gydag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn digwydd i gefnogi dull cydgysylltiedig o Gynllunio'r Gaeaf. Mae'r sbectrwm eang o baratoadau ar gyfer tymor y Gaeaf yn cynnwys brechu yn erbyn feirysau anadlol (COVID a'r ffliw), mynediad hawdd at fferyllfa a gwasanaethau cymunedol ehangach yn ogystal â gwella ymatebion i ofal brys ac mewn argyfwng, gan gynnwys cefnogi rhyddhau effeithiol o'r ysbyty. Mae'n debygol o fod yn gyfnod heriol dros y gaeaf ac mae trafodaeth ar baratoi wedi'i threfnu ar gyfer sesiwn datblygu'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd.

- Mae **ansawdd y gofal** wedi bod yn faes allweddol i'w wella ymhellach, ac mae meysydd pwysig ar draws y bwrdd iechyd. Yn ddiweddar, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi cynnal nifer o ymweliadau dirybudd â meysydd gwasanaeth, gan gynnwys Adrannau Achosion Brys ac unedau Iechyd Meddwl. Er y disgwylir adroddiadau ffurfiol, cafwyd adborth calonogol, er bod angen gwneud rhagor o waith gwella parhaus mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi adroddiad er Budd y Cyhoedd ar y gofal a roddir i glaf a brofodd oedi cyn cael gafael ar y gofal priodol. Effeithiodd hyn ar adferiad tymor hirach yr unigolyn ac mae'r bwrdd iechyd wedi ymddiheuro'n ddiamod am fethu â rhoi'r safon o ofal y dylid ei ddisgwyl. Mae Canlyniad 5 yr Ymateb i Fesurau Arbennig, Sefydliad sy'n Dysgu ac yn Gwella'i Hun, yn bwriadu sicrhau, lle nad yw safonau wedi'u gwneud a chamgymeriadau wedi digwydd, bod timau a'r sefydliad ehangach yn sicrhau bod modd dysgu a bod gwelliant parhaus yn cael ei wneud.

- Mae adroddiad ymchwil diweddar ar **ymddygiad rhywiol amhriodol** yn erbyn meddygon sy'n fenywod wedi dychryn cydweithwyr ar draws y GIG. Mae wedi bod yn bwysig cydnabod bod trais a cham-drin yn erbyn menywod a merched yn fater cymdeithasol allweddol sy'n effeithio ar y GIG fel y mae'n effeithio ar rannau eraill o gymdeithas. Mae'r Bwrdd wedi mynegi safbwynt clir bod ymddygiad o'r fath yn annerbyniol ac na ddylid ei oddef. Anogir cydweithwyr i godi pryderon am unrhyw ymddygiad o'r fath drwy'r gwahanol sianeli sydd ar gael yn y sefydliad a'r tu allan iddo, gan gynnwys y Cynllun Codi Llais yn Ddiogel sy'n cael ei redeg ar draws y sefydliad.

- Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae ffocws sylweddol wedi bod ar RAAC, sef concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth) gyda nifer o adeiladau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu cau er mwyn gwneud gwaith adfer. Cynhaliodd y GIG yng Nghymru waith arolygu sawl blwyddyn yn ôl a nodwyd yr adeiladau allweddol a oedd mewn perygl. Mae nifer fach o adeiladau allweddol y GIG yng Nghymru wedi cael eu nodi fel rhai RAAC, yn enwedig yn y Gorllewin a'r De-ddwyrain. Roedd gwaith yr arolwg yng Ngogledd Cymru yn nodi elfen fach iawn a oedd yn cynnwys RAAC. Er bod y mater hwn yn datblygu, mae cyswllt agos yn cael ei gynnal â Gwasanaethau Ystadau Arbenigol Partneriaethau Cydwasanaethau GIG Cymru.

- Cyflwynir sefyllfa ariannol y bwrdd iechyd mewn eitem arall ar yr agenda yn y Bwrdd. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio natur sylweddol heriau cyllid y sector cyhoeddus sy'n effeithio nid yn unig ar y GIG ond ar y gwasanaethau cyhoeddus ehangach sy'n helpu i effeithio ar agweddau ehangach ar lesiant. Mae'n amlwg y bydd angen bod yn agored gyda'r cyhoedd am yr heriau a wynebir a'r angen i rai gwasanaethau newid. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth annerch Cydffederasiwn GIG Cymru yn ddiweddar, nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Bydd sgyrsiau â phobl ar draws Gogledd Cymru yn hanfodol i helpu i lunio blaenoriaethau a dewisiadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â gofal iechyd.

- Yn olaf, mae'r Rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal yn parhau i ddatblygu'n gyflym. Yr ysbrydoliaeth ar gyfer y rhaglen hon yw gwaith Dr Julian Tudor Hart a nododd fod argaeledd gofal meddygol da yn tueddu i amrywio'n groes i'r angen amdano yn y boblogaeth a wasanaethir. Nod y rhaglen yw galluogi dull partneriaeth sy'n seiliedig ar leoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ar draws Gogledd Cymru drwy adeiladu ar alluoedd, asedau, gwybodaeth a pherthnasoedd cyffredin ar draws sectorau i dyfu, gweithredu a rhannu arloesedd. Erbyn diwedd mis Medi 2023, bydd 3 sesiwn gweithdy wedi cael eu cynnal yn canolbwyntio ar ddeall anghydraddoldeb iechyd a'i achosion a phrofiadau partneriaid yn y maes hwn. Daeth nifer dda i'r digwyddiadau, gan gynnwys cydweithwyr o dimau gofal sylfaenol, y clystyrau, cydweithwyr awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Cynhelir gweithdai pellach ym mis Hydref a mis Tachwedd.

## Casgliad

Bwriad yr adroddiad yw rhoi trosolwg o'r prif weithgareddau a gyflawnir gan y Prif Weithredwr yn ogystal â materion pwysig i dynnu sylw atynt a allai fod yn destun adroddiadau manylach eraill neu beidio. Croesewir adborth ar yr adroddiad.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Adroddiad ar Gau Cylch 1 a Chychwyn Cam 2 y Mesurau Arbennig |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Y Bwrdd Iechyd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 28 Medi 2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Pwrpas y papur hwn yw:<br><br>1) Darparu asesiad diwedd cylch ar gyfer y cylch cyntaf o 90 diwrnod (Mehefin – Awst 2023) yn y cam sefydlogi<br>2) Cyflwyno’r meysydd gwaith arfaethedig ar gyfer yr ail gylch (Medi – Tachwedd 2023).<br><br>Mae’r papur yn asesu’r broses o gyflawni pob un o feysydd gwaith cylch 1, a sut mae’r hyn a ddysgwyd yn y cylch cyntaf hwn yn cefnogi’r broses o symud i gylch 2. |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:<br><br>1) **DERBYN SICRWYDD** ar y cynnydd a wnaed yng nghylch 1, gan gydnabod y meysydd heriol, ynghyd â pha elfennau o’r cynllun fydd yn gorfod parhau yn yr ail gylch o 90 diwrnod.<br>2) **CYMERADWYO’R** meysydd gwaith arfaethedig ar gyfer yr ail gylch o 90 diwrnod |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Carol Shillabeer, Prif Weithredwr (Swyddog Atebol)<br><br>Dr Chris Stockport, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol (Swyddog Gweithredol Arweiniol) |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Paolo Tardivel, Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwella<br>Geraint Parry, Rhaglen Mesurau Arbennig |

| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I’w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☒ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☒ |
|---|---|---|---|

| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐ | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☒ | Rhannol<br>*Partial*<br>☐ | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐ |
|---|---|---|---|---|
| | Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

| |
|---|
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** |

| | |
|---|---|
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Cefnogi'r Mesurau Arbennig |
| **Goblygiadau rheoleiddio a lleol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Ddim yn berthnasol |
| **Yn unol â WP7 (sydd bellach yn cynnwys WP68), a oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 (which now incorporates WP68) has an EqIA been identified as necessary and undertaken ?*** | Ddim yn berthnasol |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Ddim yn berthnasol |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Ddim yn berthnasol |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Ddim yn berthnasol |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Ddim yn berthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol) | Ddim yn berthnasol |

| | |
|---|---|
| ***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Ddim yn berthnasol |

**Y Camau Nesaf:**
Gweithredu argymhellion

***Next Steps:***
*Implementation of recommendations*

**Rhestr o Atodiadau:**
Dim

***List of Appendices:***
*None*

**BWRDD IECHYD 28 Medi 2023**

# Adroddiad ar Gau Cylch 1 a Chychwyn Cam 2 y Mesurau Arbennig

## 1) Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r sefyllfa gyffredinol mewn perthynas â Mesurau Arbennig ar ddiwedd y cylch cyntaf o 90 diwrnod (Mehefin – Awst 2023), yn ogystal â'r meysydd gwaith arfaethedig ar gyfer yr ail gylch o 90 diwrnod (Medi – Tachwedd 2023). Mae'r crynodeb cyffredinol hwn yn adeiladu ar yr adroddiadau sicrwydd sydd wedi cael eu cyflwyno i Is-bwyllgorau'r Bwrdd ar gyfer y meysydd y maent wedi cytuno i'w goruchwylio, ac mae'n rhoi asesiad cyflawn o bob maes gwaith ar gyfer pob un o'r pum maes canlyniad.

Mae'r adroddiad yn nodi rhai o'r prif bethau a ddysgwyd yn y cylch cyntaf, a sut rydym yn rhoi hynny ar waith yng nghylch 2 a thu hwnt.

Mae ail hanner yr adroddiad yn cyflwyno'r meysydd gwaith arfaethedig ar gyfer yr ail gylch o 90 diwrnod, gan ddangos sut mae'r gwaith wedi symud o gylch 1 i gylch 2.

## 2) Dull Cau Cylch 1

Fel rhan o'r broses o gau'r cylch cyntaf hwn, mae asesiad ffurfiol wedi cael ei gynnal i sicrhau bod gan y sefydliad ddealltwriaeth glir o'r cynnydd a wnaed ar yr ymrwymiadau gwreiddiol, ac ym mha feysydd y mae heriau a gwersi wedi dod i'r amlwg a oedd wedi effeithio ar y broses gyflawni yn gyffredinol.

Mae cyfres o bwyntiau gwirio wedi bod ar waith drwy gydol y cylch, yn fewnol ac yn allanol, ac yn ystod mis Awst defnyddiwyd nifer ohonynt i lywio'r asesiad cyffredinol o'r cynnydd a wnaed hyd yma. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

1) Sesiwn benodol a gynhaliwyd gyda Llywodraeth Cymru, y Cynghorwyr Annibynnol ac Aelodau'r Bwrdd ar 9 Awst i sicrhau bod pawb yn gytûn ar yr wybodaeth a ddaeth i'r amlwg yn yr adolygiadau annibynnol

2) Bwrdd Sicrwydd chwarterol ar gyfer y Mesurau Arbennig, o dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr GIG Cymru, ar 18 Awst

Mae Is-bwyllgorau'r Bwrdd wedi cael asesiadau rheolaidd ar yr elfennau i'w cyflawni y maent wedi cytuno i'w goruchwylio, ac mae swyddogion gweithredol cyfrifol a'u cynrychiolwyr enwebedig yn archwilio'r cynnydd yn rheolaidd drwy adroddiadau diweddaru wythnosol. Gan fod y cylch wedi dod i ben, cynhaliwyd gwerthusiad ffurfiol o'r cynnydd a wnaed ar bob un o'r meysydd gwaith a gytunwyd, a hynny drwy broses sicrwydd wrthrychol a gynhaliwyd yn annibynnol gan y Swyddfa Rheoli Portffolio. Mae'r broses hon wedi bod yn seiliedig ar broses o sicrhau tystiolaeth o gamau gweithredu a, lle bo hynny'n berthnasol, a yw hynny wedi arwain at sicrwydd ynghylch effaith.


## 3) Crynodeb Cau Cylch 1

Mae’r tabl canlynol yn rhoi crynodeb manwl o’r elfennau i’w cyflawni yr ymrwymwyd iddynt yng nghylch cyntaf y cam sefydlogi. Pan nad yw’r gwaith wedi’i gyflawni’n llwyr yn ystod y cylch cyntaf, bydd y gwaith hwn yn cael ei drosglwyddo i’r ail gylch. Mae asesiad wedi cael ei gynnal ynghylch amserlen ddisgwyliedig ddiwygiedig ar gyfer pob maes gwaith, ac mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o hynny.

| Canlyniad | Yr Elfennau i'w Cyflawni sydd wedi cael eu Cwblhau | Disgwylir iddyn nhw gael eu cwblhau o fewn pedair wythnos i ddiwedd cylch 1 (Diwedd Medi) | Disgwylir iddyn nhw gael eu cwblhau ymhen mwy na phedair wythnos i ddiwedd cylch 1 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Canlyniad 1:** Bwrdd sy’n gweithredu’n dda | 3 | 2 | 2 | 7 |
| **Canlyniad 2:** Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24 | 2 | 0 | 6 | 8 |
| **Canlyniad 3:** Gwell arweinyddiaeth ac ymgysylltiad | 4 | 3 | 3 | 10 |
| **Canlyniad 4:** Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad i ddinasyddion | 5 | 5 | 6 | 16 |
| **Canlyniad 5:** Sefydliad sy’n dysgu ac yn gwella ei hun | 3 | 2 | 2 | 7 |
| **Gyda’i gilydd** | **17** | **12** | **19** | **48** |

Mae Tabl 1 yn yr atodiadau yn cynnwys crynodeb manylach ar gyfer pob un o’r meysydd gwaith penodol.

Gwaith ‘darganfod’ oedd natur llawer o’r gwaith yng nghylch 1, ac felly dim ond drwy dystiolaeth o’r camau a gymerwyd y gellid rhoi sicrwydd yn hynny o beth. Wrth i’r gwaith aeddfedu drwy’r cylch(oedd) nesaf i ‘ddylunio’ ac, yn y pen draw, ‘cyflawni’, bydd mwy o bwyslais ar sicrwydd o ran canlyniadau. Mae hyn yn hollbwysig, gan mai canlyniadau sy’n bwysig. Nid oedd cwmpas y gwaith yng nghylch 1 yn rhoi llawer o gyfle i wneud hynny, ond gellir gweld bod canlyniadau’n gwella – er enghraifft, y gwelliant o ran trefnu apwyntiadau ar gyfer y rheini sy’n aros 156 wythnos am Ofal wedi’i Gynllunio (Graff 1).




**Graff 1:** Gofal wedi'i Gynllunio: Y cleifion sy'n aros dros 156 wythnos am apwyntiad cyntaf fel claf allanol sydd heb gael dyddiad apwyntiad (ac eithrio Orthopedeg)."

## 4) Dysgu o Gylch 1

Yr asesiad mewnol cyffredinol o'r cylch cyntaf yw bod cynnydd wedi'i wneud ym mhob maes. Mae'n anodd sicrhau'r cyflymder sydd ei angen o fewn cyfnod cylch o 90 diwrnod, ac nid yw'n gadael fawr o le i gywiro pethau pan fydd oedi annisgwyl neu pan fydd angen addasu yn ystod y cylch er mwyn i anghenion newydd y Bwrdd Iechyd gael eu diwallu'n well.

Nid yw calendrau adrodd y byrddau a phwyllgorau o reidrwydd yn cyd-fynd â'r cylch gwella 90 diwrnod ac mae hyn wedi creu heriau wrth adrodd o ran gallu darparu'r wybodaeth fwyaf amserol ar gyfer sicrwydd sy'n codi o fewn amgylchedd cyflym y cylch gwella.

Er hynny, yn ein barn ni mae'r dull cylch 90 diwrnod wedi gweithio ar gyfer anghenion y cam sefydlogi, drwy roi ysgogiad a ffocws. Byddwn yn parhau i bwyso a mesur y cydbwysedd hwn wrth i ni symud o'r cam Sefydlogi i gamau Safoni (ac, yn y pen draw, Cynaliadwyedd), o ran a fyddai cylchoedd adrodd o hyd gwahanol yn fwy addas.

Mae symud o un cylch 90 diwrnod i'r nesaf, gan gadw'r pwyslais ar gyflawni, bodloni'r gofynion llywodraethu angenrheidiol ac ymgysylltu'n helaeth yn fewnol ac yn allanol, wedi arwain at heriau hefyd. Er y bydd hyn wastad yn her, mae llawer o wersi wedi cael eu dysgu am sut i drefnu gweithgareddau ymgysylltu'r Weithrediaeth a'r sefydliad ehangach yn fwy effeithlon er mwyn cwblhau'r gwaith mewn cyfnod llawer byrrach. Mae cyfle hefyd, wrth i ni symud o'r cam Sefydlogi i'r cam Safoni, i integreiddio'r dull gweithredu yn y cylch cynllunio blynyddol.

Mae oedi mewn nifer o feysydd yn yr adolygiadau annibynnol wedi effeithio ar y broses o gwblhau rhai cerrig milltir yng nghylch 1. Mae cynlluniau lliniaru ar waith i fynd i'r afael â hynny, ond mae gwersi wedi cael eu dysgu hefyd ynghylch rheoli dibyniaethau'n well ar draws meysydd gwaith, yn enwedig yn achos eitemau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol.

Mae'n amlwg bod y dull gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau wedi arwain at lwyddiant, ac wedi ein galluogi i ddisgrifio darlun gyda'n timau o'r sefyllfa rydym eisiau ei chyrraedd. Mae hyn wedi gweithio ar draws y sefydliad, ond mae rhagor o waith ymgysylltu ar y gweill gyda rhanddeiliaid mewnol yn ogystal â rhai allanol.

## 5) Meysydd Gwaith Arfaethedig Cylch 2

Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn rhoi manylion y meysydd gwaith a gynigir ar gyfer yr ail gylch o 90 diwrnod (Medi – Tachwedd 2023). Mae'r meysydd arfaethedig hyn yn deillio o set sylweddol o brosesau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy gydol mis Awst a dechrau mis Medi, gan gynnwys:

- Aelodau Gweithredol ac Anweithredol o'r Bwrdd,
- Cynghorwyr Annibynnol,
- Cydweithwyr yng Ngweithrediaeth GIG Cymru
- Swyddogion Llywodraeth Cymru,
- y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, a
- Chydweithwyr Clinigol a Gweithredol ar draws y Bwrdd Iechyd.

Fel y soniwyd uchod, gwaith **darganfod** oedd llawer o'r gwaith yn y cylch cyntaf, fel y 10 adolygiad annibynnol. Mae angen mynd ati'n awr i wneud y gwaith **dylunio** angenrheidiol drwy gydgynhyrchu yn yr ail gylch, er mwyn gallu **cyflawni'n** effeithiol wrth symud ymlaen. Mae tablau cylch 2 yn yr atodiad (Tabl 2) isod a'r codau lliw cysylltiedig yn ceisio dangos y daith ddatblygu hon, yn ogystal â sut mae'r gwaith wedi symud o'r cylch cyntaf i'r ail gylch.

Mae dadansoddiad thematig trylwyr wedi cael ei gynnal ar yr adolygiadau annibynnol hynny sydd wedi adrodd yn ôl yn ystod cylch 1, gan dynnu sylw at feysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi ein heriau, nid y symptomau. Mae'r **themâu** hyn wedyn wedi cael eu triongli â'r gwaith y mae angen iddo barhau y tu hwnt i gylch 1, yn ogystal â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cylch 2. Mae'r themâu canlynol wedi dod i'r amlwg yn yr adolygiadau sydd wedi dod i law hyd yma, ac maent wedi cael eu cynnwys yn y pum maes canlyniad presennol sydd wedi'u rhestru yn yr atodiad (Tabl 2).

**Themâu sydd wedi dod i'r amlwg yn yr adolygiadau sydd wedi dod i law hyd yma:**

**1) Data, Gwybodaeth a Dealltwriaeth**

Sicrhau bod dull gweithredu ar waith ar draws y sefydliad gydag ymyriadau wedi'u blaenoriaethu i wella ein gallu a'n hadnoddau dealltwriaeth, gwybodaeth a data. Bydd hyn yn ffactor allweddol i wneud gwelliant cynaliadwy yn bosibl, yn ogystal â helpu'r broses o weld pa wasanaethau allai fod yn destun pryder yn y dyfodol.

**2) Diwylliant**
Diffinio'r gwaith hirdymor sy'n angenrheidiol i wella diwylliant y sefydliad, ymgysylltu â'r gwaith hwnnw ac ymrwymo iddo. Integreiddio hynny yn ein cynllun datblygu sefydliadol ehangach ar gyfer Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu.

**3) Rheoli Risg**
Adolygu a mireinio ein hagwedd at risg a'n dull gweithredu ar gyfer hynny, gan gynnwys sut mae risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli, eu lliniaru, eu hadrodd a'u monitro.

**4) Cynnwys Cleifion, Teuluoedd a Gofalwyr**
Un dull cydgysylltiedig o gynnwys ac ymgysylltu â'n cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

**5) Model gweithredu**
Rhoi eglurder i bawb ym mhob lefel yn y sefydliad ynghylch rolau a chyfrifoldebau, systemau a phrosesau o fewn isadrannau a gwasanaethau ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**6) Cydymffurfiaeth a Llywodraethiant y Sefydliad**
Sicrhau bod arferion gorau ym maes llywodraethu yn weladwy ac yn cael eu dilyn, ynghyd â dealltwriaeth o hynny ar draws y sefydliad

**7) Cynllunio Integredig**
Dull gweithredu integredig ar gyfer cynllunio fel disgyblaeth, gyda dealltwriaeth dda o hynny, yn ogystal â chyfraniadau at ein proses gynllunio flynyddol. Bydd yn bennaf seiliedig ar yr Adolygiad Cynllunio, ond bydd hefyd yn seiliedig ar nifer o'r adolygiadau eraill.

## 6) Casgliad / Argymhellion

Gwnaed cynnydd cyffredinol ar bob un o'r pum canlyniad, gan nodi y bu heriau ac oedi hefyd gyda nifer o feysydd. Roedd y cylch cyntaf hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar waith darganfod, ac roedd nifer o ryngddibyniaethau gydag adolygiadau annibynnol y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd Iechyd, sydd eto i adrodd yn ôl. Yn achos yr adroddiadau sydd wedi dod i law, mae dadansoddiad thematig wedi cael ei gynnal ynghyd ag asesiad ffurfiol o'r broses gyflawni hyd yma, ac mae hyn i gyd wedi cael ei gynnwys yn yr ail gylch.

Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:

1) **DERBYN SICRWYDD** ar y cynnydd a wnaed yng nghylch 1, gan gydnabod y meysydd heriol, ynghyd â pha elfennau o'r cynllun fydd yn gorfod parhau yn yr ail gylch o 90 diwrnod.
2) **CYMERADWYO'R** meysydd gwaith arfaethedig ar gyfer yr ail gylch o 90 diwrnod

## Appendix 1: Summary of Cycle 1 Deliverables

| Key: | Completed | Off track, but with an acceptable plan to course correct and complete within 4 weeks of original completion date | Off track and unlikely to complete within 4 weeks of original completion date |
|---|---|---|---|

# 1. A well-functioning Board

| Deliverable | Milestones summary text | SRO | Status | Due Date |
|---|---|---|---|---|
| 1.1 Strengthen Board governance and effectiveness | 1.1.1 Re-establish the main Committees amending the ToRs where necessary pending the review | Board Sec | Completed | 05/06/2023 |
| | 1.1.2 Design special measures report that will go to each Committee | Board Sec | Completed | 31/07/2023 |
| | 1.1.3 Receive and discuss key findings and recommendations from the review of the Office of the Board Secretary | Board Sec | Completed | 13/07/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Progress made across all milestones. All of the agreed committees have met and begun cycle of business. The independent review of the Office of the Board secretary (OBS) has completed and reported to a development session of the Audit committee on the 15th September. Further work scheduled into cycle 2 based on the outcome of the report which will include changes to Terms of Reference.* | | | |
| 1.2 IM recruitment | 1.2.1 Appointment of seven IMs including the Chair | Board Sec | Completed | 04/06/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *The positions of the Interim Chair and six Independent Member (IM) roles have been filled and the work is fully completed.* | | | |
| 1.3 Board inductions | 1.3.1 Consider other HB induction packages in order to adapt and adopt | Board Sec | Completed | 29/07/2023 |
| | 1.3.2 Incorporate learning from other HB's and launch a refreshed induction programme | Board Sec | Off track, acceptable plan | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *A review of learning from other Health Boards and Trusts in Wales has taken place and the development of a revised induction pack is underway and expected to conclude by the end of September.* | | | |
| 1.4 Board development | 1.4.1 Agree Board development programme to reflect the discussion from the Board development workshop on 22.06.23 | Board Sec | Off track, acceptable plan | 29/07/2023 |
| | 1.4.2 Board to agree content of programme by end of July | Board Sec | Off track, acceptable plan | 29/07/2023 |
| | 1.4.3 Commence implementation of the Board programme | Board Sec | Off track, unlikely | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *The proposal for the Board development programme is currently being formulated, however further work is required in cycle 2 and the 2nd phase of this work is scheduled for the November Board.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.5 Board committees | 1.5.1 Gain agreement on which Committees will continue and ensure business from discontinued Committees is picked up by other Committees | Board Sec | | 29/07/2023 |
| | 1.5.2 Identify Chairs and Vice Chairs for all continuing Committees and ensure all new Chairs are adequately supported in the development of their first and subsequent agendas, minutes and forward plans | Board Sec | | 30/07/2023 |
| | 1.5.3 Develop and refine work plans for each existing Committee and take to July Board to agree | Board Sec | | 29/07/2023 |
| | 1.5.4 Agree proposals for additional Committees and endorse proposals for Committee work plans to be signed off at September Board | Board Sec | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *All agreed committees are in place along with chairs. A decision was made to amend the scope of this deliverable by rescheduling the action that required vice chairs to be identified for all committees. This is to better align with the appointment timescale for substantive IMs.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.6 Risk | 1.6.1 Commence discussion on the Board risk appetite approach and new risk management framework and approach at Board Workshop on 22.06.23 | Board Sec | | 21/06/2023 |
| | 1.6.2 Develop risk management framework and approach with Audit Committee and Risk Management Group through July and (targeting Board in September) | Board Sec | | 29/07/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *The Risk Management Framework is being presented at the September Board and if approved will proceed to implementation.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.7 Permanent Board recruitment | 1.7.1 WG to instigate the recruitment of permanent Independent Members of the Board through the public appointments process | Board Sec | | 07/06/2023 |
| | 1.7.2 Progress appointment of permanent Trade Union IM and Vice Chair via Trade Union nomination and public appointment processes | Board Sec | | 30/08/2023 |
| | 1.7.3 Update on recruitment of CEO to be provided at Remuneration Committee on 13.06.23 | Board Sec | | 12/06/2023 |
| | 1.7.4 Update on status of Interim CEO and recruitment of permanent CEO to Remuneration Committee | Board Sec | | 16/07/2023 |
| | 1.7.5 Executive board appointments following outcome of the Executive Portfolio Review (due end of July, consider it during August) | Board Sec | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *A range of activities are underway, including an advert for the recruitment of a permanent Chief Executive, however the totality of this work is not complete due to a dependency on the Executive Portfolio Review and work is ongoing to recast a realistic timescale within cycle 2 to reflect the interdependent delays.* | | | |

## 2. A clear, deliverable plan for 2023/24

| Deliverable | Milestones summary text | SRO | Status | Due Date |
|---|---|---|---|---|
| 2.1 Annual Plan | 2.1.1 23/24 Annual Plan approved by HBLT and Executive Team | ED P&T | | 20/06/2023 |
| | 2.1.2 23/24 Annual Plan discussed with IMs in Board Workshop | ED P&T | | 21/06/2023 |
| | 2.1.3 23/24 Annual Plan formally approved by Board, and submitted to WG | ED P&T | | 29/06/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *All milestones were delivered and the plan was submitted to Welsh Government.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.2 Financial Savings | 2.2.1 All plans identified with at least 50% being Green/Amber | EDoF | | 28/06/2023 |
| | 2.2.2 All plans finalised with 100% RAG scored Green/Amber | EDoF | | 29/07/2023 |
| | 2.2.3 Achieve savings plan for month of July | EDoF | | 30/08/2023 |
| | 2.2.4 Set up star chamber review sessions, to do a top down assessment of cost pressures and assessments already in the run rate, to inform incremental opportunities for 2023/24 savings plans and 2024/25 savings plans. | EDoF | | 30/08/2023 |
| | 2.2.5 Be clear on contribution of cross cutting themes will have to the 2023/24 savings plans | EDoF | | 29/07/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Good progress made during June and July, with over performance partially mitigating pressures generated during months 1 and 2. Work to finalise all plans against the £25.1m savings target having a RAG score of either Green or Amber has been carried forward into cycle and based on the current assessment is unlikely to be complete by the end of September. Further work is also due to be undertaken and completed during September around instigating a Recurrent Investment Group Assurance process.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.3 Future Financial and Value Opportunities | 2.3.1 Significant progress made on 2024/25 Savings opportunity pipeline | EDoF | | 30/08/2023 |
| | 2.3.2 Collective Exec discussion on the approach to 'Value' across the organisation going forward | EDoF | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *A small number of schemes for 2024/25 have been identified however work in this area is being re-profiled with revised deadlines being set for November.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.4 Local plans | 2.4.1. Process in place to clearly link Local Planning into overarching BCU Corporate Annual Plan, and vice versa | ED P&T | | 07/06/2023 |
| | 2.4.2. Through use of agreed process from 2.4.1. demonstrate read-across from annual plan to local operational plans | ED P&T | | 28/06/2023 |
| | 2.4.3. Accountability delivery agreements issued for each IHC and Division confirming how the mapped annual plan requirements (in 2.4.2) are expected to be delivered in the respective IHC/division, monitored through BCU IHC/divisional Accountability meetings. | ED P&T | | 29/07/2023 |
| | 2.4.4 Discuss at Informal Execs how to adapt and adopt a framework and systems for cascading and monitoring board objectives | ED P&T | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Concluding actions in relation to 2.4.3 and 2.4.4 remain outstanding due to prioritising intervening work to address current financial position. Consequently unlikely to reach a conclusion by the end of September.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.5 Planning Review | 2.5.1. Director of Planning to lead the co-production of a ToR with WG that meets the requirements of WG and BCU. | ED P&T | | 12/07/2023 |
| | 2.5.2. Successful completion of fieldwork for planning review | ED P&T | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Milestones within this area were completed and the fieldwork has concluded. The final report is currently expected in October.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.6 Contract procurement and management Review | 2.6.1 Draft Contract procurement and management Review Report | EDoF | | 17/08/2023 |
| | 2.6.2 Final Contract procurement and management Review Report | EDoF | | 30/08/2023 |
| | 2.6.3 Agreed recommendations to be incorporated into the Financial Control Environment Action Plan and address actions considered 'urgent' during. | EDoF | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *This review has not commenced within the first cycle as originally intended and there is likely to be some further delay before it concludes.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.7 Finance Team & Capacity | 2.7.1 2x Finance Directors appointed – 1) Business partnering, 2) Planning and financial improvement | EDoF | | 29/09/2023 |
| | 2.7.2 Approval decision regarding initial supplementary resourcing for Finance Department | EDoF | | 19/06/2023 |
| | 2.7.3 Undertake a robust assessment of the required staffing resource of the Finance Department and develop a new Operating Model | EDoF | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Initial appointments made at a senior level to stabilise the team. The remaining proposals to strengthen the team are now being revised in response to the impact from the initial appointments made. This proposal has been consulted upon with the WG advisor and will be put forward for consideration and deployment in the 2nd cycle.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.8 Financial Governance | 2.8.1 Create Local level SORDs (pending review at Corporate level) | EDoF | | 29/07/2023 |
| | 2.8.2 Conduct a review of monthly routine reporting and establish a regular challenge of forecasts with the CFOs and commence the new approach | EDoF | | 29/07/2023 |
| | 2.8.3 Agree the financial framing of the plan for planned care | EDoF | | 28/06/2023 |
| | 2.8.4 Establish a new monthly Performance & Finance Delivery Group | EDoF | | 29/07/2023 |
| | 2.8.5 Summarise key learning to inform a development programme for Finance staff | EDoF | | 30/08/2023 |
| | 2.8.6 Deliver annual accounts on time | EDoF | | 30/07/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Local schemes of delegation (SORD's) have been drafted and work to centrally evaluate these documents will commence during cycle 2. This work to evaluate the local SORD's and a revised Health Board SORD not planned for approval until December.* | | | |

# 3. Stronger leadership and engagement

| Deliverable | Milestones summary text | SRO | Status | Due Date |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 Exec Portfolios Review | 3.1.1 Comment and agree Exec Portfolio review ToR | ED WOD | | 29/06/2023 |
| | 3.1.2 Support and enable participation in the Exec Portfolio review | ED WOD | | 29/07/2023 |
| | 3.1.3 Receive and discuss key findings and recommendations from the Exec Portfolio review | ED WOD | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *The review has concluded however the final report is yet to be formally received into the organisation. Based on current anticipated timescales, receiving the discussing the findings or recommendations is unlikely to conclude before the end of September.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.2 Operating Model stocktake | 3.2.1 Develop a methodology for reviewing the structural element of the operating model stocktake | ED WOD | | 26/06/2023 |
| | 3.2.2 Undertake the work to feed into the stock take across July and August | ED WOD | | 05/08/2023 |
| | 3.2.3 Consider themes and priorities from stock take | ED WOD | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *The operating model stocktake has completed and in the process of being written up. Work to consider the outcomes will now take place in September.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.3 Interim Finance Director recruitment | 3.3.1 Hold interviews and make offer of appointment for Interim DoF | CEO | | 18/06/2023 |
| | 3.3.2 Interim DoF in-post | CEO | | 02/07/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *This deliverable was completed during June with the post holder commencing on the 1st July.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.4 Senior HR Cases | 3.4.1 Create a comprehensive case load management approach – including regular review | CEO | | 17/08/2023 |
| | 3.4.2 Feedback outcomes of specific reviews to individuals involved and seek resolution / closure | CEO | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *A caseload management approach is now in place, with all milestones and progressing as planned.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.5 Exec Team development programme | 3.5.1 Discussion with HEIW to identify support and resources available | ED WOD | | 05/07/2023 |
| | 3.5.2 Development of a draft programme | ED WOD | | 02/08/2023 |
| | 3.5.3 Socialise draft programme and resources required with Executive team for comments | ED WOD | | 16/08/2023 |
| | 3.5.4 Review comments and finalise the programme to be delivered | ED WOD | | 26/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Proposals in this area have been completed, however they are going through consultation at executive level during September.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.6 Senior Leadership development programme | 3.6.1 Scope current offer from HEIW / NHS Leadership Academy / Local Universities / other Wales NHS HB | ED WOD | | 05/07/2023 |
| | 3.6.2 Work with internal and external stakeholders to draft a Leadership development framework for Tiers 3-4 building on current activity | ED WOD | | 02/08/2023 |
| | 3.6.3 Socialise draft framework and resources required with Executive team for comments | ED WOD | | 16/08/2023 |
| | 3.6.4 Review comments and finalise the framework to be delivered | ED WOD | | 26/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Proposals in this area have been completed, however they are going through consultation at executive level during September.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.7 Interims Review | 3.7.1 Support and enable the review of interims | ED WOD | | 21/06/2023 |
| | 3.7.2 Receive, review and digest report and recommendations | ED WOD | | 29/07/2023 |
| | 3.7.3 Create an action plan to address recommendations and commence implementation | ED WOD | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *All of the fieldwork was completed and the report has been received and is scheduled for discussion with the reviewer at a development session of the Remuneration Committee.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.8 Clinical Engagement | 3.8.1 Clarify scope and create a detailed project plan for 1st 90 day cycle | ED T&HS | | 09/07/2023 |
| | 3.8.2 Complete all necessary field work | ED T&HS | | 03/08/2023 |
| | 3.8.3 Complete analysis of field work and create draft report containing recommendations for improvement in clinical engagement | ED T&HS | | 17/08/2023 |
| | 3.8.4 Final report containing recommendations for improvement in clinical engagement | ED T&HS | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *The scoping work scheduled for this cycle was completed in its entirety and a final report has been produced and submitted for discussion at the executive team.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.9 Priority community groups engagement | 3.9.1 Review process of communication with patients, families and carers as part of the vascular quality review | Dir P,C&E | | 28/06/2023 |
| | 3.9.2 Pilot the new approach | Dir P,C&E | | 29/07/2023 |
| | 3.9.3 Assess impact of the change and start to share/spread learning | Dir P,C&E | | 30/08/2023 |
| | 3.9.4 Review of how engagement currently works with patients, staff, public and stakeholders | Dir P,C&E | | 28/06/2023 |
| | 3.9.5 Receive and digest the report from Cath Broderick | Dir P,C&E | | 29/07/2023 |
| | 3.9.6 Start to implement the recommendations from the report | Dir P,C&E | | 30/08/2023 |
| | 3.9.7 Review the roles and structure of the Partnerships, Engagement and Communication team | Dir P,C&E | | 29/07/2023 |
| | 3.9.8 Receive and digest the report | Dir P,C&E | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *The report from the Independent Advisor is awaited and therefore the action plan cannot be produced in response. Based on current dates, it is expected that responding to the report will extend beyond the end of September.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.10 Address our fragmented care record concern | 3.10.1 1st Draft of Outline Case for the organisation wide Electronic Patient Record (EPR) approach | CDIO | | 30/08/2023 |
| | 3.10.2 1st draft of outline case for Tactical ED service blueprint (that can be delivered in 6-12 months) | CDIO | | 30/08/2023 |
| | 3.10.3 Appointment of 2 partners for ED service Blueprint | CDIO | | 19/07/2023 |
| | 3.10.4 Appointment of partner to develop a base Strategic Outline Case for EPR for BCU | CDIO | | 28/06/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Tactical work with clinicians in ED is reaching an end although the first draft of the report is not complete. The 1st draft of the strategic outline case for an Electronic Patient Record (EPR) is progressing but is not likely to be delivered before the end of September.* | | | |

# 4. Improved access, outcomes and experience for citizens

| Deliverable | Milestones summary text | SRO | Status | Due Date |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 Patient Safety Review | 4.1.1 Submission of draft report to WG for approval | EDN | | 07/06/2023 |
| | 4.1.2 Health Board to receive report and respond to actions as defined by report (dependent on milestone 4.1.1) | EDN | | 28/06/2023 |
| | 4.1.3 Respond to any immediate priorities identified under 4.1.2 for this 90 day cycle | EDN | | 02/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *The review has concluded and the report received. This has been discussed at a development session of the QSE Committee.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.2 Planned Care | 4.2.1 Secure an outcome from Welsh Government on proposals for planned care funding | EDoOps | | 29/07/2023 |
| | 4.2.2 Improve productivity and theatre utilisation in Abergele – including a change in clinical and operational leadership | EDoOps | | 29/07/2023 |
| | 4.2.3 Formally agree a revised planned care programme as one of our major programmes, through sign off of a Programme Initiation Document | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | 4.2.4 All over 156 week waits booked (excluding Orthodontics) | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Good progress has been made on a revised planned care programme supported by a programme initiation document. This has supported improvements in theatre utilisation in Abergele and reductions in 156 week waiters. Concluding proposals for planned care funding remain outstanding with further options being prepared for executive consideration during September.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.3 Orthopaedics | 4.3.1 Draft Business Case (estimated capital costs) completed | ED P&T | | 29/07/2023 |
| | 4.3.2 Business Case submitted to Board for approval | ED P&T | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Significant work undertaken on the development of the Business case. This work did not quite conclude by the end of the first cycle and the Business case is now scheduled to go to September Board for approval.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.4 Vascular Review | 4.4.1 WAAASP (Wales Abdominal Aortic Aneurysm Screening Programme) and WG Quality Assurance Reviews | EMD | | 20/06/2023 |
| | 4.4.2 Receive, review and digest report and recommendations | EMD | | 29/07/2023 |
| | 4.4.3 Create an action plan to address recommendations and commence implementation | EMD | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *The vascular review is yet to formally report with an interim assurance having been supplied at this stage. The review itself is expected to report shortly. The final milestone (4.4.3) of an action plan to address any recommendations from the review is dependent on receipt of the review. In the meantime an interim improvement plan is being followed.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.5a Service improvements - Vascular | 4.5.a.1 Review and assess existing improvement plans | EMD | | 29/07/2023 |
| | 4.5.a.2 HIW revisit | EMD | | 03/08/2023 |
| | 4.5.a.3 Staffing model addressed, including ward 3 nursing | EMD | | 30/08/2023 |
| | 4.5.a.4 Refreshed integrated improvement plan | EMD | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Solid progress has been made in a number of agreed areas including reviewing and revising existing improvements and this service was formally de-escalated as a service of significant concern by HIW in June. The original milestones for this cycle did however include plans for the staffing model to be addressed, inclusive of ward 3 nursing in YGC. This remains outstanding pending further discussion.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.5b Service improvements - Urology | 4.5.b.1 Appoint Pan BCU Clinical Lead | EMD | | 28/06/2023 |
| | 4.5.b.2 Agree alternate pathways instead of robot and commence implementation | EMD | | 29/07/2023 |
| | 4.5.b.3 Receive Urology Royal College Review | EMD | | 25/07/2023 |
| | 4.5.b.4 Refreshed integrated improvement plan | EMD | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments***: *The report from the Royal College of Surgeons was received as the first cycle was concluding and is currently being reviewed at executive level. The resulting refreshed improvement plan is therefore outstanding due to its dependency to the review.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.5c Service improvements - Ophthalmology | 4.5.c.1 Commence recruitment process for Pan BCU Clinical Lead | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | 4.5.c.2 Confirmation of R1 Clinical revalidation plan (Longest-Waiting R1s) | EDoOps | | 30/07/2023 |
| | 4.5.c.3 Deliver Pan BCU (expanded) signed-off Diabetic Retinopathy Pathway | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | 4.5.c.4 Refreshed integrated improvement plan | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Good progress has been made against clinical validation for longest waiting patients and a diabetic retinopathy pathway and clear evidence submitted. The refreshed improvement plan is however delayed due to delayed receipt of the GIRFT reports around cataracts and Glaucoma, and the need to factor in clinically led discussions via an away day.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.5d Service improvements - Oncology | 4.5.d.1 Make key staffing appointments to bring work back into BCU and reduce risk | EMD | | 29/06/2023 |
| | 4.5.d.2 Develop a refreshed staffing plan | EMD | | 30/08/2023 |
| | 4.5.d.3 Refreshed integrated improvement plan | EMD | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Work in this area has progressed well and all scheduled work has completed leading to a refreshed improvement plan.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.5e Service improvements - Dermatology | 4.5.e.1 Commence recruitment process for Pan BCU Clinical Lead | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | 4.5.e.2 New recruitment model in place | EDoOps | | 31/07/2023 |
| | 4.5.e.3 Refreshed integrated improvement plan | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *This remains a challenge with a significant amount of work remaining to be done in relation to the improvement plan, and discussions are being expedited.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.5f Service improvements - Plastics | 4.5.f.1 Provide St Helens & Knowsley with IT access to BCU systems | EDoOps | | 29/06/2023 |
| | 4.5.f.2 Review and refresh of outstanding agreed actions working closely with Welsh Health Specialised Services Committee (WHSSC) | EDoOps | | 29/07/2023 |
| | 4.5.f.3 Refreshed integrated improvement plan | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Good progress evident across each of the agreed areas for cycle 1 culminating in an improvement plan being in place and submitted as evidence.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.6 MH Stocktake Review | 4.6.1 To submit initial briefing report and evidence bank aligned to recommendations from Holden report | ED PH | | 14/06/2023 |
| | 4.6.2 Submit initial briefing report and evidence bank aligned to recommendations from the Ockenden report | ED PH | | 06/07/2023 |
| | 4.6.3 Submit initial briefing report and evidence bank aligned to recommendation form the HASCAS report | ED PH | | 12/07/2023 |
| | 4.6.4 Engage with Royal College of Psychiatry to plan Phase 2 ie Interviews with key stakeholders. | ED PH | | 31/07/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Clear evidence of progress and good collaboration in line with the scope of the deliverable. An action plan has been developed and a briefing report has been received with plans for cycle 2 formulated.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.7 Inpatients Safety Review | 4.7.1 When report received, to develop action plan aligned to recommendations and identify lead to progress | ED PH | | 09/08/2023 |
| | 4.7.2 To establish a working group to progress actions and agree reporting aligned to MH&LD Governance Framework | ED PH | | 23/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *An action plan has been developed in response to the recommendations from the review and an Inpatients Safety Group has been established to progress the work as part of an agreed governance framework. The review has also been presented to a development session of QSE during September.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.8 CAMHS and Neurodiversity action plan | 4.8a.1 Refresh and agree CAMHS Recovery plan | EDoOps | | 28/06/2023 |
| | 4.8a.2 Commence implementation of a CAMHS Recovery plan to improve MHM performance | EDoOps | | 29/07/2023 |
| | 4.8a.3 Ensure CAMHS is covered in Operating Model Stocktake (Deliverable 3.2) | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | 4.8b.1 Review of the ND Programme Plan (taking input from the national workshop with ND colleagues held on 18/05/2023) | EDoOps | | 29/07/2023 |
| | 4.8b.2 Award of ND tender for private provision of assessments | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | 4.8b.3 Commence implementation of ND Programme Plan | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *CAMHS: A recovery plan is in place for the West IHC and has been submitted, however recovery plans for Central and East remain in development. ND: Progress has been made in both reviewing the programme plan and commencing implementation of a revised plan, which is now being overseen by a programme Board. Scheduled work did however include a tender exercise in order to award private provision for assessments and at this stage there is a low confidence that this could be completed by the end of September.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.9 Urgent and Emergency Care 6 goals and winter planning | 4.9a.1 Completion of Triage training for ED nurses / clinicians to support redirection and streaming, coupled with implementation of PDSA cycle for Streaming | EDoOps | | 29/06/2023 |
| | 4.9a.2 Conclusion of ED frequent attender review | EDoOps | | 17/08/2023 |
| | 4.9a.3 Roll out new Acute Medical model across all 3 IHCS | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | 4.9a.4 Completion of co-located UTC Pilot in Wrexham for low acuity patients, with implementation of identified learning underway (and being shared with West and Central) | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | 4.9a.5 Formally agree a revised urgent and emergency care programme as one of our major programmes, through sign off of a Programme Initiation Document | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | 4.9b.1 CEO discussions with Local Authorities CEOs to seek commitment to work together | EDoOps | | 06/07/2023 |
| | 4.9b.2 RPB / Social care meeting to ensure joint working for escalation planning and resilience 2023-2024 | EDoOps | | 30/07/2023 |
| | 4.9b.3 Table top review of winter resilience planning in conjunction with key stakeholders. | EDoOps | | 17/08/2023 |
| | 4.9b.4 Draft Health Board winter resilience plan to be completed and submitted for Executive review | EDoOps | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Narrative update provided confirming that work has completed across all milestones, however continuing to process evidence from multiple sources. Groundwork has been undertaken including a table top review of winter resilience in conjunction with key stakeholders. A key piece of collaboration with social care partners to ensure joint working around escalation planning has been deferred into September to maximise social care involvement. The overall Health Board draft winter resilience plan will be completed by the end of September however and submitted for review at the executive team on the 4th October.* | | | |

## 5. A learning and self-improving organisation

| Deliverable | Milestones summary text | SRO | Status | Due Date |
|---|---|---|---|---|
| 5.1 Develop a Learning Organisation Framework | 5.1.1 Meet with organisational colleagues already working in this area | ED WOD | | 02/07/2023 |
| | 5.1.2 Map the work already done and draw out the high-level elements/components (e.g. culture, systems and processes) needed to create a Learning Organisation Framework (LOF) | ED WOD | | 29/07/2023 |
| | 5.1.3 Produce a 1st high-level draft of framework and share with stakeholders to test whether design criteria related to fairness and learning from mistakes are evident in the framework when reviewed | ED WOD | | 26/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *A high level draft framework has been completed and has been shared with colleagues and stakeholders and is awaiting feedback before proceeding further.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.2 Learning from incidents | 5.2.1 Establish and embed a regular cycle for the learning forum and confirm the on-going purpose of the forum | EDN | | 17/06/2023 |
| | 5.2.2 Development of a learning framework/model for patient safety and experience | EDN | | 15/07/2023 |
| | 5.2.3 Preparing the case files and evidence ahead of the court hearing | EDN | | 01/08/2023 |
| | 5.2.4 Create SOP, governance and single central repository for responses to enable extraction of themes and learning | EDN | | 29/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Good progress has been made alongside the development of the Learning Organisation Framework. This includes the development of a learning bulletin and an Organisational Learning Forum. Further work is underway with the NHS Executive, which will also be supplemented by governance work in around Standard Operating Procedures and a single repository, however these are not expected to conclude early in cycle 2.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.3 Clinical Governance Review | 5.3.1 The progress of this task relies on the outcome of the Patients Safety review. At present, it is not clear whether this review is needed and if so, when work will start and what the duration will be. This is reflected in the overall delivery confidence. | EDN | | |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *This deliverable is dependent on the Patient Safety Review and it is yet to be procured by Welsh Government. This is awaiting the finalisation of the Patient Safety review following discussion at QSE and agreement on next steps.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.4 Transformation & Improvement support | 5.4.1 Work with impacted stakeholders to develop a high level concept of how to ensure the T&I resource is allocated to priority areas | ED P&T | | 29/06/2023 |
| | 5.4.2 A final proposal for T&I resource allocation signed off at HBLT | ED P&T | | 26/07/2023 |
| | 5.4.3 Implementation of the proposal agreed at HBLT, including consideration of hand over of previous work | ED P&T | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *Documents submitted and approved, and final discussions re: implementation were carried forward into cycle 2 due to annual leave and have concluded during September.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.5 Healthcare Public Health programme | 5.5.1 Internal discussion on how to enhance the current work programme on Healthcare Public Health. | ED PH | | 05/07/2023 |
| | 5.5.2 Capacity identified to support the 90-day activity. (Note – scope of programme will be dependent on level of capacity made available to support) | ED PH | | 12/07/2023 |
| | 5.5.3 Scope the programme. This is a key arm to our proactive issue identification around service quality and effectiveness | ED PH | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *The agreed output of a proposed programme for public health has been achieved, and this has been scoped in line with the resources available.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.6 Special Measures assurance approach | 5.6.1 Take learning from CTM Health Board experience of using matrices, and commence documentation of a proposed assurance approach | Board Sec | | 04/06/2023 |
| | 5.6.2 To agree final assurance approach at SMRG on 21.06.23 | Board Sec | | 19/06/2023 |
| | 5.6.3 Secure resource for a Special Measures support team | Board Sec | | 28/06/2023 |
| | 5.6.4 Implement agreed assurance approach | Board Sec | | 30/07/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *The 1st line of defence (internal) assurance via the PMO has already been deployed. Mobilisation and planning of 2nd (peer group) and 3rd lines (external) of defence is now underway for when the deliverables mature sufficiently to be reviewed by these mechanisms.* | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5.7 Intelligence led organisation | 5.7.1 Review the reporting criteria applied to admitted patient care datasets in relation to the setting and monitoring of planned care demand, capacity and activity plans. | CDIO | | 29/07/2023 |
| | 5.7.2 Develop a proposed governance framework for the request and sign-off of changes to reporting criteria and capacity and activity plans | CDIO | | 28/07/2023 |
| | 5.7.3 Agree and document a work plan with each of the GIRFT programmes in relation to the clinical coding and data based recommendations of the GIRFT reviews. | CDIO | | 30/08/2023 |
| | 5.7.4 Develop a framework for the triangulation of externally reported data (through GIRFT programmes) with internal reporting to ensure transparency and consistency of reporting | CDIO | | 30/08/2023 |
| | 5.7.5 Proposal - for the development of a data strategy, outlining the tactical and strategic actions required to drive us towards becoming an intelligence led organisation | CDIO | | 30/08/2023 |
| | ***PMO Assurance Comments:*** *The planned work in this cycle is complete with significant groundwork completed culminating in a data strategy proposal as intended.* | | | |

## Tabl 2: Meysydd Gwaith Arfaethedig Cylch 2 (Elfennau i'w Cyflawni)

Gwelir isod y diffiniadau o'r categorïau sydd wedi cael eu defnyddio ar gyfer y gwaith o fewn Cylchoedd 1 a 2 yn y tablau isod.

| Statws y gwaith yng Nghylch 1 | Symbol |
|---|---|
| Wedi'i gwblhau – dim angen rhagor o waith | ✓ Wedi'i gwblhau |
| Angen rhagor o waith yn y cylch nesaf | →2 |
| Ddim yn gysylltiedig â gwaith yng Nghylch 1 | **NEWYDD** |

| Cam y gwaith / math o waith | Lliw'r Testun |
|---|---|
| **Gwaith darganfod**<br>Cam archwilio sy'n meithrin dealltwriaeth | |
| **Gwaith dylunio**<br>*Dylunio atebion ar sail y Gwaith Darganfod* | |
| **Gwaith cyflawni**<br>*Cyflawni'r ateb a ddyluniwyd yn y cam Gwaith Dylunio, gan arwain at well canlyniad* | |

## Canlyniad 1: Bwrdd sy'n gweithredu'n dda

| | Cylch 1 (Ion – Aws) | | Cylch 2 (Med – Tach) | Arweinydd Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Cryfhau prosesau llywodraethu ac effeithiolrwydd y Bwrdd (adolygiad o Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd) | →2 | 5.3 – Adolygiad o Reolaeth Glinigol | Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| | | | 2.6 – Adolygiad rheoli contractau a chaffael | Cyllid |
| | | | 3.12 – Gwella'r diwylliant | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| | | | 1.9 – Dull archwilio/gweithredu a rheoli polisi | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | | | 3.2 – Ymgysylltiad uwch arweinwyr â chanfyddiadau cychwynnol archwiliad ailstrwythuro'r Model Gweithredu | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| | | | 2.8 – Cynllun Gweithredu'r Amgylchedd Rheolaeth Ariannol | Cyllid |
| | | | 1.5 – Pob pwyllgor ag Aelodau Annibynnol ar waith | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | | | 1.8 – Tîm Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd – rhoi strwythur dros dro a strwythur dylunio parhaol ar waith | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| 1.2 | Recriwtio Aelodau Annibynnol (dros dro) | ✔ Wedi'i gwblhau | | |
| 1.3 | Prosesau cynefino'r Bwrdd – cam 1 | →2 | 1.3 – Rhoi proses gynefino cam 1 ar waith ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| 1.4 | Rhaglen datblygu'r Bwrdd – cam 1 | →2 | 1.4 – Datblygu rhaglen datblygu'r Bwrdd ar gyfer cam 1 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| 1.5 | Sefydlu pwyllgorau'r Bwrdd, cwblhau proses gynefino'r pwyllgor, a datblygu cynlluniau gwaith | →2 | 1.5 – Pob pwyllgor ag Aelodau Annibynnol ar waith | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| 1.6 | Dechrau adolygu a diwygio'r agwedd at risg a'r dull gweithredu ar gyfer hynny | →2 | 1.6 – Dylunio fframwaith rheoli risg a dechrau ei roi ar waith | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| 1.7 | Recriwtio'r Bwrdd parhaol, gan gynnwys Prif Swyddog Gweithredol | →2 | 1.7 – Recriwtio'r Weithrediaeth/Prif Swyddog Gweithredol/Aelodau Annibynnol/Cadeirydd Parhaol – yn dibynnu ar yr Adolygiad o'r Portffolio Gweithredol ac Achosion AD Uwch | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| | | **NEWYDD** | 1.8 – Tîm Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd – rhoi strwythur dros dro a strwythur dylunio parhaol ar waith | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | | **NEWYDD** | 1.9 – Dull archwilio/gweithredu a rheoli polisi | Ysgrifennydd y Bwrdd |

**Canlyniad 2: Cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24**

| | Cylch 1 (Ion – Aws) | | Cylch 2 (Med – Tach) | Arweinydd Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Cynllun Blynyddol clir y gellir ei gyflawni | →2 | 2.10 – Dylunio fframwaith Perfformiad Integredig | Cynllunio a Thrawsnewid |
| 2.2 | Arbedion ariannol ar gyfer 23/24 | →2 | 2.2 – Gweithredu dull arbedion ariannol wedi'i uwchgyfeirio ar gyfer 23/24 | Cyllid |
| 2.3 | Cyfleoedd ariannol a gwerth ar gyfer 24/25 a 25/26 | →2 | 2.3 – Cyfleoedd ariannol a gwerth ar gyfer 24/25 a 25/26 | Cyllid |
| 2.4 | Datblygu a dechrau cyflwyno cynlluniau Lleol | →2 | 2.4 – Cyflwyno cynlluniau lleol sy'n gysylltiedig â'r broses gynllunio flynyddol | Gweithrediadau |
| 2.5 | Adolygiad Cynllunio | →2 | 2.5 – Parhau i gefnogi a hwyluso adolygiad Cynllunio | Cynllunio a Thrawsnewid |
| 2.6 | Adolygiad rheoli contractau a chaffael | →2 | 2.6 – Adolygiad rheoli contractau a chaffael | Cyllid |
| 2.7 | Sefydlogi'r tîm Cyllid a datblygu capasiti | →2 | 2.7 – Sefydlogi'r tîm Cyllid a datblygu capasiti | Cyllid |
| 2.8 | Cynllun Gweithredu'r Amgylchedd Rheolaeth Ariannol | →2 | 2.8 – Cynllun Gweithredu'r Amgylchedd Rheolaeth Ariannol | Cyllid |
| | | **NEWYDD** | 2.9 – Dylunio Fframwaith Cynllunio Integredig a dechrau ei roi ar waith | Cynllunio a Thrawsnewid |
| | | **NEWYDD** | 2.10 – Dylunio Fframwaith Perfformiad Integredig a dechrau ei roi ar waith | Cyllid |

**Canlyniad 3: Gwell arweinyddiaeth ac ymgysylltiad**

| | Cylch 1 (Ion – Aws) | | Cylch 2 (Med – Tach) | Arweinydd Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Adolygiad o'r Portffolios Gweithredol | →2 | 3.1 – Adolygiad o'r Portffolios Gweithredol | Prif Swyddog Gweithredol |
| 3.2 | Archwiliad ailstrwythuro'r Model Gweithredu | →2 | 3.2 – Ymgysylltiad uwch arweinwyr â chanfyddiadau cychwynnol archwiliad ailstrwythuro'r Model Gweithredu | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| 3.3 | Recriwtio Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro | ✓ Wedi'i gwblhau | | |
| 3.4 | Achosion AD uwch | →2 | 1.7 – Recriwtio'r Weithrediaeth/Prif Swyddog Gweithredol/Aelodau Annibynnol/Cadeirydd Parhaol – yn dibynnu ar yr Adolygiad o'r Portffolio Gweithredol ac Achosion AD Uwch | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| 3.5 | Rhaglen datblygu'r Tîm Gweithredol | →2 | 3.5 – Datblygu arweinyddiaeth (gan gynnwys datblygu'r Weithrediaeth ac uwch arweinwyr) | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| 3.6 | Rhaglen datblygu Uwch Arweinwyr | →2 | 3.5 – Datblygu arweinyddiaeth (gan gynnwys datblygu'r Weithrediaeth ac uwch arweinwyr) | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| 3.7 | Adolygiad interim | →2 | 3.1 – Argymhellion yr adolygiad o'r Portffolios Gweithredol | Prif Swyddog Gweithredol |
| | | | 3.12 – Gwella'r diwylliant | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| | | | 3.14 – Creu a dechrau gweithredu cynllun i ddisodli'r holl rolau Dros Dro | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| | | | 1.9 – Dull archwilio/gweithredu a rheoli polisi | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | | | 2.8 – Cynllun Gweithredu'r Amgylchedd Rheolaeth Ariannol | Cyllid |
| | | | 1.5 – Set lawn o bwyllgorau gweithredu | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| 3.8 | Creu cynllun gwella Ymgysylltu Clinigol | →2 | 3.8 – Ystyried canlyniad gwaith maes ymgysylltu clinigol | Therapïau a Gwyddor Iechyd |
| 3.9 | Ymgysylltu â grwpiau cymunedol blaenoriaethol – datblygu dull strwythuredig | →2 | 3.9 – Cynnwys cleifion, teuluoedd a gofalwyr | Partneriaeth, Ymgysylltu a Chyfathrebu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.10 | Datblygu cynlluniau ar gyfer cofnod electronig integredig am gleifion | →2 | 3.10 – Rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer cofnod electronig integredig am gleifion | DDAT |
| | | **NEWYDD** | 3.11 – Creu Cynllun Datblygu Sefydliadol sy'n cynnwys y gyfres lawn o ymyriadau y tu hwnt i strwythur y Model Gweithredu yn unig (Strategaeth, Pobl, Prosesau/Systemau, Strwythurau, Diwylliant) | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| | | **NEWYDD** | 3.12 – Diffinio a gwella'r diwylliant – gan dderbyn mewnbwn o bob adolygiad annibynnol | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| | | **NEWYDD** | 3.13 – Creu a dechrau gweithredu cynllun i ddisodli'r holl rolau Asiantaeth Dros Dro | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| | | **NEWYDD** | 3.14 – Cyflwyno Arolwg Staff GIG Cymru | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |

**Canlyniad 4: Gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad i ddinasyddion**

| | Cylch 1 (Ion – Aws) | | Cylch 2 (Med – Tach) | Arweinydd Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Adolygiad o Ddiogelwch Cleifion | →2 | 5.3 – Adolygiad o Reolaeth Glinigol | Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| | | | 3.1 – Argymhellion yr adolygiad o’r Portffolios Gweithredol | Prif Swyddog Gweithredol |
| | | | 3.12 – Gwella'r diwylliant | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| | | | 2.10 – Dylunio fframwaith Perfformiad Integredig | Cyllid |
| | | | 5.1 – Gweithredu Fframwaith Sefydliad sy’n Dysgu | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| | | | 3.5 – Datblygu arweinyddiaeth (gan gynnwys datblygu’r Weithrediaeth ac uwch arweinwyr) | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| | | | 5.7 – Sefydliad sy’n cael ei arwain gan wybodaeth (gan gynnwys Data, Gwybodaeth a Dealltwriaeth) | DDAT |
| | | | 3.2 – Ymgysylltiad uwch arweinwyr â chanfyddiadau cychwynnol archwiliad ailstrwythuro'r Model Gweithredu | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| 4.2 | Rhaglen ddiwygiedig ar gyfer Gofal wedi’i Gynllunio, a threfnu apwyntiad cyntaf i bawb sy’n aros ers 156 o wythnosau | →2 | 4.2 – Gofal wedi’i Gynllunio – Bwrw ymlaen â rhaglen ddiwygiedig sy’n sicrhau cynnydd cynnar o ran mynediad, canlyniadau a phrofiad, gan osod y sylfeini ar gyfer cynaliadwyedd tymor hwy, gan gynnwys GIRFT a chyfleoedd eraill yng nghyswllt effeithlonrwydd.<br>– Cynnal gwelliannau yng nghyswllt apwyntiadau wedi’u trefnu ar gyfer Cam 1 > 156 o wythnosau<br>– Gwneud gwelliant parhaus tuag at > 104 o wythnosau | Gweithrediadau |
| 4.3 | Achos Busnes Orthopedeg | →2 | 4.3 – Cwblhau’r achos busnes ar gyfer ehangu gwasanaethau Orthopedeg | Cynllunio a Thrawsnewid |
| 4.4 | Adolygiad o wasanaethau fasgwlaidd | →2 | 4.5a – Bwrw ymlaen â'r cynllun gwella Gwasanaethau Fasgwlaidd | Cyfarwyddwr Meddygol |
| 4.5a | Cynllun gwella gwasanaethau fasgwlaidd | →2 | 4.5a – Bwrw ymlaen â'r cynllun gwella Gwasanaethau Fasgwlaidd | Cyfarwyddwr Meddygol |
| 4.5b | Cynllun gwella Gwasanaethau Wroleg | →2 | 4.5b – Bwrw ymlaen â'r cynllun gwella Gwasanaethau Wroleg | Cyfarwyddwr Meddygol |
| 4.5c | Cynllun gwella Gwasanaethau Offthalmoleg | →2 | 4.5c – Bwrw ymlaen â'r cynllun gwella Gwasanaethau Offthalmoleg | Gweithrediadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4.5d | Cynllun gwella Gwasanaethau Oncoleg | →2 | 4.5d – Bwrw ymlaen â'r cynllun gwella Gwasanaethau Oncoleg | Cyfarwyddwr Meddygol |
| 4.5e | Cynllun gwella Gwasanaethau Dermatoleg | →2 | 4.5e – Bwrw ymlaen â'r cynllun gwella Gwasanaethau Dermatoleg | Gweithrediadau |
| 4.5f | Cynllun gwella Plastigau | →2 | 4.5f – Bwrw ymlaen â'r cynllun gwella Plastigau | Gweithrediadau |
| 4.6 | Adolygiad Iechyd Meddwl o adolygiadau blaenorol | →2 | 4.6 – Adolygiad Iechyd Meddwl o adolygiadau blaenorol – cam 2 | Iechyd y Cyhoedd |
| 4.7 | Adolygiad o Ddiogelwch Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl | →2 | 3.9 – Cynnwys cleifion, teuluoedd a gofalwyr | Partneriaeth, Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| | | | 1.9 – Dull archwilio/gweithredu a rheoli polisi | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | | | 4.7 – Adolygiad o Ddiogelwch Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl – cam 2 | Iechyd y Cyhoedd |
| 4.8a | Cynllun gwella CAMHS | →2 | 4.8a – Bwrw ymlaen â chynllun gwella CAMHS | Gweithrediadau |
| 4.8b | Cynllun gwella Niwroamrywiaeth | →2 | 4.8b – Bwrw ymlaen â chynllun gwella Niwroamrywiaeth | Gweithrediadau |
| 4.9a | Diwygio'r rhaglen ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, a gwella amseroedd trosglwyddo o ambiwlans ar gyfer oedi o 4 awr | →2 | 4.9a – Diwygio'r rhaglen ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, a gwella'r canlynol: 1) Amseroedd brysbennu mewn Adrannau Achosion Brys, 2) amseroedd aros am asesiad mewn Adrannau Achosion Brys, 3) oedi o 4 awr wrth drosglwyddo o ambiwlans | Gweithrediadau |
| 4.9b | Dechrau ar Gynlluniau'r Gaeaf ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng | →2 | 4.9b – Parhau i gynllunio a pharatoi ar gyfer y Gaeaf yng nghyswllt Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng | Gweithrediadau |
| | | **NEWYDD** | 4.10 – Cynllun Gwella Gwasanaethau Orthopedeg – Fel rhan o'r Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio, mireinio'r rhaglen waith ar gyfer gofal Orthopedeg | Gweithrediadau |

**Canlyniad 5: Sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella ei hun**

| | Cylch 1 (Ion – Aws) | | Cylch 2 (Med – Tach) | Arweinydd Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| 5.1 | Datblygu Fframwaith 'Sefydliad sy'n Dysgu' | →2 | 5.1 – Datblygu Fframwaith 'Sefydliad sy'n Dysgu', gan gynnwys un ystorfa ar gyfer yr holl brosesau dysgu sefydliadol | Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| 5.2 | Gweithdrefnau effeithiol ar gyfer dysgu o ddigwyddiadau a pharatoi ar gyfer cwestau a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | →2 | 5.2 – Gweithdrefnau effeithiol ar gyfer dysgu o ddigwyddiadau a pharatoi ar gyfer cwestau a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| 5.3 | Adolygiad o Reolaeth Glinigol | →2 | 5.3 – Adolygiad o Reolaeth Glinigol | Nyrsio a Bydwreigiaeth |
| 5.4 | Cymorth Trawsnewid a Gwella | →2 | 5.4 – Neilltuo cymorth ar gyfer Trawsnewid a Gwella i feysydd blaenoriaeth | Cynllunio a Thrawsnewid |
| 5.5 | Archwilio gwell rhaglen ar gyfer Iechyd y Cyhoedd ym maes Gofal Iechyd | →2 | 5.5 – Gweithredu gwell rhaglen ar gyfer Iechyd y Cyhoedd ym maes Gofal Iechyd | Iechyd y Cyhoedd |
| 5.6 | Datblygu dull sicrhau Mesurau Arbennig | →2 | 5.6 – Cyflwyno dull sicrhau Mesurau Arbennig | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| 5.7 | Datblygu cynnig i ddod yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan wybodaeth | →2 | 5.7 – Gweithredu cynnig i ddod yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan wybodaeth (gan gynnwys Data, Gwybodaeth a Dealltwriaeth) | DDAT |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Fframwaith Rheoli Risg a Pharodrwydd i Dderbyn Risg |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Y Bwrdd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 28 Medi 2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Pwrpas yr adroddiad hwn yw galluogi'r Bwrdd i gymeradwyo'r parodrwydd i dderbyn risg yn ffurfiol yn dilyn Sesiwn y Bwrdd Datblygu ar 24 Awst 2023 a chymeradwyo'r fframwaith rheoli risg drafft. |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | 1. Cymeradwyo 23/24 Math o barodrwydd i dderbyn risg y Bwrdd.<br>2. Cymeradwyo'r fframwaith rheoli risg. |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Nesta Collingridge Pennaeth Rheoli Risg<br>Phil Meakin, Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☒ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel sicrwydd:**<br><br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☒<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |

**Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**

***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this: Amh.***

| | |
|---|---|
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Parodrwydd i dderbyn risg wedi'i osod ynglŷn â mathau o risg a chysylltiad â'r amcanion strategol. |
| **Goblygiadau rheoleiddio a lleol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Mae'n hanfodol bod gan y Bwrdd drefniadau llywodraethu cadarn ynglŷn â rheoli risg, oherwydd gallai methu â gwneud hynny |

| | |
|---|---|
| | arwain at oblygiadau cyfreithiol i'r Bwrdd Iechyd.<br>Derbynnir yn gyffredinol y dylai sefydliadau sy'n defnyddio model rheoli risg menter osod parodrwydd y Bwrdd i dderbyn risg yn flynyddol. |
| **Yn unol â WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Atodiad 3 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ynglŷn â RM01 – Fframwaith Rheoli Risg |
| **Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | N |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Mae'r parodrwydd i dderbyn risg yn gysylltiedig â'r holl risgiau sy'n cael eu hadrodd fel rhan o ddull rheoli risg y Bwrdd Iechyd.<br>Mae'r fframwaith rheoli risg yn nodi dull gweithredu a rheolaeth Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Mae'n hanfodol bod gan y Bwrdd drefniadau llywodraethu cadarn ynglŷn â rheoli risg, oherwydd gallai methu â gwneud hynny arwain at gosbau ariannol i'r Bwrdd Iechyd. |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | N |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Cafwyd adborth o Gyfarfod y Tîm Gweithredol 13/09/23 a'r Pwyllgor Archwilio 15/09/23 ac fe'u nodir isod. |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | RM01 sy'n llywio'r gwaith o reoli'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol<br><br>Ddim yn berthnasol |

| |
|---|
| **Camau Nesaf:**<br>**Gweithredu argymhellion**<br><br>***Y Camau Nesaf:***<br>*Diweddaru RM02 a RM03*<br>*Parhau gyda chynlluniau gweithredu RM01-03*<br>*Sicrhau bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.* |
| **Rhestr o Atodiadau:**<br>***List of Appendices:***<br>*Atodiad 1 2023/24 Parodrwydd i Gymryd Risg*<br>*Atodiad 2 RM01 Fframwaith Rheoli Risg Drafft*<br>*Atodiad 3 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb* |

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Cynhaliwyd sesiwn bwrdd datblygu ar 24 Awst 2023 i bennu'r 23/24 parodrwydd i dderbyn risg a thrafod y dull o reoli risg, er mwyn llywio'r fframwaith rheoli risg.

Roedd y fframwaith rheoli risg i fod i gael ei adolygu yn dilyn sicrwydd cyfyngedig a nodwyd gan archwilwyr mewnol ym mis Mehefin 2023 a chafwyd adborth ar ddull gweithredu'r Bwrdd Iechyd sydd wedi'i grynhoi yng nghorff yr adroddiad hwn.

Yn ystod y sesiwn ddatblygu, clywodd aelodau'r Bwrdd barodrwydd 'lleiaf posibl-gofalus' i dderbyn risg y llynedd i reoli risg o ran 21/22 yr amcanion strategol. Nod y safbwynt ceidwadol hwn oedd lleihau bod yn agored i risg mewn meysydd risg allweddol fel ariannol, rheoleiddio, ansawdd, enw da a phobl.

Bu'r Swyddogion Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol yn cymryd rhan ac yn rhoi gwybodaeth i'r sesiwn a hwyluswyd gan y Tîm Rheoli Risg.

Rhannwyd y sesiwn yn ddwy ran. Dyma'r amcanion:

> Rhan 1: Adborth a chydweithio ar y fframwaith rheoli risg gan nodi dull y Bwrdd o ymdrin â risg.
> Rhan 2: Ystyried dull gofalus y llynedd o ymdrin â risg a chytuno ar y parodrwydd presennol i dderbyn risg ar draws y pum math o risg.

Cafwyd adborth ar y Fframwaith Rheoli Risg fel sail i fersiwn drafft. Gosodwyd consensws ar sgoriau parodrwydd i dderbyn risg ynglŷn â mathau o risg.

Ar ôl y sesiwn Datblygu'r Bwrdd, cafodd adroddiad ei dderbyn a'i ystyried gan y Tîm Gweithredol ar 13 Medi 2023. Yna derbyniwyd adroddiad hefyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Archwilio ar 15 Medi 2023.

## *2. Corff yr Adroddiad*

**Rhan 1: Adborth Fframwaith Rheoli Risg**
Cafwyd adborth ynghylch dull y Bwrdd o reoli risg a chynnwys y fframwaith. Mae'r prif bwyntiau wedi cael eu crynhoi isod ac wedi cyfrannu at y Fframwaith Rheoli Risg drafft.

- Dylid hefyd cynnwys manteisio ar gyfleoedd yn y fframwaith i gefnogi'r agwedd gadarnhaol tuag at risg yn well.
- Mae angen i staff deimlo eu bod wedi'u grymuso i godi risgiau a bod yn hyderus y byddant yn cael eu gweithredu.

- Dylai'r pwrpas fynd i'r afael â dyletswydd gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth, cleifion, cymunedau, nid dim ond ymrwymiad y Bwrdd Iechyd.
- Roedd y disgrifiad o wahanol lefelau risg (strategol, gweithredol, prosiect) yn welliant, ond roedd angen mwy o eglurder ar nodi risgiau.
- Clywsom bryderon bod y fframwaith yn canolbwyntio ar gau'r ddolen, rheoli a lliniaru risgiau, nid dim ond eu nodi. Mae angen canolbwyntio ar allbynnau a chanlyniadau.
- Roedd angen egluro taith risg o'r ward i'r bwrdd yn well.
- Dylai rolau a chyfrifoldebau gyfeirio at gynnwys aelodau cyswllt a staff clinigol. Nodwyd bod y cyfeiriad at ddull gweithredu integredig yn allweddol ac fe'i croesawyd.
- Roedd angen rhagor o eglurder ynghylch y datganiad fframwaith. Mae angen eglurder ynghylch yr iaith ar gyfrifoldeb ac atebolrwydd o ran lle mae'r risgiau ar ôl eu codi.
- Mae angen datblygu rhagor ar fapio llywodraethu uwchgyfeirio/isgyfeirio risg.
- Mae angen diffiniadau clir ar gyfer rolau pwyllgorau.
- Mae angen mynd i'r afael â risgiau 'sefydlog' sydd ynghlwm wrth ddatblygu, gan gynnwys prosesau uwchgyfeirio.

  I grynhoi, mae'n ymddangos bod bylchau allweddol yn ymwneud â nodi risg, cynnwys staff, atebolrwydd clir, cau'r ddolen ar risgiau, ac egluro'r bensaernïaeth rheoli risg.

Cafwyd adborth gan gyfarfod y Tîm Gweithredol a'r pwyllgor Archwilio sydd wedi'i grynhoi isod a'i ddiweddaru yn y fframwaith:

- Esboniad pellach neu gydnabyddiaeth bod y ddogfen Gweithdrefnau Rheoli Risg (RM02) yn bodoli sy'n cefnogi'r fframwaith hwn.
- Mae eglurhad pellach neu gydnabyddiaeth bod pwysigrwydd hyfforddiant rheoli risg a Gweithdrefnau Hyfforddiant Rheoli Risg (RM03) hefyd yn cefnogi'r ddogfen hon.
- Geirfa i gynnwys y pethau canlynol: Parodrwydd i Dderbyn Risg, Rheoli Risg, Fframwaith Risg.
- Cyfrifoldeb y Swyddogion Gweithredol yw ymgysylltu'n weithredol ag Atal Twyll a mynd ati'n rhagweithiol i nodi risgiau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth Swyddfa'r Cabinet ar Atal Twyll (mae'r cyfeiriad wedi'i ddiweddaru hefyd).
- Sicrwydd y bydd agenda cyfarfod misol y tîm yn cael ei diweddaru i ganiatáu ar gyfer uwchgyfeirio, isgyfeirio a diweddaru ar gamau gweithredu gyda risgiau corfforaethol. Ar ben hynny, bydd yr holl gylch gorchwyl sy'n cael y Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol hefyd yn cael ei ddiweddaru.
- Diffinio'r tair llinell amddiffyn a'r tair llinell sicrwydd yn well.
- Rhagor o fanylion a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd dysgu ynglŷn â risg.

**Rhan 2: Parodrwydd i Dderbyn Risg**

Cymerodd swyddogion gweithredol ac Aelodau Annibynnol ran mewn asesiad parodrwydd i dderbyn risg i ddiffinio parodrwydd y sefydliad i dderbyn risg ar draws meysydd allweddol gan gynnwys ariannol, rheoleiddio, ansawdd, enw da, a phobl fel yr argymhellir o'r matrics sgorio a dderbynnir yn genedlaethol gan y Good Governance Institute. Datgelodd y drafodaeth awydd i fabwysiadu dull mwy agored a blaengar o ymdrin â risg o'i gymharu â safbwynt hanesyddol mwy gofalus.

Canfyddiadau Allweddol

Risgiau Ariannol: Roedd consensws y cytunwyd arno ynghylch parodrwydd **'agored'** i dderbyn rhywfaint o risg ariannol ynglŷn â buddsoddi sy'n caniatáu ar gyfer arloesi, ond gyda rheolaethau cadarn, cydbwyso gwerth am arian ac nid pris yw'r prif ffactor. Ynglŷn â'r cyllidebau a'r gwariant presennol, tybiwyd bod y parodrwydd i dderbyn risg yn llai oherwydd yr hinsawdd bresennol ac mae angen cryf i sicrhau gwerth am arian. Ynglŷn â'r rhan hon o Risg Ariannol, ystyriwyd bod agwedd "**ofalus**" yn fwy priodol yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio.

Risgiau Ariannol: Roedd consensws y cytunwyd arno ynghylch parodrwydd 'agored' i dderbyn rhywfaint o risg ariannol ynglŷn ag achosion busnes a buddsoddi sy'n caniatáu ar gyfer arloesi,

ond gyda rheolaethau cadarn, cydbwyso gwerth am arian ac nid pris yw'r prif ffactor. Ynglŷn â rheolaeth ariannol, cyllidebau a'r gwariant presennol, tybiwyd bod y parodrwydd i dderbyn risg yn un 'gofalus' gan dderbyn llai o risg, ac mae angen cryf i sicrhau gwerth am arian.

Risg Reoleiddiol: Roedd consensws y cytunwyd arno yn cefnogi parodrwydd risg 'agored' i dderbyn y posibilrwydd o rywfaint o her reoleiddio cyn belled â'n bod yn gallu bod yn weddol hyderus y byddem yn gallu herio hyn yn llwyddiannus.
Risg Ansawdd: Roedd parodrwydd i fod yn 'agored' a derbyn y posibilrwydd o effaith tymor byr ar ganlyniadau ansawdd gyda photensial ar gyfer gwobrau tymor hirach, gan gefnogi datblygiadau arloesol.
Risgiau o ran Enw Da: Roedd consensws y cytunwyd arno i 'geisio' rhai risgiau i enw da ac yn fodlon gwneud penderfyniadau sy'n debygol o arwain at graffu ar y sefydliad. Rydym yn hyrwyddo syniadau a datblygiadau arloesol newydd yn allanol lle mae'r manteision posibl yn fwy na'r risgiau.
Risg Pobl: Roedd consensws y cytunwyd arno i 'geisio' a byddwn yn mynd ar drywydd arloesi yn y gweithlu ac yn barod i gymryd risgiau a allai fod â goblygiadau i'n gweithlu ond a allai wella sgiliau a galluoedd ein staff. Rydym yn cydnabod bod arloesi'n debygol o darfu yn y tymor byr ond gyda'r posibilrwydd o enillion hirdymor.
Mynegodd aelodau'r Bwrdd ddiddordeb mewn symud at barodrwydd 'agored' i dderbyn risg ar draws meysydd math risg cyllid, rheoleiddio ac ansawdd o'i gymharu â'r safiad gofalus blaenorol. Roedd consensws i 'geisio' arloesedd a derbyn lefel ystyriol o risg ynglŷn ag enw da a mathau o risg pobl. Roedd y drafodaeth yn pwysleisio'r cyd-destun a rheoli risgiau'n briodol yn hytrach na'u hosgoi'n gyfan gwbl.

Ar ben hynny, diweddarwyd y papur hwn, gan gynnwys yr holl atodiadau, yn dilyn adborth gan y Pwyllgor Archwilio ar 15 Medi 23. Cafwyd adborth ynghylch cryfhau geiriad parodrwydd y Bwrdd i dderbyn risg ynglŷn â pharodrwydd i gymryd risg ariannol. Gan gydnabod buddsoddiad yn ogystal â'r hinsawdd ariannol bresennol ac egluro bod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu cael rheolaethau cadarn ynglŷn â risgiau ariannol. Mae'r newid hwn wedi cael ei fireinio ymhellach a'i adlewyrchu uchod ac yn yr atodiad. Parodrwydd i dderbyn risg i enw da er mwyn disgrifio'r dull 'ceisio' yn well gan fod hyn yn cyd-fynd ag arloesi

**Y Camau Nesaf**

1. Cymeradwyo'r datganiadau parodrwydd i dderbyn risg newydd yn ffurfiol ar draws pob maes.
2. Cyfleu'r parodrwydd i dderbyn risg wedi'i ddiweddaru yn y fframwaith rheoli risg a rhoi eglurder i staff ynghylch paramedrau disgwyliedig.
3. Cysoni Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r rheolaethau â'r lefelau parodrwydd i dderbyn risg newydd.
4. Monitro gweithrediad y parodrwydd i dderbyn risg yn barhaus a gwerthuso effeithiau ar gymryd risg sefydliadol a chanlyniadau.
5. Ailasesu parodrwydd i dderbyn risg yn flynyddol fel rhan o'r arfer gorau a argymhellir ar gyfer rheoli risg menter.

**Argymhellion**

1. **Derbyn ac ystyried y datganiadau parodrwydd i dderbyn risg i'w cymeradwyo.**
2. **Derbyn ac ystyried y fframwaith rheoli risg drafft i'w gymeradwyo.**

*Atodiad 1- Parodrwydd i Dderbyn Risg*
*Atodiad 2 - Fframwaith Rheoli Risg*
*Atodiad 3 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb RM01*

# Sesiwn Datblygu'r Bwrdd 24 Awst 2023

**D.S. Yn dilyn adborth gan y Pwyllgor Archwilio ar 15/09/2023, cafodd y risg ariannol ei rhannu'n nwy ran fel y dangosir yn y tabl a datblygwyd datganiad risg at ddibenion rheolaeth ariannol.**

# Parodrwydd i Dderbyn Risg 2023



GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board







# Parodrwydd i Dderbyn Risg

1. Mathau o Barodrwydd i Dderbyn Risg a Sgorio 2023
2. Amcanion Strategol a Pharodrwydd i Dderbyn Risg Blaenorol 2022
3. Matrics Cyfeirio Parodrwydd i Dderbyn Risg Good Governance Institute






GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Parodrwydd i Dderbyn Risg a Mathau o Risgiau 2023

| Math o Risg | Parodrwydd i Dderbyn Risg | Datganiad Risg |
|---|---|---|
| *Ariannol: Sut byddwn yn defnyddio ein hadnoddau?*<br><br>***Mewn perthynas ag achosion busnes a buddsoddi*** | *AGORED*<br> | *Roedd consensws y cytunwyd arno ynghylch parodrwydd ‘**agored**’ i dderbyn rhywfaint o risg ariannol ynglŷn â buddsoddi sy’n caniatáu ar gyfer arloesi, ond gyda rheolaethau cadarn, cydbwyso gwerth am arian ac nid pris yw’r prif* ffactor. |
| *Ariannol: Sut byddwn yn defnyddio ein hadnoddau?*<br><br>***Mewn perthynas â rheolaeth ariannol*** | *GOFALUS*<br> | *Roedd consensws y cytunwyd arno ynghylch parodrwydd ‘**gofalus’** i dderbyn llai o risg ariannol ynglŷn â rheolaeth ariannol, cyllidebau a gwariant cyfredol, gan dderbyn llai o risg a’r angen cryf i sicrhau gwerth am arian.* |
| *Rheoleiddiol: Sut byddwn ni’n cael ein gweld gan ein rheoleiddiwr?* | *AGORED*<br> | *Roedd consensws y cytunwyd arno yn cefnogi parodrwydd risg ‘**agored**’ i dderbyn y posibilrwydd o rywfaint o her reoleiddio cyn belled â’n bod yn gallu bod yn weddol hyderus y byddem yn gallu herio hyn yn llwyddiannus.* |
| *Ansawdd: Sut byddwn ni’n darparu gwasanaethau diogel?* | *AGORED*<br> | *Roedd parodrwydd i fod yn ‘**agored**’ a derbyn y posibilrwydd o effaith tymor byr ar ganlyniadau ansawdd gyda photensial ar gyfer gwobrau tymor hirach, gan gefnogi datblygiadau arloesol.* |
| *Enw da: Sut byddwn ni’n cael ein gweld gan y cyhoedd a’n partneriaid?* | *CEISIO*<br> | *Roedd consensws y cytunwyd arno i ‘**geisio**’ rhai risgiau i enw da ac yn fodlon gwneud penderfyniadau sy’n debygol o arwain at graffu ar y sefydliad. Rydym yn hyrwyddo syniadau a datblygiadau arloesol newydd yn allanol lle mae’r manteision posibl yn fwy na’r risgiau.* |
| *Pobl: Sut byddwn ni’n cael ein gweld gan y cyhoedd a’n partneriaid?* | *CEISIO*<br> | *Roedd consensws y cytunwyd arno i ‘**geisio**’ a byddwn yn mynd ar drywydd arloesi yn y gweithlu ac yn barod i gymryd risgiau a allai fod â goblygiadau i’n gweithlu ond a allai wella sgiliau a galluoedd ein staff. Rydym yn cydnabod bod arloesi’n debygol o darfu yn y tymor byr ond gyda’r posibilrwydd o enillion hirdymor.* |

# Amcanion Strategol a Pharodrwydd i Dderbyn Risg Blaenorol 2022

| Amcan Strategol | Parodrwydd i Dderbyn Risg | Datganiad Risg |
|---|---|---|
| *SO1: Gwella iechyd a llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol i bawb.* | *LLEIAF BOSIBL*  | *Bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio lleihau effaith tymor byr ar ganlyniadau ansawdd er mwyn cyflawni gwobrau tymor hwy a fydd yn arwain at ofal rhagorol.* |
| *SO2: Targedu ein hadnoddau at y bobl sydd â'r anghenion mwyaf a lleihau anghydraddoldebau* | *GOFALUS*  | *Mae gan y Bwrdd Iechyd barodrwydd agored i dderbyn risg i archwilio atebion arloesol i ofynion staffio yn y dyfodol, y gallu i gadw staff a sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gyflogwr o ddewis.* |
| *SO3: Parchu pobl a'u hurddas* | *GOFALUS*  | *Bydd y Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n rhagweithiol i leihau'r risg mewn perthynas ag arloesedd a syniadau a allai effeithio ar enw da'r sefydliad ond sy'n cael eu cymryd er budd gwell gofal i gleifion a sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau a'n targedau.* |
| *SO4: Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl (unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau) i wella eu llesiant eu hunain* | *GOFALUS*  | *Bydd y Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n rhagweithiol i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â chydweithio a phartneriaethau, ond yn y pen draw bydd hyn yn cynnig budd clir a chanlyniadau gwell i boblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.* |
| *SO5: Gwella diogelwch ac ansawdd yr holl wasanaethau, gan wrando ar bobl a dysgu o'u profiad* | *GOFALUS*  | *Bydd y Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n rhagweithiol i liniaru risgiau sy'n ymwneud â gweithredu seilwaith a systemau digidol i gefnogi gwell canlyniadau a phrofiad i gleifion a'r cyhoedd.* |
| *SO6: Cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd* | *GOFALUS*  | *Bydd y Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n rhagweithiol i leihau risg wrth fynd ar drywydd opsiynau a fydd yn helpu i sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau, gan sicrhau ein bod yn lleihau'r posibilrwydd o golled ariannol ac yn cydymffurfio â gofynion statudol.* |

Good Governance Institute


# Applying risk appetite matrix

| RISK APPETITE LEVEL ▶ / RISK TYPES ▼ | 0 NONE<br>Avoidance of risk is a key organisational objective. | 1 MINIMAL<br>Preference for very safe delivery options that have a low degree of inherent risk and only a limited reward potential. | 2 CAUTIOUS<br>Preference for safe delivery options that have a low degree of residual risk and only a limited reward potential. | 3 OPEN<br>Willing to consider all potential delivery options and choose while also providing an acceptable level of reward. | 4 SEEK<br>Eager to be innovative and to choose options offering higher business rewards (despite greater inherent risk). | 5 SIGNIFICANT<br>Confident in setting high levels of risk appetite because controls, forward scanning and responsive systems are robust. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **FINANCIAL**<br>**How will we use our resources?** | We have no appetite for decisions or actions that may result in financial loss. | We are only willing to accept the possibility of very limited financial risk. | We are prepared to accept the possibility of limited financial risk. However, VFM is our primary concern. | We are prepared to accept some financial risk as long as appropriate controls are in place. We have a holistic understanding of VFM with price not the overriding factor. | We will invest for the best possible return and accept the possibility of increased financial risk. | We will consistently invest for the best possible return for stakeholders, recognising that the potential for substantial gain outweighs inherent risks. |
| **REGULATORY**<br>**How will we be perceived by our regulator?** | We have no appetite for decisions that may compromise compliance with statutory, regulatory of policy requirements. | We will avoid any decisions that may result in heightened regulatory challenge unless absolutely essential. | We are prepared to accept the possibility of limited regulatory challenge. We would seek to understand where similar actions had been successful elsewhere before taking any decision. | We are prepared to accept the possibility of some regulatory challenge as long as we can be reasonably confident we would be able to challenge this successfully. | We are willing to take decisions that will likely result in regulatory intervention if we can justify these and where the potential benefits outweigh the risks. | We are comfortable challenging regulatory practice. We have a significant appetite for challenging the status quo in order to improve outcomes for stakeholders. |
| **QUALITY**<br>**How will we deliver safe services?** | We have no appetite for decisions that may have an uncertain impact on quality outcomes. | We will avoid anything that may impact on quality outcomes unless absolutely essential. We will avoid innovation unless established and proven to be effective in a variety of settings. | Our preference is for risk avoidance. However, if necessary we will take decisions on quality where there is a low degree of inherent risk and the possibility of improved outcomes, and appropriate controls are in place. | We are prepared to accept the possibility of a short-term impact on quality outcomes with potential for longer-term rewards. We support innovation. | We will pursue innovation wherever appropriate. We are willing to take decisions on quality where there may be higher inherent risks but the potential for significant longer-term gains. | We seek to lead the way and will prioritize new innovations, even in emerging fields. We consistently challenge current working practices in order to drive quality improvement. |
| **REPUTATIONAL**<br>**How will we be perceived by the public and our partners?** | We have no appetite for decisions that could lead to additional scrutiny or attention on the organisation. | Our appetite for risk taking is limited to those events where there is no chance of significant repercussions. | We are prepared to accept the possibility of limited reputational risk if appropriate controls are in place to limit any fallout. | We are prepared to accept the possibility of some reputational risk as long as there is the potential for improved outcomes for our stakeholders. | We are willing to take decisions that are likely to bring scrutiny of the organisation. We outwardly promote new ideas and innovations where potential benefits outweigh the risks. | We are comfortable to take decisions that may expose the organisation to significant scrutiny or criticism as long as there is a commensurate opportunity for improved outcomes for our stakeholders. |
| **PEOPLE**<br>**How will we be perceived by the public and our partners?** | We have no appetite for decisions that could have a negative impact on our workforce development, recruitment and retention. Sustainability is our primary interest. | We will avoid all risks relating to our workforce unless absolutely essential. Innovative approaches to workforce recruitment and retention are not a priority and will only be adopted if established and proven to be effective elsewhere. | We are prepared to take limited risks with regards to our workforce. Where attempting to innovate, we would seek to understand where similar actions had been successful elsewhere before taking any decision. | We are prepared to accept the possibility of some workforce risk, as a direct result from innovation as long as there is the potential for improved recruitment and retention, and developmental opportunities for staff. | We will pursue workforce innovation. We are willing to take risks which may have implications for our workforce but could improve the skills and capabilities of our staff. We recognize that innovation is likely to be disruptive in the short term but with the possibility of long term gains. | We seek to lead the way in terms of workforce innovation. We accept that innovation can be disruptive and are happy to use it as a catalyst to drive a positive chan. |

© 2020 GGI Development and Research LLP, London


WWW.GOOD-GOVERNANCE.ORG.UK

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board



# FFRAMWAITH RHEOLI RISG

2023-25



| | |
|---|---|
| Awduron a Theitlau | Phil Meakin<br>Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu<br>Cyswllt<br>Dr Nesta Collingridge<br>Pennaeth Rheoli Risg a Sicrwydd |
| Adran / cyfarwyddwr cyfrifol | Rheoli Risg<br>Carol Shillabeer<br>Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro |
| Fersiwn | Fersiwn 10 |
| Dogfennau i'w darllen ochr yn ochr â'r ddogfen hon: | Gweithdrefnau Rheoli Risg (RM02)<br>Gweithdrefnau Hyfforddiant Rheoli Risg (RM03)<br>Polisi Iechyd a Diogelwch (HS01)<br>Canllawiau Asesu Risg (HS03)<br>Polisi a Gweithdrefn Pryderon (PTR01 a PTR01A)<br>Polisi Llywodraethu Gwybodaeth<br>Polisi Iechyd a Diogelwch<br>Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd SOP<br>Cofrestr Risgiau Corfforaethol SOP<br>Cylch Gorchwyl RMG<br><br>Fframwaith Perfformiad Integredig<br>Fframwaith Cynllunio Integredig |
| Cymeradwywyd gan:<br>Dyddiad cymeradwyo: | |
| Dyddiad gweithredu (byw): | |
| Dyddiad cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: | Medi 2023 (Gwreiddiol 2016) |

GWYBODAETH BERCHNOGOL

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth berchnogol sy'n perthyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Peidiwch â chynhyrchu'r ddogfen gyfan neu unrhyw ran ohoni heb ganiatâd ysgrifenedig gan y Bwrdd Iechyd.

## Tabl Cynnwys


**Rhestr Termau** .....5

**FFRAMWAITH RHEOLI RISG** .....7

Datganiad Fframwaith Risg .....7

**1. Pwrpas y Fframwaith hwn** .....8

**2. Cwmpas y Fframwaith Rheoli Risg** .....8

**3. Parodrwydd y Bwrdd i Dderbyn Risg** .....9

**4. Proses Rheoli Risg** .....9

**Ffigur 1 – Y Broses Rheoli Risg** .....10

**Ffigur 2 – Cyfarfod Rheoli Risg ac Uwchgyfeirio/Isgyfeirio** .....14

**Ffigur 3 – Y Gofrestr Rheoli Risg** .....15

**6. Strategaethau Risg** .....16

**7. Rolau a Chyfrifoldebau** .....18

**8. Monitro Effeithiolrwydd y Fframwaith Rheoli Risg** .....28

**Atodiad 1** .....29

**Parodrwydd i Dderbyn Risg** .....29

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** .....30

**Cyfeiriadau** .....30


DRAFT

## Rhestr Termau

**Risg:** Risg yw'r ansicrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd neu y gallai ddigwydd a fydd yn cael effaith ar gyflawni amcanion a meysydd blaenoriaeth y Bwrdd Iechyd. Mae'n cael ei fesur o ran tebygolrwydd (tebygolrwydd y risg) a chanlyniad (effaith neu faint effaith y risg).

Gwahaniaethu rhwng risg a phroblem: Mae risg yn ddigwyddiad a allai ddigwydd a allai gael effaith (negyddol fel arfer) ar y sefydliad a/neu ei randdeiliaid. Mae ansicrwydd yn nodweddu risg. Mae problem yn rhywbeth sydd eisoes wedi digwydd neu a fydd yn sicr yn digwydd. Mae problem yn rhywbeth sicr, ee os nad oes gennym ddigon o staff ar hyn o bryd neu os nad oes gennym ddigon o arian i ddarparu gwasanaeth, mae'r prinder staff neu'r diffyg arian yn broblemau (gan fod y rhain eisoes yn digwydd) a'r risg fydd goblygiadau'r prinder staff neu'r diffyg arian i gyflawni ein hamcanion gweithredol a strategol yn llwyddiannus. Bydd yr ansicrwydd y gall y rhain eu hachosi yn arwain at y risgiau yn y ddau achos.

**Sicrwydd**: Mae hon yn broses i ddarparu tystiolaeth bod y rheolaethau sydd ar waith yn effeithiol ac yn gweithio a bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud ei orau i leihau a rheoli risgiau'n briodol er mwyn cyflawni ei amcanion gweithredol a strategol.

**Camau Gweithredu**: Camau gweithredu yw'r camau y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd eu rhoi ar waith i leihau'r tebygolrwydd a/neu ganlyniad risg pe bai'n cael ei gwireddu. Camau gweithredu hefyd yw'r pethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu gwneud neu'n bwriadu eu gwneud a fydd yn ein helpu i gyrraedd y sgôr risg darged a thrwy hynny leihau'r risg i lefel oddefadwy a/neu fach iawn neu hyd yn oed ei dileu'n gyfan gwbl.

**Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:** Mae'r Fframwaith yn cynnwys risgiau strategol a allai atal y Bwrdd Iechyd rhag cyflawni ei amcanion strategol.

**Parhad Busnes**: Mae parhad busnes yn rhoi fframwaith i sefydliadau ar gyfer nodi a rheoli risgiau a allai amharu ar wasanaeth arferol. Mae'r broses gyfannol o reoli parhad busnes yn arf hanfodol i sefydlu cadernid sefydliad.

**Rheolaethau:** Mesurau/ymyriadau yw'r rhain a weithredir gan y Bwrdd Iechyd i leihau'r tebygolrwydd o risg a/neu faint/difrifoldeb ei effaith bosibl pe bai'n cael ei gwireddu. Gallai'r effaith amrywio o fod yn un negyddol i un cadarnhaol. Mae rhai mathau o reolaethau a ddefnyddir i leihau risgiau yn cynnwys rheolaethau ataliol, adferol, olrheiniol a chyfarwyddeb.

**Cofrestr Risgiau Corfforaethol:** Mae cofrestr risg gorfforaethol yn storfa a ddefnyddir i gofnodi'r holl risgiau sylweddol a allai effeithio ar amcanion strategol a gweithrediadau'r Bwrdd Iechyd. Mae'r gofrestr yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Mae'n arf allweddol i helpu i gryfhau'r gwaith o oruchwylio a rheoli risg yn rhagweithiol.

**Datix**: Mae Datix yn llwyfan meddalwedd rheoli digwyddiadau a risgiau sydd wedi'i ddylunio i helpu sefydliadau i gofnodi, rheoli ac adrodd ar risgiau.

**Risg Cyfle:** Y math o risg sydd â photensial i wella'r gwaith o gyflawni amcanion y sefydliad. Rheoli risg cyfle yw'r dull sy'n ceisio manteisio i'r eithaf ar fanteision cymryd risgiau, sef arloesi, systemau, prosesau a gweithdrefnau newydd, gwasanaethau ac ati.

DRAFT

**Asesiad Risg:** Dyma'r broses gyffredinol o ddadansoddi risg a gwerthuso risg. Cyflawnir hyn drwy gymharu'r risg unigol ag archwaeth risg y Bwrdd Iechyd. Mae technegau asesu risg yn cynnwys holiaduron a rhestrau gwirio, gweithdai a sesiynau trafod syniadau, ac archwiliadau.

**Parodrwydd i Dderbyn Risg:** Y swm a'r math o risg y mae mudiad yn fodlon ei ddilyn neu ei gadw wrth gyflawni ei amcanion.

**Fframwaith Risg:** Cyfres o weithgareddau sy'n cefnogi'r broses rheoli risg, sef strategaeth, protocolau a phensaernïaeth risg.

**Rheoli Risg:** Gweithgareddau wedi'u cydlynu i gyfarwyddo neu reoli risgiau o fewn sefydliad. Gweithgareddau rheoli yw'r rhain sy'n sicrhau'r canlyniadau mwyaf ffafriol ac yn lleihau anwadalrwydd ac amrywioldeb y canlyniad hwnnw.

**Lliniaru Risg:** Mae hyn yn cyfeirio at y broses o leihau dod i gysylltiad â risg a lleihau ei debygolrwydd a/neu leihau neu wneud ei effaith yn llai difrifol pe bai'n digwydd. Mae mathau o fesurau lliniaru risg yn cynnwys y pum peth canlynol: trin, goddef, terfynu, trosglwyddo neu fanteisio ar gyfleoedd.

**Terfynu:** Yr unig ymateb i rai risgiau yw terfynu'r gweithgaredd sy'n achosi'r risg neu drwy wneud pethau'n wahanol.

**Goddef:** Y penderfyniad i dderbyn y risg a'r effaith pe bai'r risg ganlynol yn digwydd heb gymryd unrhyw gamau pellach i'w liniaru. Mae hyn yn aml er mwyn osgoi buddsoddiad neu adnoddau sylweddol gan y byddai'r ymateb yn anghymesur â'r niwed neu'r budd posibl.

**Trosglwyddo:** Gellir trosglwyddo risgiau, er enghraifft drwy yswiriant confensiynol neu drwy is-gontractio trydydd parti i gymryd y risg. Mae'r opsiwn hwn yn arbennig o addas ar gyfer lliniaru risgiau ariannol neu risgiau i asedau.

**Trin:** Cymryd camau rhagweithiol i leihau a lliniaru'r tebygolrwydd a/neu'r effaith gan ganiatáu ar gyfer lleihau, osgoi risg, trosglwyddo risg o ran cael llai o effaith ar y sefydliad.

DRAFT

## FFRAMWAITH RHEOLI RISG

Datganiad Fframwaith Risg

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio sefydlu diwylliant risg a diogelwch cadarnhaol yn y sefydliad, lle nad yw arferion anniogel (clinigol, rheolaethol, ac ati) yn cael eu goddef a lle mae pob aelod o staff wedi ei ymrwymo a'i rymuso i nodi/cywiro/uwchgyfeirio gwendidau yn y system.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau seilwaith cadarn i reoli risgiau gan sicrhau dull gweithredu integredig, a lle mae risgiau'n crisialu, i ddangos gwelliannau.
- Bwriad y Bwrdd Iechyd yw ***lleihau***'r risg i ddarparu gwasanaethau o ansawdd yn fframweithiau atebolrwydd a chydymffurfio'r Bwrdd Iechyd, sicrhau'r perfformiad ***gorau posibl*** ac mae'n ***agored*** i gyfleoedd gyda chymryd risgiau ystyriol.
- Er mwyn darparu gwasanaethau ***diogel* o ansawdd**, bydd y Bwrdd Iechyd yn annog staff i weithio mewn partneriaeth ar y cyd â'i gilydd a defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i ***leihau***'r risg i'r graddau mwyaf posibl a hyrwyddo llesiant cleifion fel dyletswydd gofal i'r boblogaeth.

Mae'r Bwrdd yn bwriadu dangos ymrwymiad parhaus i wella'r gwaith o reoli risg ar draws y sefydliad drwy:

• Sicrhau dull deinamig o reoli risg strategol i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth, nodau ac amcanion strategol y Bwrdd Iechyd;

• Hyrwyddo cymryd risg ystyriol, o fewn terfynau awdurdodedig a diffiniedig yn unol â pharodrwydd y Bwrdd i dderbyn risg (gweler Atodiad 1 – Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg);

• Mabwysiadu dull integredig o reoli risg er mwyn hwyluso cydweithrediad traws-swyddogaethol o risgiau ar draws y system sy'n cynnwys risgiau sy'n ymwneud â: gofal clinigol, iechyd a diogelwch, llesiant staff, cynllunio ariannol a busnes, cynllunio'r gweithlu, llywodraethu corfforaethol a gwybodaeth, rheoli perfformiad, rheoli prosiectau / rhaglenni, ymchwil a datblygu;

• Gwreiddio systemau a phrosesau rheoli risg effeithiol yn y sefydliad a hyrwyddo'r ethos bod rheoli risg yn fusnes i bawb, gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir;

• Creu amgylchedd sydd mor ddiogel ag sy'n rhesymol ymarferol, drwy sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n dda yn barhaus, hynny yw lle bo'n bosibl, dileu, trosglwyddo neu drin risgiau i lefel dderbyniol;

DRAFT

• Meithrin diwylliant sefydliadol o fod yn agored a pharodrwydd i roi gwybod am risgiau, digwyddiadau a damweiniau a fu bron â digwydd er mwyn sicrhau dysgu ar draws y sefydliad;

• Sefydlu mecanweithiau cyfathrebu clir ac effeithiol sy'n galluogi dealltwriaeth gynhwysfawr o risgiau ar bob lefel o'r sefydliad drwy ddefnyddio cofrestrau risg cyfarwyddiaeth, arbenigol a sefydliadol cyfan; a

•Darparu hyfforddiant priodol i staff i sicrhau bod trefniadau rheoli risg yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol

## 1. Pwrpas y Fframwaith hwn

Mae'r Fframwaith yn ceisio sicrhau:

- bod risgiau'r Bwrdd Iechyd ynglŷn â darparu gwasanaethau (a ddarperir ac a gomisiynir) a gofal i gleifion yn cael eu lleihau i'r eithaf;
- bod llesiant cleifion, staff ac ymwelwyr yn cael ei optimeiddio;
- y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd;
- bod asedau, systemau busnes a chyllid y Bwrdd Iechyd yn cael eu diogelu; a
- gweithredu a rheoli'n barhaus ddull cynhwysfawr, integredig (clinigol ac anghlinigol) o reoli risg ar draws y sefydliad.

## 2. Cwmpas y Fframwaith Rheoli Risg

Mae'r fframwaith hwn yn berthnasol i aelodau'r Bwrdd; holl staff y Bwrdd Iechyd; staff asiantaeth; contractwyr sy'n dod i mewn i wneud gwaith ar ran y Bwrdd Iechyd, er enghraifft gwaith cyfalaf ac ystadau; myfyrwyr; meddygon locwm; gwirfoddolwyr; unigolion sy'n cael eu cyflogi ar gontractau anrhydeddus; a thrydydd partïon eraill sy'n ymwneud â busnes y Bwrdd Iechyd. Mae'n berthnasol i holl weithgareddau'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chomisiynu gwasanaethau. Rhaid i reolwyr ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd gymryd yr awenau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol ac i gefnogi'r gwaith o ddatblygu diwylliant sy'n ymwybodol o risg yn y Bwrdd Iechyd.

Bydd y fframwaith hwn yn:

- Amlinellu'r athroniaeth rheoli risg drwy ein datganiad risg, gan nodi trefniadau ar gyfer gwreiddio rheoli risg;
- Esbonio rôl, disgwyliadau a pharodrwydd y Bwrdd ynglŷn â derbyn risg a rheoli risg;



DRAFT

- Nodi'r rolau a’r cyfrifoldebau lefel uchel ar gyfer gweithredu a chydymffurfio â’r fframwaith hwn;
- Esbonio'r trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol;
- Nodi blaenoriaethau risg ar gyfer y flwyddyn bresennol;
- Rhoi manylion am atebolrwydd strwythur lefel uchel y Pwyllgor ynglŷn â risg, gofynion adrodd mewnol, trefniadau sicrwydd a rheolaethau adrodd allanol;
- Cyfeirio at y polisïau, y gweithdrefnau a’r cylch gorchwyl penodol a bydd y Bwrdd Iechyd yn eu cyhoeddi i sicrhau bod yr holl staff yn deall yr hyn sy’n ofynnol ganddynt.

## 3. Parodrwydd y Bwrdd i Dderbyn Risg

DRAFT

Mae’r Bwrdd yn cydnabod bod risg yn rhan annatod o ddarparu a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, ac felly mae angen dull diffiniedig i gyfleu cyd-destun risg, gan sicrhau bod y sefydliad yn deall ac yn ymwybodol o’r risgiau y mae’n barod i’w derbyn wrth gyflawni ei nodau a’i amcanion.

Bydd risgiau ar draws y sefydliad yn cael eu rheoli o fewn parodrwydd y Bwrdd i dderbyn risg, neu os eir y tu hwnt i hynny, cymerir camau i leihau’r risg. Mae’r Bwrdd yn barod i dderbyn rhai risgiau ariannol a heriau rheoleiddiol os oes rheolaethau a strategaethau amddiffyn priodol ar waith. Mae’r Bwrdd yn cefnogi arloesi er gwaethaf effeithiau ansawdd tymor byr posibl a risgiau i enw da, cyn belled â bod potensial ar gyfer gwobrau tymor hir fel gwell canlyniadau i randdeiliaid a chyfleoedd ar gyfer recriwtio, cadw a datblygu staff. Mae’r Bwrdd yn edrych yn gyfannol ar werth am arian, ac nid pris yw’r unig ffactor sy’n penderfynu.

Mae’r Bwrdd yn chwilio am arloesedd a bydd yn herio arferion gweithio presennol a risg ariannol o ran ei barodrwydd i fanteisio ar gyfleoedd lle gellir rhagweld enillion cadarnhaol. Amlinellir Parodrwydd flynyddol y Bwrdd i dderbyn Risg, sy’n manylu ar lefelau risg derbyniol ar draws pum math o risg (ariannol, rheoleiddiol, ansawdd, enw da a gweithlu), yn Atodiad 1.

## 4. Proses Rheoli Risg

Mae Rheoli Risg yn golygu rhoi polisïau, arferion a gweithdrefnau rheoli ar waith yn systematig er mwyn nodi, dadansoddi, asesu, trin a monitro risg mewn ffordd a fydd yn galluogi sefydliadau i leihau colledion a manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd.


Nid dileu risg yn gyfan gwbl yw nod rheoli risg, ond rheoli risg i lefel dderbyniol, gan ystyried y gost o leihau’r risg a lleihau dod i gysylltiad â risg (lefel y risg y mae’r

sefydliad yn agored iddi, naill ai ynglŷn â risg unigol neu'r cysylltiad cronnus i'r risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu).

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu dull strwythuredig o reoli risg, lle mae risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu a'u rheoli, ac os yw'n briodol, yn cael eu huwchgyfeirio neu eu hisgyfeirio drwy fecanweithiau llywodraethu'r sefydliad. Diffinnir y broses mewn pedwar cam allweddol:

DRAFT

**Ffigur 1 – Y Broses Rheoli Risg**




### 1. Nodi Risg

Ni all y Bwrdd Iechyd reoli risg yn effeithiol oni bai ei fod yn gwybod beth yw'r risgiau. Felly, mae nodi risg yn hanfodol i lwyddiant proses rheoli risg y sefydliad, ac yn y pen draw, darparu gofal yn ddiogel. Dylid gwneud hyn o fewn cyd-destun.

### 2. Dadansoddi Risg a Gwerthuso Risg

Defnyddir asesu a sgorio risg i bennu lefel y risg, gan ddefnyddio matrics risg y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod dull gweithredu cyson yn cael ei fabwysiadu ar draws y sefydliad.

**3. Trin, Cofnodi ac Adrodd**

Triniaeth yw sut bydd y risg yn cael ei rheoli, a beth yw'r camau gofynnol i sicrhau lefel dderbyniol o risg. Mae'r holl risgiau'n cael eu cofnodi ar gofrestr risg Datix, sy'n gofnod ffurfiol o'r holl risgiau a godwyd, sy'n ffurfio'r Gofrestr Risgiau Gweithredol.

**4. Monitro ac Adolygu**

Rhan o reoli risg yw adolygu a diweddaru'n barhaus, a chofnodi'r newidiadau a chynnydd y mesurau lliniaru.

## 5. Pensaernïaeth Risg

Mae'r bensaernïaeth risg menter bresennol yn y Bwrdd Iechyd yn cael ei dangos isod mewn model rheoli risg.

**Lefelau Risg**

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn diffinio tair lefel o risg:

1. Risgiau Strategol – Risgiau sy'n fygythiad i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd neu ei fodolaeth barhaus. Mae risgiau strategol hefyd yn cynnwys risgiau sy'n gyffredin y tu hwnt i'r ardal leol, a risgiau y mae cost y rheolaeth yn sylweddol y tu hwnt i gwmpas deiliad y gyllideb leol.

2. Risgiau Gweithredol – Risgiau sy'n codi o ganlyniad i redeg y Bwrdd Iechyd o ddydd i ddydd ac sy'n cynnwys sbectrwm eang o risgiau sy'n cynnwys risg glinigol (ee sy'n deillio o ddigwyddiadau a chwynion), risg ariannol (gan gynnwys twyll), risgiau cyfreithiol (ee yn deillio o gyfraith cyflogaeth neu reoleiddio iechyd a diogelwch); risg reoleiddiol; risg o golled neu ddifrod i asedau neu fethiannau system; ac ati.

3. Risgiau Prosiect – Risgiau a allai effeithio ar gyflawni rhaglen waith neu brosiect. Rhaid asesu risg pob prosiect o bwys cyn iddynt fynd yn eu blaenau, ac mae'n rhaid i bob prosiect gael cofrestr risg ar wahân.

**Cofrestrau Risg**

Gall Fframweithiau Sicrwydd y Bwrdd, Cofrestrau Risg Corfforaethol a Chofrestrau Risg Gweithredol weithio gyda'i gilydd mewn model rheoli risg integredig:

DRAFT

Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

- Yn canolbwyntio ar y 10 risg strategol uchaf a allai effeithio ar gyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd.
- Yn eiddo i'r Bwrdd ac yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynllun strategol.
- Mae'r risgiau'n adlewyrchu materion allanol a mewnol sy'n effeithio ar y strategaeth.
- Yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan arweinwyr y Bwrdd a'r Weithrediaeth.
- Yn cael ei gynnal gan y tîm risg.

Cofrestr Risgiau Corfforaethol

- Mae'n cyfuno risgiau allweddol sy'n cael eu huwchgyfeirio o'r lefel weithredol ar sail yr effaith bosibl ar amcanion a blaenoriaethau'r Bwrdd. Gall gynnwys 20-50 o risgiau corfforaethol mawr.
- Rhoi barn menter i'r Gweithredwyr am risgiau gweithredol a strategol sylweddol.
- Galluogi adrodd, monitro a goruchwylio risgiau corfforaethol.
- Risg yn llifo i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd fel y bo'n briodol.
- Yn cael ei oruchwylio gan y tîm risg corfforaethol, a'i gynnal ar Datix.

Cofrestrau Risg Weithredol

- Risgiau gweithredol o ddydd i ddydd sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Yn cynnwys risgiau clinigol, ariannol, cydymffurfio, TG ac ati.
- Mae'n orfodol i bob gwasanaeth gael cofrestr ar Datix.
- Arweinwyr Risg y Gwasanaeth neu'r Hyrwyddwyr Risg sy'n gyfrifol am gynnal a rheoli cofrestr risg y gwasanaeth ac uwchgyfeirio risgiau uwch drwy'r Gweithredwyr a'r Tîm Risg Corfforaethol am ymwybyddiaeth a, lle bo'n briodol, ystyriaeth ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Risgiau'r Prosiect

- Arweinydd y prosiect sy'n gyfrifol am sicrhau bod risgiau'n cael eu cofnodi a'u cynnal.
- Mae'n dderbyniol i gofrestr risg y prosiect gael ei chadw'n lleol (nid ar Datix) ond dylid uwchgyfeirio risgiau sylweddol a allai effeithio ar weithrediadau o ddydd i ddydd neu gael effaith ehangach ar y Bwrdd Iechyd i gofrestr risg Datix i ganiatáu ar gyfer trosolwg a chysondeb o ran adrodd.
- Tîm y prosiect yn uwchgyfeirio risgiau uwch drwy'r Tîm Gweithredol a Risg Gorfforaethol er mwyn codi ymwybyddiaeth.



DRAFT

Mae'r model hwn yn darparu cysylltedd o'r brig i lawr a'r gwaelod i fyny er mwyn gallu rheoli risg yn gadarn ar bob lefel ac alinio â strategaeth.

Dylai'r holl staff fod yn ymwybodol o'r potensial i risgiau ddod i'r amlwg a allai effeithio ar fusnes y Bwrdd Iechyd a dylai'r holl staff fod yn barod i nodi ac adrodd ar risgiau fel y bo'n briodol. Pan fydd risg bosibl yn cael ei nodi, dylai staff geisio ei thrafod yn gyntaf gyda'u rheolwr llinell, neu ar gyfer risgiau ar draws PBC sydd wedi'u nodi, dylid hefyd uwchgyfeirio hyn i'r Tîm Risg Corfforaethol a'r Swyddogion Gweithredol. Mae hyn er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion, gan fod risgiau weithiau'n cael eu nodi sydd eisoes yn cael eu rheoli ond sydd efallai wedi cael eu mynegi'n wahanol. Ar ôl cadarnhau bod risg newydd wedi'i nodi, dylid cofnodi'r manylion ar system Datix. Bydd hyn fel arfer yn cael ei gyflawni drwy arweinydd/hyrwyddwr risg gwasanaeth.

Ar ôl ei nodi a'i asesu'n gywir, dylid cofnodi'r risg ar gofrestr risg, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y risg. Lle bo'n bosibl, dylid rheoli risgiau ar y lefel isaf bosibl, sy'n gymesur â lefel y mae'r risg yn dod i gysylltiad â hi.

Dylid anfon y risgiau sy'n cael eu sgorio ≥ 15 at y Cyfarwyddwr Gweithredol i'w codi a'u hystyried ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, os yw'n strategol ei natur.

Risgiau sy'n cael eu sgorio 9>12, Disgwylir i berchnogion risg sicrhau bod prosesau, systemau a threfniadau llywodraethu priodol ar waith i adolygu, craffu a rheoli pob risg yn eu meysydd yn rheolaidd. Bydd gofyn iddynt gyflwyno eu hadroddiadau cofrestr risg Adrannol a'u sicrwydd i'r Grŵp Rheoli Risg o bryd i'w gilydd.

Dylai risgiau sy'n cael sgôr o 1-8 gael eu hadolygu, eu harchwilio, eu cymeradwyo, eu lleihau a'u rheoli'n rheolaidd ar lefel y gwasanaeth neu'r adran, a dylid uwchgyfeirio'r rhai sy'n sgorio'n uwch na 8 yn unol â'r canllawiau a chymeradwyo naill ai'r cyfarfod ansawdd a diogelwch perthnasol a/neu'r triwriaeth.


DRAFT

**Uwchgyfeirio/Isgyfeirio**

Dylid adolygu risgiau'n rheolaidd a'u huwchgyfeirio neu eu hisgyfeirio i'r gofrestr risg briodol yn y Pwyllgor neu gyfarfod yr uwch adran sy'n adolygu'r risg. Cyn cyflwyno risg i Weithrediaeth i'w chymeradwyo, dylai'r Tîm Risg Corfforaethol ei sicrhau o ran ansawdd a chymryd y sicrwydd bod cynlluniau gweithredu cadarn ar waith.


Ar gyfer uwchgyfeirio risg i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, dylai arweinydd risg y gwasanaeth gysylltu â'i Gyfarwyddwr Gweithredol drwy'r sianeli priodol a'r tîm risg corfforaethol drwy ei reolwr risg rhanbarthol.

**Ffigur 2 – Cyfarfod Rheoli Risg ac Uwchgyfeirio/Isgyfeirio**




DRAFT

**Ffigur 3 – Y Gofrestr Rheoli Risg**



## 6. Strategaethau Risg

Er mwyn rheoli risgiau'n effeithiol, bydd ein sefydliad yn defnyddio dull cynhwysfawr ar draws sawl maes. Bydd hyn yn cynnwys mecanweithiau adrodd cadarn i gadw arweinyddiaeth a'r Bwrdd yn ymwybodol o risgiau, defnyddio systemau fel cofrestrau risg i gofnodi ac olrhain risgiau, sicrhau bod gan staff hyfforddiant digonol a chyfrifoldebau clir, gweithredu prosesau rheoli risg safonol, meithrin diwylliant o fod yn agored ynghylch risgiau, a monitro a gwella'n barhaus drwy sicrhau ansawdd. Gyda'i gilydd, bydd y mentrau hyn ar draws prosesau adrodd, systemau, pobl, prosesau, diwylliant a gwelliant yn ein galluogi i ragweld, rheoli a lliniaru'r risgiau sy'n ein hwynebu yn well yn unol â'n gwerthoedd a'n hamcanion strategol.

Adrodd

- Adroddiadau Sicrhau Ansawdd chwarterol i'r Grŵp Rheoli Risg i fonitro metrigau risg a goruchwylio prosesau, cylch gorchwyl a chylch o fusnesau sy'n cefnogi hyn.
- Adroddiad risg corfforaethol bob deufis i'r Tîm Gweithredol/Bwrdd/Pwyllgorau ar gynlluniau gweithredu a diweddariadau ar risg. Cylch gorchwyl a chylch busnes ar gyfer pob risg cymorth fel eitem sefydlog ar yr agenda.
- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd bob chwarter i'w adolygu gan y Bwrdd
- Gwasanaethau i roi sicrwydd i'w cyfarwyddiaethau ynghylch rheoli cofrestr risg y gwasanaeth lleol.

Systemau

- Datix i gofnodi risgiau.
- Bydd blaenoriaethau risg yn dylanwadu ar gynllunio integredig.

Prosesau

- Mae'r broses o ran gweithdrefnau rheoli risg i'w gweld yn RM02 'Gweithdrefnau Rheoli Risg' a thrwy gydol y fframwaith hwn, mae RM03 yn amlinellu 'Gweithdrefnau Hyfforddi Rheoli Risg' a chynlluniau. Prosesau nodi, asesu a thrin risg fel y nodir yn adran 4.
- Prosesau monitro ac adolygu risg, adrodd ar risg a phrosesau uwchgyfeirio.

Diwylliant

- Mae'r naws ddiwylliannol wedi'i nodi yn y datganiad a'r dull o ymdrin â risg yn ogystal â'r ffordd y mae prosesau'n cael eu cyflawni, yn ddeinamig ac yn ddiwyd. Risg wedi'i nodi'n glir fel busnes pawb ac wedi'i gefnogi gan fanylu ar gyfrifoldebau.

Pobl



DRAFT

- Mae cyfrifoldebau rheoli risg yn glir i'r holl staff ac fe'u nodir ymhellach yn adran 7.
- Mae gwybodaeth am brosesau adnabod da a sut i reoli risg yn hanfodol er mwyn gwreiddio a chynnal prosesau rheoli risg effeithiol yn llwyddiannus. I gefnogi hyn, bydd rhaglen o hyfforddiant yn cael ei darparu fel a ganlyn:

| Grŵp Staff | Anghenion Hyfforddi | Amlder |
|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr a Dirprwyon | Hyfforddiant Rheoli Risg Strategol | Bob 2 flynedd |
| Rheolwyr gwasanaeth/Perchnogion Risg/Arweinwyr Risg Gwasanaeth | Hyfforddiant Rheoli Risg Gweithredol Gorfodol | Bob 2 flynedd |
| Holl staff | Ymwybyddiaeth sylfaenol o gynefino corfforaethol yn ogystal â chynnig pwrpasol o hyfforddiant risg wyneb yn wyneb neu ar-lein | Wrth gychwyn a chynnig ad hoc yn ôl yr angen |

Tair Llinell Amddiffyn a Sicrwydd

Mae'r tair llinell amddiffyn yn fodel sy'n cael eu defnyddio'n aml mewn rheoli risg a llywodraethu i egluro rolau a chyfrifoldebau. Mae hyn wedi cael ei rannu'n ddwy ran; un, risgiau gweithredol a dau, ar gyfer risgiau strategol, ac mae adran ar linellau sicrwydd hefyd:

Risgiau Gweithredol (Haen 1-3 Cyfrifoldebau o ran Risgiau):

Y llinell amddiffyn gyntaf – Rheolaeth weithredol: Rheoli risg o ddydd i ddydd gan staff rheng flaen a rheolwyr gweithredol. Maent yn berchen ar risgiau ac yn eu rheoli. Gweithredu rheolaethau, asesu risgiau, rhoi cynlluniau gweithredu ar risg ar waith.

Ail linell amddiffyn - Swyddogaethau goruchwylio: Mae'r Cymunedau Iechyd Integredig/Cyfarwyddiaethau'n goruchwylio ac yn cefnogi swyddogaethau rheng flaen a byddant yn cynnwys cefnogi arbenigwyr pwnc ee tîm risg corfforaethol, cydymffurfio, cyfreithiol, cyllid ac ati. Bydd y Gymuned Iechyd Integredig/Cyfarwyddiaethau'n gofyn am sicrwydd ynghylch camau gweithredu a rheolaethau i liniaru risgiau.

Trydydd llinell amddiffyn – Bydd Swyddogion Gweithredol yn ysgwyddo'r atebolrwydd cyffredinol am eu portffolios ac yn gofyn am sicrwydd ynghylch rheoli

risg cyffredinol, prosesau nodi, lliniaru da a chynlluniau gweithredu. Pan fydd costau'n mynd y tu hwnt i reolaeth deiliad y gyllideb a bod y risgiau'n sylweddol, bydd y Swyddogion Gweithredol yn uwchgyfeirio hyn i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yng Nghyfarfod y Tîm Gweithredol.

Risg Strategol (Risgiau Cofrestr Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd):

Y llinell amddiffyn gyntaf – Rheolaeth weithredol: Swyddogion Gweithredol i berchnogi a rheoli eu risgiau portffolio eu hunain. Sicrhau bod rheolaethau, mesurau lliniaru a chynlluniau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith, gan ddarparu diweddariadau yng Nghyfarfod y Tîm Gweithredol.

Ail linell amddiffyn - Swyddogaethau goruchwylio: Grŵp Rheoli Risg i geisio llywodraethu da ar swyddogaethau rheoli risgiau cyffredinol. Y Pwyllgor Archwilio i geisio sicrwydd ynghylch cynnydd risgiau corfforaethol a strategol.

Y drydedd linell amddiffyn – Y Bwrdd i gael sicrwydd cyffredinol o ran rheoli risg ac ymdrechion lliniaru cadarn.

Ar ben hynny, mae 'tair llinell sicrwydd' hefyd wedi cael eu hamlinellu ynglŷn ag archwiliadau annibynnol a gwrthrychol ac adolygiadau o arferion rheoli risg 'Mae'r tair llinell sicrwydd' yn cynnwys archwilio mewnol/allanol, rheoleiddwyr, adolygiadau cyrff proffesiynol a chraffu. Rhoi sicrwydd i'r uwch reolwyr a'r Bwrdd ynghylch effeithiolrwydd rheoli risg.

Mae'r tair llinell sicrwydd hefyd yn egluro rolau ar gyfer adolygu a goruchwylio:

Y llinell gyntaf o sicrwydd: Adolygiadau gan reolwyr gweithredol

Ail linell sicrwydd: Goruchwylio swyddogaethau rheoli risg/cydymffurfio

Trydydd llinell sicrwydd: Sicrwydd annibynnol gan archwilwyr/rheoleiddwyr

Mae'r model hwn yn strwythuro goruchwyliaeth rheoli risg ar lefelau Gweithredol, Grŵp Rheoli Risg, Pwyllgorau a Byrddau ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

## 7. Rolau a Chyfrifoldebau

Mae rheoli risg yn effeithiol yn gofyn am ddiffiniad clir o rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd ar draws y sefydliad. Mae'r adran hon yn amlinellu'r dyletswyddau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â risg ar gyfer y Bwrdd, Pwyllgorau perthnasol, grwpiau allweddol ac unigolion yn y Bwrdd Iechyd.

**Y Bwrdd:**

Y Bwrdd (Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol) yw'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am strategaeth, perfformiad, llywodraethu, rheoli risg, a sicrhau bod dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni. Mae'r Bwrdd yn atebol am oruchwyliaeth effeithiol yn unol â Deddf y GIG (Cymru) a rheoliadau gofal iechyd eraill.

Bydd y cylch busnes ar gyfer y Bwrdd yn derbyn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd bob chwarter. Mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd i drafod a rhoi cyngor ar gynnwys a chynnydd cynlluniau gweithredu yn y Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae hefyd yn ddyletswydd ar y Bwrdd i fonitro'n briodol risgiau sylweddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a nodir yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, y rheolaethau cysylltiedig ac amlinelliad o'r sicrwydd, yn ogystal â chymryd golwg ar y penderfyniad cyffredinol o oddef risg neu herio'r diffyg cynnydd posibl.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn dilyn egwyddorion llywodraethu da yn gyson; gan sicrhau bod y systemau, y polisïau a'r bobl ar waith i reoli risgiau a'u heffeithiolrwydd. Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar risgiau allweddol ac yn gyrru'r gwaith o gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Mae cael sicrwydd yn dangos goruchwyliaeth dda o ganfod a rheoli risg yn effeithiol; pensaernïaeth risg yn ogystal â diwydrwydd dyladwy gan gynnwys llywodraethu cadarn. Mae'n un o egwyddorion allweddol atebolrwydd.

Bydd y cynlluniau gwaith ar gyfer y Bwrdd a phob un o'i Bwyllgorau yn cyd-fynd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, gan sicrhau ffocws priodol ar feysydd risg. Yng nghyd-destun y Fframwaith hwn, bydd y Bwrdd yn gwneud y pethau canlynol:

- dangos ei ymrwymiad parhaus i reoli risg drwy gymhwyso a dangos diddordeb yn y cydymffurfiad cyffredinol â'r Fframwaith hwn;
- sicrhau, drwy'r Prif Weithredwr, bod y cyfrifoldebau dros reoli risg a amlinellir yn y ddogfen hon yn cael eu cyfleu, eu deall a'u cynnal;
- cymryd rôl ragweithiol o ran 'sganio'r gorwel' ar gyfer bygythiadau/risgiau sy'n dod i'r amlwg i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd, a sicrhau bod rheolaethau'n cael eu rhoi ar waith mewn ymateb, rheoli risgiau i lefel dderbyniol;
- ymrwymo adnoddau ariannol, rheolaethol, technolegol ac addysgol sy'n angenrheidiol i reoli'r risgiau a nodwyd yn ddigonol;
- sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a'u lledaenu'n ymarferol o gwynion, hawliadau a digwyddiadau, a data arall am brofiad cleifion;
- goruchwylio a chymryd rhan yn y broses sicrhau risg;
- dyrannu risgiau strategol i Bwyllgorau i'w goruchwylio;



DRAFT

- sicrhau cyfathrebu â sefydliadau partner ynghylch problemau sy'n peri pryder i'r naill ochr a'r llall, gan gynnwys risgiau;
- sicrhau bod strwythurau priodol ar waith i reoli risg yn effeithiol; a
- derbyn adroddiadau gan Bwyllgorau'r Bwrdd yn unol â chylch gorchwyl a chynlluniau gwaith y pwyllgorau hynny.

**Pwyllgor Archwilio:**

Rhoi sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg, rheolaethau mewnol, adroddiadau ariannol ac archwiliadau mewnol/allanol. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am bwyntiau 1-5 fel y nodir uchod.

Bydd y cylch busnes ar gyfer y Pwyllgor yn derbyn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ei gyfanrwydd bob chwarter. Bydd y Pwyllgor Archwilio, ar ran y Bwrdd, yn gyfrifol am oruchwylio: digonolrwydd a rheolaeth y trefniadau Cofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

**Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth:**

Goruchwylio perfformiad ariannol a gweithredol, llywodraethu gwybodaeth, a chyflawni cynlluniau/targedau. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am bwyntiau 1-5 fel y nodir uchod. Bydd y cylch busnes ar gyfer y Pwyllgor yn derbyn rhan o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd y mae'n atebol amdanynt bob deufis.

**Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau:**

Adolygu ansawdd gofal, materion diogelwch cleifion, effeithiolrwydd clinigol a chanlyniadau, profiad cleifion. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am bwyntiau 1-5 fel y nodir uchod. Bydd y cylch busnes ar gyfer y Pwyllgor yn derbyn rhan o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd y mae'n atebol iddo bob deufis.

**Grŵp Rheoli Risg:**

Mae'r Grŵp Rheoli Risg yn adrodd i'r Tîm Gweithredol ac yn cynghori ar unrhyw faterion rheoli risg, gan gynnwys yr holl risgiau sylweddol sy'n deillio o weithgareddau yn y sefydliad. Mae'r Grŵp yn gyfrifol am arwain y gwaith o weithredu'r prosesau risg, rheoli a sicrwydd a sefydlwyd yn y sefydliad. Bydd y Grŵp

DRAFT

yn adolygu'r prosesau ac yn adrodd ar unrhyw wendidau a nodwyd i sicrhau bod gan y Bwrdd systemau effeithiol ar waith ar gyfer adrodd ar risg, a rheoli cofrestrau risg (lleol, cyfarwyddiaeth a chorfforaethol) a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Yn benodol, mae'r Grŵp yn gyfrifol am y canlynol:

• Cydlynu'r gwaith o gyflawni amcanion y Fframwaith Rheoli Risg drwy gyfarwyddiaethau'r sefydliad, drwy wreiddio rheoli risg a sefydlu gweithdrefnau adrodd ar risg lleol i sicrhau rheolaeth integredig effeithiol o risg a sicrwydd;

• Cydlynu'r holl faterion rheoli risg clinigol ac anghlinigol sy'n effeithio ar y Bwrdd Iechyd (sgôr 12 ac uwch), gan wneud argymhellion i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd a'u cynghori yn unol â hynny;

• Adolygu, diweddaru a monitro'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a chynnal cysylltiadau clir â'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;

• Argymell uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau o/i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol i'w cymeradwyo gan y Tîm Gweithredol, gan sicrhau bod risgiau sylweddol yn cael eu blaenoriaethu'n briodol;

• Adolygu risgiau sylweddol arfaethedig gan arweinwyr risg, gan uwchgyfeirio i'r Pwyllgor Gweithredol i'w cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol lle bo hynny'n briodol;

• Adolygu risgiau sy'n deillio o ganlyniadau ymchwiliadau i golledion, digwyddiadau anffodus, damweiniau a fu bron â digwydd a damweiniau;

• Adolygu argymhellion risg uchel a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, gan sicrhau, lle bo'n briodol, eu bod yn cael eu gweithredu a'u cofnodi drwy gofrestrau risg a'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn briodol.

### Cyfarfod y Tîm Gweithredol

Y tîm Gweithredol yw'r arweinwyr atebol ar gyfer pob un o'r risgiau corfforaethol ac maent yn cefnogi'r adolygiad rheolaidd o'r gofrestr, gan nodi unrhyw risgiau ar gyfer uwchgyfeirio a isgyfeirio. Bydd swyddogion gweithredol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â lliniaru a rheoli'r risgiau y maent yn atebol amdanynt.

## 7.1 Cyfrifoldebau Unigol



DRAFT

Mae gan bob aelod o staff, a'r rheini sy'n gweithio ar ran y Bwrdd Iechyd, gyfrifoldeb unigol dros reoli risg. Rhaid iddynt ddeall a chadw at y Fframwaith Rheoli Risg hwn. Mae gan yr unigolion canlynol gyfrifoldeb, atebolrwydd ac awdurdod penodol dros reoli risg, fel rhan o'u rolau presennol:

**Prif Weithredwr**

Y Prif Swyddog Gweithredol yw Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd ac mae ganddo atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau ei fod yn bodloni gofynion statudol a gofynion cyfreithiol eraill, ac yn cadw at y canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â Llywodraethu. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys rheoli risg; iechyd a diogelwch; rheolaethau ariannol a sefydliadol; a llywodraethu. Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol gyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am y canlynol:

• sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal Fframwaith Rheoli Risg cyfredol a gymeradwywyd gan y Bwrdd;

• hyrwyddo diwylliant o reoli risg ar draws y Bwrdd Iechyd;

• sicrhau bod fframwaith ar waith, sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynglŷn â rheoli risg a rheolaeth fewnol;

• sicrhau bod materion risg yn cael eu hystyried ar bob lefel o gynllunio busnes, o'r broses gorfforaethol i osod amcanion staff;

• nodi eu hymrwymiad i'r egwyddorion rheoli risg, sy'n ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y Prif Weithredwr yn llofnodi Datganiad Llywodraethu bob blwyddyn ar ran y Bwrdd. Mae hwn yn amlinellu sut mae risgiau'n cael eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli, ynghyd â chadarnhad bod effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi cael ei adolygu.

**Cyfarwyddwyr Gweithredol**

Cyfarwyddwyr Gweithredol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risgiau'n weithredol yn eu Cyfarwyddiaethau a nhw yw'r uwch swyddog cyfrifol a enwir ar gyfer risgiau unigol ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Maent hefyd yn gyfrifol am ddyrannu adnoddau'n effeithiol i leihau risgiau'n amserol o fewn eu cylch gwaith, gan sicrhau uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau'n brydlon lle bo hynny'n briodol. Byddant hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gan uwch reolwyr o dan eu portffolio systemau a phrosesau rheoli risg effeithiol ar waith yn eu

cyfarwyddiaethau, uwch adrannau, safleoedd a gwasanaethau i ddangos bod yr holl risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu, eu lliniaru a'u rheoli'n gadarn.

Maent yn gyfrifol am sicrhau bod arferion gorau o ran rheoli risg a diwylliant cadarnhaol sy'n ymwybodol o risg wedi'u gwreiddio'n llawn yn eu portffolio. Bydd swyddogion gweithredol yn gweithio gyda'r tîm rheoli risg i sicrhau bod y Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael eu defnyddio'n briodol.

Mae gan swyddogion gweithredol rôl ganolog wrth bennu'r naws ddiwylliannol ddisgwyliedig, un sy'n gadarnhaol ac sy'n annog adnabod, nid yw risg i'w hystyried yn negyddol nac i'w hosgoi. Bydd Cyfarwyddwyr y Gweithredwyr yn gwneud hynny drwy sicrhau bod cyfathrebu'n agored ac yn dryloyw lle mae gan yr holl staff yr hyder i godi risg. Bydd swyddogion gweithredol yn gofyn am sicrwydd bod presenoldeb da yn yr hyfforddiant risg ar gyfer eu rhanbarthau a'u hadrannau. Ymwybyddiaeth dda o risg, ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau, rheoli cynlluniau gweithredu yn amserol, ac ymdeimlad o atebolrwydd. Bydd swyddogion gweithredol yn ceisio sicrhau bod cofrestrau risg priodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, bod cynlluniau gweithredu'n cael eu rheoli'n dda, eu bod yn cael eu cyfathrebu'n dda a bod camau gweithredu sydd â blociau yn cael eu huwchgyfeirio'n brydlon. Disgwylir i gofrestrau fod yn hyblyg ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth. Bydd swyddogion gweithredol yn meithrin diwylliant o welliant parhaus gan gefnogi timau i ymgysylltu â'r grŵp *Better by Betsi*, cymuned o welliant parhaus, gan wella arloesedd drwy nodi risg a strategaethau lliniaru ar gyfer eu gwasanaeth. Bydd y swyddogion gweithredol yn mynd ati'n rhagweithiol i fynd i'r afael â risgiau twyll.

Yn ogystal, mae gan Gyfarwyddwyr Gweithredol Clinigol (Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd, a Chyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd) gyfrifoldeb ar y cyd am lywodraethu ansawdd clinigol, a fydd yn cynnwys diogelwch cleifion, rheoli digwyddiadau a phrofiad cleifion, ac felly bydd ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau bod risgiau clinigol yn cael eu rheoli'n briodol yn unol â'r Fframwaith hwn.

**Ysgrifennydd y Bwrdd / Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol**

Ysgrifennydd y Bwrdd yw'r arweinydd dirprwyedig ar gyfer rheoli risg yn y Bwrdd Iechyd, ac mae'n atebol am arwain y gwaith o ddylunio, datblygu a gweithredu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a Fframwaith Rheoli Risg integredig.

Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn gwneud y canlynol:

• arwain y gwaith o wreiddio diwylliant rheoli risg effeithiol ar draws y Bwrdd Iechyd;

• gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd; y Prif Weithredwr; Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio; a Chyfarwyddwyr Gweithredol, i weithredu a chynnal Fframwaith Rheoli Risg priodol a phrosesau cysylltiedig, gan sicrhau bod systemau llywodraethu effeithiol ar waith;

• datblygu a chyfleu ymwybyddiaeth, goddefgarwch a pharodrwydd i dderbyn risg y Bwrdd;

• arwain a chymryd rhan mewn goruchwyliaeth rheoli risg ar y lefel uchaf, gan ymdrin â'r holl risgiau ar draws y sefydliad ar sail Bwrdd Iechyd;

• arwain datblygiad parhaus y Grŵp Rheoli Risg (a sefydlwyd gan y Tîm Gweithredol).

**Pennaeth Rheoli Risg a Sicrwydd**

Mae'r Pennaeth Risg a Sicrwydd yn atebol i Ysgrifennydd y Bwrdd, ac o ran rheoli risg bydd yn gwneud y pethau canlynol yn benodol:

• darparu cyngor arbenigol ynglŷn â rheolaethau a sicrwydd ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau ar bob lefel yn y sefydliad i gefnogi'r gwaith o reoli risg a llywodraethu clinigol ac anghlinigol yn effeithiol;

• sicrhau bod system ganolog ar waith i gasglu cofrestri risg ar draws y Bwrdd Iechyd, sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;

• cefnogi'r gwaith o reoli a datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Fframwaith Rheoli Risg;

• gweithio gyda chyfarwyddiaethau a Phenaethiaid Gwasanaeth i sicrhau bod risgiau'n cael eu huwchgyfeirio yn unol â'r Fframwaith Rheoli Risg;

• llunio'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ar gyfer y Bwrdd;

• cefnogi datblygiad a gweithrediad y Grŵp Risg a Sicrwydd; a

• darparu hyfforddiant, gwybodaeth a chyngor i staff gweithredol a swyddogaethau corfforaethol ar reoli risg a chofrestrau risg, gan sicrhau cysylltiad â Fframwaith sicrwydd y Bwrdd.

**Tîm Risg Corfforaethol**

Bydd y tîm rheoli risg corfforaethol yn hwyluso ac yn sicrhau bod arferion rheoli risg effeithiol ar waith ledled y sefydliad. Bydd y tîm yn cefnogi'r gwaith o uwchgyfeirio

risgiau'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Bydd y tîm rheoli risg yn cefnogi gwasanaethau drwy ddilysu cofrestrau risg, gan gynnwys digonolrwydd y disgrifiadau risg, y rheolaethau, y sicrwydd a'r cyfiawnhad dros y sgoriau risg ac yn arwain ar sicrwydd cydymffurfio ar draws PBC.

Byddant yn cynghori pob cydweithiwr a Chyfarwyddwr Gweithredol i reoli eu risgiau. Bydd y tîm risg yn arwain y gwaith o ddatblygu gweithdrefnau fel sy'n ofynnol o dan y fframwaith hwn. Byddant yn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff sydd â chyfrifoldebau o dan y polisi hwn. Byddant yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol y modiwl risg yn Datix.

## Uwch Reolwyr

Bydd uwch reolwyr yn arwain y gwaith o reoli risg yn eu uwch adrannau, eu safleoedd a'u hardaloedd ac yn gosod yr esiampl drwy arweinyddiaeth weladwy ac enghreifftiol.

Maent hefyd yn gyfrifol am gefnogi'r gwaith o ddyrannu adnoddau'n effeithiol wrth reoli, uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau gweithredol a strategol o fewn eu cylch gwaith. Bydd arweinydd y gwasanaeth risg a'r tîm risg yn gweithio gydag uwch reolwyr i sicrhau bod risgiau'n cael eu mynegi'n briodol a'u disgrifio yn unol â gweithdrefnau a bydd yn cefnogi dysgu ar draws y sefydliad ymhellach.

Bydd y tîm rheoli risg yn cynnig her a chefnogaeth iach i'r risgiau hynny nad oes ganddynt gamau gweithredu na chynlluniau gweithredu digonol ac nad ydynt wedi symud ymlaen yn brydlon gyda llwybr at uwchgyfeirio i'r Gweithredwyr. Bydd yr uwch reolwr yn rhoi sicrwydd rheolaidd i'r Swyddogion Gweithredol ynghylch rheoli cofrestrau risg yn effeithiol.

## Arweinwyr Risg Gwasanaeth

Mae'n ofynnol i wasanaethau enwebu arweinydd/hyrwyddwr risg ar ran y gwasanaeth i sicrhau bod y gofrestr risg yn cael ei chynnal yn dda a bod risg yn cael ei hyrwyddo drwy gydol y gwasanaeth gan hwyluso prosesau adnabod da. Bydd arweinwyr risg y gwasanaeth yn cefnogi rheolaeth weithredol eu cofrestr risg gwasanaeth ac yn cysylltu â'r tîm rheoli risg ynghylch uwchgyfeirio neu isgyfeirio a byddant yn gweithio ar unrhyw adborth ynghylch sicrhau ansawdd y gofrestr risg. Bydd rheolwyr gwasanaeth ac arweinwyr risg gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod gweithgareddau a chynlluniau gweithredu o fewn risgiau yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Bydd yr holl arweinwyr a hyrwyddwyr yn cael hyfforddiant rheoli risg rheolaidd.

## Holl Staff

Mae'n ofynnol i'r holl staff, gan gynnwys cydweithwyr Undebau Llafur a chontractwyr, gydymffurfio â'r Fframwaith Rheoli Risg hwn, codi unrhyw faterion sy'n peri pryder i sylw eu rheolwr llinell a lleihau a rheoli risgiau'n briodol hyd eithaf eu gwybodaeth a'u gallu. Rhaid i reolaethau a chamau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith ynglŷn â risgiau lliniaru gael eu dosbarthu'n amserol i'r holl staff sy'n ymwneud â rheoli'r risg. Disgwylir i'r holl staff rannu gwybodaeth am unrhyw risgiau posibl gyda chontractwyr sy'n darparu gwasanaethau yn y Bwrdd Iechyd ac ar ei ran. Cyfrifoldeb holl staff y Bwrdd Iechyd yw risg; yn ogystal â staff asiantaeth; contractwyr sy'n dod i mewn i wneud gwaith ar ran y Bwrdd Iechyd, er enghraifft gwaith cyfalaf ac ystadau; myfyrwyr; meddygon locwm; gwirfoddolwyr; unigolion sy'n cael eu cyflogi ar gontractau anrhydeddus; a thrydydd partïon eraill sy'n ymwneud â busnes y Bwrdd Iechyd.

**Aelodau Annibynnol**

Mae gan Aelodau Annibynnol rôl bwysig o ran rheoli risg wrth geisio sicrwydd ynghylch cadernid prosesau ac effeithiolrwydd rheolaethau drwy her adeiladol, gadarn, gadarnhaol ac effeithiol i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r uwch reolwyr. Disgwylir i Reolwyr Ymchwiliadau fodloni eu hunain bod trefniadau rheoli risg y Bwrdd Iechyd yn effeithiol, yn effeithlon ac yn addas i'r diben. Bydd Aelodau Annibynnol yn cynnig her iach i'r risgiau hynny nad ydynt yn cael eu trin yn brydlon; y penderfyniad cyffredinol i oddef y risg a/neu'r gynghrair risgiau i amcanion y Bwrdd Iechyd.

Bydd yr Aelodau yn herio penderfyniadau cyffredinol y Bwrdd gan sicrhau bod hyn o fewn archwaeth risg y Bwrdd. Yn ogystal, dylai'r Aelodau sy'n cadeirio Pwyllgorau'r Bwrdd ac yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor perthnasol gael a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod risgiau o fewn ei gylch gwaith yn cael eu rheoli'n effeithiol gan y perchnogion risg ac adrodd ar unrhyw feysydd sy'n peri pryder i'r Bwrdd. Dylai Aelodau geisio sicrwydd wrth sicrhau diwylliant o risg sy'n cael ei fesur.

**Archwilio Mewnol**

Mae'r berthynas rhwng rheoli risg ac Archwilio Mewnol yn hollbwysig. Mae rheoli risg yn ymwneud ag asesu risg a nodi rheolaethau presennol ac ychwanegol, ond rôl yr Archwilydd Mewnol yw gwerthuso'r rheolaethau hyn a phrofi eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd. Gwneir hyn drwy raglen waith yr Archwiliad Mewnol. Yn unol a hynny, bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn:

a. Rhoi barn gyffredinol bob blwyddyn i'r Swyddog Atebol am reoli, rheoli a llywodraethu risg y sefydliad; i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol;

b. Canolbwyntio'r gwaith archwilio mewnol ar y risgiau sylweddol a nodwyd gan y rheolwyr, ac archwilio'r prosesau rheoli risg ar draws y sefydliad;

c. Archwilio rheolaeth, llywodraethu a rheoli risg y sefydliad drwy gynlluniau archwilio gweithredol, mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth addas i amcanion a risgiau'r sefydliad;

d. Rhoi sicrwydd ynghylch rheoli risg a gwella prosesau rheoli, llywodraethu a rheoli risg y sefydliad; drwy gynnig argymhellion i reolwyr llinell sy'n deillio o waith archwilio.

**Gwasanaethau Atal Twyll Lleol**

Mae Arbenigwr Atal Twyll Lleol enwebedig y Bwrdd Iechyd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch risgiau sy'n ymwneud â thwyll a/neu lygredd. Mae Cynllun Gwaith Atal Twyll Blynyddol y Bwrdd Iechyd, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, yn nodi'r trefniadau ar gyfer rheoli a lliniaru risgiau o ganlyniad i dwyll a/neu lygredd. Pan fydd materion o'r fath yn cael eu nodi, byddant yn cael eu hymchwilio gan yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol, ac yna'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio fel y bo'n briodol. Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Ysgrifennydd y Bwrdd i adolygu unrhyw risgiau o dwyll neu lygredd. Mae risgiau o'r fath yn cael eu cyfeirio at y gofrestr risg berthnasol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth dan sylw, ac yna'n cael eu huwchgyfeirio drwy broses uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd. Mae'r tîm Gweithredol yn cydnabod bod twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn peri risgiau sylweddol sy'n galw am reoli rhagweithiol. Er mwyn diogelu buddiannau ein rhanddeiliaid, gweithredu'n foesegol, a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau atal twyll, rydym yn ymrwymo i fynd ati'n rhagweithiol i nodi risgiau twyll a gwendidau ar draws gweithrediadau'r Bwrdd Iechyd drwy archwiliadau, adolygiadau o gwynion a honiadau, ac asesiadau risg. Fel mater o drefn, asesu newidiadau a allai effeithio ar ddod i gysylltiad â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Mae hyn hefyd yn cynnwys rheolaethau effeithiol wedi'u teilwra i'r meysydd risg uchaf a nodwyd. Mae hyn yn cynnwys rheolaethau ariannol clir, diwydrwydd dyladwy i ymchwilio ac ymateb, hyfforddiant, a sicrhau sianeli cadarn ar gyfer rhoi gwybod am bryderon.

**Swyddog Risg Gwybodaeth Uwch**

Bydd y Bwrdd yn enwebu Cyfarwyddwr Gweithredol fel yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth gyda chyfrifoldeb dirprwyedig gan y Prif Weithredwr dros sicrhau bod risgiau gwybodaeth yn cael eu trin fel blaenoriaeth ar gyfer canlyniadau busnes.

## 8. Monitro Effeithiolrwydd y Fframwaith Rheoli Risg

Mae cydymffurfiad â'r Fframwaith hwn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei lofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredol ac mae'n nodi'r dull sefydliadol o reoli mewnol. Cynhyrchir hwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a chaiff ei graffu fel rhan o'r broses cyfrifon blynyddol a'i gyflwyno i'r Bwrdd gyda'r cyfrifon, fel rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd Blynyddol. Bydd y Tîm Risg Corfforaethol a'r Grŵp Rheoli Risg yn arwain y gwaith o geisio sicrwydd ac yn rhoi trosolwg i'r Pwyllgorau a'r Bwrdd o effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd. Bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn nodi barn ynghyd â chanlyniadau cryno'r gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae trefniadau rheoli risg y Bwrdd Iechyd hefyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol, fel rhan o broses Asesu Strwythuredig Archwilio Cymru. Mae'r fframwaith rheoli risg yn defnyddio safonau ymarfer gorau ISO31000, cyfarwyddyd polisi a deddfwriaethol megis Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999. Mae'r Bwrdd Iechyd yn deall bod risg yn rhan annatod o bob busnes ac mae wedi ymrwymo i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r 'Gweithdrefnau Rheoli Risg' (RM02) a'r 'Gweithdrefnau Hyfforddiant Risg' (RM03) sy'n cefnogi'r Fframwaith hwn ac sy'n amlinellu'r holl ofynion gweithdrefnol ar gyfer rheoli risg yn weithredol drwy uwchgyfeirio.

DRAFT

## Atodiad 1

**Parodrwydd i Dderbyn Risg**

Mae'r Bwrdd yn gosod ei archwaeth risg mewn sesiwn ddatblygu ar 24 Awst 2023 ac mae'n destun adolygiad blynyddol. Roedd y sesiwn parodrwydd yn cyfeirio at Fatrics Parodrwydd i Dderbyn Risg Good Governance Institute (2018) ar gyfer mathau o risg er mwyn sgorio parodrwydd.

Roedd allbwn y sesiwn yn manylu ar y parodrwydd ar draws pum math o risg:

Risgiau Ariannol: Roedd consensws y cytunwyd arno ynghylch parodrwydd '**agored**' i dderbyn rhywfaint o risg ariannol ynglŷn ag achosion busnes a buddsoddi sy'n caniatáu ar gyfer arloesi, ond gyda rheolaethau cadarn, cydbwyso gwerth am arian ac nid pris yw'r prif ffactor. Roedd consensws y cytunwyd arno ynghylch parodrwydd 'gofalus' i dderbyn llai o risg ariannol ynglŷn â rheolaeth ariannol, cyllidebau a gwariant cyfredol, gan dderbyn llai o risg a'r angen cryf i sicrhau gwerth am arian.

Risg Reoleiddiol: Roedd consensws y cytunwyd arno yn cefnogi parodrwydd risg '**agored**' i dderbyn y posibilrwydd o rywfaint o her reoleiddio cyn belled â'n bod yn gallu bod yn weddol hyderus y byddem yn gallu herio hyn yn llwyddiannus.

Risg Ansawdd: Roedd parodrwydd i fod yn '**agored**' a derbyn y posibilrwydd o effaith tymor byr ar ganlyniadau ansawdd gyda photensial ar gyfer gwobrau tymor hirach, gan gefnogi arloesedd.

Risgiau o ran Enw Da: Roedd consensws y cytunwyd arno i '**geisio**' rhai risgiau i enw da ac yn fodlon gwneud penderfyniadau sy'n debygol o arwain at graffu ar y sefydliad. Rydym yn hyrwyddo syniadau ac arloesedd newydd yn allanol lle mae'r manteision posibl yn drech na'r risgiau.

Risg Pobl: Roedd consensws y cytunwyd arno i '**geisio**' a byddwn yn mynd ar drywydd arloesi yn y gweithlu ac yn barod i gymryd risgiau a allai fod â goblygiadau i'n gweithlu ond a allai wella sgiliau a galluoedd ein staff. Rydym yn cydnabod bod arloesi'n debygol o darfu yn y tymor byr ond gyda'r posibilrwydd o enillion hirdymor.

DRAFT

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar weithredu'r fframwaith a'r polisi hwn i sicrhau ei fod yn gynhwysol ac nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw nodweddion gwarchodedig. Mae'r asesiad wedi tynnu sylw at bryder ynghylch yr effaith ar gydraddoldeb o ran argaeledd y dogfennau mewn fformat i fynd i'r afael ag unrhyw anableddau nam ar y golwg. Bydd camau gweithredu cadarnhaol gan gynnwys cymorth a'r gallu i drawsgrifio'r ddogfen yn cael eu darparu i gefnogi unigolion a'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei gyfrifoldebau'n gadarnhaol o dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol

**Cyfeiriadau**


AS/NCS ISO 31000:2018 (2018) Canllawiau Rheoli Risg. Cyhoeddiad BSI.

Deddf Llwgrwobrwyo 2010. (c.23). Llundain: Y Llyfrfa.

Swyddfa'r Cabinet. (2013). Safon Swyddogaethol GovS013: Gwrth-dwyll. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/counter-fraud-standards

Pwyllgor Sefydliadau Noddi Comisiwn Treadway (2017) Guidance on Enterprise Risk Management – Integrating with Strategy and Performance. Ar gael yn: https://www.coso.org/enterprise-risk-management

Deddf Cyllid Troseddol 2017. (c.22). Llundain: Y Llyfrfa.

Deloitte (2015) Enterprise Risk Management – A risk-intelligent approach. Cyhoeddiad Ymgynghorol Deloitte.

Good Governance Institute (2018) Matrics Parodrwydd i Dderbyn Risg https://www.good-governance.org.uk/wp-content/uploads/2020/05/GGI/Risk Ask A SP19-version3.pdf

Deddf Twyll 2006. (c.35). Llundain: Y Llyfrfa.

Trysorlys EF (2020) The Orange Book: Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau.

IRM (2011) Papur Parodrwydd i Dderbyn Risg a Chanllawiau Goddefgarwch.

Academi Arweinyddiaeth y GIG (2013) The Healthy NHS Board 2013 – Principles for Good Governance. Ar gael yn: www.leadershipacademy.nhs.uk

Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. (c.23). Llundain: Y Llyfrfa.

WHC (2000)13 – Llywodraethu Corfforaethol yn y GIG yng Nghymru: rheoli risg a rheolaeth sefydliadol.


Wedi cynnwys adolygiad bwrdd gwaith o Fframweithiau Risg Byrddau Iechyd Cymru



DRAFT

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

I AR GYDRADDOLDEB

**RHANNAU A (Sgrinio – Ffurflenni 1-4) a**

**B (Y Prif Ganfyddiadau a Chamau Gweithredu - Ffurflen 5)**

| | |
|---|---|
| Ar gyfer: | RM01 – Fframwaith Rheoli Risg |
| Dyddiad llenwi'r ffurflen: | Cafodd ei llenwi'n wreiddiol ar 02/09/2021<br>Cafodd ei hadolygu gan roi mân ddiwygiadau ym mis Medi 2023 |

## RHANNAU A: SGRINIO a B: Y PRIF GANFYDDIADAU A CHAMAU GWEITHREDU

**Cyflwyniad:**

Mae'r ffurflenni hyn wedi'u cynllunio i'ch galluogi i gofnodi, a darparu tystiolaeth o sut rydych chi wedi ystyried anghenion pawb (gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr, a'n staff) y gallai'r hyn rydych chi'n ei ysgrifennu neu'n ei gynnig effeithio arnynt, boed hynny yn:

- bolisi, protocol, canllaw neu ddogfen reoli ysgrifenedig arall;
- strategaeth neu ddogfen gynllunio arall er enghraifft, eich cynllun gweithredu blynyddol;
- unrhyw newid yn y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau er enghraifft, adolygiad gwasanaeth;
- penderfyniad sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r uchod er enghraifft, comisiynu gwasanaeth newydd neu ddatgomisiynu gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli.

Cofiwch, defnyddir y term 'polisi' mewn ystyr eang iawn i gynnwys "..pob ffordd y mae sefydliad yn cyflawni ei fusnes" felly gall gynnwys unrhyw un neu bob un o'r uchod.

**Asesu Effaith**

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer eich asesiad o effaith, dylid ystyried y cwestiynau isod.

Dylech hefyd fod yn barod i ystyried a oes effeithiau posibl ar is-adrannau gwahanol grwpiau nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, wrth ystyried anabledd, bydd gan rywun â nam ar ei olwg brofiad cwbl wahanol i berson sydd â phroblem iechyd meddwl.

Mae'n cael ei gydnabod fwyfwy bod gwahaniaethu'n gallu digwydd ar fwy nag un sail. Mae gan bobl sawl hunaniaeth; mae gan bob un ohonom oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, system gred ac ethnigrwydd; mae gan lawer o bobl grefydd a / neu nam hefyd. Bydd profiad menywod du, a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu, yn wahanol i'r rhai y mae menywod gwyn yn eu hwynebu. Ni ellir gwahanu elfennau hunaniaeth am nad ydynt yn cael eu profi ar wahân. Meddyliwch am y canlynol:-

- ✓ Sut mae eich polisi neu gynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â nodweddion gwarchodedig (gweler y Dyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol)?
- ✓ Beth yw'r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a'r rheini sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel, a sut byddwch chi'n rhoi pethau ar waith i leihau neu i ddileu'r rhain?
- ✓ Pa rwystrau, os o gwbl, y mae pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu o ganlyniad i'ch polisi neu'ch cynnig? Oes modd lleihau neu gael gwared ar y rhwystrau hyn?

- ✓ Dylech ystyried rhannu eich Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn ehangach o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) (a thu hwnt), er enghraifft, gofyn i gydweithwyr ystyried effeithiau anfwriadol.
- ✓ Sut rydych chi/byddwch chi’n defnyddio’r wybodaeth rydych chi wedi’i chael o unrhyw ymchwil neu ffynonellau eraill i nodi effeithiau posibl (cadarnhaol neu negyddol)?

# Rhan A

## Ffurflen 1: Paratoi

**Atebwch bob cwestiwn**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Beth rydych chi'n ei asesu, hynny yw, beth yw teitl y ddogfen rydych chi'n ei hysgrifennu neu'r adolygiad gwasanaeth rydych chi'n ei gynnal? | RM01 – Fframwaith Rheoli Risg |
| 2. | Rhowch ddisgrifiad byr, gan gynnwys nodau ac amcanion yr hyn rydych chi'n ei asesu. | Nod y Bwrdd Iechyd yw darparu fframwaith strwythuredig, cynhwysfawr a chydlynol i gefnogi staff i nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n deillio o'i weithgareddau busnes, gan fod rheoli risgiau'n effeithiol yn rhan gynhenid o'i ddull o ddysgu, gwella a llywodraethu'n barhaus. Mae RM01 – Fframwaith Rheoli Risg yn rhoi arweiniad ar gyfer rheoli risgiau gweithredol a strategol yn gyson, fel ysgogwyr ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell a darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n bersonol ac yn canolbwyntio ar y claf, a chynnig profiad gwell. |
| 3. | Pwy sy'n gyfrifol am beth bynnag rydych chi'n ei asesu – hynny yw, pwy sydd â'r awdurdod i gytuno neu gymeradwyo unrhyw newidiadau rydych chi'n eu nodi sy'n angenrheidiol? | Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd |
| 4. | A yw'r Polisi'n gysylltiedig â Pholisïau neu feysydd gwaith eraill, neu'n cael eu dylanwadu ganddyn nhw? | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd<br>Gweithdrefnau Rheoli Risg (RM02)<br>Polisi Iechyd a Diogelwch (HS01)<br>Canllawiau Asesu Risg (HS03)<br>Polisi a Gweithdrefn Pryderon (PTR01 a PTR01A)<br>Polisi Llywodraethu Gwybodaeth<br>Polisi Iechyd a Diogelwch<br>Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd SOP<br>Cofrestr Risgiau Corfforaethol SOP |

# Rhan A

## Ffurflen 1: Paratoi

Atebwch bob cwestiwn

| | | |
|---|---|---|
| 5. | Pwy yw'r Rhanddeiliaid allweddol, hynny yw, ar bwy y bydd eich dogfen neu eich cynigion yn effeithio? A gytunwyd ar gynllun ar gyfer ymgysylltu? | Pob gweithiwr gan gynnwys aelodau'r Bwrdd. |
| 6. | Beth allai helpu neu lesteirio llwyddiant yr hyn rydych chi'n ei wneud, er enghraifft, cyfathrebu, hyfforddiant ac ati? | Mae'r Tîm Risg Corfforaethol yn lansio hyfforddiant risg gorfodol a fydd yn cael ei ddiweddaru ac a fydd yn adlewyrchu'r fframwaith newydd. Ond mae risg o oedi gan fod y modiwl risg yn cael ei lunio gan dîm cenedlaethol Cofnod Staff Electronig. Bydd y Bwrdd (Aelodau Gweithredol ac Annibynnol) yn cael hyfforddiant risg wedi'i ddiweddaru sy'n adlewyrchu'r fframwaith newydd. Bydd gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod yr holl gyfarwyddwyr ac uwch reolwyr yn cael hyfforddiant rheoli risg strategol. Bydd hyfforddi a gwreiddio yn cymryd amser i sicrhau bod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant risg diweddaraf, ond bydd hyn yn cael ei dracio a'i fonitro drwy'r Cofnod Staff Electronig. |
| 7. | Meddyliwch am agweddau cadarnhaol eich polisi sy'n helpu i hyrwyddo a hybu cydraddoldeb drwy leihau anghydraddoldeb neu anfantais, a chofnodi'r agweddau hynny. | Mae'r fframwaith yn disgrifio dull y Bwrdd Iechyd o reoli risg fel un cadarnhaol, integredig, sy'n digwydd ar draws y busnes ac wedi'i lywio gan ddiwylliant agored a thryloyw. Mae'n ddull lle mae staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a'u bod yn hyderus i godi a thrafod risgiau heb ofn, i gynnwys staff ar draws y sefydliad cyfan wrth archwilio rheoli risg fel cyfrwng i wneud penderfyniadau gwell ac i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. |

# Rhan A

## Ffurflen 2: Cofnod o'r Effeithiau posibl – nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill

### Atebwch bob cwestiwn

Llenwch yr adran nesaf i ddangos sut gallai'r polisi / cynnig hwn gael effaith (cadarnhaol neu negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd a nodwyd gennych a allai hybu neu hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae hyn yn cynnwys nodi beth y gallwn ei wneud i chwalu rhwystrau a gwella cyfranogiad pobl sy'n cael eu tangynrychioli neu sydd o dan anfantais anghymesur.

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio ag asesu effeithiau ar gydraddoldeb*.  Tynnwch sylw at unrhyw fylchau yn y dystiolaeth rydych chi wedi'u nodi ac eglurwch sut/os ydych chi'n bwriadu llenwi'r bylchau hyn.

| |
|---|
| **Cofiwch ofyn hyn i chi'ch hun:** Os gwnawn ni'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud, yn y ffordd rydyn ni'n bwriadu ei wneud, a fydd hyn yn effeithio'n wahanol ar bobl sy'n perthyn i un neu fwy o'r grwpiau canlynol, o'u cymharu â phobl nad ydynt yn perthyn i'r grwpiau hynny? Er enghraifft, a fyddan nhw'n profi canlyniadau gwahanol, dim ond oherwydd eu bod yn perthyn i'r grŵp/grwpiau hynny. Ac os felly, a fydd unrhyw ganlyniad gwahanol yn eu rhoi dan anfantais? |

Mae'r math o wybodaeth/tystiolaeth a allai eich helpu i benderfynu a yw hyn yn effeithio ar grwpiau penodol, ac os felly a yw'n debygol o fod yn effaith gadarnhaol neu negyddol, yn gallu cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddo):-

- data poblogaeth
- gwybodaeth o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd mewn sefydliadau eraill
- data staff a defnyddwyr gwasanaeth, yn ôl yr hyn sy'n berthnasol
- asesiadau o anghenion
- canfyddiadau wrth ymgysylltu a chymryd rhan a sut mae rhanddeiliaid wedi cymryd rhan yn y camau datblygu
- ymchwil ac adroddiadau eraill er enghraifft, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- pryderon a digwyddiadau
- adborth am brofiad claf
- canllawiau arfer da
- gwybodaeth y cyfranogwr (chi a'ch cydweithwyr)

# Rhan A

## Ffurflen 2: Cofnod o'r Effeithiau posibl – nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill

**Atebwch bob cwestiwn**

<table>
<tr><th rowspan="2">Grŵp neu nodwedd warchodedig</th><th>A fydd yr hyn sy'n cael ei gynnig yn effeithio ar bobl ym mhob un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig hyn? Os felly, a yw'n gadarnhaol neu'n negyddol? (ticiwch y blwch priodol isod)<br><br>I gael cyfarwyddiadau pellach ar sut i lenwi'r adran hon, cliciwch yma i gael hyfforddiant fideo t13-18)</th><th>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth sydd wedi eich arwain i benderfynu ar hyn). Man cychwyn da yw cyhoeddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: "A yw Cymru'n Decach (2018)?"<br><br>Hefyd, gallwch ymweld â'u gwefan yma</th><th>Sut byddwch chi'n lleihau neu'n cael gwared ar unrhyw Effeithiau negyddol rydych chi wedi'u nodi?</th></tr>
<tr><td colspan="3">Canllawiau ar gyfer Cwblhau<br><br>Yn y colofnau ar y chwith – ac ar gyfer pob nodwedd a phob adran yma ac isod – gwnewch asesiad o sut rydych chi'n credu y gallai eich polisi neu eich cynnig effeithio ar bobl yn y grŵp gwarchodedig hwn, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i chi a barn ac arbenigedd y rheini sy'n cymryd rhan yn yr asesiad. Eich barn chi yw hyn ar sail y wybodaeth sydd ar gael i chi, gan gynnwys perthnasedd a chymesuredd. Os mai 'Bydd' oedd eich ateb, mae angen i chi nodi a fydd yr effaith bosibl yn un gadarnhaol neu negyddol. Gall fod yn naill a'r llall, er enghraifft, gwasanaeth yn symud i glinigau rhithwir: anabledd (yn yr adran isod) ynghylch materion symudedd yn gallu bod yn gadarnhaol, ond ar gyfer materion synhwyraidd, effaith negyddol bosibl. Byddai angen ystyried a chofnodi'r ddau.<br><br>Dylid rhestru'r wybodaeth sy'n helpu i lywio'r asesiad yn y golofn hon. Rhowch dystiolaeth ar gyfer pob ateb.</td></tr>
</table>

# Rhan A

## Ffurflen 2: Cofnod o'r Effeithiau posibl – nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill

Atebwch bob cwestiwn

| | Awgrym: peidiwch â dweud: "ddim yn berthnasol", "dim effaith" neu "ni waeth beth…". Os ydych chi wedi gweld nad oes 'dim effaith', esboniwch yn glir sut daethoch chi i'r penderfyniad hwn.<br><br>D.S.: Ar gyfer pob nodwedd warchodedig, gwnewch yn siŵr eich bod yn ystyried materion sy'n ymwneud â chyfrinachedd, urddas a pharch.<br><br>I weld diffiniadau o bob nodwedd, cliciwch yma | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Bydd** | **Na fydd** | **(+)** | **(-)** | | |
| Oedran | | Na fydd | + | | Nid yw'r fframwaith yn gwahaniaethu – mae'n nodi dull cynhwysol ar draws y busnes o reoli risg. | |
| Anabledd | | Na fydd | + | | Er nad yw'r fframwaith yn gwahaniaethu, mae'r asesiad wedi tynnu sylw at yr angen i hyn, ynghyd â holl ddogfennau eraill y Bwrdd Iechyd, fod mewn fformat sy'n mynd i'r afael ag unrhyw anableddau nam ar y golwg, gan gynnwys lliwddallineb a hefyd, o bosibl, dyslecsia. | Roedd yr asesiad hwn wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar y rheini sydd ag anableddau nam ar eu golwg – hynny yw, trawsgrifio dogfennau a chymorth ychwanegol. Gyda lliwddallineb wedi'i nodi fel anhawster posibl i ddeall unrhyw sgoriau Coch Ambr Gwyrdd (RAG), er enghraifft, o fewn Datix lle mae cofrestrau risg wedi'u cofnodi a'r gofrestr risg gorfforaethol. O ran dyslecsia, mae |

# Rhan A

## Ffurflen 2: Cofnod o'r Effeithiau posibl – nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill

Atebwch bob cwestiwn

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | nifer o adnoddau'r Bwrdd Iechyd ar gael i gefnogi staff fel cam i liniaru. |
| Ailbennu Rhywedd | | Na fydd | + | | Nid yw'r fframwaith yn gwahaniaethu – mae'n nodi dull cynhwysol ar draws y busnes o reoli risg. | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | | Na fydd | + | | Nid yw'r fframwaith yn gwahaniaethu – mae'n nodi dull cynhwysol ar draws y busnes o reoli risg. | |
| Hil | | Na fydd | + | | Nid yw'r fframwaith yn gwahaniaethu – mae'n nodi dull cynhwysol ar draws y busnes o reoli risg. | |
| Crefydd, cred a dim cred | | Na fydd | + | | Nid yw'r fframwaith yn gwahaniaethu – mae'n nodi dull cynhwysol ar draws y busnes o reoli risg. | |
| Rhyw | | Na fydd | + | | Nid yw'r fframwaith yn gwahaniaethu – mae'n nodi dull cynhwysol ar draws y busnes o reoli risg. | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | | Na fydd | + | | Nid yw'r fframwaith yn gwahaniaethu – mae'n nodi dull cynhwysol ar draws y busnes o reoli risg. | |

# Rhan A

## Ffurflen 2: Cofnod o'r Effeithiau posibl – nodweddion gwarchodedig a grwpiau eraill

**Atebwch bob cwestiwn**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priodas a Phartneriaeth sifil (Statws priodasol) | | Na fydd | + | | Nid yw'r fframwaith yn gwahaniaethu – mae'n nodi dull cynhwysol ar draws y busnes o reoli risg. | |
| Anfantais Economaidd-gymdeithasol | | Na fydd | + | | Nid yw'r fframwaith yn gwahaniaethu – mae'n nodi dull cynhwysol ar draws y busnes o reoli risg. | |

# Rhan A

## Ffurflen 3: Cofnod o'r Effeithiau posibl – Hawliau Dynol a'r Gymraeg

**Atebwch bob cwestiwn**

**Hawliau Dynol:**

Ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? I gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol, ewch i'n tudalennau ar y fewnrwyd yn: http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/42166 ac i gael rhagor o wybodaeth, Traciwr Cytundeb Hawliau Dynol y Comisiwn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol https://humanrightstracker.com/cy/.

Dyma'r Erthyglau (Hawliau) a allai fod yn arbennig o berthnasol i'w hystyried:-

- *Erthygl 2 Yr hawl i fywyd*
- *Erthygl 3 Rhyddid rhag arteithio a thriniaeth greulon neu ddiraddiol*
- *Erthygl 5 Hawl i ryddid a diogelwch*
- *Erthygl 8 Hawl i barch am fywyd preifat a theuluol*
- *Erthygl 9 Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd*

Dylech ystyried y Confensiynau hyn gan y Cenhedloedd Unedig hefyd:

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.*

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod*

# Rhan A

## Ffurflen 3: Cofnod o'r Effeithiau posibl – Hawliau Dynol a'r Gymraeg

**Atebwch bob cwestiwn**

| **A fydd yr hyn sy'n cael ei gynnig yn effeithio ar Hawliau Dynol pobl? Os felly, a yw'n gadarnhaol neu'n negyddol? (ticiwch fel sy'n briodol isod)** | | | | **Pa Hawliau Dynol y gallai hyn effeithio arnyn nhw, yn eich barn chi?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth sydd wedi eich arwain i wneud y penderfyniad hwn)** | **Sut byddwch chi'n lleihau neu'n cael gwared ar unrhyw Effeithiau negyddol rydych chi wedi'u nodi?** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bydd** | **Na fydd** | **(+)** | **(-)** | | | |
| | Na fydd | | | | Nid yw'r fframwaith yn effeithio ar Hawliau Dynol pobl – mae'n nodi dull cynhwysol ar draws y busnes o reoli risg. | |

# Rhan A

## Ffurflen 3: Cofnod o’r Effeithiau posibl – Hawliau Dynol a’r Gymraeg

**Atebwch bob cwestiwn**

**Y Gymraeg:**

Mae 2 ystyriaeth allweddol i’w gwneud wrth ddatblygu polisi, prosiect, rhaglen neu wasanaeth i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol a / neu effaith gadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar:

| Y Gymraeg | A fydd yr hyn sy’n cael ei gynnig yn effeithio ar bobl? Os felly, a yw’n gadarnhaol neu’n negyddol? (ticiwch y blwch priodol isod) | | | | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth sydd wedi eich arwain i wneud y penderfyniad hwn) | Sut byddwch chi’n lleihau neu’n cael gwared ar unrhyw Effeithiau negyddol rydych chi wedi’u nodi? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Bydd** | **Na fydd** | **(+)** | **(-)** | | |
| Cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg | | Na fydd | + | | Er nad yw’r fframwaith yn gwahaniaethu, fel sy’n wir am holl ddogfennau’r Bwrdd Iechyd, mae’r asesiad wedi tynnu sylw at yr angen i fod ar gael yn Gymraeg. | Mae Gwasanaeth Cyfieithu’r Bwrdd Iechyd ar gael yn rhad ac am ddim i’r rheini a fyddai’n hoffi cael fersiwn Gymraeg o’r fframwaith. |
| Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg | | Na fydd | + | | Er nad yw’r fframwaith yn gwahaniaethu, fel sy’n wir am holl ddogfennau’r Bwrdd Iechyd, mae’r asesiad wedi tynnu sylw at yr angen i fod ar gael yn Gymraeg. | Mae Gwasanaeth Cyfieithu’r Bwrdd Iechyd ar gael yn rhad ac am ddim i’r rheini a fyddai’n hoffi cael fersiwn Gymraeg o’r fframwaith. |

# Rhan A Ffurflen 4: Cofnod o Ymgysylltu ac Ymgynghori

**Atebwch bob cwestiwn**

Cofnodwch yma fanylion unrhyw ymgysylltu ac ymgynghori rydych chi wedi'i wneud. Gall hyn fod gyda chydweithwyr yn y gweithle neu gynrychiolwyr undebau llafur, neu gall fod gyda rhanddeiliaid ac aelodau eraill o'r gymuned gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig. Efallai eu bod wedi helpu i ddatblygu eich polisi / cynnig, neu wedi helpu i nodi ffyrdd o leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd.

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried cynigion ar gyfer newidiadau mewn gwasanaethau a allai effeithio ar bobl agored i niwed a/neu bobl dan anfantais.

| | |
|---|---|
| Pa gamau rydych chi wedi'u cymryd i ymgysylltu ac ymgynghori â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, a sut rydych chi wedi gwneud hyn? Dylech ystyried dulliau ymgysylltu a chyfranogi.<br><br>*I gael cyfarwyddiadau pellach ar sut i lenwi'r adran hon, cliciwch yma i gael hyfforddiant fideo t13-18)* | Bu'r Bwrdd Iechyd yn ymgynghori ynghylch y fframwaith, cyn ei gymeradwyo a'i gadarnhau, gyda'r rheini sy'n gyfrifol am Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan o'r broses. |
| A oes unrhyw themâu wedi dod i'r amlwg? Disgrifiwch nhw yma. | Mae Asesiad blaenorol o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi nodi os oes gan gofrestrau risg sgoriau RAG, y gallai hyn fod yn anodd i'r rheini sy'n lliwddall neu ddyslecsig. Cydnabyddir y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar y bobl hyn i adolygu'r papurau perthnasol hyn. |
| Os atebwyd 'oes' i'r uchod, sut mae eu barn wedi dylanwadu ar eich gwaith/tywys eich polisi/cynnig, neu wedi newid eich argymhellion? | Roedd yr asesiad hwn wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar y rheini sydd ag anableddau nam ar eu golwg – hynny yw, trawsgrifio dogfennau a chymorth ychwanegol. Gan fod lliwddallineb yn cael ei nodi fel anhawster posibl i ddeall unrhyw sgoriau Coch Ambr Gwyrdd (RAG), bydd llythyren (R, A, G) yn cael ei hychwanegu at y blwch neu'r golofn mewn dogfennau gwaith. O ran dyslecsia, |

**Atebwch bob cwestiwn**

| | |
|---|---|
| | mae nifer o adnoddau'r Bwrdd Iechyd ar gael i gefnogi staff fel cam i liniaru. |

I gael rhagor o wybodaeth a chymorth, cysylltwch â'r Tîm Ymgysylltu Corfforaethol – gweler eu tudalen mewnrwyd yn:-
http:/howis.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/44085

**Rhan B** **Ffurflen 5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau a Chamau Gweithredu**

**Atebwch bob cwestiwn**

| | |
|---|---|
| 1. Beth sydd wedi cael ei asesu? (Copïo o Ffurflen 1)<br>*I gael cyfarwyddiadau pellach ar sut i lenwi'r adran hon, cliciwch yma i gael hyfforddiant fideo t13-18)* | RM01 – Fframwaith Rheoli Risg |

| | |
|---|---|
| 2. Nodau ac Amcanion Cryno: (Copïo o Ffurflen 1) | Nod y Bwrdd Iechyd yw darparu fframwaith strwythuredig, cynhwysfawr a chydlynol i gefnogi staff i nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n deillio o'i weithgareddau busnes, gan fod rheoli risgiau'n effeithiol yn rhan gynhenid o'i ddull o ddysgu, gwella a llywodraethu'n barhaus. Mae RM01 – Fframwaith Rheoli Risg yn rhoi arweiniad ar gyfer rheoli risgiau gweithredol a strategol yn gyson, fel ysgogwyr ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell a darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n bersonol ac yn canolbwyntio ar y claf, a chynnig profiad gwell. |

O ganfyddiadau eich asesiad (Ffurflenni 2 a 3):

| | | |
|---|---|---|
| 3a. A allai eich polisi neu'ch cynnig gael effaith negyddol ar unrhyw rai o'r grwpiau gwarchodedig? **Canllawiau: Mae hyn fel y nodir ar ffurflen 2 a 3** | Gallai ☐ | Na allai ☒ |

**Rhan B** **Ffurflen 5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau a Chamau Gweithredu**

**Atebwch bob cwestiwn**

| | | |
|---|---|---|
| 3b. A allai effaith eich polisi neu gynnig fod yn wahaniaethol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb? **Canllawiau: Os ydych chi wedi llenwi'r ffurflen hon yn gywir ac wedi lleihau neu liniaru unrhyw rwystrau, dylech allu ateb 'Na allai' i'r cwestiwn hwn.** | Gallai ☐ | Na allai ☒ |
| 3c. A yw eich polisi neu'ch cynnig yn arwyddocaol iawn? **Er enghraifft, a yw'n golygu newidiadau ar draws y boblogaeth gyfan neu'r Bwrdd Iechyd cyfan, neu dim ond niferoedd bach mewn un ardal benodol?**<br><br>Gall arwyddocaol iawn olygu'r canlynol:<br><br>- Mae angen i'r Bwrdd Iechyd neu is-bwyllgor gymeradwyo'r polisi<br>- Mae'r polisi'n ymwneud â defnyddio adnoddau ychwanegol neu gael gwared ar adnoddau.<br>- A yw'n ymwneud â gwasanaeth newydd neu ddod â gwasanaeth i ben?<br>- A oes posibilrwydd y bydd hyn yn effeithio ar swyddi?<br>- A yw'r penderfyniad yn cwmpasu gogledd Cymru i gyd?<br>- Penderfyniadau strategol eu natur: Yn gyffredinol, penderfyniadau strategol fydd y rheini sy'n effeithio ar sut mae'r corff cyhoeddus perthnasol yn cyflawni ei ddiben statudol a fwriedir (ei swyddogaethau o ran y set o bwerau a dyletswyddau y mae'n eu defnyddio i gyflawni ei gylch gwaith) dros gyfnod sylweddol o amser, ac ni fydd yn cynnwys penderfyniadau arferol 'o ddydd i ddydd'.<br><br>CANLLAWIAU: Os ydych chi wedi nodi bod eich polisi yn arwyddocaol iawn ac nad ydych chi wedi cael gwared yn llawn ar yr holl effeithiau negyddol a nodwyd, efallai | Ydy ☒ | Nac ydy ☐ |

**Rhan B** **Ffurflen 5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau a Chamau Gweithredu**

**Atebwch bob cwestiwn**

| | | |
|---|---|---|
| yr hoffech chi ystyried anfon eich Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb at y Grŵp Craffu ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy'r Tîm Cydraddoldeb. | | |
| 4. A oedd canfyddiadau eich asesiad ar Ffurflenni 2 a 3, ynghyd â'ch atebion i'r 3 chwestiwn uchod, yn dangos bod angen i chi fwrw ymlaen i gynnal Asesiad Effaith Llawn? | Oedd ☐ | Nac oedd ☒ |
| | | |
| 5. Os ateboch chi 'nac oedd' uchod, a oes unrhyw faterion i fynd i'r afael â nhw er enghraifft, lleihau unrhyw effaith negyddol fach a nodwyd? | Oes ☐ | Nac oes ☒ |
| | Mae'r fframwaith yn datgan bod trawsgrifiad o ddogfennau a chymorth ar gael i'r rheini sydd â nam ar eu golwg. Gan fod lliwddallineb yn cael ei nodi fel anhawster posibl i ddeall unrhyw sgoriau Coch Ambr Gwyrdd (RAG), bydd llythyren (R, A, G) yn cael ei hychwanegu at y blwch neu'r golofn. O ran dyslecsia, mae nifer o adnoddau'r Bwrdd Iechyd ar gael i gefnogi staff fel cam i liniaru. Mae Gwasanaeth Cyfieithu'r Bwrdd Iechyd ar gael yn rhad ac am ddim i'r rheini a fyddai'n hoffi cael fersiwn Gymraeg o'r Strategaeth. | |
| 6. A oes trefniadau monitro ar waith er mwyn i chi allu mesur beth sy'n digwydd | Oes ☐ | Nac oes ☒ |

**Atebwch bob cwestiwn**

| | | |
|---|---|---|
| mewn gwirionedd ar ôl i chi roi eich polisi neu'ch cynnig ar waith? | Sut mae'n cael ei fonitro? | Bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal Hunanasesiadau Rheoli Risg yn rheolaidd drwy'r Grŵp Rheoli Risg, i fesur effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg ar draws ei wasanaethau. |
| | Pwy sy'n gyfrifol? | Y Tîm Rheoli Risg a'r Grŵp Rheoli Risg. |
| | Pa wybodaeth sy'n cael ei defnyddio? | Archwiliadau mewnol blynyddol, Archwiliadau Ciplun a/neu archwiliad iechyd blynyddol o ddiwylliant rheoli risg, gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunwyd arnynt. |
| | Pryd fydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei adolygu? | Yn unol â chylch adolygu busnes yn y Strategaeth. |

| | |
|---|---|
| 7. I ble y bydd eich polisi neu'ch cynnig yn cael ei anfon ymlaen i'w gymeradwyo? | Y Pwyllgor Archwilio. |

# Rhan B

## Ffurflen 5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau a Chamau Gweithredu

**Atebwch bob cwestiwn**

| 8. Enwau'r holl bartïon sy'n ymwneud â chynnal yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb – **dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel gweithgaredd grŵp** | Enw | Teitl/Rôl |
|---|---|---|
| | Nesta Collingridge<br><br>Phil Meakin | Pennaeth Rheoli Risg a Sicrwydd<br><br>Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd |
| Llofnod uwch aelod cyn cymeradwyaeth y pwyllgor: | Nesta Collingridge<br><br>Phil Meakin | Pennaeth Rheoli Risg a Sicrwydd<br><br>Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd |
| **Sylwer: Mae'r Cynllun Gweithredu isod yn rhan annatod o'r Adroddiad Canlyniadau hwn** | | |

**Cynllun Gweithredu**

Mae'r templed hwn yn rhoi manylion unrhyw gamau gweithredu sy'n cael eu cynllunio ar ôl cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys y rheini sydd â'r nod o leihau neu ddileu effeithiau'r effaith negyddol bosibl neu wirioneddol a nodwyd.

# Rhan B

## Ffurflen 5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau a Chamau Gweithredu

**Atebwch bob cwestiwn**

| | Y camau gweithredu a gynigir<br><br>**Nodwch yma yr holl gamau i'w cymryd o ganlyniad i'r asesiad effaith hwn. Byddwch yn benodol a defnyddiwch gamau gweithredu CAMPUS. Gwnewch yn siŵr bod y rhain yn rhan annatod o'r newid yn y polisi, strategaeth, prosiect neu wasanaeth.** | Pwy sy'n gyfrifol am y cam gweithredu hwn? | Erbyn pryd y caiff hyn ei wneud? |
|---|---|---|---|
| 1. Os yw'r asesiad yn dangos effaith negyddol sylweddol bosibl fel na allwch fwrw ymlaen, rhowch resymau ac unrhyw gam(au) eraill y cytunwyd arnynt: | Dim effeithiau negyddol posibl wedi'u nodi, felly nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. | | |
| 2. Pa newidiadau rydych chi'n bwriadu eu gwneud i'ch polisi neu'ch cynnig o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb? | Dim angen newidiadau. | | |
| 3a. Pan fydd effeithiau negyddol ar grwpiau penodol wedi cael eu nodi, pa gamau rydych chi'n eu cymryd neu pa gamau sy'n cael eu cynnig i leihau'r effeithiau hyn? A yw'r rhain ar waith yn barod? | Ar waith yn barod. Mae'r fframwaith yn datgan bod trawsgrifiad o ddogfennau a chymorth ar gael i'r rheini sydd â nam ar eu golwg. O ran dyslecsia, mae nifer o adnoddau'r Bwrdd Iechyd ar gael i gefnogi staff fel cam i liniaru. Mae Gwasanaeth Cyfieithu'r Bwrdd Iechyd ar gael yn rhad ac am ddim i'r rheini a fyddai'n hoffi cael fersiwn Gymraeg o'r fframwaith. | | |

# Rhan B

## Ffurflen 5: Crynodeb o’r Prif Ganfyddiadau a Chamau Gweithredu

**Atebwch bob cwestiwn**

| | Y camau gweithredu a gynigir<br><br>**Nodwch yma yr holl gamau i’w cymryd o ganlyniad i’r asesiad effaith hwn. Byddwch yn benodol a defnyddiwch gamau gweithredu CAMPUS. Gwnewch yn siŵr bod y rhain yn rhan annatod o’r newid yn y polisi, strategaeth, prosiect neu wasanaeth.** | Pwy sy’n gyfrifol am y cam gweithredu hwn? | Erbyn pryd y caiff hyn ei wneud? |
|---|---|---|---|
| 3b. Pan fydd effeithiau negyddol ar grwpiau penodol wedi cael eu nodi, a’ch bod yn bwrw ymlaen heb eu lleihau, disgrifiwch yma pam rydych chi’n credu bod cyfiawnhad dros hyn. | Gan fod lliwddallineb yn cael ei nodi fel anhawster posibl i ddeall unrhyw sgoriau Coch Ambr Gwyrdd RAG, bydd llythyren (R, A, G) yn cael ei hychwanegu at y blwch neu’r golofn ar gyfer yr holl ddeunyddiau rheoli risg cysylltiedig wrth i’r rhain gael eu diweddaru yn y dyfodol. | Pennaeth Rheoli Risg a Sicrwydd. | Wrth i ddogfennau cysylltiedig gael eu diweddaru. |
| 4. Rhowch fanylion unrhyw gamau a gymerwyd neu a gynlluniwyd i hyrwyddo cyfle cyfartal o ganlyniad i'r asesiad hwn. | Gan fod lliwddallineb yn cael ei nodi fel anhawster posibl i ddeall unrhyw sgoriau Coch Ambr Gwyrdd RAG, bydd llythyren (R, A, G) yn cael ei hychwanegu at y blwch neu’r golofn ar gyfer yr holl ddeunyddiau rheoli risg cysylltiedig wrth i’r rhain gael eu diweddaru yn y dyfodol. | Pennaeth Rheoli Risg a Sicrwydd. | Wrth i ddogfennau cysylltiedig gael eu diweddaru. |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br>***Report title:*** | Fframwaith Cynllunio Integredig |
| **Adrodd i:**<br>***Report to:*** | Y Bwrdd Iechyd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br>***Date of Meeting:*** | Dydd Iau, 28 Medi 2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br>***Executive Summary:*** | Pwrpas yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i fabwysiadu Fframwaith Cynllunio Integredig ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae'r Fframwaith yn egluro ac yn cadarnhau ymrwymiad y Bwrdd i gynllunio integredig o fewn y sefydliad a chyda phartneriaid. Mae'r Fframwaith yn un o dri fframwaith cysylltiedig a luniwyd i gefnogi llywodraethu da a hyrwyddo prosesau effeithiol ar gyfer cyflawni amcanion strategol y Bwrdd. |
| **Argymhellion:**<br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:<br>- Derbyn yr adroddiad<br>- Cynnig unrhyw sylwadau ar y Fframwaith Cynllunio Integredig<br>- Yn amodol ar unrhyw sylwadau terfynol, cymeradwyo'r Fframwaith i'w fabwysiadu o fewn y Bwrdd Iechyd |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br>***Executive Lead:*** | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>***Report Author:*** | Sally Baxter, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Strategaeth Iechyd |

| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☒ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☐ |
|---|---|---|---|

| **Lefel sicrwydd:**<br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐ | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☒ | Rhannol<br>*Partial*<br>☐ | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐ |
|---|---|---|---|---|
| | Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |

| | |
|---|---|
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod.  Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating.  Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** | |
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Mae cynllunio strategol da yn hwyluso cyflawni amcanion strategol y Bwrdd.  Mae'r Fframwaith yn nodi'r dull disgwyliedig i sicrhau bod hyn yn glir ac yn gyson ym mhob cynllun. |
| **Goblygiadau rheoleiddio a lleol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Mae'r gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â chynllunio wedi'u nodi yn y fframwaith. |
| **Yn unol â WP7 (sydd bellach yn cynnwys WP68), a oedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***Yn unol â WP7 (sydd bellach yn ymgorffori WP68) a nodwyd bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac wedi'i gynnal?*** | Mae Adnodd Sgrinio Asesiad Effaith Integredig y Bwrdd wedi cael ei gwblhau mewn perthynas â'r Fframwaith ac mae wedi'i atodi fel atodiad i'r adroddiad. |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Mae risg y gallai'r Bwrdd Iechyd fethu mynd i'r afael â gofynion o dan y Fframwaith Mesurau Arbennig i wella cynllunio strategol, gan arwain at fethu â chynhyrchu cynlluniau y gellir eu cyflawni ac o ganlyniad methu â defnyddio adnoddau'n effeithiol i wella canlyniadau iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.<br><br>Mae risg 2.4 BAF (gweler isod) yn berthnasol i'r adroddiad hwn. |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Dim goblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r Fframwaith.  Mae'r Fframwaith yn mynd i'r afael â'r angen i integreiddio cynllunio ariannol â chynllunio gwasanaethau a'r gweithlu, ac i ddatblygu cynlluniau y gellir eu cyflawni o fewn y sefyllfa ariannol. |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Dim goblygiadau gweithlu yn codi'n uniongyrchol o'r Fframwaith.  Mae'r Fframwaith yn mynd i'r afael â'r angen i integreiddio cynllunio'r gweithlu'n llawn, a gwneud y defnydd gorau posibl o'r gweithlu drwy arloesi a gwella. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori** | Amh. |

| | |
|---|---|
| ***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Risg BAF 2.4 – Methu cyflawni cynllun tymor canolig integredig cymeradwy sy'n cynnwys gwasanaeth, gweithlu, cydbwysedd ariannol a chyflawni targedau perfformiad allweddol i Lywodraeth Cymru (i sicrhau bod dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni) gan arwain at farn archwilio rheoleiddiol. |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amherthnasol<br><br>Ddim yn berthnasol |

***Y Camau Nesaf:***

- Cyhoeddi'r Fframwaith
- Lledaenu o fewn y strwythur rheoli a'r rhwydweithiau cynllunio ar draws y Bwrdd Iechyd
- Datblygu'r Llawlyfr Cynllunio – adnodd i gefnogi cynllunio effeithiol ac i sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei gyflawni

**Rhestr o Atodiadau:**
***List of Appendices:***

Atodiad 1 – Y Fframwaith Cynllunio Integredig drafft

Atodiad 2 - amserlen amlinellol ar gyfer datblygu cynlluniau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer 2024-27

Atodiad 3 – Sgrinio Asesiad Integredig

***CYFARFOD CYHOEDDUS Y BWRDD IECHYD***
***28 MEDI 2023***

***Y FFRAMWAITH CYNLLUNIO INTEGREDIG***

## 1. Cyflwyniad/Cefndir

Mae'r Fframwaith cynllunio Integredig yn un o gyfres o dri fframwaith cysylltiedig a luniwyd i gefnogi llywodraethu da a hyrwyddo prosesau effeithiol ar gyfer cyflawni amcanion strategol y Bwrdd.

Mae pum canlyniad y Mesurau Arbennig yn cynnwys Canlyniad 2 – cynllun clir y gellir ei gyflawni ar gyfer 2023/24. Mae'r canlyniad hwn yn cydnabod yr angen i sicrhau bod gennym gynlluniau lleol a rhanbarthol ar waith sy'n darparu'r gwasanaethau gwerth gorau i'n poblogaeth. Cydnabyddir y bydd eglurder ynghylch yr elfennau sy'n creu cynllun da ac effeithiol, ac ymrwymiad i ddiwylliant o gynllunio effeithiol, yn gosod y sylfaen ar gyfer gwella ein cynlluniau'n barhaus.

## 2. Corff yr adroddiad / *Body of report*

Mae'r Fframwaith Cynllunio Integredig yn nodi'r cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer cynllunio o fewn y Bwrdd Iechyd a chyda phartneriaid. Mae datblygu cynllun integredig yn ddyletswydd statudol, ac mae cynllunio effeithiol yn cefnogi'r Bwrdd i gyflawni ein hamcanion:

- Gwella iechyd pobl y mae'r Bwrdd yn gyfrifol amdanynt, a
- Gwella'r ddarpariaeth gofal iechyd i'r bobl hynny

Mae canllawiau ar ddatblygu cynlluniau integredig yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru ar ffurf Fframwaith Cynllunio GIG Cymru.

Fodd bynnag, mae cynllunio effeithiol yn gofyn am ymrwymiad sefydliadol, integreiddio ar draws swyddogaethau corfforaethol a gweithredol, agwedd glir at gynllunio a sgiliau a chymwyseddau cynllunio da ar bob lefel.

Mae'r Fframwaith wedi cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r gofynion hyn ac mae wedi cael ei adeiladu ar arferion da cydnabyddedig ym maes cynllunio strategol.

Bydd y Fframwaith cychwynnol hwn yn cael ei adolygu ar ôl blwyddyn i fireinio a gwella'r dull gweithredu, gan ystyried hefyd ganfyddiadau'r adolygiad annibynnol o gynllunio sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Yn y tymor byr, bydd canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad annibynnol yn cael eu defnyddio i fireinio'r cylch cynllunio nesaf ar gyfer 2024-27. O ystyried y dyddiadau cau disgwyliedig ar gyfer cynhyrchu fersiwn nesaf y cynllun tair blynedd a'r cynllun cyflawni blynyddol, mae'r broses wedi cael ei hadolygu a'i diweddaru i gynnwys:

- Mwy o integreiddio ar draws cynlluniau cyllid, gweithlu a gwasanaeth
- Asesiad cadarn o angen, wedi'i gefnogi gan becynnau adnoddau a ddatblygwyd gan dîm Iechyd y Cyhoedd
- Asesu ffactorau mewnol ac allanol sy'n effeithio ar gynllunio a darparu

- Datblygu cynlluniau lleol a fydd yn bwydo i mewn i gynllun lefel gorfforaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Integreiddio cynlluniau clwstwr a chynlluniau ar draws clystyrau yn agosach i'r dull cynllunio cyffredinol

Mae'r amserlen amlinellol ar gyfer camau yn y cylch cynllunio wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

**3. Goblygiadau Cyllidebol / Ariannol / *Budgetary / Financial Implications***

Nid oes unrhyw oblygiadau cyllidebol uniongyrchol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd integreiddio mwy ar y cynllunio ariannol a ddisgrifir yn y Fframwaith yn cefnogi cynllunio strategol a gweithredol mwy effeithiol yn gyffredinol.

**4. Rheoli Risg / Risk Management**

Yn ogystal â'r risg gyffredinol o fethu â chyflawni dyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio, fel y disgrifir yn BAF 2.4, mae un risg ar Datix sy'n gysylltiedig â'r maes hwn. Dyma'r risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu gwireddu'r dyddiad cau disgwyliedig ar gyfer cyflwyno ym mis Ionawr 2024. Mae'r risg hon yn cael ei lliniaru drwy ddechrau'r cylch cynllunio'n gynnar, cymorth i arweinwyr cynllunio ar draws y sefydliad ac eglurder ynghylch gofynion. Bydd y dyddiad cyflwyno gwirioneddol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cael ei gadarnhau pan gyhoeddir Fframwaith Cynllunio GIG Cymru (disgwylir y bydd hynny yn ddiweddarach ym mis Medi).


**5. Goblygiadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / *Equality and Diversity Implications***

Nid yw'r Fframwaith ynddo'i hun yn codi unrhyw oblygiadau o ran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'r Fframwaith yn cadarnhau dyletswyddau statudol y Bwrdd Iechyd mewn perthynas ag ystyriaethau cynllunio a chydraddoldeb a hawliau dynol. Darperir adnoddau i gefnogi arweinwyr cynllunio i ganfod a mynd i'r afael ag unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb a hawliau dynol wrth i gynlluniau penodol gael eu datblygu.

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
University Health Board

# FFRAMWAITH CYNLLUNIO INTEGREDIG

2023



| | |
|---|---|
| Awdur a Theitl | Chris Stockport<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol<br><br>Sally Baxter<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strategaeth Iechyd |
| Yr Adran sy'n gyfrifol | Cynllunio Strategol |
| Statws: | Rhifyn 1 Terfynol |
| Dogfennau i'w darllen ochr yn ochr â'r ddogfen hon: | Cynllun Cadw a Dirprwyo<br>Fframwaith Cynllunio GIG Cymru<br><br>Fframwaith Perfformiad BIPBC<br>Fframwaith Rheoli Risg BIPBC |

*Peidiwch ag argraffu'r ddogfen hon – mae hyn yn diogelu'r amgylchedd ar yr un pryd â lleihau'r risg o fersiynau wedi dyddio o'r ddogfen yn cael eu hargraffu.*

*Dylid cyfeirio at Fewnrwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gael y fersiwn ddiweddaraf o'r ddogfen.*

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 3 |
| Cyflwyniad/Trosolwg | 4 |
| Datganiad Polisi | 4 |
| Cwmpas | 5 |
| Fframwaith Deddfwriaethol | 5 |
| Gofynion deddfwriaethol ehangach | 6 |
| Triawd Fframwaith | 8 |
| Mathau o gynlluniau | 9 |
| Y Dull Cynllunio Integredig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 11 |
| Rolau a Chyfrifoldebau | 17 |
| Hyfforddiant a chefnogaeth | 20 |
| Rhoi ar waith | 21 |
| Adolygu | 21 |
| Cyfeiriadau | 21 |
| Asesiadau Effaith y Fframwaith Cynllunio Integredig | 22 |

## Cyflwyniad/Trosolwg

Mae'r Fframwaith Cynllunio Integredig (IPF) yn egluro ac yn cadarnhau ymrwymiad y Bwrdd i gynllunio integredig o fewn y sefydliad a chyda phartneriaid.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod cynllunio cadarn ac integredig yn sylfaen i swyddogaethau'r Bwrdd, ac yn elfen greiddiol o ran gwreiddio gweledigaeth strategol, datblygu, darparu a chomisiynu gwasanaethau iechyd a gwella iechyd y boblogaeth.

Mae'r Fframwaith Cynllunio Integredig yn nodi'r cyd-destun deddfwriaethol, y dull o gynllunio integredig a'r egwyddorion y bydd y sefydliad yn eu dilyn.

## Datganiad Polisi

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wella a chynnal cynllunio integredig drwy'r sefydliad cyfan drwy:

- Sefydlu diwylliant cynllunio sy'n hyrwyddo trafodaeth onest ac agored a gwneud penderfyniadau er mwyn gallu darparu gofal o ansawdd uchel
- Sicrhau dull clir a chytunedig o gynllunio integredig i hwyluso'r gwaith o gyflawni amcanion strategol y Bwrdd
- Hwyluso'r gwaith o gyflawni gwelliannau ar draws y sefydliad drwy gynllunio'n gadarn ar gyfer y tymor byr a'r tymor hwy
- Creu hyder yn y Bwrdd drwy gyflawni cynlluniau diriaethol, realistig a chyraeddadwy
- Gwreiddio prosesau cynllunio effeithiol yn y sefydliad a darparu'r sgiliau a'r offer sydd eu hangen i gefnogi hyn
- Sicrhau ymrwymiad clir i ddatblygu a chyflwyno cynlluniau partneriaeth tuag at gyflawni gweledigaeth ac amcanion a rennir

## Cwmpas

Mae'r Fframwaith yn berthnasol i

- Aelodau'r Bwrdd
- Uwch Dimau Arwain
- Timau rheoli
- Staff corfforaethol a gweithredol
- Aelodau Annibynnol a Swyddogion sy'n ymwneud â chynllunio partneriaeth

Mae'r Fframwaith yn nodi rôl a disgwyliadau'r Bwrdd mewn perthynas â chynllunio integredig; yn rhoi manylion cyfrifoldebau lefel uchel; ac yn nodi'r elfennau o arferion da a ddisgwylir ar gyfer yr holl gynlluniau sy'n cael eu paratoi a'u rhoi ar waith yn y sefydliad.

## Fframwaith Deddfwriaethol

### Prif ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio integredig

Mae'r ddyletswydd statudol i gynllunio wedi'i nodi yn Neddf y GIG (Cymru) 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol baratoi cynllun sy'n nodi strategaeth ar gyfer

- Gwella iechyd pobl y mae'r Bwrdd yn gyfrifol amdanynt, a
- Gwella'r ddarpariaeth gofal iechyd i'r bobl hynny

Rhaid adolygu'r cynllun yn rheolaidd; cynnwys partneriaid Awdurdodau Lleol wrth baratoi; ceisio cyfranogiad pobl, neu ymgynghori â nhw, yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion; ac ymateb i gyfarwyddiadau sy'n ymwneud â chynnwys y cynllun. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd roi sylw i'r cynllun wrth arfer ei swyddogaethau.

Roedd Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 yn gwneud cynllunio integredig yn sylfaen i'r system iechyd yng Nghymru ac yn cyflwyno'r gofynion ar gyfer datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i sicrhau cydbwysedd ariannol mewn perthynas â phob cyfnod o dair blynedd.

Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, a gyhoeddwyd yn unol â darpariaeth y Deddfau uchod ar gyfer gwneud cyfarwyddiadau, yn cadarnhau bod yn rhaid i gynlluniau

- fodloni'r gofynion statudol i gomisiynu a/neu ddarparu gwasanaethau i wella canlyniadau iechyd y boblogaeth ac i sicrhau cydbwysedd ariannol
- nodi camau gweithredu a cherrig milltir clir sy'n dangos sut y cyflawnir bwriadau cynllunio
- cyflawni'r cerrig milltir allweddol yn y Fframwaith Cyflawni
- triongli cyllid, gweithgarwch a'r gweithlu yn y cynlluniau

## Gofynion deddfwriaethol ehangach

### Y Ddyletswydd Ansawdd

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd, fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn gyfrwng i ddiogelu iechyd, gofal a llesiant poblogaeth Cymru nawr ac yn y dyfodol.  Mae'r Ddyletswydd Ansawdd newydd yn ail-fframio'r cysyniad o ansawdd drwy ddefnyddio ei ddiffiniad ehangach, sy'n cynnwys ansawdd o ran effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd ac ansawdd profiad defnyddwyr gwasanaethau iechyd, ac mae'n ymwneud hefyd â sicrhau gwelliant mewn unrhyw wasanaethau a ddarperir neu a sicrheir.  O ganlyniad, mae cydnabod ansawdd fel ffordd o weithio ar draws y system gyda ffocws ar ganlyniadau yn gofyn am bwyslais ar y Ddyletswydd Ansawdd yn ein dull cynllunio.

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gydweithredu ag Awdurdodau Lleol i baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi ystod a lefel y gwasanaethau sydd i'w darparu mewn ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth, gan gynnwys yr adnoddau sydd i'w defnyddio.  Mae'n ofynnol hefyd i Fyrddau Iechyd nodi'r camau a gynigir mewn perthynas â'r ddyletswydd i ystyried pwysigrwydd camau ataliol.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 nifer o ofynion o dan y ddyletswydd llesiant sy'n ymwneud â chynllunio.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd, fel corff cyhoeddus dynodedig, ddatblygu'n gynaliadwy, gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio sy'n cefnogi'r egwyddor datblygu cynaliadwy:

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd nodi amcanion llesiant a luniwyd i gynyddu ein cyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd hefyd weithio mewn partneriaeth drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i baratoi a chyhoeddi cynllun llesiant lleol, sy'n nodi amcanion llesiant lleol a'r camau y bwriedir eu cymryd i'w cyflawni.

## Ymgysylltu ac ymgynghori

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd statudol o dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 i gynnwys ac ymgynghori â dinasyddion ynghylch:

- Cynllunio i ddarparu gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt;
- Datblygu ac ystyried cynigion ar gyfer newidiadau yn y ffordd y darperir y gwasanaethau hynny; a,
- Gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar sut mae'r gwasanaethau hynny'n gweithredu


Mae'r gofyniad deddfwriaethol yn cael ei ategu gan ganllawiau a ddiweddarwyd yn ddiweddar ar ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer newidiadau i wasanaethau.

## Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn nodi'r ddyletswydd gyffredinol mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer cyrff rhestredig, y mae'r Bwrdd Iechyd yn un ohonynt. Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn nodi dyletswyddau penodol ar gyfer cyrff rhestredig yng Nghymru.

Rhaid i gorff rhestredig gynnwys pobl y mae'n ystyried eu bod yn gynrychioladol o'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol a'r rheini sydd â buddiant yn y ffordd y mae awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau. Gall y corff rhestredig hefyd ymgynghori â phobl eraill yr ystyrir eu bod yn briodol a'u cynnwys.

# Triawd Fframwaith




Dylid ystyried y fframwaith hwn ochr yn ochr â Fframwaith Perfformiad BIPBC a Fframwaith Rheoli Risg BIPBC.

# Mathau o gynlluniau

Mae cynllunio integredig yn elfen sylfaenol o'r broses gomisiynu barhaus. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae cynllunio strategol yn cyfrannu at y broses o gaffael, darparu a gwerthuso gwasanaethau.




*Ffigur 1: Drwy garedigrwydd Canolfan Wybodaeth y GIG ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.*

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ar wahanol lefelau, gyda chynllunio strategol yn pennu'r cyfeiriad ac yn cysylltu strategaeth tymor hwy ag amcanion cyflawni'r sefydliad.

## Cynllunio Strategol

Cynllunio Strategol yw'r broses o bennu nodau tymor canolig i dymor hir sefydliad a nodi'r dull gorau o gyflawni'r nodau hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi disgrifio cynllunio strategol fel ffordd o sicrhau'r gwerth gorau i'r boblogaeth fel defnyddwyr gwasanaethau iechyd, ac fel trethdalwyr. Dyma'r broses o drosi dyheadau ac angen, drwy bennu, cynllunio a sicrhau gwasanaethau ar gyfer y boblogaeth leol, i gynlluniau gwasanaeth, gweithlu, gweithgarwch ac ariannol.


Yng nghynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd, disgwylir i ni fynegi'n glir y gwasanaethau y byddwn yn eu darparu i sicrhau ansawdd, diogelwch a gwerth am arian (gofal iechyd darbodus), ochr yn ochr â mynd i'r afael â thargedau perfformiad.

## Cynllunio gweithredol

Cynllunio gweithredol yw'r broses o roi cynlluniau strategol ar waith a'r nod yw cyrraedd nodau penodol. Mae cynllun gweithredol yn disgrifio'r camau penodol i'w cymryd i gyflawni'r model cynllunio strategol ac yn nodi pa adnoddau fydd yn cael eu dyrannu i'r camau gweithredu hyn mewn cyfnod gweithredol penodol.

## Cynllunio Busnes

Mae cynllunio busnes yn cyfeirio at y broses o adolygu a chadarnhau ar lefel gwasanaeth y capasiti, yr adnoddau a'r gweithgarwch, a'r cynlluniau tymor byr a fydd yn arwain y gwaith o gyflawni'r busnes o ddydd i ddydd. Mae'n ddull systematig o gyflawni cyfrifoldebau rheoli, cynllunio a chydlynu'r rheolwyr. Mae cynllunio busnes da hefyd yn gofyn am flaengynllunio i fynd i'r afael â thueddiadau hysbys neu dueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Mae cynllunio busnes hefyd yn cynnwys cynllunio parhad busnes, sy'n nodi'r camau i'w cymryd i gynnal swyddogaethau hanfodol ar ôl argyfwng neu darfu.



# Y Dull Cynllunio Integredig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae cynllunio integredig, fel diffiniad cyfreithiol craidd, yn cyfeirio at integreiddio cynlluniau gwasanaeth, gweithlu ac ariannol.

Mae dull y Bwrdd Iechyd o gynllunio integredig yn dod ag integreiddio mwy cynhwysfawr at ei gilydd o ran cynllunio ac mae'n cynnwys ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd, profiad cleifion, mynediad, cost a gwerth, y gweithlu a diwylliant, cynaliadwyedd a llywodraethiant. Mae tystiolaeth wrth gynllunio yn nodi bod ffactorau llwyddiant yn cynnwys "ymrwymiad ar draws y sefydliad i gynllunio ac integreiddio allbynnau cynllunio i brosesau sefydliadol eraill, fel cynllunio adnoddau dynol, cyllidebu ac adolygu a systemau gwobrwyo."[1]

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r elfennau craidd a fydd yn ofynnol mewn cynlluniau a gynhyrchir i gefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd. Bydd cwmpas a hyd a lled y cynllun ym mhob achos yn gymesur â lefel y cynllunio.




## Cyd-destun a chwmpas

### ▪ Cyd-destun Strategol

Bydd y cynlluniau'n nodi'r cyd-destun strategol perthnasol, gan nodi unrhyw ofynion statudol, a sut mae'r cynllun yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd.


### ▪ Cwmpas

Dylid egluro cwmpas y cynllun ar y dechrau. Mae hyn yn cynnwys nodi'r amcanion lefel uchel ar gyfer y cynllun, a nodi hyd a lled a chyrhaeddiad y cynllun, gan nodi'r gwasanaethau,

[1] Wolf, C and Floyd, S (2017) Strategic Planning Research: Toward a Theory-Driven Agenda, in Journal of Management, July 2017

y cleifion a'r staff yr effeithir arnynt. Dylai'r cynllun hefyd egluro unrhyw feysydd sydd y tu allan i gwmpas.

### Y sefyllfa bresennol (asesiad llinell sylfaen)




*Elfennau asesiad sylfaenol*

#### ▪ Anghenion iechyd y boblogaeth

Dylai'r cynlluniau adlewyrchu anghenion iechyd y boblogaeth ar hyn o bryd a'r rhai a ragwelir ar gyfer y bobl y mae'r Bwrdd yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn cynnwys nodi a thargedu camau gweithredu i leihau anghydraddoldebau iechyd. Gall hyn gynnwys tystiolaeth mewn perthynas ag anghenion iechyd penodol a thueddiadau o ran gwasanaethau.

Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (a gynhelir mewn partneriaeth â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol) a'r Asesiadau Llesiant a gynhaliwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dystiolaeth bwysig i'w defnyddio i lywio cynlluniau'r Bwrdd Iechyd.

#### ▪ Y Ddarpariaeth Bresennol

Mae angen asesiad o'r ddarpariaeth bresennol i gefnogi'r cynllun, gan gynnwys y risgiau presennol, yr heriau o ran cynaliadwyedd, unrhyw fylchau hysbys a diffygion yn y ddarpariaeth.

#### ▪ Perfformiad

Dylai cynlluniau gynnwys asesiad o berfformiad cyfredol, a thueddiadau dros amser. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cymharu â pherfformiad Byrddau Iechyd eraill a pherfformiad ehangach mewn meysydd eraill, drwy ddefnyddio data meincnodi ac adrodd ar berfformiad Cymru gyfan.

#### ▪ Modelu galw a chapasiti

Dylai'r asesiad sylfaenol gynnwys modelu galw a chapasiti i alluogi'r cynllun i fynd i'r afael â thwf yn anghenion y boblogaeth, newidiadau mewn patrymau atgyfeirio, effeithlonrwydd ac

effeithiolrwydd, ac unrhyw newidiadau i fodelau gwasanaeth gan gynnwys arloesi mewn ymarfer, datblygiadau mewn technoleg.

### ▪ Sylfaen dystiolaeth

Dylai cynlluniau gynnwys cyfeirio at y sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud â'r meysydd gwasanaeth neu'r meysydd a gwmpesir gan y cynllun, gan gynnwys tystiolaeth o effeithiolrwydd triniaethau, canlyniadau i gleifion, unrhyw safonau cenedlaethol neu safonau proffesiynol y mae'n ofynnol eu cyflawni.

### ▪ Llais dinasyddion

Dylid adeiladu cynlluniau ar y cyd â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a theuluoedd, a ddylai gymryd rhan weithredol yn y broses gynllunio ar wahanol lefelau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag aelodau o'r cyhoedd i ddeall eu profiadau go iawn o wasanaethau iechyd. Dylid disgrifio unrhyw themâu o adborth gan y cyhoedd neu gleifion sy'n llywio'r cynlluniau.

Bydd cynlluniau hefyd yn cael eu llunio o'r camau cynnar gan ddefnyddio cyngor a mewnbwn gan is-bwyllgorau statudol y Bwrdd Iechyd – Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, Fforwm Partneriaeth Lleol a'r Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol.

## Sefyllfa yn y dyfodol

### ▪ Cyfleoedd i Drawsnewid, Arloesi a Gwella

Dylid nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer newid, arloesi a gwella trawsnewidiol mewn cynlluniau. Mae trawsnewid yn cyfeirio at newid sylfaenol, sy'n canolbwyntio ar newid ar raddfa fwy. Mae gwelliant yn cyfeirio at newid graddol ar raddfa lai.

Nod trawsnewid a gwella yw mynd ar drywydd profiadau gwell i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan ddysgu o arloesi ac adeiladu arno. Dylai cynlluniau integreiddio a gwreiddio ystyriaeth o dechnoleg, arloesi ac arferion newydd.

### ▪ Gwella Ansawdd

Dylai'r cynllun nodi cyfleoedd ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys diogelwch, profiad cleifion, a chanlyniadau. Dylai'r Ddyletswydd Ansawdd a Gonestrwydd statudol newydd gael ei hymgorffori yn ein cynlluniau, gyda phwyslais ar ansawdd fel ffordd o weithio system gyfan sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod canlyniadau'n gyson â nodau ac amcanion strategol hirdymor y Bwrdd Iechyd.

## ▪ Crynodeb o'r asesiad (sganio'r gorwel)

Mae blaen-asesiad o'r amgylchedd mewnol ac allanol yn hanfodol er mwyn deall y cyd-destun cymhleth a newidiol ar gyfer datblygu a chyflawni'r cynllun ar ôl hynny. Mae hyn yn galluogi'r cynllun i nodi meysydd dylanwad neu wrthdaro posibl, ac i reoli neu addasu'r cynllun yn ôl yr angen.

### Creu Opsiynau

## ▪ Arfarnu opsiynau

Ar gyfer camau gweithredu manwl a phenodol arfaethedig, dylai cynlluniau nodi'r opsiynau sydd wedi cael eu hystyried (ac unrhyw rai sydd wedi cael eu diystyru, ynghyd â'r cyfiawnhad dros hyn). Dylid defnyddio meini prawf gwrthrychol i ddewis a blaenoriaethu opsiynau. Dylid profi rhagdybiaethau a dylid cynhyrchu modelu ariannol, gweithlu a chapasiti ar gyfer pob opsiwn fel arfer.

## ▪ Gofal iechyd seiliedig ar werth

Gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yw defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn deg, yn gynaliadwy ac yn dryloyw er mwyn sicrhau gwell canlyniadau a phrofiadau. Uchelgais strategol y Bwrdd Iechyd yw plethu ac ystyried egwyddorion sy'n seiliedig ar werth ar draws y sefydliad. Dylai cynlluniau ddangos sut maent wedi mabwysiadu'r egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth wrth ddatblygu'r opsiynau ar gyfer darparu.

## ▪ Dulliau cyflwyno amgen

Wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer cyflawni, dylai'r defnydd gorau posibl o adnoddau fod yn sbardun allweddol. Dylid edrych ar fodelau amgen sy'n diwallu anghenion pobl, yn gwella canlyniadau, ansawdd a chynhyrchiant. Dylai'r rhain adeiladu ar asedau a gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau.

## ▪ Effeithiau ar y gweithlu ac ar gyllid

Mae cynllunio ariannol tymor hir yn elfen allweddol o gynllunio strategol, ynghyd â chynllun gweithlu cysylltiedig sy'n mynd i'r afael â heriau gofal iechyd a heriau i'r system gyfan. Dylid ystyried yr effaith ar yr holl adnoddau. Bydd adnoddau eraill gan gynnwys digidol ac effaith prosesau rheoli newid yn cael eu hystyried. Dylai cynllunio ganolbwyntio ar sicrhau

canlyniadau gwell a gwell gwerth am arian, gan gynnwys ystyried ailflaenoriaethu adnoddau lle bo hynny'n briodol er mwyn cyflawni'r nodau hyn.

## Blaenoriaethu

### ▪ Fframwaith a dull blaenoriaethu

Bydd cynlluniau'n cael eu blaenoriaethu gan ddefnyddio fframwaith cyson i sicrhau ein bod yn mabwysiadu'r dull gweithredu pwysicaf, mwyaf perthnasol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

### ▪ Asesiad o effaith

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol yn ofynion statudol ar gyfer sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n arfer da ystyried effeithiau ehangach gwneud penderfyniadau ac mae templed asesu effaith y Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnwys ystyriaethau ynghylch Hawliau Dynol, y Gymraeg a Chyfamod y Lluoedd Arfog. Dylai'r asesiad o'r effaith fod yn gymesur a dylid ei gynnal i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, nid i gyfiawnhau hynny.

Mae adnodd Sgrinio Asesiadau Effaith Integredig wedi cael ei ddatblygu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n crynhoi canlyniadau sgrinio ar draws amrywiaeth o feysydd. Mae'n ofynnol ar gyfer cynlluniau, achosion busnes a phrosiectau ymysg dogfennau ysgrifenedig eraill.

## Cyflawni

### ▪ Cynlluniau cyflawni clir

Mae cynllunio da yn nodi'n glir y gweithredu strategol ac yn galluogi unigolion a thimau i nodi'n glir yr hyn y mae angen ei wneud i gyflawni'r blaenoriaethau. Mae angen methodolegau clir a chyson ar gyfer gweithredu, rheoli newid, gwella prosesau a rheoli prosiectau.

### ▪ Gwireddu manteision

Dylai amcanion y cynlluniau fod yn rhai CAMPUS – Penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnasol a chyda therfyn amser. Dylai'r canlyniadau i unigolion a'r boblogaeth, y bwriedir

i'r cynlluniau eu cyflawni, fod yn glir ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Bydd y buddion i'w gwireddu yn cael eu diffinio'n glir a'u profi'n drylwyr.

### ▪ Rheoli risg

Dylai risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun a'r ddarpariaeth gael eu nodi, eu dadansoddi, eu hasesu, eu trin a'u monitro'n glir yn unol â fframwaith rheoli risg y Bwrdd Iechyd. Os yw'n briodol, bydd risgiau'n cael eu huwchgyfeirio neu eu hisgyfeirio drwy fecanweithiau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.

## Esblygu

### ▪ Monitro a gwerthuso

Dylid sefydlu mesurau perfformiad gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol, canlyniadau ac enillion ar fuddsoddiad o'r cychwyn cyntaf. Rhaid i'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd am gynlluniau gael eu nodi'n glir a'u cytuno. Dylid monitro darpariaeth ac effaith y cynlluniau'n rheolaidd, yn unol â fframwaith perfformiad y Bwrdd Iechyd.

### ▪ Adrodd

Mae angen adrodd yn rheolaidd ar y broses a'r canlyniadau i ddangos sut mae gweithredu'n arwain at ganlyniadau gwell a chyflawni amcanion allweddol. Bydd cynnydd yn cael ei asesu a bydd sbardunau uwchgyfeirio yn cael eu mabwysiadu i sicrhau bod amrywiadau diangen yn cael sylw a bod adferiad yn cael ei roi ar waith lle bo angen. Dylid addasu cynlluniau mewn ymateb i ysgogiadau mewnol neu allanol yn ôl yr angen. Lle bu rhwystrau rhag gweithredu, neu ganlyniadau anfwriadol cynlluniau, dylid mynd i'r afael â'r rhain. Dylid cynnwys adborth a phrofiad cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn y prosesau monitro a gwerthuso.

### ▪ Dysgu

Dylid rhoi mecanweithiau ar waith i sicrhau bod y dysgu'n cael ei ledaenu ar draws y Bwrdd Iechyd. Dylid nodi a rhannu arferion da. Dylid defnyddio dysgu o feysydd eraill hefyd i gyfrannu at adolygu cynlluniau a chyhoeddi fersiynau newydd.

# Rolau a Chyfrifoldebau

## Y Bwrdd Iechyd

Mae gan y Bwrdd (Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol) gydgyfrifoldeb dros sicrhau bod dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni mewn perthynas â chynllunio. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am nodi ymrwymiad y sefydliad i gynllunio integredig a chadarnhau'r safonau a'r fethodoleg ddisgwyliedig ar gyfer cynllunio.

Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod y cynlluniau, a'r penderfyniadau a wneir i'w llunio a'u cyflawni, yn cael eu craffu a'u sicrhau'n briodol gan y Bwrdd llawn mewn modd agored a thryloyw.

Rhaid i Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, neu Gynlluniau Gweithredu Blynyddol lle na ellir cyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig, gael cymeradwyaeth y Pwyllgor a'r Bwrdd cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn gyson yn dilyn egwyddorion cynllunio da a ddisgrifir yn y fframwaith hwn, a bod systemau, polisïau a phobl ar waith i hwyluso cynllunio yn gweithredu'n effeithiol, gan fynd i'r afael â risgiau allweddol a gyrru'r gwaith o gyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd.

## Y Prif Swyddog Gweithredol (PSG)

Y Prif Swyddog Gweithredol yw Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd ac mae ganddo atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau ei fod yn bodloni gofynion statudol a gofynion cyfreithiol eraill, ac yn glynu wrth ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Chynllunio. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys paratoi a gweithredu cynlluniau ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd. Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol hefyd gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r dyletswyddau cynllunio ehangach fel y nodir uchod, gan gynnwys mewn perthynas â chynllunio partneriaeth.

## Cyfarwyddwyr Gweithredol

Mae gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol gydgyfrifoldeb dros sicrhau bod y dull cynllunio integredig yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus, a sicrhau'n unigol bod eu portffolio'n cyfrannu'n effeithiol at gynllunio integredig.

Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithiol er mwyn hwyluso cynllunio integredig da. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod gan uwch reolwyr yn eu portffolio sy'n gyfrifol am gynllunio integredig systemau a phrosesau effeithiol ar waith a bod ganddynt y cymwyseddau a'r sgiliau gofynnol i hwyluso cynllunio integredig.

Mae gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol rôl allweddol o ran gosod diwylliant a disgwyliadau mewn perthynas â Chynllunio, a chefnogi'r gwaith o wreiddio arferion da ar draws y sefydliad. Bydd y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei fynychu a bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn ôl yr angen i hwyluso cynllunio integredig da.

## Cyfarwyddwr Gweithredol Arweiniol - Cynllunio

Y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol yw'r arweinydd dirprwyedig ar gyfer cynllunio strategol yn y Bwrdd Iechyd ac mae'n atebol am ddylunio, datblygu a gweithredu'r Fframwaith Cynllunio Integredig. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol yn

- Arwain y gwaith o wreiddio cynllunio integredig effeithiol ar draws y sefydliad
- Gweithio'n agos gyda'r Aelodau Annibynnol, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol i gydlynu'r gwaith o baratoi a chyhoeddi cynlluniau yn unol â dyletswyddau statudol y Bwrdd
- Cynnal perthynas waith dda gyda Chyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru a chynrychioli'r Bwrdd mewn rhwydweithiau cynllunio cenedlaethol
- Sicrhau bod digon o gapasiti, sgiliau ac arbenigedd yn y tîm Cynllunio Strategol

## Tîm Cynllunio Strategol

Mae'r Tîm Cynllunio Strategol yn atebol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio Strategol. Mae'r Tîm yn gyfrifol am:

- Hwyluso a chefnogi gweithrediad cyson y dull cynllunio integredig ar draws y sefydliad
- Darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol mewn perthynas â'r dull cynllunio integredig a pharatoi cynlluniau corfforaethol

- Arwain y gwaith o baratoi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (neu'r Cynllun Gweithredu Blynyddol) a sicrhau y glynir wrth ganllawiau Llywodraeth Cymru yn y cynlluniau
- Darparu cyngor strategol, cefnogaeth a chyfrannu at ddatblygu cynlluniau gweithredol lleol, cynlluniau rhaglenni a chynlluniau partneriaeth yn ôl yr angen
- Hwyluso'r gwaith o baratoi a chynnal adnoddau cynllunio, cyfleoedd hyfforddi a datblygu i wreiddio a gwella sgiliau a chymwyseddau cynllunio ar draws y sefydliad

## Cymunedau Iechyd Integredig a gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru

Mae cyfarwyddwyr y Gymuned Iechyd Integredig a gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod capasiti a sgiliau effeithiol yn cael eu cynnal er mwyn gallu paratoi a gweithredu cynlluniau gweithredol ar gyfer gwasanaethau o fewn eu cylch gwaith. Mae Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod cynlluniau'n gyson â blaenoriaethau strategol, yn cyfrannu at gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd yn effeithiol, ac yn sicrhau y glynir wrth arferion da mewn cynllunio integredig yn unol â'r Fframwaith Integredig. Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod fforwm cynllunio cynhwysol ar waith i hwyluso cynllunio da, a bod llywodraethu priodol yn cael ei ddilyn wrth ddatblygu a chynhyrchu cynlluniau.

## Uwch Arweinwyr a Rheolwyr Tîm

Mae Uwch Arweinwyr a Rheolwyr Tîm yn gyfrifol am gynnal cynlluniau busnes effeithiol i sicrhau bod capasiti, adnoddau a gweithgarwch yn cyd-fynd â'r cynlluniau gweithredol a ddatblygwyd gan y Gymuned Iechyd Integredig a gwasanaethau ar draws gogledd Cymru.

## Swyddogion arweiniol partneriaethau

Mae swyddogion ac Aelodau Annibynnol sy'n cynrychioli'r Bwrdd Iechyd mewn grwpiau neu fyrddau partneriaeth, ac yn enwedig y byrddau partneriaeth statudol, yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith o ddatblygu cynlluniau partneriaeth yn gyson â'r Fframwaith Integredig, yn bodloni dyletswyddau statudol y Bwrdd a safonau arfer da. Dylai cynrychiolwyr partneriaethau sicrhau bod blaenoriaethau a chynlluniau'n mynd i'r afael â blaenoriaethau cyffredin a bod y gwaith o baratoi a gweithredu cynlluniau yn dilyn ac yn cyflawni prosesau llywodraethu angenrheidiol y Bwrdd Iechyd.

## Arweinwyr cynllunio clwstwr

Mae arweinwyr cynllunio'r clwstwr yn gyfrifol am hwyluso'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Blynyddol Clwstwr i gydlynu gweithgareddau cydweithredol ar lefel clwstwr, ac i lywio'r

gwaith o gynhyrchu dadansoddiad, blaenoriaethau a chynlluniau Grŵp Cynllunio ar draws Clystyrau. Bydd Clystyrau a Grwpiau Cynllunio ar draws Clystyrau yn llywio ac yn dylanwadu ar gynlluniau strategol sefydliadau partner yn ogystal â'r Bwrdd Iechyd. Mae Grwpiau Cynllunio ar draws Clystyrau yn cael eu sefydlu fel is-grwpiau o strwythur llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ac maent hefyd yn gweithredu o dan nawdd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan roi llwybr uniongyrchol ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau rhwng gwasanaethau rheng flaen ac arweinyddiaeth strategol partneriaethau. Mae Cynlluniau Clwstwr a chynlluniau PCPG yn bwydo i gynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd.

## Asesiadau o Effaith

### Cydraddoldeb

Rhaid i asesiadau o effaith cydraddoldeb gael eu cynnal fel rhan o'r broses gynllunio.

- A ganfuwyd unrhyw effaith niweidiol? Os felly, a yw'n gyfiawn ac yn gyfreithlon?
- Disgrifiwch unrhyw fesurau a gymerwyd i liniaru neu i ddileu'r effaith niweidiol.
- A yw effeithiau'r penderfyniad polisi (boed hynny'n gadarnhaol neu'n niweidiol) wedi cael eu hystyried o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i drin y Gymraeg heb fod yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Esboniwch sut mae'r ddogfen yn gwaredu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn hybu cyfle cyfartal a/neu gydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol.

### Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Dylai'r dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gael eu hystyried, eu bodloni a'u cyflwyno.

### Effaith Amgylcheddol

Efallai y bydd angen Asesiadau o Effaith Amgylcheddol. Os felly, cysylltwch â Swyddog yr Amgylchedd ar gyfer yr ardal ddaearyddol berthnasol, am gymorth pellach.

## Hyfforddiant a chefnogaeth

Mae pecyn adnoddau i gefnogi cynllunio strategol da yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r gwaith o weithredu'r fframwaith hwn yn gyson.

Darperir hyfforddiant yn anffurfiol drwy rwydweithiau cynllunio'r Bwrdd Iechyd. Cefnogir hyfforddiant ffurfiol a chymwysterau ym maes Cynllunio drwy Raglen Ddysgu Cymru gyfan. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gefnogi datblygu sgiliau a rhannu dysgu drwy'r rhaglen hon.

## Rhoi ar waith

Bydd y Fframwaith yn cael ei ledaenu drwy strwythurau rheoli'r Bwrdd Iechyd a rhwydweithiau'r arweinwyr cynllunio. Bydd gweithredu'r fframwaith yn dechrau drwy'r cylch cynllunio blynyddol ar gyfer datblygu cynlluniau corfforaethol. Cydnabyddir y bydd yn cymryd amser i weithredu holl ofynion y fframwaith yn llawn ac y bwriedir iddo gefnogi gwelliant cynyddol.

## Adolygu

Bydd y fframwaith yn cael ei adolygu i ddechrau ar ôl blwyddyn er mwyn asesu sut mae hyn yn cael ei wreiddio, ac i fireinio'r cynnwys a'r dull gweithredu. Bydd hyn hefyd yn caniatáu ar gyfer ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad annibynnol o gynllunio sy'n cael ei gynnal i gefnogi canlyniadau'r mesurau arbennig. Yn dilyn hynny, disgwylir y bydd y fframwaith yn cael ei adolygu bob tair blynedd.

## Cyfeiriadau

Wolf, C and Floyd, S (2017) Strategic Planning Research: Toward a Theory-Driven Agenda, in Journal of Management, July 2017

*Cynhaliwyd adolygiad bwrdd gwaith o ganllawiau'r GIG mewn perthynas â chynllunio strategol i gefnogi'r fframwaith hwn*


# Asesiadau Effaith y Fframwaith Cynllunio Integredig

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal Asesiad Sgrinio Effaith Integredig ar y fframwaith hwn i ganfod effeithiau posibl mabwysiadu a gweithredu.

Cyfeirir at y dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac ymdrinnir â hwy yn y fframwaith.

Nid oes angen asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer y fframwaith hwn.

# Amserlen Gynllunio



## Atodiad 1: Adnodd Sgrinio Asesiadau Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Rhaid ystyried pob un o'r Asesiadau isod. Pan fydd sgrinio'n dangos effaith fwy na dibwys neu eich bod yn ansicr ynghylch maes penodol, dylech gysylltu ag arweinydd arbenigol BIPBC (mae'r manylion i'w gweld yn adran 11) a chynnal asesiad mwy trylwyr yn y maes hwnnw. Ni fydd pob asesiad yn berthnasol, ond dylech ystyried pob un yn ei dro.

Gwnewch yn siŵr bod unrhyw dystiolaeth / asesiadau effaith ychwanegol yn cael eu cadw os bydd y cyfarwyddwr cyfrifol / grŵp cymeradwyo neu bwyllgor yn gofyn amdanynt.

Mae'r term 'Dogfen Rheoli Ysgrifenedig' (WCD) yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, strategaethau, achosion busnes, prosiectau, adroddiadau, polisïau, protocolau, gweithdrefnau, canllawiau ac ati.

*Nodyn ychwanegol mewn perthynas â'r Cynllun Blynyddol IAST: mae'r dogfennau IAST cyffredinol yn cael eu hadolygu i gynnwys cyfeiriad at Ddyletswydd Ansawdd ac i gryfhau ystyriaethau o ran y Gymraeg. Mae'r IAST ar gyfer y Cynllun Blynyddol wedi cynnwys y meysydd hyn er cyflawnder ac i adlewyrchu'r flaenoriaeth a roddir i'r meysydd hyn yn y Cynllun.*

### 1. Manylion y Ddogfen:

| | |
|---|---|
| Dogfen newydd neu adolygiad? | Newydd |
| Teitl y WCD Arfaethedig: | Fframwaith Cynllunio Integredig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (IPF) |
| Math o WCD | Polisi corfforaethol |
| Enw'r awdur a Theitl Swydd: | Sally Baxter<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strategaeth Iechyd |
| Cyfarwyddwr Cyfrifol | Chris Stockport<br>Cyfarwyddwr Gweithredol - Trawsnewid a Chynllunio Strategol |
| Is-adran / Adran | Cynllunio Strategol |
| Dyddiad Asesu/Sgrinio | 12/09/23 |

## 2. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

**Canllawiau:**
Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ofyniad gorfodol ar gyfer pob WCD/prosiect ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn unol â'r Weithdrefn ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (WP7). Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion arwain at her gyfreithiol/Adolygiad Barnwrol. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau gwell a datblygu polisïau, gan arwain at well gwasanaethau i gleifion, gofalwyr a staff. Dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ddechrau cyn gynted â phosibl yn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae rhagor o wybodaeth a thempled ar gael yma: AEG – Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sharepoint.com)

| |
|---|
| Date EqIA completed: 12 09 23.<br><br>Nid yw'r IPF ei hun yn cael effaith niweidiol ar ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol. Pwysleisir y dyletswyddau statudol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn yr IPF. Mae'r IPF hefyd yn glir bod asesu effaith yn elfen hanfodol o gynllunio da ac effeithiol. Mae integreiddio wrth gynllunio yn dwyn ynghyd agweddau ar ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd, profiad cleifion a gwerth ymysg ffactorau eraill. Bwriad yr IPF yw cryfhau dull cynllunio'r Bwrdd Iechyd a sicrhau cysondeb, sy'n cyfeirio at effeithiau cadarnhaol posibl ar y grwpiau hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.<br><br>Bydd angen cynnal AEGau unigol ar gyfer cynlluniau penodol wrth iddynt fynd rhagddynt. |

## 3. Asesiad Effaith Economaidd-Gymdeithasol

**Canllawiau:**
Mae angen Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol (SEIA) ar gyfer penderfyniadau strategol ac mae'n cynnwys penderfyniadau strategol sy'n destun adolygiad. Yn gyffredinol, penderfyniadau strategol fydd y rheini sy'n effeithio ar sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddiben statudol arfaethedig (ei swyddogaethau o ran y set o bwerau a dyletswyddau y mae'n eu defnyddio i gyflawni ei gylch gwaith) dros gyfnod sylweddol o amser ac ni fydd yn cynnwys penderfyniadau arferol 'o ddydd i ddydd'. Mae SEIA yn helpu i lywio penderfyniadau gwell drwy geisio sicrhau canlyniadau gwell i bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Dylai SEIA ddechrau cyn gynted â phosibl yn y broses o wneud penderfyniadau.

**Dolenni:**
Rhestr o ddogfennau sy'n gofyn am SEIA.

**Templed a rhagor o wybodaeth:**
Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (SED) (sharepoint.com)

| |
|---|
| SEIA wedi'i gwblhau – N.<br><br>Nid yw'r IPF ar ei ben ei hun yn benderfyniad strategol sy'n cael effaith bosibl ar elfennau economaidd-gymdeithasol. Mae'r Fframwaith yn pwysleisio'r angen am SEIA lle bo hynny'n briodol wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau. Pwysleisir hefyd yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ac mae'n amlwg o dystiolaeth bod anghydraddoldebau iechyd yn effeithio'n anghymesur ar rai cymunedau a bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd gwaeth. Bydd angen cynlluniau penodol sy'n cael eu datblygu a'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â dyletswyddau economaidd-gymdeithasol lle bo hynny'n berthnasol. |

## 4. Dyletswydd Ansawdd

**Canllawiau:**
Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn gyfrwng i wella a diogelu iechyd, gofal a lles poblogaeth Cymru nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys Dyletswydd Ansawdd i sicrhau bod cyrff y GIG yn sicrhau gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu – mae hyn yn golygu 'gofal iechyd diogel, amserol, effeithiol, teg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ('STEEP') ac sydd wedi'i wreiddio mewn diwylliant o ddysgu a gwella'n barhaus'.
Mae'r ddyletswydd yn ymestyn i holl swyddogaethau'r gwasanaeth iechyd mewn lleoliadau clinigol ac anghlinigol. Os yw eich prosiect neu eich WCD yn ymwneud â phenderfyniad ynghylch sut mae gwasanaethau iechyd yn cael eu cynllunio, eu trefnu neu eu darparu, rhaid i chi gysylltu â'r Tîm Ansawdd i sicrhau canlyniadau gwell.

**Dolenni:**
Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): crynodeb | LLYW.CYMRU

| |
|---|
| Dyletswydd Ansawdd yn cael ei ddefnyddio? Y<br><br>Mae'r IPF yn nodi ansawdd fel elfen graidd o gynllunio integredig. Bydd y Tîm Ansawdd yn rhoi mewnbwn a chyngor mewn perthynas â datblygu cynlluniau penodol a'u rhoi ar waith. Bydd angen gwneud rhagor o waith ar y cyd i gynnal QIA ar ddatblygiadau penodol wrth iddynt fynd rhagddynt, ac i adlewyrchu'r Strategaeth Ansawdd ar ôl ei chwblhau. |

## 5. Yr Iaith Gymraeg

**Canllawiau:**
Goblygiadau o ran y Gymraeg ar gyfer unrhyw Ddatblygiad Gwasanaeth, Newid neu Ddatgomisiynu:

- *A fydd effaith ar y gwasanaethau a gynigir i gleifion Cymraeg eu hiaith?*
- *A oes cyfle i adnabod dewis iaith cleifion/defnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau bod eu hanghenion gofal yn cael eu diwallu'n llawn yn unol â Safonau'r Gymraeg?*

*Mae achos diweddar (Cyngor Abertawe v Comisiynydd y Gymraeg (TyG/WLT/21/01)) wedi pwysleisio bod RHAID i unrhyw benderfyniad 'polisi' sefydliadol ystyried yr effaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu mwy na dim ond dogfen bolisi ysgrifenedig, a gall gynnwys penderfyniadau a wneir ynghylch arfer swyddogaethau sefydliad.*

*Darperir ar gyfer ystyriaeth bellach o'r effaith ar y Gymraeg yn yr AEG gorfodol. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw amheuaeth a yw eich cynllun, achos busnes, prosiect neu WCD yn 'benderfyniad polisi', cysylltwch â Thîm y Gymraeg.*

Gofynion Cyfieithu'r Gymraeg:

Mae Safonau'r Gymraeg yn set o ofynion statudol sy'n gosod dyletswydd ar BIPBC i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i gleifion a'r cyhoedd.
O dan y Safonau, rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw darparu "Cynnig Rhagweithiol", sy'n golygu y dylid darparu gwasanaethau yn Gymraeg heb i'r person orfod gofyn amdano. Mae galluogi ein cleifion a'r cyhoedd i gael gofal o ansawdd uchel yn yr iaith briodol yn hollbwysig i'r ffordd rydym yn darparu ac yn cynllunio ein gwasanaethau, yn ogystal ag annog defnyddwyr a darparwyr eraill i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector iechyd.

Os byddwch yn llunio dogfen (ond nid ffurflen) sydd ar gael i un neu fwy o unigolion, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg os yw; (a) testun y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.

| | |
|---|---|
| A yw pwnc y ddogfen yn ymdrin â materion yn ymwneud â'r Gymraeg neu faes sydd o ddiddordeb penodol o ran y Gymraeg? | Y |
| A yw'r ddogfen yn un a fydd yn cael ei harddangos yn gyhoeddus? | N |
| A yw'r ddogfen yn debygol o ddenu ymateb a sylw'r cyhoedd (e.e. ar y cyfryngau cymdeithasol)? | N |
| A yw'r ddogfen yn ddogfen y mae'n ofynnol i unigolion ymateb iddi? | Amh. |
| A yw testun y ddogfen yn ymwneud â mater sy'n berthnasol i, yn effeithio ar neu'n bwysig i nifer fawr o unigolion (a ddiffinnir fel trigolion Cymru sy'n gweithredu yn eu rhinwedd eu hunain)? | Y |
| Ydych chi'n gwybod bod canran neu nifer fawr o'r gynulleidfa a ragwelir (unigolion a sefydliadau yng Ngogledd Cymru) yn siaradwyr Cymraeg, a bod y Gymraeg yn ystyriaeth bwysig iddynt neu eu bod yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg? | Y |
| A oes mwy nag un person wedi gofyn i'r ddogfen fod ar gael yn Gymraeg? | N |
| Canlyniad – a oes angen cyfieithu'r ddogfen O/N | Y |

## 6. Hawliau Plant a Phobl Ifanc

**Canllawiau:**
Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn nodi'r hawliau dynol sylfaenol y dylai pob plentyn eu cael, fel bod pob plentyn yn gallu cael plentyndod da a datblygu i'w lawn botensial. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWBA) yn gosod dyletswydd bod yn rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried y confensiwn.

Mae gan blant anghenion a hawliau ar wahân ac sy'n wahanol i oedolion. Dylech ystyried yn ofalus a fydd y WCD/prosiect arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar blant ac a fydd yn diogelu ac yn gweithredu'r hawliau a nodir yn yr UNCRC yn effeithiol.

Nodwch eich ystyriaethau yma: Nid yw rhai plant yn gallu cyfleu eu barn o ganlyniad i oedran, datblygiad, niwroddatblygiad, iechyd meddwl neu anabledd. A oes problemau o ran caniatâd neu gapasiti? A yw'r WCD/prosiect yn berthnasol i blant sy'n derbyn gofal ac a oes angen mewnbwn gan yr Awdurdod Lleol? Lle bo'n bosibl, dylai WCD/prosiectau hyrwyddo gwrando a chynnwys y plentyn mewn penderfyniadau a wneir amdanynt. Dylai Lles y Plentyn fod yn hollbwysig bob amser.
Mae gan rieni hefyd hawliau dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Plant 1989/SSWBA 2014 – er y dylid gwneud penderfyniadau bob amser er budd gorau'r plentyn ac yn enwedig gweithdrefnau a pholisïau diogelu a ddilynir, fodd bynnag, dylid cael cydbwysedd – rhaid ystyried hawliau rhieni hefyd.

Nid oes unrhyw faterion penodol yn effeithio ar hawliau unigol y plentyn o fewn yr IPF. Mae hawliau ac anghenion plant yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiadau o anghenion y cyfeirir atynt yn yr IPF (PNA a WBA) ac mae rhoi'r cychwyn gorau i blant yn flaenoriaeth strategol yn genedlaethol a fydd yn cael sylw mewn Cynlluniau penodol.

## 7. Pobl Hŷn a/neu Bobl sy'n byw gyda Dementia (gan gynnwys dementia cynnar)

**Canllawiau:**
Mae gan BIPBC ddyletswydd i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu parchu ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau. Dylid datblygu pob WCD/prosiect gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Dylai WCDs/prosiectau sicrhau dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn perthynas ag oedolyn hŷn a/neu rheini sydd â dementia (a allai fod o dan 50 oed). Dylid rhoi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Mae'r pwyntiau cyfeirio pellach yn cynnwys y Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia Gwaith Da, Strategaeth Dementia Cymru Gyfan a Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia. Os oes angen, dylid datblygu WCD clinigol ar wahân gyda mewnbwn gan arbenigwyr.

| |
|---|
| Nid oes unrhyw faterion penodol sy'n cael effaith niweidiol ar hawliau unigol pobl hŷn a/neu bobl sy'n byw gyda dementia yn yr IPF. Bydd y pwyslais yn yr IPF ar anghydraddoldebau iechyd, asesu anghenion ac asesu effaith yn hwyluso ystyriaeth drylwyr wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau penodol. Mae perthynas dda ar waith gyda chynrychiolwyr Llais Gogledd Cymru a bydd Llais yn cyfranogi yn ôl yr angen. Mae'r IPF yn nodi bod angen cydgynhyrchu a gwrando ar lais dinasyddion. |

## 8. Gofalwyr

**Canllawiau:**
Mae gofalwr yn berson, o unrhyw oedran, sy'n darparu cymorth di-dâl i aelod o'r teulu neu ffrind na allai ymdopi heb eu cymorth. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu gofalwyr lle mae'n ymddangos bod angen cymorth arnynt. Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod cyfrifoldeb ar staff iechyd i nodi gofalwyr di-dâl, cydnabod eu pwysigrwydd fel partner cyfartal mewn gofal a rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth iddynt.

| |
|---|
| Nid yw'r IPF yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag asesu a chefnogi anghenion gofalwyr; fodd bynnag, mae'r asesiadau o anghenion a nodwyd, yn enwedig y PNA, yn cydnabod anghenion a hawliau gofalwyr. Bydd mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth a sicrhau asesiad effaith da yn tynnu sylw at anghenion gofalwyr wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau. |

## 9. Amgylchedd

**Canllawiau:**
Mae gan BIPBC ddyletswyddau deddfwriaethol i gydymffurfio â deddfwriaeth Amgylcheddol. Pwrpas hyn yw diogelu'r amgylchedd rydym yn ei feddiannu a sicrhau bod y cyhoedd yn cael cyfle cynnar ac effeithiol i gymryd rhan yn ein gweithdrefnau gwneud penderfyniadau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i achredu i'r System Rheoli Amgylcheddol, (EMS) ISO 14001, sef y safon a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer rheoli'r amgylchedd. Mae'r EMS yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Bwrdd Iechyd

| |
|---|
| Nid yw'r IPF yn effeithio'n uniongyrchol ar faterion amgylcheddol. Mae pwysigrwydd anghenion amgylcheddol, cynaliadwyedd a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn cael sylw yn yr WBA a nodir yn yr IPF, ac mae llesiant amgylcheddol yn un o'r pedwar maes llesiant sy'n cael sylw yn Neddf WFG. |

## 10. Diogelu Data

**Canllawiau:**
Mae asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data yn adnoddau a fydd yn helpu sefydliadau i nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o gydymffurfio â'u rhwymedigaethau diogelu data a bodloni disgwyliadau unigolion ynghylch preifatrwydd. Mae cynnal asesiad sgrinio o effaith diogelu data yn ffordd systematig o wneud hyn i sefydlu a oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA). **Os byddwch yn ateb ie i unrhyw un o'r**

**cwestiynau Sgrinio DPIA isod, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Rheoli Gwybodaeth** i gael cymorth wrth benderfynu a oes angen DPIA llawn.

| | |
|---|---|
| A fydd y WCD yn golygu casglu gwybodaeth newydd am unigolion? | N |
| A fydd y WCD yn gorfodi unigolion i ddarparu gwybodaeth amdanynt eu hunain? | N |
| A fydd gwybodaeth am unigolion yn cael ei datgelu i sefydliadau neu bobl nad ydynt wedi cael mynediad at y wybodaeth yn rheolaidd o'r blaen? | N |
| Ydych chi'n defnyddio gwybodaeth am unigolion at ddiben nad yw'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer ar hyn o bryd, neu mewn ffordd nad yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd? | N |
| A yw'r WCD yn cynnwys defnyddio technoleg newydd a allai gael ei hystyried yn ymyrryd â phreifatrwydd, er enghraifft biometreg neu adnabod wynebau? | N |
| A fydd y WCD yn golygu eich bod yn gwneud penderfyniadau neu'n gweithredu mewn perthynas ag unigolion mewn ffyrdd a allai gael effaith sylweddol arnynt? | N |
| A yw'r wybodaeth am unigolion o fath sy'n arbennig o debygol o godi pryderon neu ddisgwyliadau ynghylch preifatrwydd? Er enghraifft, cofnodion iechyd, cofnodion troseddol, neu wybodaeth arall y mae pobl yn debygol o'i hystyried yn breifat? | N |
| A fydd y WCD yn gofyn i chi gysylltu ag unigolion mewn ffyrdd a allai fod yn ymwthiol iddynt? | N |
| Ydych chi wedi ateb 'Ie' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod? Os felly, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Rheoli Gwybodaeth | N |
| A fydd y WCD yn golygu casglu gwybodaeth newydd am unigolion? | N |

## 11. Crynodeb Sgrinio

**Canllawiau:**
Ar ôl cwblhau'r meysydd sgrinio, dylech nawr gofnodi lle rydych wedi nodi bod angen asesiad pellach a/neu lle gallai fod angen ymgysylltu â'r Arweinydd Corfforaethol perthnasol / arbenigwyr eraill. Yna, dylid defnyddio tystiolaeth ac asesiadau effaith ychwanegol i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cynllun, y prosiect neu'r ddogfen reoli ysgrifenedig.
Gwnewch yn siŵr bod unrhyw dystiolaeth / asesiadau effaith ychwanegol yn cael eu cadw os bydd y cyfarwyddwr cyfrifol / grŵp cymeradwyo yn gofyn amdanynt.

| Asesiad o Effaith | Asesiad Pellach wedi'i Gynnal / Ymgynghoriad ag Arweinydd Perthnasol? |
|---|---|
| Effaith ar Gydraddoldeb | Gorfodol |
| Economaidd-gymdeithasol | Na |
| Ansawdd | Na |
| Yr Iaith Gymraeg | Na |
| Plant | Na |
| Pobl Hŷn | Na |
| Amgylchedd | Na |
| Diogelu Data | Na |
| Gofalwyr | Na |

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Karen Balmer |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 15 Medi 2023 |
| Paratowyd y papur gan: | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd |

**PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Yn dilyn y Pwyllgor Archwilio ar 15 Medi, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn falch o ddarparu'r adroddiad sicrwydd canlynol, gan dynnu sylw at feysydd i'w nodi fel a ganlyn:

**Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**

PF23/87 Adroddiad perfformiad – mae'r cam gweithredu hwn yn ymwneud â diweddariad i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth, felly caiff ei drosglwyddo i'r Pwyllgor hwnnw a'i gau fel cam gweithredu gan y pwyllgor archwilio.

**Adroddiad Mesurau Arbennig**

Trafododd y Pwyllgor y trefniadau pontio rhwng cam un a cham dau a'r angen absoliwt am dryloywder cwbl glir ac nad oedd lle i amwysedd nac amheuaeth.
Cafodd cynllun gwaith pwyllgor archwilio ei gomisiynu.

**Fframwaith Rheoli Risg**

Gwelodd y Pwyllgor y fframwaith newydd symlach, a chafodd sicrwydd gan y gwaith a'r cynnydd a wnaed. Gofynnodd y Pwyllgor am ddatblygiad pellach yn y tair llinell amddiffyn a'r rhestr risgiau.

**Rheolau Sefydlog**

Ar ôl adolygiad trylwyr, roedd rhai mân ddiwygiadau i'w gwneud. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio nesaf i gael sicrwydd cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

**Datganiad Rhoddion a Lletygarwch**

Nododd y Pwyllgor Archwilio y cynnydd sylweddol a oedd wedi'i wneud, ond dim ond sicrwydd rhannol y cawsant. Mae angen gwneud rhagor o waith i wreiddio'r systemau a'r prosesau newydd cyn bod y Pwyllgor wedi'i sicrhau'n llawn. Croesawodd y Pwyllgor y system newydd a chydnabod yr ymdrech i gyrraedd y pwynt hwn.

**Adnodd Tracio Archwiliad**

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y gwaith sydd wedi cael ei wneud i gyrraedd y cam hwn ond mae angen gwneud rhagor o waith gyda'r adnodd tracio. Comisiynwyd bod hyn yn cael ei gwblhau erbyn y cyfarfod nesaf.

**Polisi ar bolisïau**

Mae'r Pwyllgor yn defnyddio dulliau rheoli mewnol fel hyn i fesur pa mor effeithiol y mae pethau'n gweithio. Roedd ymrwymiad cadarn i leihau nifer y polisïau a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r amserlen adnewyddu.

**Hepgor tendrau unigol**
Cytunodd y Pwyllgor mai dim ond pan fyddwn mewn sefyllfa lle na ellir defnyddio proses hepgor tendrau unigol i lywio dulliau rheoli caffael, y gellid rhoi sicrwydd iddynt. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch yr amserlen ar gyfer datblygu cynllun adfer ariannol ffurfiol.

**Cynllun Archwilio Mewnol**
Heriodd y Pwyllgor a chafodd sicrwydd gan yr amserlenni gwahanol ar gyfer y cyfrifon elusen. O ran y cynllun archwilio, cymeradwyodd y pwyllgor y cynllun. Bydd y Pwyllgor yn galw Pwyllgor Gwaith i'r Pwyllgor pan fydd archwiliad mewnol wedi'i gwblhau. Derbyniodd y Pwyllgor wyth adroddiad archwilio gyda lefelau sicrwydd gwahanol.

**EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD**

Nid oedd dim eitemau i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd.

**Y CYFARFOD NESAF**

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 20 Rhagfyr 2023.

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | **Pwyllgor Taliadau** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Dyfed Edwards, Cadeirydd |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 24 Awst 2023 |
| Paratowyd y papur gan: | Pennaeth Dros Dro Llywodraethu Corfforaethol |

**PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y Pwyllgor Taliadau ar 24 Awst 2023:

- Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig i sefydlu rôl Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol.

- Cafodd y Pwyllgor bapur Adroddiad Diweddariad Cyflogau a chymeradwyodd y camau nesaf a amlinellwyd yn yr adroddiad yng nghyswllt dyfarniadau cyflog.

- Cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ar benodiadau'r Prif Weithredwr, Gweithredwr ac Uwch Reolwr. Cymeradwyodd y Pwyllgor y telerau recriwtio a thalu ar gyfer y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol Dros Dro yn amodol ar drafod ad-dalu costau llety. Nododd y Pwyllgor:

1) yr wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer penodi Prif Weithredwr parhaol
2) penodi Cyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig parhaol – Canol
3) ymddiswyddiad ac ymddeoliad y Dirprwy Brif Weithredwr parhaol
4) na chafwyd cytundeb eto ar gyfer dyfarniad cyflog VSM 2023/24

- Nododd y Pwyllgor fod ad-dalu treuliau llety wedi'i gytuno o'r blaen mewn perthynas â'r Prif Weithredwr Dros Dro a chymeradwyodd dalu'r costau sy'n gysylltiedig â rhentu eiddo a rennir ar gyfer y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol Dros Dro.

**EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD**

Nid oedd unrhyw eitemau i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd.

**Y CYFARFOD NESAF**

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Taliadau yn cael ei gynnal ar 28 Medi 2023.

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | **Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Gareth Williams, Aelod Annibynnol |
| Dyddiad y cyfarfod diwethaf: | 1.9.23 |
| Paratowyd y papur gan: | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol |

**PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi y trafodwyd y materion canlynol yn y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth ar 1.9.23:

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

nodi

- Adroddiadau Cyllid Mis 3 a 4 gan gynnwys diweddariadau ar arbedion a rhaglenni cyfalaf
- Cynllun gweithredu mesurau arbennig cyllid
- Adroddiad ar Berfformiad Integredig
- Adroddiad Perfformiad Pobl
- Adroddiad perfformiad Gofal Brys ac Argyfwng
- Diweddariadau ar y Mesurau Arbennig gan gynnwys trefniadau cau'r cylch cyntaf
- Adroddiad blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth 2022/23
- Asesiad Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru Gyfan
- Y diweddaraf am Gynllunio Ystad Ysgol Feddygol Gogledd Cymru
- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Y Gofrestr Risg Gorfforaethol – risgiau sy'n cyd-fynd â'r Pwyllgor

Fe wnaeth y Pwyllgor gytuno ar y materion canlynol mewn sesiwn breifat:

- cymeradwyo adnewyddu contract deintyddol sy'n darparu gwasanaethau orthodontig
- cytuno i gefnogi'r opsiwn a ffefrir gan y Tîm Gweithredol i fynd i'r afael â chamau wrth gefn oherwydd oedi yn y rhaglen Caffael System Gwybodeg Radioleg

Mae'r papurau o'r cyfarfod hwn ar gael yn:
[Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gig.cymru)]

---

Roedd Cadeirydd y Pwyllgor eisiau tynnu sylw at y canlynol

- er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran adrodd ar y Mesurau Arbennig, roedd problemau o hyd o ran cyd-ddealltwriaeth a chysondeb wrth ddefnyddio asesiadau statws coch melyn gwyrdd.
- roedd gan y Pwyllgor bryderon cryf ynghylch y sefyllfa ariannol bresennol a heriau yn y dyfodol. Gofynnwyd am welliant.

- gofynnwyd am adolygiad manwl o'r holl lefelau staffio er mwyn rhoi mwy o eglurder a gafael ar y ddealltwriaeth o'r effaith ar gyllid pe bai PBC yn llenwi'r holl swyddi gwag y cytunwyd arnynt (yn enwedig o ystyried bod gorwariant ar staffio ar hyn o bryd ochr yn ochr â'r swyddi gwag presennol).
- roedd angen ystyried yr ymagwedd tuag at ddatblygu achosion busnes cyfalaf, o ystyried y risg o ddefnyddio adnoddau staff sylweddol ar ddatblygu achosion busnes nad oedd ganddynt fawr ddim posibilrwydd neu ddim posibilrwydd o gwbl o gael eu cyllido yn y tymor byr/tymor canolig.
- roedd yr adroddiad blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol.
- roedd y Pwyllgor yn falch o dderbyn fformat gwell yr Adroddiad Perfformiad Pobl a oedd yn darparu mwy o ddata cymharol. Croesawodd y Pwyllgor y gwell gafael ar y broses ymgysylltu interim – yr oedd yn ceisio ei gwreiddio'n gadarn yn PBC.
- roedd angen rhagor o waith datblygu ar yr Adroddiad Perfformiad i sicrhau ffocws ar gynnwys naratif i ddisgrifio'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael/dirywiol.  Roedd angen mwy o sicrwydd ynghylch rhyddhau cleifion a'r effeithiau dilynol ar lif cleifion i restrau aros a gofal sylfaenol.
- cytunwyd y byddai UEC yn cael sylw mewn sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol a fyddai hefyd yn darparu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o Ganolfannau Gofal Brys ac integreiddio â phractisau meddygon teulu.

**EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD**

Nid oedd unrhyw eitemau i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd.

**Y CYFARFOD NESAF**

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei gynnal ar 2.11.23

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br>***Report title:*** | Adroddiad Ansawdd Integredig |
| **Adrodd i:**<br>***Report to:*** | Y Bwrdd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br>***Date of Meeting:*** | Medi 2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br>***Executive Summary:*** | Mae’r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiad i’r Bwrdd Iechyd am faterion pwysig yn ymwneud ag ansawdd sydd wedi codi yn ystod y cyfnod blaenorol, ochr yn ochr â data tueddiadau tymor hir, a gwybodaeth am y gwelliannau sydd ar y gweill. |
| **Argymhellion:**<br>***Recommendations:*** | Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r adroddiad hwn. |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br>***Executive Lead:*** | Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth<br>Dr Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol<br>Gareth Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>***Report Author:*** | Matthew Joyes, Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd |

| **Pwrpas yr adroddiad:**<br>***Purpose of report:*** | I’w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☐ | Am sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☒ |
|---|---|---|---|

| **Lefel sicrwydd:**<br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☒<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br>*No confidence / evidence in delivery* |
|---|---|---|---|---|

| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br>***Justification for the above assurance rating. Where ‘Partial’ or ‘No’ assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve ‘Acceptable’ assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** |
|---|
| Mae hyder yn y data a ddarperir yn yr adroddiad, fodd bynnag, mae cryfder y dysgu a’r gwelliant yn dal i fod yn faes sy’n peri pryder ac yn ganolbwynt allweddol i’r gwaith. Mae hyn yn cael sylw drwy amrywiaeth o fesurau gan gynnwys y camau gweithredu sy’n cyd-fynd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. |

| | |
|---|---|
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Ansawdd |
| **Goblygiadau rheoleiddio a lleol:**<br>***Regulatory and legal implications:*** | Mae’r Ddyletswydd Ansawdd yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.<br><br>Mae’r ddyletswydd ansawdd statudol yn mynnu bod y prosesau gwneud penderfyniadau gan y Bwrdd Iechyd yn ystyried gwella gwasanaethau iechyd a chanlyniadau i bobl Cymru – mae’r ddyletswydd hefyd yn cynnwys Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal newydd. |

| | |
|---|---|
| | Gall enghreifftiau o niwed i gleifion ddangos methiant i gydymffurfio â safonau GIG Cymru neu ddeddfwriaeth diogelwch. |
| **Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Amh. |
| **Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Amh. |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | BAF1.2 |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Amh. |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Amh. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Amh. |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | BAF1.2 |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Amh. |
| **Camau Nesaf: Gweithredu argymhellion**<br>***Y Camau Nesaf: Implementation of recommendations***<br>Amh. | |
| **Rhestr o Atodiadau:**<br>***List of Appendices:***<br>1. Adroddiad Ansawdd Integredig y Bwrdd | |

# Adroddiad Ansawdd Integredig y Bwrdd – Medi 2023

## CYFLWYNIAD

Ar gyfer y GIG yng Nghymru, ystyrir bod ansawdd yn cael ei ddiffinio fel diwallu anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu yn barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy. Wrth gyflawni hyn, o dan y ddyletswydd ansawdd statudol, bydd angen i Weinidogion Cymru a chyrff y GIG sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn **ddiogel**, **yn amserol**, **yn effeithiol**, **yn effeithlon**, **yn deg** ac **yn canolbwyntio ar yr unigolyn**. Mae chwe galluogwr yn sail i'r meysydd hyn, sef **arweinyddiaeth, y gweithlu, diwylliant, gwybodaeth, dysgu ac ymchwil a dull systemau cyfan.** Mae'r meysydd a'r galluogwyr hyn yn ffurfio'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal ar gyfer Cymru a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2023 drwy ganllawiau statudol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb i'r Bwrdd Iechyd o wybodaeth allweddol sy'n ymwneud ag ansawdd. Nod yr adroddiad hwn yw rhoi uchafbwyntiau ansawdd allweddol i'r Bwrdd Iechyd ym mhob cyfarfod. Mae gwybodaeth fanwl am dueddiadau, themâu, dysgu a gwella yn cael ei darparu i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau (QSE).

Mae'r Adroddiad Ansawdd Integredig cysylltiedig wedi cael ei ailfformatio ac mae'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd fel drafft cychwynnol o fformat adroddiad newydd. Croesewir adborth gan y Bwrdd. Mae'r adroddiad wedi ei strwythuro, er hwylustod, o gwmpas tri maes ansawdd: diogelwch cleifion, profiad cleifion ac effeithiolrwydd clinigol. Mae'r tri maes hyn yn darparu dull hawdd ei ddeall sy'n adlewyrchu elfennau craidd yr hyn sy'n bwysig i gleifion: cael eu cadw'n ddiogel, cael profiad cadarnhaol, a chael ymyriad gofal iechyd effeithiol.

## DIOGELWCH CLEIFION

Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol (NRI)

Digwyddiad sy'n adroddadwy yn genedlaethol yw: *"A patient safety incident which caused or contributed to the unexpected or avoidable death, or severe harm, of one or more patients, staff or members of the public, during NHS funded healthcare."*

Rhwng mis Mehefin a mis Awst 2023, cafwyd 33 o ddigwyddiadau a oedd yn adroddadwy yn genedlaethol.

Dros y flwyddyn hyd yma, mae cyfradd adrodd Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol wedi gostwng o'i chymharu â chyfnod cymharol y flwyddyn flaenorol. Sylwir ar hyn yn y categorïau o gwympiadau difrifol ymysg cleifion a digwyddiadau o ddirywiad difrifol ymysg cleifion, ond ar hyn o bryd ni ellir dod i gasgliad ac mae angen dadansoddiad pellach: ar y llaw arall, mae nifer y digwyddiadau diogelwch cleifion gyda niwed wedi codi'n sylweddol.

Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, cyfanswm yr ymchwiliadau i ddigwyddiadau a oedd yn adroddadwy yn genedlaethol yw 18 (i lawr o 31 adeg ysgrifennu'r adroddiad diwethaf).

Gellir dadansoddi'r digwyddiadau sy'n adroddadwy yn genedlaethol a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod hwn yn ôl themâu fel a ganlyn:

- Briw pwyso a gafwyd drwy ofal iechyd, Graddfa 3 neu'n uwch (HAPU)
- Cleifion mewnol yn cwympo
- Asesu a chydnabod dirywiad claf/defnyddiwr gwasanaeth

Mae pob digwyddiad sy'n adroddadwy yn genedlaethol yn destun Adolygiad Cyflym Gwneud yn Ddiogel, Panel Dysgu Cyflym o bosibl (dan arweiniad swyddog gweithredol clinigol neu ddirprwy), ac ymchwiliad ac adolygiad pellach. Mae'r dysgu a'r camau gweithredu sy'n deillio o bob un yn cael eu cofnodi ar fodiwl rheoli digwyddiadau Datix Cymru. Caiff ffurflenni dysgu eu drafftio ar gyfer pob ymchwiliad a'u cyflwyno'n genedlaethol i Weithrediaeth GIG Cymru i roi sicrwydd o ran dysgu a chamau gweithredu.

Mae manylion y gwaith gwella sy'n mynd rhagddo o ran y themâu wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ac mae adolygiad manwl o'r cwympiadau wedi ei gynllunio. Mae adolygiad archwilio mewnol o atal a rheoli cwympiadau hefyd ar y gweill.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r Ddyletswydd Gonestrwydd Statudol ar waith ym mis Ebrill 2023. Mae hyfforddiant ar-lein ac e-ddysgu ar gael i staff ac mae llyfrgell adnoddau wedi cael ei datblygu ar y fewnrwyd. Mae'r system Datix wedi cael ei gwella i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd. Mae archwiliad cydymffurfio cychwynnol wedi ei gwblhau ac, o ganlyniad, mae gwaith dilysu data yn mynd rhagddo.

Digwyddiadau Byth

Bu dau Ddigwyddiad Byth rhwng mis Mehefin a mis Awst 2023. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys bloc anaesthetig ar yr ochr anghywir yn y theatr a thynnu craith ar ochr anghywir y corff yn yr adran dermatoleg.

Mae diweddariad wedi ei drefnu ar gyfer y Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol a'r Grŵp Diogelwch Cleifion nesaf ar NatSSIPS2 (yn dilyn Cylchlythyr Iechyd Cymru yn ddiweddar) – mae pob gwasanaeth yn adolygu eu sefyllfa ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu gweithredu. Mae'r Safonau Diogelwch Cenedlaethol ar gyfer Gweithdrefnau Mewnwthiol (NatSSIPs 2) wedi cael eu dylunio i leihau camddealltwriaeth neu wallau ac i wella cydlyniant timau, ac fe'i hysgrifennwyd gan glinigwyr o sawl proffesiwn ac arbenigedd. Mae NatSSIPs 2 yn ail-lansio Rhestr Wirio Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Mae'n mandadu adegau aros allweddol pan fydd y llwybr safonol yn cael ei gadarnhau a manylion sy'n benodol i'r claf yn cael eu hegluro. Mae hyn yn gwella diogelwch cleifion a gweithio mewn tîm. Mae'r NatSSIPs 2 hwn hefyd yn berthnasol o'r newydd i weithdrefnau ymwthiol mewn radioleg ymyriadol ac adrannau brys, gyda 'chyfrifiadau cymesur' ar gyfer mwy o weithdrefnau 'mân'.

Yn y flwyddyn ariannol flaenorol, adroddwyd am bum digwyddiad byth, o'i gymharu â 10 dros yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol (wrth ystyried digwyddiadau a israddiwyd yn ddiweddarach).

Rhybuddion a Hysbysiadau Diogelwch Cleifion

Mae gan y Bwrdd Iechyd un rhybudd hwyr yn ymwneud ag opioidau synthetig cryf sy'n gysylltiedig â gorddos o heroin a marwolaethau. Mae sicrwydd cydymffurfio eto i ddod gan 2 Gymuned Iechyd Integredig (IHC) ac 1 is-adran ranbarthol. Mae hyn wedi cael ei uwchgyfeirio ac mae'n cael ei olrhain.

Rheoli ac Atal Heintiau

Mae'r Bwrdd Iechyd oddi ar y trywydd ar gyfer pob organeb (er bod MRSA ac E. coli yn agos iawn at y taflwybr).

Mae cyfradd C. difficile yn dal yn uwch na chyfradd Cymru gyfan, ond mae gostyngiad yn y flwyddyn gyfredol hyd yma o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd yr adroddiad blaenorol yn rhoi manylion

y gwaith gwella sydd ar y gweill. Cyfradd y Bwrdd Iechyd fesul 100,000 o'r boblogaeth yw 37.1 – mae gan ddau fwrdd iechyd arall (Hywel Dda a Bae Abertawe) gyfraddau uwch.

Mae cyfradd P. aeruginosa yn dal yn uwch na'r gyfradd Cymru gyfan ac mae'r gyfradd yn aros yn gyson dros y flwyddyn (mae'r niferoedd cyffredinol yn fach, 5 ym mis Awst 2023). Cyfradd y Bwrdd Iechyd fesul 100,000 o'r boblogaeth yw 5.1 – mae gan ddau fwrdd iechyd arall (Bae Abertawe a Hywel Dda) gyfraddau uwch.

## PROFIAD CLEIFION

### Cwynion

Rhwng mis Mehefin a mis Awst 2023, rheolwyd 539 o gwynion o dan y Rheoliadau Gweithio i Wella a rheolwyd 100 o gwynion fel Datrysiadau Cynnar. Roedd gan y Tîm PALS 1,716 o gysylltiadau.

Bu gostyngiad mewn cwynion a gostyngiad nodedig mewn datrys yn gynnar a chysylltiadau PALS.

Mae'r rhan fwyaf o gwynion yn ymwneud â gofal eilaidd. Mae'r prif themâu'n ymwneud â'r canlynol: triniaethau ac asesiadau clinigol, cyfathrebu gwael, apwyntiadau a meddyginiaeth.

Mae ymchwiliadau hwyr yn dal yn her – ddiwedd Awst 2023, roedd 284 o ymchwiliadau'n hwyr ac mae'r llwybr gwella wedi sefydlogi. Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer profiad cleifion a gofalwyr yn parhau i arwain cyfarfodydd cymorth a chraffu wythnosol gydag is-adrannau i leihau'r nifer hwn, ac mae'r tîm wedi gweithio gyda Chymunedau Iechyd Integredig i ddatblygu cynlluniau gwella a llwybrau newydd.

### Adborth gan gleifion

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023, cafodd 6,150 o arolygon adborth cleifion eu cwblhau ar system adborth amser real Civica.

Ym mis Mehefin 2023, roedd 83.82% o'r cleifion a gwblhaodd yr arolwg bob amser yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac roedd 83.17% o gleifion bob amser yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal (targed o 80%).

## EFFEITHIOLRWYDD CLINIGOL

Mae cynllun archwilio Haen 1 ar gyfer 2023-2024 yn rhestru pedwar deg un o archwiliadau, ac nid oedd tri ohonynt yn berthnasol i'r Bwrdd Iechyd gan fod rhai gwasanaethau'n cael eu comisiynu mewn mannau eraill, gan adael tri deg wyth o archwiliadau y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd eu cwblhau. Mae Hwyluswyr Archwilio Clinigol yn monitro cynlluniau archwilio Haen 1 ac yn cwblhau camau gweithredu CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol ac Amserol) mewn ymateb i ganfyddiadau'r archwiliad o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.

Mae cynllun peilot y Gronfa Ddata Rheoli ac Olrhain Archwilio (AMaT) yn mynd rhagddo, gyda chamau gweithredu Haen 1 yn cael eu monitro drwy AMaT, yn ogystal â'r rhai ar gyfer archwiliadau Haen 2 penodol y cytunwyd arnynt. Drwy hyn, mae'r tîm yn ymgysylltu â rhanddeiliaid clinigol a chorfforaethol i sicrhau bod gweithgarwch archwilio'n fwy amlwg, gan gryfhau adroddiadau amser real, a meithrin cysylltiadau â chydweithwyr mewn Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru drwy Grŵp Fforwm AMaT a Grŵp Rhwydwaith Effeithiolrwydd ac Archwilio Clinigol Cymru Gyfan.

Yn ystod Chwarter 1, cofrestrwyd 132 o archwiliadau Haen 3 ar draws y Bwrdd Iechyd. Roedd y gyfran fwyaf o bynciau archwilio Haen 3 yn gysylltiedig â Chanllawiau NICE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol) (17.4%). O'r gweddill: Roedd 15.2% yn ail-archwiliadau, 15.2% mewn ymateb i ganllawiau Cenedlaethol a 9.8% yn werthusiadau gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 59 o brosiectau yn ystod Chwarter 1.

## SICRWYDD A RHEOLEIDDIO

Ymgyfreitha

Nid oes unrhyw faterion o ran hawliadau i dynnu sylw'r Bwrdd atynt.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i dderbyn nifer uwch o Hysbysiadau Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (PFD) (Rheoliad 28). Ers yr adroddiad diwethaf, mae saith Hysbysiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol wedi cael eu derbyn. Mae'r themâu allweddol sy'n codi o hysbysiadau eleni yn ymwneud â'r canlynol:

- Prydlondeb ac ansawdd ymchwiliadau diogelwch cleifion;
- Diffyg cofnodion electronig a risgiau cysylltiedig cofnodion papur;
- Oedi wrth drosglwyddo cleifion ambiwlans, llif cleifion a chapasiti mewn Adrannau Achosion Brys.

Mae nifer yr hysbysiadau a gyhoeddwyd yn adlewyrchu pryderon difrifol crwneriaid mewn perthynas â'r pwyntiau uchod.

Cafodd y Rhybuddion mewn perthynas ag oedi mewn ambiwlans eu rhoi ar y cyd i'r Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a'r chwe awdurdod lleol.

Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, roedd ymatebion yn cael eu drafftio.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gwrdd â Chrwneriaid lleol i sicrhau arferion gweithio da.

Rheoleiddio

Roedd y Bwrdd Iechyd yn mynd i'r llys ar 3 Awst 2023 i ymateb i erlyniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn dilyn ymchwiliad i farwolaeth drasig claf yn Uned Hergest yn 2021. Gohiriwyd hyn ar sail argaeledd y llys.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn Hysbysiad Tramgwyddo gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch atal a rheoli cwympiadau ymysg cleifion mewnol. Mae hyn yn dilyn ymchwiliad i dri chwymp gan cleifion mewnol a Hysbysiad Gwella a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn 2021. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yn parhau i arwain ymateb y sefydliad i wella'r sefyllfa o ran cwympiadau, gan gynnwys y materion sy'n codi o'r Hysbysiad diweddaraf hwn.

Nid oes materion yn ymwneud ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru nac Arolygiaeth Gofal Cymru i dynnu sylw'r Bwrdd atynt.

Ombwdsmon

Cyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru un Adroddiad Lles y Cyhoedd ar 14 Medi 2023. Lansiodd yr Ombwdsmon ymchwiliad ar ôl cwyn bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â darparu triniaeth briodol ac amserol i glaf ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty gydag amheuaeth o lid

y pendics. Cadarnhaodd yr Ombwdsmon y rhan fwyaf o rannau'r gŵyn ac roedd yn pryderu bod y digwyddiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar lesiant corfforol a meddyliol y claf. Mae gan y claf broblemau iechyd a symudedd. Fe wnaeth yr Ombwdsmon nifer o argymhellion ac mae pob un wrthi'n cael ei gyflawni.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gwrdd ag Awdurdod Safonau Cwynion yr Ombwdsmon i sicrhau arferion gweithio da.

## CASGLIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiad i'r Bwrdd Iechyd am faterion sy'n ymwneud ag ansawdd, gan gynnwys Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol, Digwyddiadau Byth a gweithgareddau rheoleiddiol wedi digwydd yn ystod y ddau fis diwethaf.

Dyma'r prif bwyntiau i'w nodi:

- Prif themâu y Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol o hyd yw cwympiadau, briwiau pwyso a gafwyd yn sgil gofal iechyd, ac adnabod a chymryd camau ar gyfer cleifion sy'n dirywio. Mae gwaith gwella ar gyfer yr holl feysydd hyn yn mynd rhagddo o dan arweinyddiaeth uwch staff clinigol.
- Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cyhoeddi Hysbysiad Tramgwyddo ar gyfer atal a rheoli cwympiadau ymysg cleifion mewnol.
- Mae dau Ddigwyddiad Byth wedi digwydd.
- Mae un Adroddiad Budd y Cyhoedd gan yr Ombwdsmon wedi cael ei gyhoeddi.
- Mae'r Crwneriaid yn parhau i godi pryderon difrifol mewn nifer o feysydd.
- Mae nifer yr ymchwiliadau i ddigwyddiadau diogelwch cleifion sydd ar ei hôl hi, ac o ganlyniad i hynny cau o fewn yr amserlen darged, yn parhau i fod yn heriol.
- Mae nifer y cwynion hwyr yn dal i fod yn annerbyniol o uchel, gydag effaith annerbyniol ar gleifion, ac mae hynny'n effeithio ar gydymffurfio â'r targed cau. Mae cymorth yn cael ei ddarparu i bob isadran gan y timau corfforaethol, ac mae cynlluniau adfer ar waith.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gyflwyno gwybodaeth fanylach i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau.

Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd nodi'r adroddiad.

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board




# Adroddiad Ansawdd Integredig y Bwrdd

## Medi 2023


e’r adroddiad hwn yn cael ei gynhyrchu gan Gyfarwyddiaeth Ansawdd y Bwrdd Iechyd. Mae hwn yn adroddiad newydd sy’n datblygu er mwyn rhoi dangosyddion ansawdd allweddol i’r Bwrdd, y cyhoedd a rhanddeilia


## Adroddiad Ansawdd y Bwrdd - Diogelwch Cleifion


| Dangosydd | Ebr 22 | Mai 22 | Meh 22 | Gor 22 | Awst 22 | Medi 22 | Hyd 22 | Tach 22 | Rhag 22 | Ion 23 | Chwe 23 | Maw 23 | Ebr 23 | Mai 23 | Meh 23 | Gor 23 | Awst 23 | Cyfanswm | Cymedrol | Gwreichlin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digwyddiadau diogelwch cleifion gyda niwed | 1,350 | 1,366 | 1,434 | 1,606 | 1,674 | 1,556 | 1,632 | 1,558 | 1,742 | 1,730 | 1,552 | 2,103 | 2,113 | 2,252 | 2,347 | 2,426 | 2,409 | 30,850 | 1,815 | |
| Digwyddiadau sy'n Adroddadwy yn Genedlaethol (NRI) | 11 | 13 | 26 | 22 | 17 | 18 | 22 | 25 | 21 | 22 | 22 | 20 | 19 | 23 | 17 | 6 | 10 | 314 | 18 | |
| NRIs Hwyr | 24 | 29 | 39 | 50 | 33 | 47 | 48 | 40 | 39 | 39 | 37 | 43 | 37 | 30 | 29 | 16 | 18 | Amh. | 35 | |
| NRIs - Cwympiadau Cleifion | 4 | 5 | 6 | 6 | 1 | 5 | 3 | 5 | 5 | 5 | 3 | 5 | 5 | 2 | 3 | 0 | 1 | 64 | 4 | |
| NRIs - Wlserau Pwyso a Gafwyd yn Sgil Gofal Iechyd | 3 | 1 | 7 | 9 | 7 | 6 | 8 | 8 | 4 | 10 | 12 | 6 | 9 | 11 | 8 | 3 | 2 | 114 | 7 | |
| NRIs – Dirywiad Claf | 1 | 3 | 5 | 3 | 0 | 1 | 3 | 2 | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 25 | 1 | |
| NRIs - Digwyddiadau Byth | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 7 | 0 | |


**Nodiadau ategol:** Mae data'n cael ei ddarparu o system Datix y Bwrdd Iechyd ac mae'n gywir adeg adrodd (13/09/2023). Mae data am ddigwyddiadau yn dangos dyddiad y digwyddiad (sy'n wahanol i'r dyddiad yr adroddwyd amdano).


**Meysydd ffocws allweddol:**








# Adroddiad Ansawdd y Bwrdd - Profiad Cleifion a Gofalwyr


| Dangosydd | Ebr 22 | Mai 22 | Meh 22 | Gor 22 | Awst 22 | Medi 22 | Hyd 22 | Tach 22 | Rhag 22 | Ion 23 | Chwe 23 | Maw 23 | Ebr 23 | Mai 23 | Meh 23 | Gor 23 | Awst 23 | Cyfanswm | Cymedrol | Gwreichlin |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwynion dan PTR | 182 | 220 | 223 | 146 | 194 | 169 | 159 | 160 | 138 | 133 | 149 | 168 | 131 | 168 | 176 | 185 | 178 | 2,879 | 169 | |
| Datrysiadau cynnar | 155 | 147 | 100 | 61 | 98 | 69 | 64 | 48 | 49 | 51 | 48 | 23 | 26 | 44 | 28 | 43 | 29 | 1,083 | 64 | |
| Cwynion hwyr dan PTR | 332 | 350 | 395 | 441 | 438 | 464 | 420 | 341 | 335 | 359 | 307 | 295 | 271 | 254 | 266 | 260 | 284 | Amh. | 342 | |
| Cysylltiadau'r Ombwdsmon | 5 | 11 | 11 | 11 | 19 | 15 | 10 | 12 | 10 | 18 | 10 | 6 | 11 | 8 | 17 | 10 | 5 | 189 | 11 | |
| Ymchwiliadau llawn yr Ombwdsmon | 2 | 3 | 3 | 4 | 3 | 5 | 4 | 1 | 4 | 5 | 5 | 1 | 1 | 1 | 4 | 2 | 1 | 49 | 3 | |
| PALS contacts | 624 | 629 | 600 | 701 | 554 | 578 | 645 | 505 | 432 | 479 | 518 | 694 | 563 | 519 | 595 | 555 | 566 | 9,757 | 574 | |


**Nodiadau ategol:** Mae data'n cael ei ddarparu o system Datix y Bwrdd Iechyd ac mae'n gywir adeg adrodd (13/09/2023). Mae data profiad yn dangos dyddiad y gŵyn neu'r cyswllt.


**Meysydd ffocws allweddol:**




| | |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd<br>28 Medi 2023 | GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board |

## Adroddiad y Pwyllgor

| | |
|---|---|
| **Enw'r Pwyllgor:** | **Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau** |
| **Cadeirydd y Pwyllgor:** | Rhian Watcyn Jones, Aelod Annibynnol |
| **Dyddiadau cyfarfodydd:** | 22 Awst 2023 |
| **Cyfarwyddwr Cyfrifol:** | Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth |

Cynhaliwyd y cyfarfod wyneb yn wyneb yn Ystafell y Bwrdd, Cwrt Carlton, Parc Busnes Llanelwy.

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ar 22 Awst 2023.

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**

**Mesurau Arbennig**
Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn ymwneud â'r Mesurau Arbennig a oedd i'w cyflawni a oedd yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor. Roedd y cylch 90 diwrnod cyntaf i fod i ddod i ben ar 31 Awst a chafodd y Pwyllgor drosolwg o'r ffocws ar gyfer yr ail gylch 90 diwrnod. Nodwyd y cynnydd a'r heriau allweddol ac er bod Mesurau Arbennig yn heriol, cytunwyd ei bod yn bwysig gwneud gwelliannau'n gyflym. Nododd y Pwyllgor yr angen i gydbwyso disgwyliadau a bod yn realistig ar gyfer gwelliant hirdymor parhaus.

**Adroddiad Effeithiolrwydd Clinigol**
Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ar Adroddiad Effeithiolrwydd Clinigol. Cyflwynwyd Adroddiadau Archwilio Clinigol Chwarter 3, Chwarter 4 a'r Adroddiad Archwilio Clinigol Blynyddol ar gyfer 2022-2023 i Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol Strategol (CEG) fis Mehefin i'w trafod ac i'r Grŵp Datblygu Ansawdd ar 14 Awst ac yn awr i'r Pwyllgor am sicrwydd. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i wybod beth oedd yn mynd yn dda ac os nad oedd, pa gynlluniau oedd ar waith i wella neu liniaru. I gefnogi hyn, gofynnodd y Pwyllgor i adroddiadau yn y dyfodol ganolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth lefel uwch er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gael sicrwydd.

**Adroddiad Perfformiad Mis 3**
Cyflwynodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad yr adroddiad a oedd ar fformat gwahanol i fersiwn fwy manwl ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a oedd, gobeithio, yn gliriach. Nodwyd bod yr adroddiad yn ymwneud â data Mis 3, gan nad oedd data Mis 4 ar gael oherwydd amserlenni adrodd. Ystyriodd y Pwyllgor sgoriau a thargedau perfformiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ochr yn ochr â chymharu cymheiriaid ar gyfer cyd-destun.

**Adroddiad Profiad Cleifion a Gofalwyr**

Cyflwynodd Pennaeth Profiad y Claf yr Adroddiad ar Brofiad Cleifion a Gofalwyr a oedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023. Nodwyd bod 570 o gwynion wedi dod i law yn ystod y cyfnod hwn. Roedd 47 o'r rhain yn cael eu rheoli o dan "Gweithio i Wella", a chafodd 98 arall eu datrys fel Datrysiad Cynnar. Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r cwynion yn ymwneud â Gwasanaethau Gofal Eilaidd. Mae'r prif themâu'n ymwneud â'r canlynol: triniaethau ac asesiadau clinigol, cyfathrebu gwael, apwyntiadau a meddyginiaeth. Mae gwaith rhagweithiol yn mynd rhagddo gyda'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) i gydlynu â gwasanaethau, gan fynd i'r afael â themâu sy'n codi dro ar ôl tro. Mae problemau o ran agweddau ac ymddygiad yn themâu cyffredin ar draws yr holl wasanaethau. Nodwyd y byddai sesiwn Datblygu'r Bwrdd ar ddiwylliant ac ymddygiad o fewn y sefydliad yn ystod cylch 90 diwrnod nesaf Mesurau Arbennig

**Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau 2022/23**
Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 gan y Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer Atal Heintiau a Dihalogi. Roedd yr adroddiad yn rhoi sicrwydd bod y sefydliad yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â dulliau rheoli Atal a Rheoli Heintiau yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) 2014. Roedd y Pwyllgor yn falch bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cymharu'n dda â Byrddau Iechyd eraill, a nododd y gwaith a oedd yn mynd rhagddo o hyd. Nodwyd bod y Grŵp Rheoli Heintiau yn sicrhau bod dysgu ar y cyd ac arferion da yn cael eu rhoi ar waith ar draws y sefydliad.

**Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Corfforaethol**
Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd ar gyfer 2022-2023. Yn sgil cyflwyno deddfwriaeth newydd a chynnydd mewn cydymffurfio â hyfforddiant, nodwyd bod y gwasanaeth wedi gweld cynnydd sylweddol yn lefel y gwaith achos. Mae hyn yn cynnwys cymhlethdod achosion yn seiliedig ar addasu deddfwriaeth newydd ar gyfer ymarfer. Mae hyn wedi cael ei brofi ar draws y Bwrdd Iechyd a chan ein hasiantaethau partner.
Nododd y Pwyllgor y gwahaniaethau mewn ardaloedd Cymuned Iechyd Integredig.

**Adroddiad y Gymuned Iechyd Integredig: Dwyrain**
Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain yr adroddiad gyda gwybodaeth a dadansoddiad ar gynnydd Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain o ran gwella ansawdd, diogelwch cleifion a phrofiad. Nodwyd bod y tair Cymuned Iechyd Integredig (Gorllewin, Canol a Dwyrain) yn cwrdd yn rheolaidd yn ffurfiol ac yn anffurfiol i gydweithio. Ystyriwyd yr heriau a'r cyfleoedd allweddol o ran darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

**Y Gofrestr Risg**
Cyflwynodd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Cyswllt yr adroddiad ar reoli'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor hwn. Nododd y Pwyllgor y gwelliannau y mae angen eu gwneud, ac roedd yn falch o nodi y byddai sesiwn Datblygu'r Bwrdd, a gafodd ei chynnal ar 24 Awst, ar Barodrwydd i Dderbyn Risg i gefnogi Fframwaith Rheoli Risg gwell.

| | |
|---|---|
| **Sicrwydd allweddol a roddwyd yn y cyfarfod hwn:** | • Gwaith Atal a Rheoli Heintiau.<br>• Datblygu'r Fframwaith Rheoli Risg a'r Sesiwn Datblygu Parodrwydd i Dderbyn Risg.<br>• Gwaith parhaus i wella Mesurau Arbennig drwy'r sefydliad.<br>• Hoffai'r Pwyllgor nodi bod sesiwn datblygu ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau wedi'i |

| | |
|---|---|
| | chynllunio i ystyried canfyddiadau'r Adolygiadau Annibynnol yn fanwl. Bydd hyn yn digwydd yn ystod mis Medi. |
| **Risgiau allweddol, gan gynnwys camau lliniaru a cherrig milltir** | Dim |
| **Materion i'w hatgyfeirio at Bwyllgor arall** | Dim |
| **Materion y mae angen eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd:** | Dim |
| **Materion a gynlluniwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf:** | Bydd y Pwyllgor yn symud yn ôl i gylch cyfarfod deufisol o fis nesaf ymlaen i gyd-fynd â'r Bwrdd. Dyma'r eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf:<br>• Adroddiad Effeithiolrwydd Clinigol<br>• Adroddiad Gofal Sylfaenol<br>• Adroddiad Blynyddol Stori'r Claf<br>• Y Gofrestr Risg<br>• Adroddiad Blynyddol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) ar Addasrwydd i Ymarfer Ebrill 2022 – Mawrth 2023<br>• Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol<br>• Adroddiad Perfformiad<br>• Adroddiad Mesurau Arbennig |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** | Hydref 2023 – I'w gadarnhau |

<table>
<tr><td>Teitl yr adroddiad:<br>Report title:</td><td colspan="4">Datblygu'r Sefydliad: Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltiad</td></tr>
<tr><td>Adrodd i:<br>Report to:</td><td colspan="4">Bwrdd BIPBC</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Cyfarfod:<br>Date of Meeting:</td><td colspan="4">Dydd Iau, 28 Medi 2023</td></tr>
<tr><td>Crynodeb Gweithredol:<br><br>Executive Summary:</td><td colspan="4">Mae’r cynnig hwn yn gofyn i’r Bwrdd gefnogi, arwain ac ymgysylltu â gwaith hanfodol i ddatblygu'r ffordd mae’r sefydliad yn ymdrin â diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad.<br><br>Mae’r dystiolaeth yn dangos yn glir bod cael y diwylliant iawn mewn sefydliadau gofal iechyd yn arwain at well gofal ac at brofiad cadarnhaol i’r staff. Mae’r dystiolaeth hefyd yn dangos sut mae arweinyddiaeth ac arweinwyr effeithiol yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at y broses o siapio a datblygu diwylliant, a bod diwylliant ac arweinyddiaeth yn gwbl hanfodol er mwyn i staff ymgysylltu â'u gwaith a’u sefydliad. Y tair elfen hyn, gyda’i gilydd, sy’n helpu i greu’r amodau lle gall staff ar bob lefel yn y sefydliad ffynnu, ac i sicrhau y gall pobl dderbyn gofal rhagorol.<br><br>Mae’r cynnig i lansio a siapio diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad yn rhan allweddol o Gylch 2 y Cynllun Ymateb i Fesurau Arbennig. Mae’n gofyn yn benodol am arweinyddiaeth gan y Bwrdd cyfan o ran arwain, cefnogi ac ymgysylltu’n ddwys â rhaglen sylweddol o waith dros yr wythnosau a’r misoedd nesaf, er mwyn rhoi’r sefydliad ar daith tymor hwy tuag at wella diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad.</td></tr>
<tr><td>Argymhellion:<br>Recommendations:</td><td colspan="4">Gofynnir i’r Bwrdd DRAFOD a CHYMERADWYO’R cynnig</td></tr>
<tr><td>Arweinydd Gweithredol:<br>Executive Lead:</td><td colspan="4">Y Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth y Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:<br>Report Author:</td><td colspan="4">Y Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth y Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl</td></tr>
<tr><td>Pwrpas yr adroddiad:<br>Purpose of report:</td><td>I’w Nodi<br>For Noting<br>☐</td><td colspan="2">I Benderfynu arno<br>For Decision<br>☒</td><td>Am sicrwydd<br>For Assurance<br>☐</td></tr>
<tr><td>Lefel sicrwydd:<br><br>Assurance level:</td><td>Arwyddocaol<br>Significant<br>☐<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td>Derbyniol<br>Acceptable<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Rhannol<br>Partial<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Dim Sicrwydd<br>No Assurance<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>No confidence / evidence in delivery</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' neu uwch, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| ***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** | |
| **Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Cysylltiadau â chyflawni holl flaenoriaethau'r sefydliad |
| **Goblygiadau rheoleiddio a lleol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Amh. |
| **Yn unol â WP7, a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Amh. |
| **Yn unol â WP68, a oedd Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Amh. |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Bydd goblygiadau ariannol manwl unrhyw elfennau posibl o'r gwaith hwn yn cael eu datblygu ymhellach. Bydd defnyddio adnoddau cyfredol, wedi'u cyllidebu, yn cael ei flaenoriaethu. |
| **Goblygiadau i'r gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Y canlyniad a fwriedir yw effaith gadarnhaol ar y gweithlu. Nid oes unrhyw faterion arwyddocaol yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Mae gwaith cynnar wedi cael ei wneud mewn perthynas ag arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Clinigol, sy'n gefnogol iawn o ddull strwythuredig a bwriadol o ddatblygu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad. |
| **Cysylltiadau â risgiau Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)** | Amh. |

| *Reason for submission of report to confidential board (where relevant)* | |
|---|---|

**Y Camau Nesaf:**
**Gweithredu argymhellion**

***Y Camau Nesaf:***

Mae'r camau nesaf yn cynnwys creu map manylach i fwrw ymlaen ag elfennau allweddol y cynnig. Os bydd y Bwrdd yn cymeradwyo dull llywodraethu Pwyllgor y Bwrdd mewn rhannau eraill o'r agenda, bydd y Pwyllgor Pobl yn ymgymryd â rôl allweddol i oruchwylio'r gwaith hwn.

Gofynnir i holl aelodau'r Bwrdd gyfrannu'n frwd at y gwaith hwn dros y misoedd nesaf, gyda chymorth cydweithwyr yn nhîm Datblygu'r Sefydliad.

Gofynnir i'r Bwrdd ystyried elfennau allweddol pellach o'r gwaith hwn, fel y Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau, a'r Dull Gweithredu ar gyfer Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltiad.

***Gweithredu argymhellion***

Y Tîm Gweithredol fydd yn arwain y gwaith o weithredu'r Cynnig, a bydd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Pobl sydd newydd gael ei sefydlu ac i'r Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau ar agweddau allweddol ar y gwaith hwn yn unol â'r Cynllun Cadw a Dirprwyo.

**Rhestr o Atodiadau:**

**Cyflwyniad**

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei ddatblygu i geisio cael y Bwrdd i arwain ar waith allweddol i ddatblygu'r sefydliad o ran diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad, ac i ymrwymo i hynny. Mae'n gofyn yn benodol i'r Bwrdd ar y cyd, ac Aelodau'r Bwrdd yn unigol, ymgysylltu'n frwd â'r gwaith pwysig hwn dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf yn benodol. Mae arwain newid sefydliadol yn ymdrech tymor byr, tymor canolig a thymor hir, a bydd yn nodwedd bwysig o'r gwaith yn ystod Cam Sefydlogi'r Mesurau Arbennig a'r Cam Safoni a fydd yn dilyn.

**Gweithio mewn Ffordd Strategol**

Derbynnir yn gyffredinol fod diwylliant sefydliad neu system yn siapio ymddygiad pawb, ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu a'r perfformiad cyffredinol. Dywedir bod diwylliant yn golygu 'y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau yma'. Mae nifer o enghreifftiau o gleifion yn cael cam gan wasanaethau gofal iechyd, ac mae adolygiadau o ymchwiliadau wedi pwysleisio mai 'diwylliant' yw un o'r problemau mawr sydd wedi arwain at y methiannau hynny. Yn wir, dywedodd Syr Robert Francis – a arweiniodd yr ymchwiliad i fethiannau yn Ymddiriedolaeth GIG Canolbarth Swydd Stafford – fod diwylliant yr arweinyddiaeth wedi treiddio drwy'r sefydliad, ac wedi arwain at ffocws nad oedd yn meithrin athroniaeth nac ymarfer o'r safon uchaf yng nghyswllt gofal cleifion.

Mae tystiolaeth a gyflwynwyd gan Syr Michael West yn archwilio effaith arweinyddiaeth a gwaith tîm ar effeithiolrwydd gofal, gan gynnwys cyfraddau marwolaethau. Cafwyd tystiolaeth gref fod

Arweinyddiaeth Dosturiol yn ffordd o sicrhau newid sylweddol a pharhaus drwy gefnogi ac ymgysylltu â staff, drwy arweinyddiaeth effeithiol, ar bob lefel. Hefyd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl yn profi llawer llai o straen pan fydd eu harweinydd yn dosturiol. Ar ben hynny, gwelwyd bod cysylltiad rhwng ymgysylltiad cadarnhaol o ran y staff a llai o drosiant staff, llai o absenoldeb oherwydd salwch, a gwell canlyniadau a phrofiad i gleifion.

Yn ogystal â'r dystiolaeth ynghylch sut mae dulliau priodol o ymdrin â diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad yn effeithio ar ansawdd y gofal a phrofiad staff, mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd a'r Ddyletswydd Ansawdd yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y ffordd y dylai sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru weithredu.

Mae'r dull strategol o weithredu a gynigir yn dod â thair elfen allweddol at ei gilydd, sef diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad, gan fod cysylltiad anochel rhyngddynt. Mae cam cyntaf y gwaith yn ceisio ymgysylltu â chydweithwyr ar draws y sefydliad er mwyn deall y diwylliant presennol, casglu barn am y diwylliant, y gwerthoedd a'r ymddygiadau y dylid eu pennu, a phenderfynu ar y ffordd o greu'r diwylliant sefydliadol a ddymunir ar gyfer y dyfodol. Mae'n amlwg eisoes bod dull gweithredu, ymddygiad ac ansawdd yr arweinyddiaeth a'r arweinwyr yn elfen allweddol, ac felly mae'n bwysig bod diwylliant yn cael ei gydblethu'n uniongyrchol ag arweinyddiaeth yn y gwaith hwn. Hefyd, yr hyn sydd wir yn gwneud newid sefydliadol yn bosibl yw ymgysylltiad staff ym mhob rhan o'r sefydliad. Gydag 19,000 o staff yn y bwrdd iechyd, gallai hyn fod yn ffordd bwerus iawn o greu newid.

**Y Cynnig ar gyfer Blaenoriaethau yn y Cam Cyntaf**

Mae Cylch 2 y Cynllun Ymateb i Fesurau Arbennig yn awgrymu ymrwymiadau, ac rydym wedi ymhelaethu arnyn nhw yma er mwyn eu hystyried. Bydd cysoni mecanweithiau rhaglenni ac adnoddau yn ei gwneud yn bosibl i weithredu mewn ffordd fwriadol a systematig. Bydd hyn hefyd yn ystyried y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn barod; bydd tynnu'r elfennau allweddol hyn at ei gilydd yn helpu i siapio Rhaglen Waith ar gyfer Newid y Diwylliant wrth symud ymlaen. Mae'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd ar gyfer y 3 – 6 mis nesaf yn cynnwys:

**Y Diwylliant**

Y cynnig yw canolbwyntio ar dair elfen allweddol yn y cam cyntaf:

1. **Archwilio'r diwylliant a welir drwy'r sefydliad cyfan ar hyn o bryd** – gofyn am farn cydweithwyr sy'n gweithio yn y sefydliad am y diwylliant presennol, a gwrando arnyn nhw. Bydd Arolwg Staff GIG Cymru yn cael ei gyflwyno yn ystod y cyfnod hwn, a bydd yn adrodd yn ôl yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol, gan helpu i greu sefyllfa gychwynnol newydd. Bydd yn cael ei gymharu ag Arolygon Staff blaenorol. Hefyd, bydd mecanweithiau eraill yn cael eu defnyddio i helpu i gyfleu'r diwylliant presennol, gan gynnwys archwilio'r Adolygiadau Annibynnol sydd wedi cael eu cynnal a gwaith ar ymgysylltu clinigol er enghraifft. Bydd gweithio'n agos gyda phartneriaid Undebau Llafur yn rhan allweddol o'r broses hon.

2. **Ailedrych ar werthoedd y sefydliad** a gweithio mewn partneriaeth, profi ac ail-lunio'r gwerthoedd presennol er mwyn cynrychioli barn pobl yn effeithiol. Mae barn staff yn allweddol yn hyn o beth, ond yn fwy cyffredinol, gallai barn cleifion a'r cyhoedd fod yn gyfraniad ac yn wybodaeth ddefnyddiol. Unwaith eto, bydd ystod eang o fecanweithiau'n cael eu defnyddio er mwyn profi safbwyntiau am y gwerthoedd presennol, a chasglu awgrymiadau i'w haddasu.

3. Yn unol â gwerthoedd arfaethedig y sefydliad, **datblygu fframwaith ymddygiad**, ar y cyd â phobl ar draws y sefydliad. Unwaith eto byddai gofyn am farn cleifion a'r cyhoedd yn ehangach, a defnyddio eu barn, yn gallu arwain at wybodaeth ddefnyddiol. Bydd

unrhyw fframwaith ymddygiad arfaethedig yn destun ymgynghoriad cyn i'r Bwrdd ei ystyried.

**Arweinyddiaeth**

Mae'r cynnig yn seiliedig ar nifer o elfennau allweddol:

1. Mynd ati'n frwd i drafod ac archwilio'r **dull arwain** y mae'r sefydliad a'r Bwrdd yn dymuno ei fabwysiadu. Dylai hyn fod yn broses fwriadol sy'n dwyn ynghyd ddiffiniad clir o'r dull gweithredu, dealltwriaeth eglur, a chysondeb â gwerthoedd ac ymddygiadau. Mae'r dulliau a fyddai'n cael eu mabwysiadu er mwyn datblygu'r broses o drafod yn frwd yn cynnwys sgyrsiau, grwpiau ffocws, cynadleddau a gweithdai.

2. Ystyried sut bydd **y dull arwain wir yn cael ei fabwysiadu ar y cyd**, gan ddysgu gan ddiwydiannau a sectorau eraill. Mae'r Fyddin, er enghraifft, yn galluogi pob aelod o staff i fynd ati i ddatblygu eu sgiliau arweinyddiaeth. Bydd y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau dull arwain sydd wir yn ddull ar y cyd yn cael ei asesu, gan gynnwys y manteision y dymunir eu gweld.

3. Rhaglen gynhwysfawr ar **ddatblygu arweinyddiaeth** a dull gweithredu sy'n helpu pobl gyda'r addysg a'r dysgu yn ogystal ag arweinyddiaeth yn ymarferol. Bydd y cysyniad o Gyn-Arweinwyr yn cael ei ddatblygu ymhellach i fod yn ddarpariaeth glir sy'n cefnogi ac yn galluogi arweinwyr ac arweinyddiaeth yn ymarferol.

**Ymgysylltu**

Mae'r cynnig yn seiliedig ar yr elfennau allweddol hyn:

1. Ystyried yn llawn y gwaith adolygu cyflym a wnaed fel rhan o Gylch 1 y Mesurau Arbennig ar **Ymgysylltu Clinigol**, o dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd ar Ymgysylltu Clinigol. Mae'r gwaith a wnaed hyd yma yn tynnu sylw at elfennau allweddol, sef arweinyddiaeth, y berthynas â rheolwyr llinell, elfennau llwyth gwaith a'r amgylchedd gwaith, gan gynnwys mecanweithiau digidol a'r cysylltiad cryf â gwella ansawdd fel ffactor allweddol sy'n ysgogi ac yn galluogi. Mae Ymgysylltu Clinigol o fewn yr uchelgais ehangach sy'n ymwneud ag ymgysylltiad gweithwyr yn gofyn am ystyriaeth a thrafodaeth bellach.

2. Dylunio, profi a gweithredu mecanweithiau i **fesur ymgysylltiad gweithwyr** sy'n helpu i feithrin dealltwriaeth ynghylch ble mae ymgysylltiad cryf yn bodoli, a ble mae angen cymorth penodol o bosibl er mwyn gwella. Bydd yn ddefnyddiol edrych ar sut mae sefydliadau a sectorau eraill yn ymgymryd â'r dull hwn o fesur. Disgwylir y bydd amrywiaeth ehangach o ddulliau na'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd (arolwg staff) yn cael eu cynnwys yn y cynnig yn y dyfodol.

3. O ystyried y dystiolaeth o'r dylanwad, cadarnhaol a negyddol, sydd gan **reolwyr llinell** o ran ymgysylltiad gweithwyr, bydd y grŵp hwn yn cael ffocws penodol fel blaenoriaeth. Bydd gwaith yn cael ei wneud i nodi a chyfleu'r ymddygiadau cyffredin ar gyfer ennyn lefel uchel o ymgysylltu ymysg gweithwyr, yn enwedig mewn perthynas â rheolwyr llinell, gyda mecanweithiau'n cael eu dylunio i wneud hyfforddiant, cefnogaeth, hyfforddiant/mentora a gwerthusiadau/adborth yn bosibl.

**Casgliad**

Mae'n amlwg y dylid rhoi llawer o sylw i'r diwylliant, yr arweinyddiaeth a'r ymgysylltiad os am wireddu'r uchelgais o gael gofal o ansawdd uchel a lefelau uchel o foddhad ymysg y staff. Mae hefyd yn amlwg bod newid mawr yn cymryd amser, a'i fod felly'n ymdrech tymor byr, tymor canolig a thymor hir. O ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sefydliad, mae'r cynnig yn ceisio sicrhau arweinyddiaeth gan y Bwrdd wrth fwrw ymlaen â'r gwaith arfaethedig. Bydd adnoddau'n cael eu cysoni er mwyn gallu cyflawni elfennau allweddol y cynnig, a bydd gwaith ymgysylltu ac adrodd yn digwydd drwy Bwyllgorau'r Bwrdd a'r Bwrdd yn gyffredinol.

| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg 2022-2023 |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Bwrdd Iechyd |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | 28/09/2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â dyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i ddarparu cyfrif blynyddol ar gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd).<br><br>Daeth y Bwrdd Iechyd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg ar 30 Mai 2019.<br><br>Mae safon 120 sy'n ymdrin â Materion Atodol yn amodi bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd lunio adroddiad blynyddol mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n disgrifio cydymffurfiad y Bwrdd Iechyd â'r safonau.<br><br>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys y wybodaeth ganlynol:<br>• Nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â chydymffurfio â'r safonau<br>• Sgiliau Cymraeg gweithwyr<br>• Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a lefel y Gymraeg sydd ei hangen<br>• Hyfforddiant i wella sgiliau Cymraeg y gweithlu<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth a data ansoddol a meintiol fel sy'n ofynnol gan y Comisiynydd. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r cyfeiriad strategol o ran y Gymraeg, wedi'i gefnogi gan wybodaeth feintiol am y camau a gymerwyd i brif ffrydio a datblygu prosiectau a mentrau Cymraeg ymhellach.<br><br>Mae adroddiad ychwanegol hefyd yn cael ei gyflwyno fel rhan o ofynion adrodd Cynllun Pum Mlynedd Llywodraeth Cymru sef *Mwy na Geiriau*. Mae Adroddiad Diweddaru 2022-2023 *Mwy na Geiriau* yn rhoi trosolwg o'r camau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn adrodd i fynd i'r afael â'r amcanion yn y cynllun.<br><br>Gan fod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod yr amcanion yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg i raddau, mae cynllun blynyddol Gwasanaethau Cymraeg y Bwrdd Iechyd wedi'i ddiweddaru i ymgorffori'r amcanion hyn.<br><br>Felly, mae cynnwys y ddau adroddiad yn cyd-fynd. Mae'r fformatau adrodd ychydig yn wahanol gan fod mecanweithiau adrodd yn cael eu pennu gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn y drefn honno. |

<table>
<tr><td>Argymhellion:<br><br>Recommendations:</td><td colspan="12">Gofynnir i’r Bwrdd Iechyd gymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol i’w gyhoeddi a’i gyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.<br><br>Gofynnir i’r Bwrdd Iechyd gymeradwyo Adroddiad Diweddaru Mwy na Geiriau i’w gyflwyno i Uned Polisi’r Gymraeg yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.</td></tr>
<tr><td>Arweinydd Gweithredol:<br><br>Executive Lead:</td><td colspan="12">Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:<br><br>Awdur yr Adroddiad:</td><td colspan="12">Eleri Hughes-Jones, Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg BIPBC:</td></tr>
<tr><td>Diben yr adroddiad:<br>Purpose of report:</td><td colspan="4">I’w Nodi<br>For Noting<br>☐</td><td colspan="4">I'w Benderfynu<br>For Decision<br>☒</td><td colspan="4">Am Sicrwydd<br>For Assurance<br>☒</td></tr>
<tr><td>Lefel Sicrwydd:<br><br>Assurance level:</td><td colspan="3">Arwyddocaol<br>Significant<br>☒<br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau/amcanion presennol<br><br>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td colspan="3">Derbyniol<br>Acceptable<br>☐<br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td colspan="3">Rhannol<br>Partial<br>☐<br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>Some confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td colspan="3">Dim Sicrwydd<br>No Assurance<br>☐<br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>No confidence / evidence in delivery</td></tr>
<tr><td colspan="13">Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:<br><br>Justification for the above assurance rating. Where ‘Partial’ or ‘No’ assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve ‘Acceptable’ assurance or above, and the timeframe for achieving this:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyswllt ag Amcan/Amcanion Strategol:<br><br>Link to Strategic Objective(s):</td><td colspan="8">PAWB</td></tr>
<tr><td colspan="5">Goblygiadau rheoleiddio a chyfreithiol:<br><br>Regulatory and legal implications:</td><td colspan="8">Cymeradwywyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chafodd gydsyniad brenhinol ar 9 Chwefror 2011.<br><br>Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac mae'n atgyfnerthu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.<br><br>Hefyd, mae'r Mesur yn:</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | <ul><li>creu'r weithdrefn ar gyfer pennu dyletswyddau ar sefydliadau ar ffurf Safonau'r Gymraeg ("y Safonau")</li><li>sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i graffu ar gydymffurfiaeth</li><li>rhoi awdurdod i'r Comisiynydd ymchwilio i unrhyw honiadau o ymyrryd â rhyddid rhywun i ddefnyddio'r Gymraeg</li></ul> |
| **Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | N/A |
| **Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?*** | N/A |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Mae methiant posibl i gydymffurfio â'r dyletswyddau statudol (Iaith Gymraeg) a roddir ar y Bwrdd Iechyd yn cael ei gofnodi ar y gofrestr risg. Mae camau gweithredu Gwasanaethau Cymraeg wedi'u nodi i reoli a lliniaru unrhyw feysydd pryder posibl.<br><br>Mae'r mater hwn wedi'i gofnodi ar y Gofrestr Risg Gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd ac mae ar ei lefel darged risg ganolig gyda sgôr o chwech. Mae camau gweithredu wedi'u nodi i reoli a lliniaru unrhyw feysydd pryder posibl.<br><br>Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei harchwilio'n chwarterol ac mae unrhyw faterion o bwys neu bryder yn cael eu huwchgyfeirio at Fforwm Strategol y Gymraeg i'w hystyried. |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol. |
| **Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid oes goblygiadau uniongyrchol o ran y gweithlu. |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori** | Mae'r ddau adroddiad wedi'u trafod a'u hadolygu gan Fforwm Strategol y Gymraeg yn ei gyfarfod ar 12 Medi 2023. |

| | |
|---|---|
| ***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | |
| **Cysylltiadau gyda risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | N/A |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | N/A |

***Camau Nesaf/Next Steps:***
***Gweithredu argymhellion/Implementation of recommendations***

- Cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar wefan y Bwrdd Iechyd a'i gyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
- Cyflwyno Adroddiad Diweddaru *Mwy na Geiriau* i Uned Polisi'r Gymraeg yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

**Rhestr Atodiadau/List of Appendices:**
Atodiad 1 – Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau Cymraeg 2022-2023
Atodiad 2 – Adroddiad Diweddaru 2022-2023 *Mwy na Geiriau*

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Gwasanaethau'r Gymraeg Adroddiad Monitro Blynyddol

# 2022-2023





## Cynnwys

**Tudalen**


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 2 |
| Y Cefndir a’r Sefyllfa Ar Hyn o Bryd | 3 |
| Hunanreoleiddio a Llywodraethu | 4 |
| Safonau’r Gymraeg | 8 |
| Y “Cynnig Rhagweithiol” | 12 |
| Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg | 16 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu | 24 |
| Gweithio mewn Partneriaeth | 25 |
| Gweithio gydag Ysgolion a Cholegau | 27 |
| Datblygiadau Gwasanaeth a Gweithgareddau Hyrwyddo | 28 |
| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 30 |
| Myfyrio a Gweledigaeth i’r Dyfodol | 32 |

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â dyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i ddarparu adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ers y dyddiad gosod sef 30 Mai 2019.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r gofynion a'r cynnwys a nodir yn Safon 120 Safonau'r Gymraeg:

- Cwynion
- Cynllunio'r Gweithlu
- Recriwtio
- Sgiliau Iaith
- Hyfforddiant i wella sgiliau Cymraeg

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi trosolwg o'r cynnydd, gan gynnwys datblygiadau gwasanaeth a llwyddiannau allweddol rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

Yn ogystal â pharhau â'n golwg newydd ar bethau ar ôl pandemig COVID-19, eleni, rydym wedi llwyddo i gyfuno ein ffyrdd newydd o weithio a'n dull gweithredu traddodiadol ar lawr gwlad. Mae rhai gwasanaethau wedi parhau i gael eu darparu'n rhithwir, fel ein Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg. Mae modelau dysgu rhithwir wedi rhoi cyfleoedd i gyrraedd cynulleidfa ehangach na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Ar yr un pryd, rydym wedi ailgydio yn ein cynlluniau mwy gweithredol ac ymarferol, fel ein hymarferion siopwr dirgel, gyda'r fformat gwreiddiol o ymweld â safleoedd ac ymgysylltu. Rydym wedi dysgu o'n profiadau ac wedi cyflwyno modelau darparu gwell er mwyn cynnig gwell arweiniad a chefnogaeth.

Mae'r gwaith o gyflawni Safonau'r Gymraeg yn dal yn rhan flaenllaw o'n gwaith cynllunio. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi croesawu cyflwyno cynllun *Mwy na Geiriau* Llywodraeth Cymru dros bum mlynedd. Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes wedi cyflawni llawer o'r targedau sydd yn y cynllun. Mae'r Bwrdd Iechyd yn croesawu egwyddor y "Cynnig Rhagweithiol", sy'n golygu darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg heb i'r defnyddiwr gwasanaeth orfod gofyn amdano, drwy barhau i wreiddio'r "Cynnig Rhagweithiol" wrth ddarparu gwasanaethau gyda'r Cynllun Dewis Iaith, sydd ar waith yn ein lleoliadau acíwt a chymunedol.

Mae blaenoriaethau ychwanegol wedi'u halinio â phrif themâu *Mwy na Geiriau*, fel:

- gwreiddio cynllunio iaith Gymraeg mewn canllawiau a pholisïau
- gweithredu strategaeth gweithlu a hyfforddiant iaith Gymraeg wedi'i thargedu i gefnogi ein staff presennol
- gweithio mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a manteision sgiliau Cymraeg wrth ystyried y sector iechyd fel gyrfa, gan gefnogi creu gweithlu dwyieithog y dyfodol

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu effaith gadarnhaol polisïau allweddol a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Mae gweithredu'r *Polisi a'r Weithdrefn Sgiliau Dwyieithog* wedi dylanwadu ar y ffordd rydym yn edrych ar gynllunio a datblygu'r gweithlu. Nodwyd bod gallu siarad Cymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer swyddi rheng flaen penodol, ac mae'r rhain bellach wedi cael eu cysoni â'n systemau gweithlu i wneud yn siŵr yr amlygir unrhyw fylchau mewn recriwtio. Fodd bynnag, yn dilyn proses recriwtio gadarn, os nad oes gan ymgeiswyr y gofyniad ieithyddol i gyflawni swydd rheng flaen benodol, mae'r rhain bellach yn rolau y mae'n rhaid dysgu neu wella sgiliau Cymraeg ar eu cyfer hyd at lefel benodol ar ôl penodi. Mae wedi sicrhau bod nifer y swyddi sy'n cael eu hysbysebu fel rhai 'Cymraeg Hanfodol' wedi dyblu dros y flwyddyn ddiwethaf, gydag unigolion hefyd yn cael eu cyfeirio am hyfforddiant fel rhan o'u proses benodi.

Mae datblygu strategaethau allweddol fel ein cynllun pum mlynedd i gynyddu ein gallu i ddarparu ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg (yn unol â safon 110 o safonau'r Gymraeg), ynghyd â'r dull galluogi newydd a gyflwynwyd yn *Mwy na geiriau*, wedi cryfhau ein sylfaen a bydd hyn yn help i ni barhau â'n blaenoriaethau ar gyfer 2023-2024. Rydym wedi bod yn uchelgeisiol yn y targedau rydym wedi'u gosod i ni ein hunain yn ein cynllun gweithredu blynyddol, gan ddefnyddio ffocws tîm a gwasanaeth i sicrhau ein bod yn gallu cynnig y lefel orau o gefnogaeth i'n staff.

## Y Cefndir a'r Sefyllfa Ar Hyn o Bryd

Mae'r adroddiad hwn nid yn unig yn adlewyrchu cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn y gofynion a nodir yn Safon 120, mae hefyd yn dangos sut rydym yn dylunio ein gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion ein poblogaeth.

**Deall anghenion ein poblogaeth**
Mae deall anghenion y boblogaeth yn hanfodol i lywio ein gallu i gynllunio a darparu gwasanaethau yng Ngogledd Cymru. Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, 64.4 y cant, er ein bod yn gwybod y gall hyn fod yn llawer uwch mewn rhai ardaloedd o'r sir. Mewn mannau eraill yng Ngogledd Cymru, mae 55.8 y cant o drigolion Ynys Môn yn siarad Cymraeg, 25.9 y cant yng Nghonwy a 22.5 y cant yn Sir Ddinbych. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint (11.6 y cant) a Wrecsam (12.2 y cant) yn is o'i gymharu. Fodd bynnag, mae'r galw am wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn amlwg, o ystyried ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith sy'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir yn rhanbarth dwyreiniol Gogledd Cymru.

**Gwasanaethau Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd**
Mae Tîm Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd wedi'i strwythuro i sicrhau bod ei ffrydiau gwaith yn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i ddiwallu anghenion ieithyddol y boblogaeth. Mae'n cynnwys pedwar gwasanaeth sy'n cefnogi'r sefydliad i gyflawni'r gofynion deddfwriaethol ac i fynd i'r afael ag anghenion ein cleifion.

1. <u>Cydymffurfio â Deddfwriaeth</u>
   Sicrhau ein bod yn cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a hynny'n cael ei hwyluso gan ein Swyddog

Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

2. Hyrwyddo ac Ymgysylltu
   Yn unol ag elfennau gweithredol cyflwyno Fframwaith Strategol *Mwy na Geiriau*, mae ein Swyddogion Iaith Gymraeg yn mynd ati i gefnogi gwasanaethau ac yn cychwyn prosiectau a chynlluniau a fydd yn darparu gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid.

3. Darpariaeth Hyfforddiant
   Mae ein Rheolwr Hyfforddiant Iaith Gymraeg a'n Swyddog Cefnogi yn sicrhau datblygiad sefydliadol yn unol â'n *Polisi a'r Weithdrefn Sgiliau Dwyieithog* a'r agenda ehangach ar yr iaith Gymraeg.

4. Gwasanaethau Cyfieithu
   Mae ein Rheolwr Cyfieithu, yr Uwch Gyfieithydd a'n tîm o gyfieithwyr yn sicrhau bod y sefydliad yn gallu darparu gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith, ac maent hefyd yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i hwyluso dewis iaith mewn lleoliadau clinigol a chorfforaethol.

## Hunanreoleiddio a Llywodraethu

**Atebolrwydd Cyffredinol y Bwrdd**
Mae ein hatebolrwydd strwythurol wedi cael ei gynnal, gyda Fforwm Strategol y Gymraeg, dan gadeiryddiaeth ein Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, yn sefydlu ein trefniadau llywodraethu mewnol. Mae'r Cylch Gorchwyl yn llywio ein dull gweithredu strategol, gydag aelodaeth sy'n cynnwys uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol sy'n gallu gyrru gofynion yn eu blaen. Mae llwybr craffu ar gyfer uwchgyfeirio unrhyw faterion o bwys, yn ogystal ag adrodd yn flynyddol i'r Bwrdd ar gydymffurfio a chyflawni.

**Cofrestr Risg Gwasanaethau'r Gymraeg**
Mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod meysydd risg posibl mewn perthynas â'r Gymraeg ac mae Cofrestr Risg bwrpasol ar waith. Mae'r risgiau posibl presennol yn cynnwys bodloni gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gweithredu'r egwyddor "Cynnig Rhagweithiol" yn unol â *Mwy na geiriau*, a chyflawni'r *Polisi a'r Weithdrefn Sgiliau Dwyieithog*.

Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu yn ystod 2022-2023, gyda phob un o'r tair sgôr risg yn gymedrol neu'n fach ar hyn o bryd. Wrth asesu ein sefyllfa bresennol, nid oes angen uwchgyfeirio unrhyw risgiau.

Mae Cofrestr Risg Gwasanaethau'r Gymraeg yn cael ei monitro bob chwarter, ac adroddir arni ddwywaith y flwyddyn i Fforwm Strategol y Gymraeg.

**Sicrhau Perfformiad Mewnol**

Er mwyn craffu ar berfformiad y Bwrdd Iechyd ei hun ac argaeledd a safon gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar draws y sefydliad, parhaodd Tîm y Gymraeg i gynnal arolygon sicrwydd ansawdd cyfnodol yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Yn sgil ailddechrau galwadau ffôn 'siopwr dirgel' yn 2021 ar ôl atal y cynllun dros dro yn ystod pandemig COVID-19, cafodd ymweliadau â safleoedd ac arolygon 'wyneb yn wyneb' eu hailgyflwyno yn ystod chwarter olaf 2022.

Yn wahanol i'r amserlen arferol, sy'n golygu bod gwahanol ysbytai cymunedol, practisiau a reolir a gwasanaethau ysbyty aciwt yn cael eu gwerthuso bob chwarter, penderfynwyd canolbwyntio ar ganolfannau brechu COVID-19 y Bwrdd Iechyd yn ystod cylch arolygon mis Hydref a mis Tachwedd.

Roedd y Bwrdd Iechyd wedi cael nifer o fân gwynion am agweddau ar ddarparu gwasanaethau dwyieithog mewn canolfannau brechu lleol yn ystod 2020-2021. Nod cynnal ymweliadau safle ddiwedd hydref 2022 oedd sicrhau bod pob canolfan wedi rhoi'r paratoadau angenrheidiol ar waith mewn perthynas â'r Gymraeg, cyn cyflwyno rhaglen imiwneiddio a phigiadau atgyfnerthu'r gaeaf.

Trefnwyd rhestr o ymweliadau safle, a chafodd canolfannau brechu o Amlwch a Llangefni yn y gorllewin, i'r Fflint a'r Wyddgrug yn y dwyrain, eu harolygu wedyn.

| Dyddiad ac amser yr ymweliad | Lleoliad | Ardal |
|---|---|---|
| Dydd Iau, 13eg Hydref (am 12:30pm) | **Canolfan OpTIC, Llanelwy** | Canol |
| Dydd Gwener, 21ain Hydref (am 2:30pm) | **Ffordd Ffriddoedd, Bangor** | Gorllewin |
| Dydd Mawrth, 27ain Hydref (am 12:05pm) | **Clwb Rygbi'r Wyddgrug** | Dwyrain |
| Dydd Llun, 7fed Tachwedd (am 11:25am) | **Eglwys Sant Pedr, Treffynnon** | Dwyrain |
| Dydd Llun, 7fed Tachwedd (am 12:20pm) | **Neuadd y Dref, Y Fflint** | Dwyrain |
| Dydd Llun, 7fed Tachwedd (am 2:15pm) | **Clwb Pêl-droed Llangefni** | Gorllewin |
| Dydd Gwener, 18fed Tachwedd (am 2:00pm) | **Neuadd Goffa Amlwch** | Gorllewin |

Yn unol ag arolygon blaenorol y Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog, roedd y rownd hon o ymweliadau safle yn canolbwyntio ar argaeledd ac ansawdd gwasanaethau derbynfa (h.y. sut cafodd aelodau o'r cyhoedd eu cyfarch a'u cynghori / cyfarwyddo wrth gyrraedd y canolfannau brechu), a'r arwyddion ym mhob lleoliad.

Roedd y rownd hon o ymweliadau safle hefyd yn cynnwys y drefn o gofnodi manylion personol ar gardiau brechu. Gwnaed hyn mewn ymateb i gwynion blaenorol gan ddefnyddwyr gwasanaeth bod ochr Saesneg y cardiau brechu wedi'i chwblhau heb gynnig cwblhau'r fersiwn Gymraeg.

Ar ben hynny, cofnodwyd enghreifftiau perthnasol o arfer da hefyd yn ystod yr ymweliadau safle, a chafodd y rhain eu rhannu wedyn ag uwch dîm rheoli Rhaglen Frechu COVID-19 y Bwrdd Iechyd.

Defnyddiwyd canfyddiadau Arolwg ‘Siopwr Dirgel’ Canolfannau Brechu COVID-19 fel astudiaeth achos i bennu effeithiolrwydd y cynllun, a nodir y canlyniadau isod.

Gwasanaethau Derbynfa (Cyfarch Defnyddwyr Gwasanaeth)

- Nododd y Rheolwyr Safle / Nyrsys ym mhob un o’r canolfannau a arolygwyd fod pwysigrwydd cyfarch defnyddwyr gwasanaeth yn ddwyieithog wedi’i gyfleu’n glir i’r holl staff a gwirfoddolwyr (pa un a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio).

- Roedd nifer o enghreifftiau o ymddygiad staff / gwirfoddolwyr yn cadarnhau hyn. Wrth gyrraedd Canolfan OpTIC, er enghraifft, dywedodd y gwirfoddolwr yn y brif fynedfa ‘Pnawn da’, cyn ychwanegu (yn Gymraeg):

> ‘*Dwi ddim yn gallu siarad Cymraeg, mae’n ddrwg gen’ i…* But I do greet everyone bilingually’.

- Yn yr un modd, dywedodd yr aelod staff yn y brif fynedfa yn Neuadd Goffa Amlwch ‘Su’mae’, cyn egluro ei fod yn gallu deall Cymraeg, ond nad oedd ganddo’r hyder i sgwrsio yn yr iaith.

Arwyddion Dros Dro

- Roedd yn amlwg bod penderfyniad ymwybodol wedi’i wneud i gyfyngu ar y defnydd o hysbysiadau dros dro yn yr holl safleoedd a oedd yn cael eu defnyddio fel Canolfannau Brechu yn ystod y rhaglen.

- Y rheswm am hyn oedd bod y canolfannau wedi’u lleoli mewn adeiladau nad ydynt yn eiddo i’r Bwrdd Iechyd a bod llawer ohonynt (e.e. Eglwys Sant Pedr, Treffynnon; Neuadd y Dref y Fflint; Clwb Rygbi’r Wyddgrug; Clwb Pêl-droed Llangefni a Neuadd Goffa Amlwch) yn safleoedd ‘dros dro’ yn unig, nad oeddent ond yn cael eu defnyddio i ddarparu brechiadau am ddiwrnod neu ddau bob wythnos.

- Er nad oedd unrhyw hysbysiadau dros dro yn cael eu harddangos ar nifer o’r safleoedd a arolygwyd, roedd yr ychydig arwyddion a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Iechyd (e.e. yn Ffordd Ffriddoedd) yn gwbl ddwyieithog.

- Er na ellid dal y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am hysbysiadau eraill a allai fod yn cael eu harddangos yn yr adeiladau (nad oeddent yn adeiladau’r Bwrdd Iechyd) a oedd yn cynnal y Canolfannau Brechu, nodwyd bod nifer o hysbysiadau yng Nghanolfan OpTIC hefyd yn ddwyieithog.

- Arddangoswyd arwyddion cyfeirio dwyieithog a brand y Bwrdd Iechyd arnynt y tu allan i bob un o’r canolfannau brechu rhestredig (gweler isod).




Cardiau Brechu

- Roedd holl staff a gwirfoddolwyr y canolfannau brechu wedi cael gwybod yn glir bod angen gwirio a oedd pob defnyddiwr gwasanaeth unigol eisiau i'w manylion gael eu cofnodi ar ochr Gymraeg neu Saesneg eu cardiau cofnodion COVID-19 a / neu frechu rhag y ffliw.

- Daeth yn amlwg bod y neges hon bellach wedi cael ei rhannu a'i deall ledled y rhanbarth ac roedd yn ymddangos bod staff / gwirfoddolwyr di-Gymraeg yn hapus ac yn gyfforddus i fewnbynnu'r manylion angenrheidiol ar ochr Gymraeg y cardiau.

Enghreifftiau o Arferion Da

- Ym mhob un o dair canolfan Ardal y Gorllewin, rhoddwyd gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod o leiaf un aelod staff ym mhob gorsaf frechu (h.y. naill ai'r brechwr neu'r cynorthwyydd brechu, neu'r ddau) yn siarad Cymraeg.

- Roedd pobl a oedd yn siarad Cymraeg ar ddyletswydd yng nghanolfan OpTIC hefyd.

- Er bod llai o staff sy'n siarad Cymraeg yn Ardal Dwyrain y Bwrdd Iechyd ar y cyfan, gwnaed ymdrechion clir i sicrhau bod o leiaf un siaradwr Cymraeg ar ddyletswydd bob amser yn y canolfannau brechu yn yr Wyddgrug, Treffynnon a Fflint.

- Ar ben hynny, nodwyd bod yr un aelod staff Cymraeg ei iaith a oedd ar ddyletswydd yn Eglwys Sant Pedr, yn Nhreffynnon, wedi'i leoli ar y ddesg groeso, tra bod brechwr Cymraeg ei iaith yng Nghlwb Rygbi'r Wyddgrug wedi'i leoli'n bwrpasol ar yr orsaf frechu sydd agosaf at y fynedfa.

- Roedd hyn yn sicrhau bod pob ymwelydd â'r ddwy ganolfan yn cael gwybod ar unwaith bod gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ar gael.

- Ochr yn ochr â'r camau a gymerwyd i drefnu rotas er mwyn manteisio i'r eithaf ar y sgiliau Cymraeg sydd ar gael, rhoddwyd gweithdrefn ar waith hefyd i alluogi canolfannau Ardal y Dwyrain i gysylltu â'i gilydd, fel y gellid darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg dros y ffôn.

<u>Dogfennau a Thaflenni Gwybodaeth</u>

- Cafodd pawb a gafodd eu brechu yng nghanolfannau Ardal Dwyrain y Bwrdd Iechyd yn ystod gaeaf 2022-23 daflen wybodaeth gwbl ddwyieithog, o'r enw 'Brechu COVID-19: Canllaw i frechiad atgyfnerthu COVID-19 (Mawrth 2022) / COVID-19 vaccination: A guide to the COVID-19 booster vaccination (March 2022)'. Cynhyrchwyd y daflen hon yn allanol gan GIG Cymru / Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Cafodd ymwelwyr â chanolfannau Ardal y Dwyrain hefyd gopi o 'daflen pecynnau' Biontech / Pfizer 'Information for the user'. Mae'r ddogfen 'Saesneg yn unig' hon yn cael ei chynhyrchu gan wneuthurwyr y brechlyn ac nid yw ar gael yn Gymraeg eto. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd wybod i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am hyn ddechrau 2021.

- Ni chafodd ymwelwyr â chanolfannau Ardal y Gorllewin gopïau caled / papur o'r dogfennau uchod. Fodd bynnag, fe'u hysbyswyd y gellid dod o hyd i fersiwn digidol o lyfryn gwybodaeth dwyieithog GIG Cymru / Iechyd Cyhoeddus Cymru, a gwybodaeth gysylltiedig arall, ar-lein.

<u>Adnoddau Cymraeg</u>

- Yn dilyn yr ymweliad â Chlwb Rygbi'r Wyddgrug, derbyniodd Arweinydd Prosiect Brechu COVID-19 ardal y Dwyrain amrywiaeth o 'adnoddau Cymraeg' (gan gynnwys sticeri a bathodynnau pin 'Cymraeg' oren; bathodynnau pin 'Dwi'n dysgu Cymraeg'; cardiau ymadroddion Cymraeg sylfaenol ac arwyddion bwrdd gwaith plastig 'Defnyddiwch eich Cymraeg yma / Use your Welsh here') i'w dosbarthu ymysg staff a gwirfoddolwyr canolfannau brechu Ardal y Dwyrain.

- Yn yr un modd, roedd y Dirprwy Reolwr Nyrsio yn ardal y Gorllewin, a'r Rheolwr Nyrsio yn ardal y Gorllewin, hefyd wedi cael bathodynnau ac arwyddion bwrdd gwaith, i'w dosbarthu ymysg staff a gwirfoddolwyr brechu Ardal y Gorllewin.

Mae canfyddiadau cadarnhaol yr astudiaeth achos yn dangos bod y gwaith a wnaed yn ystod y rhaglen frechu flaenorol wedi arwain at argaeledd gwasanaethau Cymraeg.

## Safonau'r Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg bellach ar waith ers y dyddiad gosod sef 30 Mai 2019. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran gwella ein cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae'r Swyddog Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn darparu cyfarwyddyd i'r sefydliad

cyfan ar weithredu'r Safonau, yn ogystal â chefnogi a hwyluso'r ddarpariaeth ar lawr gwlad.

**Safonau Clinigol**
Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r gwaith wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynhyrchu cynllun pum mlynedd yn unol â Safon 110 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gynyddu ei allu i ddarparu ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Penodwyd ymgynghorydd allanol i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen, gan ganiatáu i ni ystyried gofynion clinigol ynghyd ag anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr gwasanaeth. Fel rhan o ddatblygu'r cynllun, cynhaliwyd ymgynghoriadau a thrafodaethau gyda gwasanaethau allweddol, gan gynnwys aelodau staff o'r Gwasanaethau Strôc a Wardiau Gofal yr Henoed. Roedd trafodaethau manwl ac ymgysylltu â staff clinigol yn hanfodol i sicrhau ein bod yn datblygu cynllun a fyddai'n gweithio ochr yn ochr â phrosesau a gweithdrefnau clinigol eraill. Roedd y blaenoriaethau a nodwyd yn cynnwys hyrwyddo gwersi Cymraeg ymhlith staff, sicrhau bod staff wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar y Cofnod Staff Electronig, hyrwyddo'r "Cynnig Rhagweithiol", a defnyddio systemau amrywiol i adnabod a chofnodi dewis iaith cleifion. Wrth gyflwyno'r cynllun, bydd y gwaith yn canolbwyntio i ddechrau ar wella mynediad at wasanaethau dwyieithog i grwpiau agored i niwed, sy'n cynnwys meysydd gwasanaeth fel pobl hŷn, plant a phobl ifanc, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, pobl sy'n byw gyda dementia, strôc, therapi iaith a lleferydd ac anableddau dysgu. Bydd proses ymgynghori a chraffu fewnol yn awr, cyn cymeradwyo a mabwysiadu a gweithredu'n ffurfiol. Mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau iechyd eraill wedi cysylltu â ni i ddysgu sut rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn gyda'r bwriad o rannu'r arferion gorau ledled Cymru.

**Datblygiadau a Mentrau Newydd**
Mae gwaith hefyd wedi parhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r sefydliad gyda gwahanol agweddau ar gydymffurfio â'r Safonau, ac eleni canolbwyntiwyd ar ddatblygu Apiau dwyieithog, fideos hyfforddi, dogfennau dwyieithog ac atgyfnerthu polisïau.

Mae gwaith penodol wedi'i wneud i gryfhau dogfennau polisi i sicrhau bod effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Adnodd Sgrinio Asesiad Integredig ehangach wedi cael eu diweddaru i sicrhau proses fwy cadarn i ystyried gofynion Safonau'r Gymraeg. Mae dogfen ganllaw wedi cael ei datblygu, sy'n rhoi cyngor manwl ar lenwi adran y Gymraeg yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd hyn yn help i ddatblygwyr polisi ystyried y Gymraeg yn llawn wrth lunio polisi newydd, prosiectau trawsnewid ar raddfa fawr neu wasanaethau sydd newydd eu sefydlu.

Mae Tîm y Gymraeg wedi cael rhan weithredol yn y Prosiect Asesu Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Ddementia, gyda chynrychiolaeth o'r tîm ar Grŵp Llywio'r Prosiect o'r cychwyn cyntaf.

Datblygodd The Kings Fund gyfres o adnoddau asesu amgylchedd sy'n ystyriol o ddementia sy'n cael eu defnyddio'n fyd-eang, dros ddegawd yn ôl. Adnoddau papur yw'r rhain sydd bellach yn cael eu cynnal gan Brifysgol Caerwrangon. Mae cyllid gan yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn cefnogi prosiect i droi'r

adnoddau'n apiau i wneud asesu ein hysbytai a'n wardiau yn haws ar asesiadau cerdded-o-gwmpas. Gellir eu defnyddio hefyd i gynnwys myfyrwyr a chleifion yn y broses asesu i weld pa mor ystyriol o ddementia yw amgylcheddau, ac i ddysgu o'r broses a datblygu cynllun gweithredu. Mae'r adnodd yn nodi anghenion fel arwyddion gwell, llestri ystyriol o ddementia, clociau mawr a gwaith celf priodol. Mae adnoddau ar wahân ar gyfer wardiau, ysbytai, cartrefi gofal, mannau awyr agored, tai a chanolfannau iechyd. Mae'r gyfres o adnoddau asesu yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Mae'r disgrifiad o'r prosiect ar y fewnrwyd a'r cyfarwyddiadau ar ddefnyddio'r apiau hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae'r adnoddau asesu wedi cael eu diwygio i ofyn a yw amgylcheddau'n ystyried y Gymraeg, er enghraifft ar arwyddion i gleifion, byrddau cyfeirio sy'n disgrifio'r tywydd a diwrnodau'r wythnos yn ogystal â gweithgareddau eraill. Mae lansiad yr apiau ar eu gwedd derfynol yn cael ei gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf 2023. Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o fod wedi bod yn arloesol a blaenllaw o ran sicrhau y darperir yn ddwyieithog ar gyfer y grŵp penodol hwn o gleifion.

**Adolygu Polisi**
Yn ogystal â gweithredu mentrau newydd i symud y sefydliad yn ei flaen o ran cydymffurfio â deddfwriaeth, rydym wedi edrych eto ar bolisïau a phrosiectau a weithredwyd o'r blaen, gyda golwg ar fesur eu heffeithiolrwydd ac a wnaed cynnydd.

Mae'r *Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn Fewnol*, a gafodd ei gyflwyno a'i weithredu am y tro cyntaf yn 2019, wedi cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn proses graffu, gwnaed mân ddiwygiadau i'r polisi i sicrhau bod yr arferion presennol yn adlewyrchu'r gofynion o ran defnyddio'r Gymraeg yng ngweithgareddau gweithredol mewnol y Bwrdd Iechyd, ac i ddatblygu trefniadau sydd eisoes mewn lle. Yn unol â'r adolygiad, cynhaliwyd gwerthusiad i ganfod effaith y polisi.

Mae'r polisi'n canolbwyntio ar roi'r hawl a'r cyfle i staff ddefnyddio'u Cymraeg yn y gwaith. Mae hyn wedi cael ei gyflawni drwy ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Cyfieithu ar y Pryd
- Cyfathrebu Mewnol
- Technoleg Gwybodaeth
- Achosion Disgyblu / Gallu / Rheoli Presenoldeb / Y Broses Parch a Datrys
- Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- Arwyddion

<u>Cyfieithu ar y Pryd</u>
Cynhelir pob Cyfarfod Bwrdd cyhoeddus gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd i sicrhau bod pob aelod yn gallu cyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg i'r un graddau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ei gyfarfodydd cyhoeddus bob dau fis, gyda'r cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael fel ffrwd fyw ar wahân drwy sianel You Tube y Bwrdd Iechyd. Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hefyd yn cael ei hwyluso gan wasanaethau cyfieithu ar y pryd.

<u>Cyfathrebu Mewnol</u>
Ers cyflwyno'r Polisi, mae negeseuon e-bost i bob defnyddiwr bellach yn cael eu hanfon yn ddwyieithog. Cyhoeddir diweddariadau arweinyddiaeth wythnosol i bob gweithiwr yn ddwyieithog, a chylchlythyrau'r Gymuned Iechyd Integredig. Anfonir pob cyhoeddiad a diweddariad mewnol mewn argyfwng yn ddwyieithog at bob defnyddiwr.

## Technoleg Gwybodaeth

Mae geiriadur a gwiriwr sillafu Cymraeg (Cysill/Cysgair) ar gael i'w gosod ar bob cyfrifiadur i sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael cymorth i wneud hynny.

Mae sgiliau Cymraeg staff wedi'u cynnwys yn llyfr cyfeiriadau e-bost Microsoft Outlook. Mae pedwar categori wedi'u nodi yn y maes cynorthwyol ar y llyfr cyfeiriadau, sy'n helpu staff i gyfathrebu'n fewnol â chydweithwyr. Efallai nad yw rhywfaint o'r wybodaeth wedi cael ei diweddaru'n ddiweddar. Adolygwyd y defnydd fel rhan o'r broses gwerthuso polisi, ac amlinellir y canlyniadau isod.

| | **2017** | **2018** | **2023** |
|---|---|---|---|
| **Ddim yn siarad Cymraeg** | 3,335 | 7,484 | 10,507 |
| **Siarad Rhywfaint o Gymraeg** | 835 | 1,592 | 2,156 |
| **Dysgwr Cymraeg** | 643 | 1,115 | 1,816 |
| **Siarad Cymraeg** | 1,329 | 2,640 | 3,661 |

Mae'r cynnydd cadarnhaol mewn ffigurau yn cynrychioli nifer uwch o staff yn cofnodi eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu o fewn Microsoft Outlook.

## Achosion Disgyblu / Gallu / Rheoli Presenoldeb / Y Broses Parch a Datrys

Mae pob agwedd ar weithdrefnau'r gweithlu, fel y nodir uchod, bellach yn cael eu cynnig a'u cynnal yn rheolaidd drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy'r broses Parch a Datrys. Cynigir cymorth cyfieithu ysgrifenedig ac ar y pryd i sicrhau bod dewis iaith y gweithlu yn cael ei hystyried, ac y gweithredir ar hynny.

## Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Ym mis Ionawr 2023, lansiwyd pecyn e-ddysgu newydd ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar ESR. Mae hyn yn rhan o'r Hyfforddiant Gorfodol, y mae'n ofynnol i'r holl staff ei gwblhau, a'i ailadrodd bob tair blynedd. Mae'r ffigurau isod yn dangos bod 67.22% o'r gweithlu wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod y chwe mis cyntaf. Rhoddir cyhoeddusrwydd pellach iddo drwy'r bwletin corfforaethol wythnosol, er mwyn sicrhau bod y targed cydymffurfio o 90% a amlinellir yn *Mwy na geiriau* yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn adrodd nesaf.

Comp Matrix - Default

| Division | Compliant | Non-Compliant | Compliance % |
|---|---|---|---|
| Health Community Centre (HCCX) | 3242 | 1753 | 64.90% |
| Health Community East (HCEX) | 3331 | 1655 | 66.81% |
| Health Community West (HCWX) | 2781 | 1312 | 67.95% |
| Integrated Clinical Delivery - Primary Care (ICDP) | 472 | 82 | 85.20% |
| Integrated Clinical Delivery - Regional Care (ICDR) | 832 | 615 | 57.50% |
| Mental Health & LDS (MX00) | 1487 | 534 | 73.58% |
| Midwifery and Womens Services (WXXX) | 475 | 305 | 60.90% |
| Corporate Services | 1421 | 591 | 70.63% |
| **Total** | **14041** | **6847** | **67.22%** |

## Arwyddion 'Defnyddiwch eich Cymraeg yma'

Yn ystod cyfnod y polisi hwn, mae dros 250 o arwyddion bwrdd gwaith wedi cael eu dosbarthu i leoliadau clinigol a chorfforaethol a swyddogion, i'w harddangos ar ddesgiau derbynfeydd. Mae'r arwyddion yn rhoi gwybod i gleifion a'r cyhoedd bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Dangosodd y gwerthusiad yr effaith gadarnhaol y mae gweithredu'r polisi wedi'i chael ar yr amgylchedd dwyieithog sy'n cael ei greu o fewn y sefydliad. Bydd y diwygiadau ychwanegol, a gymeradwywyd gan Grŵp Polisïau a Gweithdrefnau'r Gweithlu ym mis Awst 2023, yn sicrhau bod y duedd hon yn parhau dros y tair blynedd adrodd nesaf.

## Y "Cynnig Rhagweithiol"

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi croesawu cyhoeddi'r cynllun Pum Mlynedd *Mwy na geiriau* ac wedi sefydlu canlyniad penodol yng Nghynllun Gweithredu Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg:

- **Adeiladu ar y dull "Cynnig Rhagweithiol" i sicrhau mynediad amserol at ofal sy'n briodol o ran iaith** (*yn unol â'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Pum Mlynedd 'Mwy na Geiriau'*)

Wrth bennu ein hallbynnau ar gyfer y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar gyflawniad tymor byr a thymor canolig yn y meysydd canlynol:

- Systemau digidol i ymgorffori egwyddorion y 'Cynnig Rhagweithiol' a'r Cynllun Dewis Iaith *(Mwy na Geiriau 30)*
- Adnabod
- dewis iaith cleifion drwy weithredu'r 'Cynllun Dewis Iaith' *(Safon 110, Safonau'r Gymraeg)*
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol i fabwysiadu'r chwe dyletswydd a amlinellir yn Safonau'r Gymraeg drwy groesawu ffrwd barhaus o gefnogaeth gan BIPBC *(Mwy na Geiriau 33)*
- Rhoi gwybod i weithlu'r dyfodol am y cyfleoedd y gall sgiliau Cymraeg eu darparu o ran gyrfaoedd ym maes gofal iechyd (*Mwy na Geiriau 20-28*)
- Digwyddiadau a Gweithgareddau Hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gyda dull sy'n canolbwyntio ar y claf
- Ailgyflwyno ymarfer Siopwr Dirgel i sicrhau llywodraethu a hunanreoleiddio cadarn, ac adrodd yn chwarterol i Fforwm Strategol yr Iaith Gymraeg
- Casglu adborth cleifion ar safon y gwasanaethau Cymraeg a gynigir a defnyddio'r canfyddiadau i adnabod bylchau yn y ddarpariaeth

Amlinellir isod drosolwg o'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r canlyniadau.

<u>Adnabod dewis iaith cleifion drwy weithredu'r 'Cynllun Dewis Iaith'</u>

Lluniodd y Bwrdd Iechyd y Cynllun Dewis Iaith, sydd wedi ennill gwobrau, yn 2017. Mae'n defnyddio magnedau 'Cymraeg' oren i adnabod cleifion Cymraeg eu hiaith ar wardiau. Mae hyn yn hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau dwyieithog a'r egwyddor 'Cynnig Rhagweithiol' ar wardiau ledled rhanbarth y Bwrdd Iechyd.



Ers ei gyflwyno, mae nifer o Fyrddau Iechyd eraill wedi dilyn yr un drefn. Yn ogystal, o ganlyniad i weithredu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae bellach wedi'i gynnwys yn y cynllun Pum Mlynedd *Mwy na Geiriau*.

Nod y cynllun yw bod staff yn gallu adnabod dewis iaith cleifion ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty am y tro cyntaf. Mae wedi cael effaith gadarnhaol ar brofiad cleifion, ac ar gynllunio'r gweithlu, gan fod aelodau o'r gweithlu clinigol ehangach, fel ffisiotherapyddion neu fferyllwyr, yn defnyddio'r magnedau i sicrhau bod eu gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol ag anghenion ieithyddol claf.



Ac yntau wedi parhau ar waith ar lawer o wardiau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr drwy gydol pandemig COVID-19, parhaodd y cynllun syml i ffynnu yn ystod 2022-23 ac mae camau'n cael eu cymryd nawr i ffurfioli ei weithrediad ar fwy o wardiau. Mae grwpiau cleifion agored i niwed yn cael eu targedu yn unol â grwpiau blaenoriaeth a enwir yn *Mwy na geiriau*.

Mae llawer o wardiau'n cofnodi gweithredu'r cynllun 'optio i mewn' hwn ac yn llenwi ffurflenni archwilio misol i adolygu'r niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun a'i effaith. Yn ei dro, bydd derbyn mwy o dystiolaeth empirig am ddarparu'r cynllun hefyd yn rhoi mwy o sicrwydd am ei effaith gyffredinol.

Systemau digidol i ymgorffori egwyddorion y 'Cynnig Rhagweithiol' a'r Cynllun Dewis Iaith

Er gwaethaf llwyddiant y Cynllun Dewis Iaith ar lefel ward, er mwyn parhau i'w ddarparu yn y dyfodol, mae Tîm y Gymraeg wedi bod yn gweithio gydag aelodau o Dîm TGCh y Bwrdd Iechyd i wreiddio'r Cynllun yn system STREAM sydd newydd ei rhoi ar waith.

Offeryn cynllunio rhyddhau cleifion a ddatblygwyd yn fewnol yw STREAM, sydd wedi'i fwriadu i helpu'r llif cleifion mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae'r rhaglen, sy'n cael ei defnyddio drwy sgrin electronig ar bob ward (neu ar dabledi electronig personol), yn

defnyddio data amser real i gefnogi gofal cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd ac felly mae wedi'i bwriadu i ddisodli'r byrddau gwyn llaw / wrth-ymyl-y-gwely presennol. Nod y system yw darparu gwell mynediad at wybodaeth bresennol (wedi'i thynnu o systemau tracio WPAS ac Archebion Fferylliaeth), er mwyn cefnogi ffyrdd presennol o weithio a hwyluso profiadau cleifion, tra byddant o dan ofal y Bwrdd Iechyd.




Yn unol â'r nod hwn, mae system STREAM yn darparu gwybodaeth am ddewisiadau ieithyddol unigol pob claf, gan ddefnyddio data a gymerir yn awtomatig o System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS). Dangosir fersiwn ddigidol o 'Cymraeg: iaith gwaith' oren ar y sgrin, wrth ymyl enw pob claf y gwyddys ei fod yn siarad Cymraeg.

Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod staff sy'n defnyddio STREAM yn cael gwybod am bresenoldeb cleifion Cymraeg eu hiaith ar eu wardiau, sydd yn naturiol yn hwyluso cyflwyno'r Cynllun Dewis Iaith.

Mae system STREAM eisoes wedi cael ei chyflwyno ym mhrif ysbytai / ysbytai aciwt y Bwrdd Iechyd ac mae cynlluniau ar waith ar hyn o bryd i ehangu ei defnydd i ysbytai cymunedol ledled y rhanbarth.

Mae dadansoddiad manylach o waith penodol a wnaed yn unol â'r canlyniadau uchod wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, megis rhoi gwybod i weithlu'r dyfodol bod yr iaith yn sgìl ar gyfer datblygu gyrfa, hunan-reoleiddio gan fabwysiadu'r dull siopwr dirgel.

## Y "Cynnig Rhagweithiol" – Betsi ar ei Orau!

**Stori Claf – Nicky John ac Emi**

# Rhaglen Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Mae Tîm Hyfforddiant Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall yn creu a chyflwyno amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg i ddiwallu anghenion ein staff. Er bod y rhan fwyaf o'n haddysgu yn rhithwir, mae wedi bod yn braf gallu cynnig rhai cyrsiau wyneb yn wyneb ledled Gogledd Cymru.

**Darparu Hyfforddiant Iaith Gymraeg**
Dros y flwyddyn adrodd ddiwethaf, mae Tiwtor y Gymraeg wedi cynnig amrywiaeth o gyrsiau ar wahanol lefelau i staff. Mae’r Tiwtor yn parhau i weithio’n strategol, gan ddarparu cyrsiau blasu mewnol sydd wedi’u datblygu’n benodol ar gyfer gwahanol feysydd yn y sector iechyd e.e. cyrsiau derbynfa a blaen tŷ, ateb a delio ag ymholiadau ffôn, a chadeirio cyfarfodydd yn ddwyieithog. Mae’r adborth o’r cyrsiau hyn wedi bod yn gadarnhaol, gyda llawer o aelodau staff bellach yn mynychu gwersi wythnosol neu’n cwblhau’r cyrsiau hunan-astudio 60 awr ‘Cymraeg Gwaith’.

Adnewyddodd Tîm Hyfforddiant y Gymraeg gontract deuddeg mis gyda’r *Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol* o dan y ‘Cynllun Cymraeg Gwaith’ a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn sicrhau parhad cyfleoedd a chydweithio yn ogystal â chyflogi ein Swyddog Cymorth. Mae’r Swyddog Cymorth yn parhau i gynnig gwersi, tiwtorialau, sesiynau sgwrsio a chefnogaeth barhaol i’n dysgwyr.

Mae 885 aelod o staff wedi cael mynediad at ein cyrsiau ‘Cymraeg Gwaith’ dros y flwyddyn ddiwethaf; mae hyn yn gynnydd o 27.16 y cant ers y llynedd.

**Cwrs Llwybr Carlam Newydd i Ddysgu Cymraeg**




Y grŵp Llwybr Carlam i ddysgu Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn ym mis Ebrill 2023.

Ym mis Mehefin 2022, fel rhan o’n cydweithio â ‘Cymraeg Gwaith’, fe wnaethom ddyfeisio cwrs peilot newydd sbon – ‘Llwybr Carlam i Ddysgu Cymraeg’. Mae'r cwrs yn defnyddio cyfuniad o ddulliau dysgu gwahanol gyda'r nod i ddysgwyr symud ymlaen i lefel Sylfaen (ESR lefel 2) o lefel Mynediad (dechreuwyr llwyr) mewn blwyddyn. Dangoswyd llawer iawn o ddiddordeb yn y cwrs, a hyd yma mae ein dysgwyr wedi cwblhau’r cwrs blasu 10 awr ar-lein, wedi mynychu cwrs preswyl Mynediad rhan 1 a Mynediad rhan 2 yn Nant Gwrtheyrn ac wedi cwblhau’r cwrs hunan-astudio Mynediad rhan 2 60 awr. Y cam nesaf i’n dysgwyr yw dechrau ar y cwrs hunan-astudio Sylfaen rhan 1, cyn mynychu cwrs lefel Sylfaen yn Nant Gwrtheyrn yn yr hydref. Ein nod ar gyfer y dyfodol yw i’n dysgwyr barhau i symud ymlaen o’r lefel Sylfaen i’r lefel Ganolradd, ac rydym yn gobeithio gallu lansio cwrs ‘Llwybr Carlam’ eto gyda charfan newydd o ddysgwyr.

**Gwerthuso Hyfforddiant Iaith Gymraeg**


Mae Tîm Hyfforddiant y Gymraeg yn sicrhau cylch gwerthuso cyson drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod pob cwrs yn addas i'r diben ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r ymatebion i'r amrywiaeth o gyrsiau a'r dull o'u darparu wedi cael derbyniad cadarnhaol. Ar ddiwedd pob cwrs, rhoddir ffurflen Gwerthuso/Adborth ddienw i bob dysgwr drwy ddolen Microsoft Forms.




*'Fantastic course and Tutor. Tutor has put in a lot of effort to help us in our learning. Lots of opportunities to siarad Cymraeg'' / speak Welsh.*

Roedd canfyddiadau'r ffurflenni gwerthuso yn nodi bod 95 y cant o'r dysgwyr yn 'hapus iawn' â'r ddarpariaeth ddysgu a bod 96.6 y cant o'r dysgwyr wedi 'mwynhau' mynychu'r cyrsiau. Mae'r canrannau uchel hyn yn amlygu gwerthfawrogiad staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o dîm hyfforddiant y Gymraeg.




*'Beth was extremely friendly and easy to talk to and I felt well supported and helped with the course and she encouraged everyone to take part in the activities and made learning very enjoyable.''*
*'' The course is perfect; it gives you confidence to practice your Welsh with patients and colleagues, at your own pace and not too overwhelming. Diolch.*

Dywedodd 86.44 y cant o'r dysgwyr eu bod yn teimlo eu bod wedi gwneud cynnydd gyda'u Cymraeg, a'u bod yn fwy tebygol o ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg newydd gyda chleifion, cydweithwyr ac yn y gymuned. Mae hyn yn galonogol iawn gan fod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg ar unrhyw lefel yn rhoi cysur i'n defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg iaith gyntaf.

*I have benefited from my Welsh lessons. I recently had to take a phone call from a Welsh speaker, as I was the only member of staff on duty that could speak Welsh even though I'm not fluent. I understood what the caller was asking without having to revert to English. At the end of the call I mentioned that I was a dysgwr Cymraeg / Welsh learner and asked if I had been ok. The caller said I had done very well which made me feel very pleased.*

*'In some of the community hospitals I work in, a high percentage of the patients are Welsh speakers, I find the basic phrases I have are useful with the very young pre-school children, and the very elderly particularly those suffering with dementia, But almost all the patients appreciate my efforts, and encourage me to continue.*

Nododd 100 y cant o'r rhai a holwyd eu bod yn gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth a roddir gan y tiwtor a'r swyddog cefnogi. Canfu'r dystiolaeth gan ddysgwyr fod canmol mawr i lefel gyffredinol y gefnogaeth a roddir iddynt gan y Bwrdd Iechyd. Cyfeiriwyd dro ar ôl tro at frwdfrydedd ac ymroddiad y tiwtor a'r swyddog cefnogi a bod eu hanogaeth ddi-baid wedi bod yn ffactor pwysig yn natblygiad ieithyddol nifer fawr o'r rhai a holwyd.

**Cymorth Hyfforddi Ychwanegol**

Cinio Clebran

Mae Cinio Clebran yn parhau i gael ei gynnal bob yn ail ddydd Mercher rhwng 12.30 a 1.30pm yn rhithiol dros Teams ac mae'n braf adrodd bod cyfranogwyr newydd yn mynychu bron bob sesiwn. Mae'r Tîm yn parhau i greu cyflwyniadau PowerPoint sydd â geirfa ac ymadroddion allweddol yn Gymraeg gyda'u cyfieithiadau i gefnogi'r dysgwyr ac i'w hannog i gymryd rhan yn y trafodaethau. Mae clywed dysgwyr yn sgwrsio ac yn cyfrannu'n naturiol yn wych ac yn dangos bod y tîm yn llwyddo i annog staff i ddefnyddio eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol.


Fel rhan o Wythnos Gymraeg flynyddol Tîm y Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd, gwahoddwyd Manuela Niemetscheck, Seicotherapydd Celf a Dysgwr y Flwyddyn 2022 y Bwrdd Iechyd fel gwestai arbennig i'r grŵp sgwrsio. Cafodd dysgwyr Cymraeg eraill BIPBC gyfle i ofyn cwestiynau i Manuela am ei thaith dysgu Cymraeg a gofyn am gyngor ar sut i ddod yn rhugl.

Tudalen Facebook Dysgwyr Cymraeg Betsi

Grŵp preifat i staff ar Facebook yw Tudalen Facebook 'Ffrindiau Dysgwyr Cymraeg Betsi'. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Tîm wedi ymgysylltu â'i aelodau Facebook drwy roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau Cymraeg a hysbysebu cyrsiau a gweithgareddau mewnol. Mae'r grŵp Facebook hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr

ryngweithio, trafod a gofyn cwestiynau mewn amgylchedd anffurfiol. Ers mis Mehefin 2022, rydym wedi gweld ein haelodau'n cynyddu i 127, sy'n gynnydd o 36 y cant. Mae'r grŵp Facebook 'Dysgwyr Cymraeg Betsi' cyhoeddus yn parhau i gael ei ddefnyddio i arddangos enghreifftiau o arferion da a straeon o lwyddiant, gyda 289 o ddilynwyr ar hyn o bryd, sy'n gynnydd o 59.66 y cant ers mis Mehefin 2022.

<u>BetsiNet</u>
Mae gan Dîm y Gymraeg newyddion i'w rannu â gweithwyr yn wythnosol, felly mae'n bwysig hysbysebu a hyrwyddo ein llwyddiannau, cyrsiau ac adnoddau.




Dewiswyd tudalennau mewnrwyd Tîm y Gymraeg i fod yn un o'r cyntaf i symud drosodd i blatfform mewnrwyd newydd y Bwrdd Iechyd, BetsiNet. Buom yn gweithio gyda'r Tîm Cyfathrebu i ailwampio a symud ein tudalennau gwybodaeth i'r safle newydd. Mae 'BetsiNet' bellach yn weithredol ar draws y sefydliad, ac mae Tîm Hyfforddiant y Gymraeg yn diweddaru'r tudalennau yn wythnosol. Mae carwsél Newyddion ar ochr y brif dudalen hefyd i ddangos unrhyw wybodaeth newydd. Mae hwn yn adnodd newydd lle gall staff y bwrdd iechyd gael gafael ar wybodaeth heb orfod chwilio drwy brif dudalennau'r fewnrwyd.

<u>Yammer</u>
Gwasanaeth rhwydweithio cymdeithasol yw Yammer a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer cyfathrebu preifat o fewn sefydliadau. Yn ôl ym mis Ionawr 2023, cyfarfu'r Tiwtor Iaith Gymraeg â Rheolwr Iaith Gymraeg Bwrdd Iechyd Powys i drafod cydweithio i greu tudalen Yammer i holl Ddysgwyr Cymraeg y GIG. Ym mis Chwefror 2023, cafodd y dudalen ei chreu ac mae gennym bellach 205 o aelodau yn dilyn y dudalen. Mae'r dudalen yn lle diogel i ddysgwyr Cymraeg yn y GIG gysylltu, cefnogi ei gilydd a rhannu cynnwys a syniadau.




<u>Llyfrau Cymraeg i Ddysgwyr ar gael yn Llyfrgelloedd BIPBC</u>
Mae tiwtor y Gymraeg yn annog dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac mae darllen yn ffordd gadarnhaol o adolygu ac atgyfnerthu geirfa ac ymadroddion Cymraeg. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru wedi creu cyfres o lyfrau 'Amdani' sy'n ategu cyrsiau Cymraeg y Ganolfan, gyda theitlau wedi'u graddio ar gyfer gwahanol lefelau dysgu, o ddechreuwyr i ddysgwyr profiadol. Mae'r tiwtor Iaith Gymraeg yn annog ei dysgwyr i ddarllen y llyfrau 'Amdani' ac mae wrthi'n trafod gyda llyfrgelloedd BIPBC i gadw'r gyfres o lyfrau yn llyfrgelloedd y tair prif ysbyty.

**Tystysgrif Sgiliau Iaith**
Mae'r Dystysgrif Sgiliau Iaith yn gymhwyster cydnabyddedig ac achrededig gan y *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* a *Chyd-bwyllgor Addysg Cymru* a ddatblygwyd i alluogi ymgeiswyr i ennill tystysgrif sy'n dangos tystiolaeth o'u sgiliau Cymraeg a'u gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn anelu at hybu'r gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn broffesiynol yn Gymraeg, ar lafar ac ar bapur, er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth leol a defnyddwyr gwasanaethau.

Roedd tri o'n dysgwyr profiadol wedi sefyll yr arholiad TSI eleni, ac roedd y tri wedi pasio, dau ohonynt â Theilyngdod. Bu tiwtor iaith Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio'n agos gyda'r ymgeiswyr, drwy baratoi adnoddau, trefnu sesiynau Tiwtorial 1:1 a chreu enghreifftiau o bapurau blaenorol i sicrhau bod yr ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad llafar ac ysgrifenedig.

> *"Dechreuais baratoi ar gyfer yr arholiad llafar fis Tachwedd diwethaf, roeddwn i'n teimlo'n nerfus iawn, ond rhoddodd Beth (Tiwtor BIPBC) gymaint o gefnogaeth i mi, ac erbyn mis Mawrth eleni, roeddwn i'n barod ar gyfer yr arholiad llafar. Mwynheais y profiad o drafod ac ateb cwestiynau'r arholwr am fy swydd fel Caplan yn Ysbyty Glan Clwyd.*
>
> *Roeddwn i'n nerfus iawn cyn sefyll yr arholiad ysgrifenedig ym mis Mai 2023 ac yn poeni am safon fy Nghymraeg, ond ar ôl cwblhau hen bapurau a mynychu sesiynau gramadeg gyda Beth, roeddwn i'n teimlo'n barod! Alla i ddim credu fy mod wedi llwyddo i basio'r arholiad TSI, y tro cyntaf! Diolch yn fawr i Beth am ei chefnogaeth, ei hanogaeth a'i hamynedd."*




Yn dilyn llwyddiant y cynllun, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael cynnig i barhau i gydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan ymestyn y cytundeb ymhellach.

Ffrindiaith
Ar 1 Mawrth 2023, sefydlodd Tîm y Gymraeg stondin ym mhob un o'r tri ysbyty i ddathlu a hyrwyddo'r Gymraeg. I gyd-fynd â diwrnod ein nawddsant, fe wnaethom benderfynu lansio ein cynllun 'FfrindIaith'. Cynllun gwirfoddol o fewn y Bwrdd Iechyd yw 'FfrindIaith', sy'n paru siaradwyr Cymraeg rhugl â staff sy'n dysgu Cymraeg. Y nod yw galluogi'r dysgwyr i fagu digon o hyder i ddefnyddio eu Cymraeg llafar yn y gweithle a'i ddefnyddio'n rheolaidd gyda chydweithwyr, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cynllun yn darparu cefnogaeth reolaidd ac anffurfiol i ddysgwyr ymarfer eu sgiliau siarad.

Mae hwn yn gyfle euraid i'n staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl helpu i gynnal yr iaith drwy gefnogi dysgwr i ddod yn siaradwr hyderus, yn ogystal â darparu cefnogaeth gyfeillgar i annog ac ysbrydoli'r dysgwr. Mae hefyd yn gyfle i gyfrannu at ddatblygu dwyieithrwydd ymhellach yn y Bwrdd Iechyd, a fydd o fudd i'n cleifion a chymunedau lleol.

**Dathlu ein Dysgwyr**

<u>Dysgwr y Mis</u>

Ar ôl llwyddiant ein cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn ôl ym mis Mawrth 2022, penderfynwyd y dylem ddathlu a dangos ein gwerthfawrogiad o ymdrechion ein staff i ddysgu Cymraeg bob mis. Ym mis Mehefin 2022, fe wnaethom gyflwyno cynllun 'Dysgwr Cymraeg y Mis' Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.




Ers y llynedd, mae'r cynllun yn parhau i fynd o nerth i nerth. Rydym yn derbyn enwebiadau drwy e-bost gan gydweithwyr llawn edmygedd.

> *"Rydw i wedi mwynhau darllen erthygl Dysgwr Cymraeg y Mis Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a hoffwn enwebu un o'r therapyddion galwedigaethol, Nadine Murphy. Mae hi'n mynd allan o'i ffordd i ddefnyddio'r Gymraeg, mae hi'n croesawu cleifion ac yn cael sgyrsiau syml. Mae hi'n ymuno â Cinio Clebran ac yn mynychu gwersi Cymraeg gyda'r nos. Mae hyder Nadine wedi cynyddu cymaint gan ei bod hi'n ymarfer yn rheolaidd, ac mae hi wedi ysbrydoli aelodau newydd o'r tîm i ddechrau dysgu Cymraeg."* (Swyddog Tîm Gweithrediadau, Gwasanaethau Osgo a Symudedd)

Rydyn ni'n gofyn i'r dysgwr sydd wedi'i enwebu ddarparu llun ac ymateb i gyfres o gwestiynau sy'n gofyn iddo am ei daith dysgu Cymraeg.  Rydym yn rhannu eu profiadau ar BestiNet ac yn gyhoeddus ar ein tudalennau Facebook. Mae cyhoeddusrwydd y cynllun hwn nid yn unig yn rhoi llawer o ganmoliaeth a sylw i'r unigolyn ond mae hefyd yn ysbrydoli staff eraill i ddechrau dysgu Cymraeg. Gwahoddir Dysgwr Cymraeg y Mis fel gwestai arbennig i'r 'Cinio Clebran' lle caiff staff eraill gyfle i ofyn cwestiynau am eu taith gyda'r Gymraeg ac i rannu eu hawgrymiadau ar gyfer dysgu'r iaith. Roedd yr enwebiadau braidd yn araf yn dod i law pan ddechreuodd y cynllun, ond yn ystod y mis diwethaf mae'r enwebiadau wedi hedfan i mewn ac, yn rhyfeddol, mae gennym Ddysgwr y Mis ymhell i mewn i 2023-2024.

<u>Eisteddfod yr Urdd Dinbych – Mai 2022</u>



Uchafbwynt i Dîm y Gymraeg oedd mynychu Eisteddfod yr Urdd, Dinbych ym mis Mai 2022. Trefnodd y Tiwtor Iaith Gymraeg i grŵp o ddysgwyr BIPBC fynd i'r Eisteddfod a chymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb ym mhafiliwn Llywodraeth Cymru. Yn bresennol yn y digwyddiad roedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Eluned Morgan, ynghyd â Chadeirydd a Chyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd y Bwrdd Iechyd, y Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu a'r Aelod Annibynnol o'r Bwrdd sy'n Hyrwyddwr y Gymraeg.

Roedd pawb yn rhyfeddu at allu'r dysgwyr i ateb cwestiynau yn naturiol yn y Gymraeg ac at eu hagwedd gadarnhaol tuag at yr iaith.



Yn ystod y sesiwn, enillodd Mark Butler, Swyddog Gwybodaeth yn Ysbyty Maelor Wrecsam, Wobr Dysgwr y Flwyddyn 'Cymraeg Gwaith' (lefel Uwch) sy'n wobr genedlaethol. Cafodd Mark ei wobrwyo gyda'r dystysgrif gan Siwan Iorwerth o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Roedd yr Eisteddfod yn gyfle gwych arall i arddangos ein dysgwyr a dathlu eu llwyddiannau.

# Astudiaeth Achos Dysgwyr Cymraeg Betsi




"Ian Day ydw i a fi yw'r Caplan yn Ysbyty Glan Clwyd. Cefais fy ngeni yn Swydd Derby, Lloegr a symudais i Gymru pan es i Brifysgol Bangor. Yn ystod y 1980au, penderfynais ddysgu Cymraeg pan oeddwn yn offeiriad plwyf yn Minera, Wrecsam. Yn anffodus, am amrywiol resymau, fe wnes i roi'r gorau i fynychu gwersi a cholli fy sgiliau Cymraeg newydd.

Yn 2021, dechreuais weithio yn Ysbyty Glan Clwyd fel y Caplan, a gwelais boster yn hysbysebu dosbarthiadau Cymraeg yn ein bwrdd iechyd. Penderfynais roi cynnig arall ar ddysgu Cymraeg a chofrestru am wersi wythnosol gyda Beth Jones, Tiwtor Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd. Yn ogystal â mynychu sesiynau gyda Beth, rwy'n mynychu grŵp sgwrsio amser cinio rhithwir y Bwrdd Iechyd 'Cinio Clebran', mae'n gyfle gwych i ddefnyddio ac ymarfer eich Cymraeg mewn lleoliad anffurfiol gyda dysgwyr eraill BIPBC. Y tu allan i'r gwaith, rydw i'n defnyddio Duolingo i gryfhau fy nysgu ac rydw i wrthi ar-lein bob dydd ers 1186 diwrnod; rydw i am geisio dal i fynd am 4 blynedd! Rydw i hefyd wedi bod yn ffodus i allu mynychu cyrsiau wythnosol yn Nant Gwrtheyrn drwy'r gwaith; mae'n lle arbennig iawn i wella eich sgiliau Cymraeg. Byddwn yn argymell yn gryf bod dysgwyr yn mynychu'r cyrsiau am ddim yn Nant Gwrtheyrn gan eich bod yn cael eich trochi'n llwyr yn yr iaith Gymraeg ac yn gadael gyda hyder a gallu newydd.

Fis Medi diwethaf, gofynnodd Beth, y tiwtor, "Beth am sefyll arholiad Tystysgrif Sgiliau Iaith y flwyddyn nesaf?" "Beth, fi?" atebais, roeddwn i'n betrus iawn, gan nad oeddwn i'n teimlo bod gen i'r sgiliau Cymraeg i sefyll arholiad iaith gyntaf. Dywedodd Beth wrthyf fod yr arholiad mewn dwy ran, llafar ac ysgrifenedig, ac y byddai hi'n fy nghefnogi bob cam o'r ffordd. Gydag addewid Beth o gefnogaeth, cytunais. Es i Brifysgol Bangor ym mis Mai i sefyll yr arholiad. Alla i ddim credu fy mod wedi llwyddo i basio'r arholiad TSI, y tro cyntaf! Diolch yn fawr i Beth am ei chefnogaeth, ei hanogaeth a'i hamynedd.'



Rwy'n cael boddhad mawr o ddefnyddio fy sgiliau Cymraeg yn y gwaith, yn enwedig wrth ddelio â chleifion bregus neu berthnasau mewn profedigaeth. Mae gallu sgwrsio â rhywun yn eu mamiaith yn bwysig iawn ac rwy'n falch fy mod yn gallu rhoi gwasanaeth dwyieithog i ddefnyddwyr gwasanaeth y Gogledd. Fy nharged ar gyfer y dyfodol yw gwella fy sgiliau Cymraeg ysgrifenedig ffurfiol er mwyn i mi allu ysgrifennu gwasanaethau yn ddwyieithog.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn barod iawn i helpu a chefnogi staff i fynychu hyfforddiant mewnol, ac rwy'n ddiolchgar iawn am hyn. Os ydych chi'n gweithio i'r Bwrdd, rwy'n argymell yn gryf eich bod yn mynd ar gyrsiau wythnosol, rhad ac am ddim. Fy nghyngor i ddysgwyr Cymraeg eraill yw mwynhau defnyddio a siarad yr iaith. Po fwyaf y byddwch yn ei ddysgu, y mwyaf y gallwch ddefnyddio'r iaith. Po fwyaf y defnyddiwch chi hi, y mwyaf y byddwch yn dysgu. Daliwch ati!''

*"Mae wedi bod yn bleser gweld Ian yn datblygu fel dysgwr. Mae defnyddio mamiaith ein cleifion / gofalwyr yn hanfodol mewn sefyllfaoedd bugeiliol. Rwy wedi gweld ymateb cadarnhaol pobl pan fydd Ian yn siarad Cymraeg â nhw. Mae hyn yn wir iawn hefyd pan fo Ian yn gorfod cymryd gwasanaethau cyhoeddus megis angladdau neu wasanaethau coffa. Mae ei ymroddiad i ddysgu Cymraeg yn bleser i'w weld. Mae'r ffaith bod Ian o oedran aeddfed yn dangos nad yw byth yn rhy hwyr i ddechrau dysgu iaith – iaith sy'n agor byd newydd o brofiadau newydd.'''* (Wynne Roberts, Rheolwr Caplaniaid BIPBC)

## Y Gwasanaeth Cyfieithu

Mae’r Tîm Cyfieithu wedi tyfu dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi llwyddo i benodi cyfieithwyr ychwanegol a gyflogir yn rhan-amser ac yn llawn-amser. Mae’r Tîm hefyd wedi llwyddo i benodi Swyddog Gweinyddol llawn-amser sy’n gyfrifol am brosesu ceisiadau cyfieithu a dyrannu’r llwyth gwaith i’r tîm. Mae’r Tîm hefyd wedi penodi Uwch Gyfieithydd sy’n gweithio ochr yn ochr â’r Rheolwr Cyfieithu i oruchwylio gwaith y tîm i sicrhau bod safonau rheoli ansawdd yn cael eu cynnal ac i ddarparu cymorth datblygu i’r tîm.

Mae’r Tîm yn dal i gefnogi pob adran drwy wasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd ac mae wedi gweld cynnydd yn y galw am ei wasanaethau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae adran Gogledd Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi ymuno â BIPBC ac mae'r Tîm Cyfieithu bellach yn darparu cymorth cyfieithu i’r adran honno sydd wedi cynyddu'r llwyth gwaith ymhellach. O ganlyniad, mae’r galw am wasanaethau cyfieithu yn gyffredinol wedi parhau i dyfu. Ystyrir bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol gan ei fod yn dangos ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn unol â’i ofynion statudol.

Un maes sydd wedi gweld cynnydd sylweddol yw’r galw i gyfieithu hysbysebion a disgrifiadau swyddi, gyda chynnydd o dros 2000 o swyddi wedi eu hysbysebu ers y flwyddyn adrodd flaenorol. Mae safon 107(a) Safonau’r Gymraeg yn nodi bod yn rhaid cyhoeddi pob disgrifiad swydd yn Gymraeg. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw’r unig sefydliad iechyd yng Nghymru sy’n cydymffurfio’n llawn â’r Safonau hyn, gan mai dyma’r unig sefydliad sy’n cyfieithu ei holl ddisgrifiadau swydd.

Mae ceisiadau brys am gyfieithiadau hefyd wedi cynnwys datganiadau i’r wasg, llythyrau cleifion, taflenni gwybodaeth a gwybodaeth am iechyd y cyhoedd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Mae gwasanaeth y tu allan i oriau hefyd ar gael ar gyfer cyfathrebu brys, ac mae’n fodd o sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei chyhoeddi’n brydlon.

Mae’r galw am gyfieithu ar y pryd wedi cynyddu hefyd, gyda’r tîm yn cefnogi amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, fforymau, cyfarfodydd a chynadleddau i randdeiliaid. Mae cefnogaeth hefyd wedi cael ei darparu mewn cyfweliadau os bydd ymgeiswyr yn dymuno cael eu cyfweliadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae’r Bwrdd Iechyd yn dal i ddarparu gwasanaeth cyfieithu i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth, a sefydlwyd yn wreiddiol ym mis Ebrill 2021. Cytunwyd ar gytundeb newydd i barhau â’r ddarpariaeth gwasanaeth hon o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Mae rhagor o drafodaethau wedi cael eu cynnal gyda sefydliadau eraill gyda’r bwriad o efelychu’r cytundeb hwn gyda Bwrdd Iechyd arall yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae cymorth cyfieithu yn dal i gael ei ddarparu i’r sector gofal sylfaenol, practisiau meddygon teulu sy’n cael eu rheoli’n breifat a chontractwyr annibynnol.

Mae'r Tîm wedi bod yn defnyddio meddalwedd cof cyfieithu yn ei waith dyddiol ers nifer o flynyddoedd ac ar hyn o bryd mae'n edrych ar botensial defnyddio meddalwedd cyfieithu gyda chymorth peiriant ochr yn ochr â hyn. Bydd hyn yn gwella'r effeithlonrwydd ac yn ei gwneud hi'n haws rhannu banciau terminoleg â sefydliadau partner gyda'r bwriad o safoni terminoleg a gwella ansawdd darpariaeth Gymraeg.

Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd i drafod terminoleg ac mae'r Tîm bellach yn gweithio i ddatblygu rhestrau cynhwysfawr o derminoleg, er mwyn sicrhau bod y termau sy'n cael eu defnyddio yn briodol i'r gynulleidfa darged ac yn cyd-fynd â'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio gan eraill yn y maes gofal iechyd.

Cyfanswm nifer y geiriau a dderbyniwyd i'w cyfieithu yn ystod 2022-2023 oedd 2,912,344. Mae hyn yn dangos ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

## Gweithio mewn Partneriaeth

**Fforwm *Mwy na Geiriau* Gogledd Cymru**

Mae BIPBC yn parhau i arwain y ffordd o ran cynnal cydymffurfiaeth eang â'r nodau a'r egwyddorion a argymhellir yn *Mwy na geiriau*. Mae llawer o waith y Bwrdd Iechyd yn y cyswllt hwn naill ai'n cael ei lywio, ei arwain neu ei gefnogi gan Fforwm *Mwy na Geiriau* Gogledd Cymru, sy'n cyfarfod bob chwarter i hwyluso gweithrediad rhanbarthol parhaus cynllun Pum Mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Tîm Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu'r grŵp aml-asiantaeth hwn, a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Mai 2016. Ochr yn ochr â Swyddogion Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd, mae Fforwm *Mwy na Geiriau* Gogledd Cymru hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau perthnasol eraill, gan gynnwys y chwe awdurdod lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor.

Mae'r fforwm rhanbarthol yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig y Bwrdd Iechyd (Gorllewin) a ysgwyddodd y rôl arwain yn 2022. Mae'r penodiad hwn wedi helpu i sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd rôl arwain o hyd, a llais cryf a dylanwadol ar y fforwm hwn.

Mae gweithgor llai o aelodau'r fforwm wedi cael ei gynnull yn ddiweddar, er mwyn canolbwyntio ar gynnwys Cynllun Pum Mlynedd *Mwy na geiriau* ar gyfer 2022-27.

Bydd yr is-bwyllgor hwn, sy'n cynnwys aelod o Dîm y Gymraeg, yn trafod blaenoriaethau ac yn datblygu syniadau i hyrwyddo gwireddu amcanion penodol ledled gogledd Cymru.

Mae'n dal yn gam pwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth ac enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cyfrwng Cymraeg. Mae ei

waith yn parhau i ddangos manteision dilyn dull cydweithredol, er mwyn sicrhau bod amcanion cyffredin yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus ar draws y rhanbarth.

**Fforwm Iaith Ynys Môn**
Mae Tîm Iaith Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyfrannu at waith Fforwm Iaith Ynys Môn. Wedi'i drefnu gan Fenter Iaith Môn, mae Fforwm Iaith Ynys Môn yn dod â nifer o gyrff perthnasol at ei gilydd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar yr ynys.

Mae'r grŵp yn cynnwys cynghorwyr a swyddogion o amrywiol adrannau Cyngor Sir Ynys Môn, ynghyd â chynrychiolwyr o sefydliadau fel Menter Môn, Menter Iaith Môn, Clybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Môn, Urdd Gobaith Cymru, Môn FM, Môn CF, Medrwn Môn, Mudiad Meithrin / Cymraeg i Blant a Merched y Wawr. Mae cyflogwyr lleol amlwg fel Heddlu Gogledd Cymru a Phrifysgol Bangor hefyd yn cael eu cynrychioli ar y Fforwm.

Yn rhinwedd ei swydd fel aelod dylanwadol o'r Fforwm, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno nifer o dargedau penodol, mesuradwy i'w cynnwys yn rhaglen waith flynyddol Fforwm Iaith Ynys Môn.

Ynghyd â chymryd rhan mewn trafodaethau cyffredinol sy'n ymwneud â materion iaith Gymraeg statudol a chymunedol, mae cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyfrannu'n ddiweddar at gyflawni nifer o brosiectau cydweithredol yn llwyddiannus, dan arweiniad y Fforwm Iaith.

Cafodd ap dwyieithog ei greu ar gyfer darpar rieni a rhieni sydd â babanod newydd-anedig a phlant ifanc, o'r enw *OgiOgi*. Cyfrannodd aelodau'r Tîm Iaith Gymraeg a chynrychiolwyr o dimau bydwragedd ac ymwelwyr iechyd Ardal y Gorllewin at ddatblygu'r ap. Mae'n darparu llwyfan sy'n cynnig cyfoeth o wybodaeth, gyda thros 400 o ddolenni defnyddiol at adnoddau lleol a chenedlaethol, sy'n cwmpasu popeth o wybodaeth gyffredinol am feichiogrwydd a gwasanaethau gofal iechyd a lles cysylltiedig, i galendr digwyddiadau lleol. Mae'r adnodd hefyd yn cynnwys adran ar ddatblygiad plant a chanllawiau ar fanteision dwyieithrwydd a defnyddio'r Gymraeg o'r crud, ynghyd â digonedd o weithgareddau hwyliog a rhestrau chwarae i blant ifanc a rhieni eu mwynhau gyda'i gilydd.

Cafodd yr ap ei lansio yng ngwanwyn 2022 ac roedd y data cychwynnol yn dangos ei fod eisoes wedi cael ei lwytho i lawr gannoedd o weithiau yn ystod yr wythnosau cyntaf ar ôl ei ryddhau. Er bod yr ap wedi cael ei ddatblygu'n wreiddiol gydag anghenion teuluoedd Ynys Môn mewn golwg, mae ei lwyddiant cychwynnol wedi arwain at ddiddordeb mewn rhannau eraill o Gymru ac mae'r potensial i ehangu'r cysyniad a'i ddatblygu'n adnodd 'Cymru gyfan' wedi cael ei drafod eisoes gyda Llywodraeth Cymru.

Mae targedau wedi cael eu sefydlu ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf, ac mae un ohonynt yn cynnwys cydweithio ar draws y sector gofal sylfaenol ar Ynys Môn.

# Gweithio gydag Ysgolion a Cholegau

Mae buddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol yn hanfodol os ydym am feithrin talent dwyieithog lleol, gan gynyddu ein capasiti fel sefydliad i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ar yr un pryd. Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Tîm Iaith Gymraeg wedi bod yn rhagweithiol yn y maes hwn, ac mae'r weledigaeth hon bellach wedi cael ei rhannu o fewn amcanion cynllun Pum Mlynedd *Mwy na geiriau*.

*Gyrfa Cymru*

Gan adeiladu ar bartneriaeth adeiladol sydd bellach wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd, parhaodd Tîm y Gymraeg i gydweithio â Gyrfa Cymru yn ystod 2022-23, er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd darpariaeth gwasanaeth gofal iechyd cyfrwng Cymraeg, a manteision cyffredinol dwyieithrwydd i bobl ifanc, wrth iddynt baratoi i adael addysg a symud i'r gweithle.

Cyfrannodd aelodau Tîm y Gymraeg unwaith eto at ddigwyddiadau a drefnwyd gan Gyrfa Cymru yn Ysgol Aberconwy yng Nghonwy (ym mis Gorffennaf 2022) ac Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam (ym mis Ionawr 2023).

Trefnwyd y ddau ddigwyddiad hyn yn benodol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 ac roedd cynrychiolwyr o nifer o gyflogwyr blaenllaw eraill yng Ngogledd Cymru hefyd yn bresennol, i drafod y defnydd o'r Gymraeg o fewn eu sectorau penodol.

Ar ôl i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau ymgysylltu Gyrfa Cymru gael eu cynnal ar-lein yn ystod y ddwy flynedd flaenorol – oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID-19 – roedd hi'n braf croesawu digwyddiadau wyneb yn wyneb mewn ysgolion yn ôl yn 2022-23.

Roedd hyn yn galluogi Swyddogion Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd i ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â disgyblion a sicrhau bod y digwyddiadau'n cael mwy o effaith.

Ochr yn ochr â'r digwyddiadau hyn, cyfrannodd Tîm y Gymraeg hefyd at ddigwyddiad gyrfaoedd mewnol yn Ysgol Uwchradd Dinbych, ddechrau mis Chwefror 2023.

Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle arall i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd – a'r cyfleoedd cyflogaeth cysylltiedig sy'n bodoli yn y Bwrdd Iechyd – i ddisgyblion Blwyddyn 9.

Yn dilyn llwyddiant y digwyddiadau hyn, bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei 'Daith Ysgolion Uwchradd' ei hun fel rhan o Wythnos y Gymraeg 2023. Mae trefniadau ar waith i weithio'n uniongyrchol gyda nifer o ysgolion uwchradd ar draws gogledd Cymru ac unwaith eto byddant yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd fel sgìl cyflogadwyedd hanfodol i bobl ifanc a allai fod yn ystyried gyrfaoedd yn y sector iechyd ar draws y rhanbarth.

Prifysgol Bangor

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi parhau i weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor. Am yr ail flwyddyn yn olynol, cyfrannodd aelod o'r tîm unwaith eto at ddysgu modiwl 'O'r Senedd i'r Swyddfa'. Rhoddwyd cyflwyniad am y ddarpariaeth gwasanaeth gofal

iechyd ddwyieithog, a sut mae'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo o fewn y Bwrdd Iechyd, i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn y brifysgol.

Dilynwyd y cyflwyniad gan sesiwn holi ac ateb a grwpiau trafod, am bwysigrwydd gwasanaethau dwyieithog a sut mae gofynion statudol perthnasol fel Safonau'r Gymraeg yn cael eu rhoi ar waith yn y gweithle.

Y tu hwnt i hyn, parhaodd y Bwrdd Iechyd i weithio'n agos gydag Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd y Brifysgol. Ym mis Medi, darparodd Tîm y Gymraeg sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel rhan o'r digwyddiad ymsefydlu a drefnwyd ar gyfer carfan ddiweddaraf yr ysgol o fyfyrwyr nyrsio. Yn dilyn ei llwyddiant, cafodd cyflwyniad tebyg ar gyfer grŵp llai o fyfyrwyr nyrsio ei ddarparu hefyd ym mis Chwefror 2023.

## Datblygiadau Gwasanaeth a Gweithgareddau Hyrwyddo


**Pecyn Hyfforddi Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg Ar-lein Cymru Gyfan**
Yn unol â Safonau'r Gymraeg 102 a 103, mae gan bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i'w staff. Yn dilyn trafodaethau gydag aelodau eraill Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg y GIG sy'n cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru, cytunodd Tîm y Gymraeg i ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb am gydlynu'r gwaith o ddatblygu modiwl hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein, er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r gofyniad statudol hwn.

Ar ôl creu'r cynnwys ar gyfer y cwrs arfaethedig, bu Tîm y Gymraeg wedyn yn gweithio ochr yn ochr â *SkillSet Ltd*, cwmni datrysiadau dysgu wedi'u teilwra, i droi'r drafft cychwynnol yn becyn hyfforddi cwbl weithredol a rhyngweithiol. Cytunwyd ar ddrafft terfynol o'r modiwl cwbl ryngweithiol ddechrau 2022 a bu *SkillSet* wedyn yn gweithio'n uniongyrchol gyda Rheolwr Rhaglen Dysgu Digidol GIG Cymru i sicrhau y gellid llwytho'r modiwl newydd i fyny ar lwyfan ESR.

Lansiwyd y cwrs newydd yn swyddogol drwy gyhoeddi *Cylchlythyr Iechyd Cymru* ym mis Tachwedd 2022, ac mae bellach wedi cael ei ddynodi'n hyfforddiant gorfodol ar gyfer holl staff GIG Cymru.

Mae'r modiwl wedi'i rannu'n nifer o adrannau thematig, gyda phob uned yn canolbwyntio ar agwedd benodol ar ddarparu gwasanaeth gofal iechyd dwyieithog. Ochr yn ochr ag adrannau sy'n canolbwyntio'n benodol ar *Mwy na geiriau* a gofynion statudol Safonau'r Gymraeg, mae'r cwrs hefyd yn cynnwys uned gynhwysfawr a rhyngweithiol 'Profiad Cleifion'. Mae'r is-adran hon yn cynnwys dwy stori wedi'u hanimeiddio, sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau go iawn ac sy'n pwysleisio pwysigrwydd dewis iaith mewn perthynas ag asesu, diagnosis a chydsyniad.






Daw'r cwrs i ben gydag adrannau gwybodaeth-yn-unig ar 'Gymorth i Staff' a 'Chwalu Mythau', sy'n ceisio rhoi gwybodaeth a hyder ychwanegol i weithwyr GIG Cymru a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, hyd yn oed os nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr rhugl.

Mae staff ar draws y sector iechyd yng Nghymru wedi cofleidio'r modiwl, ac mae lefel gydymffurfio'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn 67.22 y cant, gyda tharged o 90 y cant erbyn diwedd y flwyddyn adrodd nesaf.

**Wythnos y Gymraeg**

Cynhaliwyd pumed Wythnos Gymraeg flynyddol y Bwrdd Iechyd rhwng 17 a 21 Hydref 2022.

Prif bwrpas yr wythnos oedd codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darpariaeth gofal iechyd ddwyieithog a dathlu'r gwaith gwych sy'n parhau i gael ei wneud gan ein staff, er mwyn sicrhau y gellir darparu ystod eang o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er bod y ddwy Wythnos Gymraeg flaenorol wedi cynnwys digwyddiadau ar-lein yn bennaf oherwydd y cyfyngiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19, roedd y dathliad eleni yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar safle, a oedd yn galluogi Tîm y Gymraeg unwaith eto i ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â staff ac aelodau o'r cyhoedd.

Ar ôl iddynt ymweld ag Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam ar ddechrau'r wythnos, cynhaliodd Tîm yr Iaith Gymraeg stondinau yn Ysbyty Cyffredinol Penrhos Stanley, Ysbyty Cyffredinol Llandudno ac Ysbyty Cymuned y Waun, fel y gallai aelodau o'r gweithlu dderbyn adnoddau, cyngor ac arweiniad ar bynciau amrywiol yn ymwneud â darparu gwasanaeth dwyieithog.

Oherwydd gwaith ar y cyd â Menter Iaith y Fflint a Wrecsam, cynhaliwyd digwyddiad hefyd yn yr Uned Blant yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Ymwelodd Magi Ann, cymeriad plant Cymraeg, â'r cleifion ifanc ar y ward, a chafodd hynny groeso gan y staff a'r cleifion.

Cafodd y fideo newydd ar brofiad cleifion, fel y cyfeiriwyd ato eisoes yn yr adroddiad hwn ac a ffilmiwyd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwasanaethau gofal iechyd dwyieithog i blant a'u rhieni, ei lansio hefyd yn ystod yr wythnos. Roedd persbectif y fam ar y gofal yr oedd ei merch wedi'i gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn crisialu'r hyn

sydd wrth wraidd y gwaith sy'n cael ei wneud yn y bwrdd iechyd i sicrhau yr ymdrinnir â darparu gwasanaethau drwy “Gynnig Rhagweithiol”.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r data isod yn unol â Safon 120 Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Cynllunio'r Gweithlu

- ***Nifer a chanran gweithwyr y sefydliad:***
  - ***y mae eu sgiliau Cymraeg wedi cael eu hasesu;***

| Nifer y Gweithwyr | **2020/21** | | **2021/22** | | **2022/23** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel Medrusrwydd Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 - Dim Sgiliau | 8158 | 41.6% | 8324 | 41.7% | 9101 | 46.9% |
| 1 - Mynediad | 2601 | 13.3% | 2652 | 13.3% | 2914 | 15% |
| 2 - Sylfaen | 1280 | 6.5% | 1298 | 6.5% | 1410 | 7.3% |
| 3 - Canolradd | 1307 | 7% | 1307 | 6.6% | 1456 | 7.5% |
| 4 - Uwch | 1568 | 8% | 1596 | 8% | 1700 | 8.7% |
| 5 - Hyfedredd | 2467 | 12.6% | 2573 | 12.0% | 2829 | 14.6% |
| Cyfanswm | 17,381 | 89% | 17,750 | 89% | 19,410 | 91% |
| Cyfanswm y staff | 19,610 | | 19,955 | | 21,326 | |

**Data 2022 / 2023:**

**Roedd 91 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR**

**Data 2021 / 2022:**

**Roedd 89 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR**

## Hyfforddiant i wella sgiliau Cymraeg

- ***Nifer a chanran gweithlu'r sefydliad a dderbyniodd hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i lefel cymhwyster penodol***

**Data 2022 / 2023:**

**Nifer gweithlu'r sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i gymhwyster penodol: 1201 ***

**Mae'r cyfanswm hwn yn cyfateb i 5.6 y cant o weithlu presennol y Bwrdd Iechyd**

***Noder bod y ffigur hwn yn ychwanegol at nifer y staff a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf, fel y nodir isod***

**Data 2021 / 2022:**

**Nifer gweithlu'r sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg i gymhwyster penodol: 1,583**

**Mae'r cyfanswm hwn yn cyfateb i 7.9 y cant o weithlu presennol y Bwrdd Iechyd**

## Recriwtio

- ***Nifer a chanran y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r gofyniad:***

**Data 2022 / 2023:**
- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 474 (5.4 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 8177 (93.4 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg i'w dysgu – 80 (0.9 y cant)**
- **Y Gymraeg ddim yn ofynnol - 16 (0.18 y cant)**
- **Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd - 8747**

**Data 2021 / 2022:**
- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 403 (6.4 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 5828 (92.8 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg i'w dysgu – 33 (0.5 y cant)**
- **Y Gymraeg ddim yn ofynnol - 14 (0.2 y cant)**
- **Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd - 6278**

## Cwynion

- ***Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg***

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd ddwy gŵyn newydd yn ystod y flwyddyn adrodd mewn perthynas â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Cafodd y ddwy gŵyn newydd eu huwchgyfeirio i statws ymchwilio, ac maent wrthi'n cael eu datrys ar hyn o bryd. Ar ben hynny, roedd pum ymchwiliad yn dal i fynd rhagddynt o'r flwyddyn adrodd flaenorol. Mae'r ymchwiliadau yn gyffredinol yn ymwneud â diffyg gwasanaeth dwyieithog wrth ymateb i alwadau ffôn a gohebiaeth, hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a gwybodaeth a ddarperir ar ein gwefan yn ymwneud â gwasanaethau Cymraeg a gynigir gan ddarparwyr Gofal Sylfaenol.

Datblygwyd cynllun gweithredu cynhwysfawr i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth ffôn dwyieithog, sy'n gofyn am edrych ar gynefino lleol ar gyfer staff newydd, yn ogystal â darparu arweiniad i staff presennol a datblygu cwrs hyfforddiant iaith Gymraeg i wella sgiliau a gallu staff i ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg.

Rhoddwyd sylw llawn i bob cwyn ac ymchwiliad yn unol â'r Rheoliadau Gweithio i Wella.

## Myfyrio a Gweledigaeth i'r Dyfodol

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos bod cynnydd wedi'i roi ar waith o ran:

- gwella ansawdd y gofal a ddarparwn drwy gyfrwng y ddewis iaith
- cynyddu cydymffurfiad â gofynion cyfreithiol a statudol
- nodi mentrau sydd wedi cael eu gweithredu a'u cyflwyno i ymateb i anghenion iaith fel elfen annatod o ofal
- gwella datblygiad sefydliadol o ran sut rydym yn gallu cefnogi'r gweithlu i allu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg

Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn gyffrous am y mentrau a'r cyfleoedd sy'n cael eu datblygu ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf. Mae rhagor o raglenni ar safleoedd wedi'u cynnwys yn ein cynllun gwaith blynyddol, yn ogystal ag ymestyn ein cymorth i gydweithwyr gofal sylfaenol. Bydd gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda'n Fframwaith Sgiliau Iaith i dargedu'r gweithlu presennol a'r gweithlu sydd newydd ei benodi, yn ogystal ag ymgysylltu ymhellach â'r sector addysg uwchradd ac uwch i fynd i'r afael â sgiliau iaith gweithlu'r dyfodol.

Bydd cynllun *Mwy na Geiriau* diwygiedig yn cael ei ddatblygu ac rydym eisoes wedi ymgysylltu ag unigolion a rhanddeiliaid allweddol yn ystod y cam datblygu i lywio'r cynllun terfynol. Rhagwelir y bydd mentrau a chamau gweithredu sydd eisoes ar waith yn y Bwrdd Iechyd yn cael eu cynnwys yn y cynllun. Fodd bynnag, ein nod yw adeiladu ar y rhain yn ystod y flwyddyn nesaf, gyda chefnogaeth datblygiadau polisi fel rhan o Safonau'r Gymraeg.

# Cyflawi camau gweithredu Cynllun Mwy na geiriau 2022-27: Ar gyfer y cyfnod Awst 2022-Ebrill 2023

| **Sefydliad y GIG** | **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** |
|---|---|

| **Cwblhawyd gan:** | **Dr Meilyr Emrys** | **Dyddiad: 29 Awst 2023** |
|---|---|---|

| **Cyf** | **Disgrifiad o'r Cam Gweithredu** | **Materion i'w hystyried pan yn darparu'r diweddariad** | **Diweddariad** | **Heriau / rhwystrau o ran cyflawni'r camau gweithredu**<br><br>Nodwch unrhyw rwystrau i weithredu'r camau ac amlinellwch sut y byddwch yn myd i'r afael â nhw. |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Byddwn yn gosod amcanion perfformiad personol i sicrhau bod cynllun *Mwy na geiriau* yn cael ei roi ar waith fel bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ymwreiddio yn amcanion blynyddol arweinwyr y sector, ei raeadru drwy sefydliadau, a'i ystyried mewn arfarniadau | Dyma'r amcanion perfformiad personol a bennwyd ar gyfer cadeiryddion y byrddau:<br>➢ Dangos sut y maent wedi darparu arweinyddiaeth ar y Bwrdd i ddatblygu a rhaeadru diwylliant sefydliadol o berthyn sy'n cefnogi dwyieithrwydd a phrif-ffrydio'r Gymraeg i mewn i gynlluniau a chyflenwi gwasanaethau. Bydd y Bwrdd wedi sicrhau ei | Mae gweithredu Mwy na geiriau yn ffrwd waith unigol yng Nghynllun Gweithredu Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg y Bwrdd Iechyd. Mae camau gweithredu penodol wedi'u halinio â'r amcanion yng nghynllun pum mlynedd Mwy na geiriau. Gellir darparu copi.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu camau penodol i gynyddu ei ddata ynghylch iaith y | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | unigol perthnasol ar bob lefel. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Fframwaith Adroddiad Blynyddol y Cynghorau) a Chadeiryddion byrddau’r GIG | hun ynghylch cynnydd ar y camau gweithredu tymor-byr a bennwyd yn Mwy na geiriau ar gyfer cyrff iechyd. Hyn i gynnwys:<br>- Data gwell ar sgiliau iaith y gweithlu (dros 90% o staff wedi cofnodi eu sgiliau) er mwyn cefnogi cynllunio gwasanaethau i alluogi’r cynnig rhagweithiol.<br>- Dros 90% o staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith<br>- Pencampwyr Bwrdd wedi’u penodi ac arfer da wedi’i arddangos a gwelliannau yn cael eu gwneud i systemau. | gweithlu, ac ar ddiwedd y flwyddyn yr adroddir yn ei chylch, roedd y ffigur yn 91%. Erbyn adeg cyflwyno'r adroddiad, mae'r data wedi cynyddu i 92.4%.<br><br>Ers ei gyflwyno, mae’r Bwrdd Iechyd wedi codi ymwybyddiaeth o'r modiwl gorfodol ynghylch ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.<br><br>Ar ddiwedd y flwyddyn yr adroddir yn ei chylch, roedd y ffigur yn 40%. Erbyn adeg cyflwyno'r adroddiad, mae'r data wedi cynyddu i 70%.<br><br>Oherwydd sefyllfa bresennol y Bwrdd Iechyd ynghylch penodiadau ar lefel y Bwrdd, mae trafodaethau yn dal i fynd rhagddynt, a byddant yn flaenoriaethau yn ystod y flwyddyn nesaf yr adroddir yn ei chylch. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 16. | Bydd sefydliadau yn **diffinio** lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ym mhob hysbyseb swydd, yn unol â'r arferion gorau a welir mewn rhai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. | Bydd y cam gweithredu hwn yn elwa gan ganllawiau fydd yn cael eu datblygu yn genedlaethol. Yn y cyfamser rhowch enghreifftiau o arfer da ynghylch y cam gweithredu hwn yn eich sefydliad. | <u>Polisi Sgiliau Dwyieithog BIPBC</u><br><br>Prif nod Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog (BSPP) BIPBC yw sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd nifer ddigonol o staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ddwyieithog (h.y. yn unol ag anghenion ieithyddol y gymuned leol).<br><br>Mae'r ddogfen yn cynnwys cyngor, camau ymarferol a chanllawiau ar gyfer rheolwyr, er mwyn hwyluso datblygiad gweithlu dwyieithog.<br><br>Mae hyn yn cynnwys canllawiau sy'n cyfeirio'n benodol at hysbysebu swyddi ac agweddau eraill ar y broses recriwtio.<br><br>Eglurir hefyd y broses o werthuso a diffinio'r lefel o sgiliau yn y Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer swyddi yn y Bwrdd Iechyd yn y BSPP ac mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys 'Siart Llif Gofynion o ran Sgiliau yn y Gymraeg' y gall rheolwyr ei defnyddio i benderfynu a ddylid nodi ai peidio mewn | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | hysbysiad swydd bod y Gymraeg yn hanfodol yn achos y rôl.<br><br>Mewn perthynas â hyn, mae'r BSPP hefyd yn cynnwys rhestr o rolau sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd yn y Bwrdd Iechyd y dylid ystyried bob amser bod y Gymraeg yn hanfodol i allu eu cyflawni.<br><br>Mae hyn yn golygu bod lefelau'r sgiliau yn y Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw swyddi switsfwrdd, trefnu apwyntiadau cleifion/canolfannau galwadau, derbynyddion a chlercod wardiau bellach wedi'u diffinio'n eglur ac yn ddiamwys. Bellach, mae sgiliau yn y Gymraeg yn achos y rolau hyn, neu bydd yn rhaid i'r sawl sy'n cael eu penodi i'r rolau hyn ddysgu neu wella eu sgiliau yn y Gymraeg hyd at lefel benodol. | |
| 17. | Cyflwyno’n raddol lefel “cwrteisi” sylfaenol o sgiliau Cymraeg, gan wneud staff yn fwy ymwybodol o’r effaith gadarnhaol y gall dysgu a defnyddio’r Gymraeg | Bydd angen i ganllawiau gael eu datblygu ar gyfer hyn yn genedlaethol. Yn y cyfamser rhowch wybodaeth ynghylch unrhyw ddatblygiadau yn eich sefydliad gan gynnwys enghreiffftiau o arfer da. | <u>Gwybodaeth gyffredinol</u><br><br>Profodd Tîm Hyfforddiant y Gymraeg BIPBC flwyddyn lwyddiannus arall yn creu a chyflwyno amrywiaeth o gyrsiau | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ei chael ar unigolion sy’n defnyddio ac yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Erbyn diwedd oes y cynllun hwn, dylai **pob aelod o staff** sy’n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fod â lefel cwrteisi o sgiliau Cymraeg | | Cymraeg i ddiwallu anghenion ein staff.<br><br>Yn sgil penodi Tiwtor newydd i addysgu'r Gymraeg ym Medi 2023, rydym yn gobeithio ychwanegu at ein llwyddiannau a chynyddu'r nifer sy'n dysgu'r Gymraeg yn BIPBC.<br><br>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yr adroddir yn ei chylch, mae Tiwtor Cymraeg BIPBC wedi cynnig amrywiaeth o gyrsiau ar lefelau gwahanol i staff BIPBC.<br><br>Mae'r Tiwtor yn parhau i weithio'n strategol, gan ddarparu cyrsiau blasu mewnol sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer meysydd amrywiol yn y sector iechyd (e.e. cyrsiau ar gyfer staff derbynfeydd a rhai sy'n ymdrin yn uniongyrchol â'r cyhoedd; ateb y ffôn ac ymdrin ag ymholiadau dros y ffôn; cadeirio cyfarfod yn ddwyieithog ac ati).<br><br>Cwrs Cymraeg at ddibenion Cwrteisi (yn benodol ar gyfer staff derbynfeydd) | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae Tîm Hyfforddiant y Gymraeg wedi creu cwrs Cymraeg at ddibenion cwrteisi, yn benodol ar gyfer staff derbynfeydd.<br><br>Mae'r cwrs hwn yn sicrhau bod gan staff ddigon o hyder i ateb y ffôn yn ddwyieithog a defnyddio ymadroddion elfennol yn y Gymraeg wrth ymdrin wyneb yn wyneb â chleifion/defnyddwyr gwasanaethau.<br><br>Yn y cwrs, cyflwynir geirfa ac ymadroddion wedi'u teilwra'n benodol (yn dibynnu ar lefel bresennol sgiliau unigolion yn y Gymraeg a'i anghenion ieithyddol mewn perthynas â'u gwaith beunyddiol).<br><br>Bydd Tiwtor y Gymraeg BIPBC yn rhoi dalen wybodaeth wedi'i theilwra i'r dysgwr, a bydd yr ymadroddion y bydd y dysgwr newydd eu dysgu i'w gweld yn ddwyieithog arni.<br><br>Dylai dysgwyr argraffu'r ddalen hon a'i chadw yn y dderbynfa i'w hatgoffa i ddefnyddio eu sgiliau newydd yn y Gymraeg. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Os bydd dysgwyr yn dymuno, gellir anfon nodyn llais yn cynnwys ymadroddion y ddalen wybodaeth atynt. Bydd hyn yn eu helpu i berffeithio eu gallu i ynganu.<br><br>Ar ddiwedd y sesiwn, bydd y Tiwtor yn rhannu manylion rhagor o gyfleoedd i'r dysgwr barhau i ddysgu Cymraeg.<br><br>Rydym yn gobeithio y bydd dysgwyr yn dymuno parhau i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg ar ôl mynychu'r cwrs cyntaf i ddysgu Cymraeg at ddibenion cwrteisi.<br><br>Anfonir tystysgrif cyfranogiad trwy e-bost at ddysgwyr wedi'r sesiwn.<br><br>Gallant ddangos y dystysgrif hon i'w rheolwr llinell a gellir ei chynnwys yn eu ffeil PADR (Adolygiad Datblygu Perfformiad a Gwerthuso).<br><br><br>Contract ‘Cymraeg Gwaith’<br><br>Fe wnaeth Tîm Hyfforddiant y | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Gymraeg BIPBC adnewyddu contract deuddeg mis â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mewn perthynas â chynllun 'Cymraeg Gwaith' sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Fe wnaeth hyn sicrhau y byddai'r cyfleoedd a'r cydweithredu yn parhau, ac y byddir yn parhau i gyflogi ein Swyddog Cefnogi Hyfforddiant y Gymraeg.<br><br>Mae'r Swyddog Cefnogi yn dal i gynnig gwersi, tiwtorialau, sesiynau sgwrsio a ffynhonnell barhaol o gymorth i'n dysgwyr yn y Bwrdd Iechyd.<br><br>Mae 885 aelod o'r staff wedi cyfranogi yn ein cyrsiau 'Cymraeg Gwaith' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn gynnydd o 27.16% o gymharu â nifer y llynedd. | |
| 29. | Byddwn yn casglu ac yn rhannu enghreifftiau o arferion da arloesol sy’n bosibl ar draws y sector gan ddefnyddio safleoedd porth a | Rhowch enghreifftiau o arfer da sy’n cael ei rannu o fewn eich sefydliad a thu hwnt.<br><br>I ba raddau yr ydych wedi ymgysylltu gyda’r Hybiau | Mae Tîm y Gymraeg BIPBC wedi datblygu nifer o flaengareddau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | hybiau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys yr Hybiau Ymchwilio ac Arloesi. | Ymchwil ac Arloesi i wella gwasanaethau Cymraeg? | Isod, ceir rhagor o fanylion am rai o'n blaengareddau amlycaf a mwyaf llwyddiannus:<br><br>Ymgyrch '*Defnyddiwch eich Cymraeg*<br><br>Lansiwyd ymgyrch 'Defnyddiwch eich Cymraeg' y Bwrdd Iechyd yn wreiddiol yn Chwefror 2018, a'i ffocws pennaf yw annog staff i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw sgiliau sydd ganddynt yn y Gymraeg yn y gweithle, er budd cleifion a defnyddwyr gwasanaethau.<br><br>Mae'r ymgyrch yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd gwasanaethau iechyd cyfrwng Cymraeg, trwy esbonio y bydd cleifion bob amser yn teimlo'n fwy cyfforddus ac yn fwy hyderus pan fyddant yn sgwrsio yn eu hiaith gyntaf/mamiaith.<br><br>Yn gysylltiedig â hyn, mae neges allweddol yr ymgyrch yn nodi na ddylai staff y Bwrdd Iechyd fyth deimlo nad yw eu Cymraeg yn ddigon da. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | I'r gwrthwyneb, dylent ymdrechu i ganfod yr hyder i 'wneud beth allant ei wneud', trwy elwa'n llawn ar unrhyw sgiliau sydd ganddynt yn y Gymraeg wrth sgwrsio â chleifion, cydweithwyr a'r cyhoedd.<br><br>Mae ymgyrch 'Defnyddiwch eich Cymraeg' hefyd yn pwysleisio y bydd cleifion sy'n siarad Cymraeg bron iawn bob amser yn gwerthfawrogi unrhyw ymdrechion a wneir i sgwrsio â hwy trwy gyfrwng eu mamiaith (yn enwedig yn achos ymdrechion i wneud hynny gan ddysgwyr y Gymraeg neu unigolion sydd ddim yn hollol rugl/hyderus o ran eu galluoedd yn yr iaith).<br><br>Yn dilyn y lansio gwreiddiol, mae 'defnyddiwch eich Cymraeg' wedi dod yn ymgyrch barhaol/reolaidd yn BIPBC, a chynhelir digwyddiadau o bryd i'w gilydd (bob yn ail flwyddyn gan amlaf) er mwyn adfywio'r ymgyrch ac atgoffa staff am ei negeseuon allweddol.<br><br>Mae rhagor o fanylion am y blaengaredd hwn ar gael yn y | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ddogfen PDF (cyfrwng Cymraeg) sydd wedi'i hatodi isod.<br><br>Cwblhawyd yr 'Holiadur Arferion Effeithiol' gan Dîm y Gymraeg BIPBC y llynedd, fel rhan o ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg i gofnodi enghreifftiau o arferion da/gorau mewn perthynas â hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyrff cyhoeddus:<br><br>Holiadur Arfer Effeithiol - Defnyddi<br><br><u>Wythnos y Gymraeg BIPBC</u><br><br>Ers 2018, mae Tîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd wedi trefnu digwyddiad Wythnos y Gymraeg BIPBC yn flynyddol, er mwyn dathlu'r Gymraeg a hybu ei defnydd yn y sector gofal iechyd.<br><br>Yn ystod pob Wythnos y Gymraeg yn BIPBC, cynhelir amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau. Yn ogystal ag ystod o ddigwyddiadau mewnol ar gyfer staff a chleifion, trefnir | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | gweithgareddau allanol, yn cynnwys seminarau ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd a myfyrwyr addysg uwch sy'n codi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd darpariaeth gofal iechyd cyfrwng Cymraeg ac yn hyrwyddo buddion mwy cyffredinol meddu ar sgiliau dwyieithog.<br><br>Fel arfer, cynhelir Wythnos y Gymraeg BIPBC yng nghanol mis Hydref i gyd-daro â Diwrnod Shwmae Sumae (sy'n cael ei ddathlu bob tro ar 15fed Hydref).<br><br>Mae rhagor o fanylion am y blaengaredd hwn ar gael yn y ddogfen PDF (cyfrwng Cymraeg) sydd wedi'i hatodi isod.<br><br>Cwblhawyd yr 'Holiadur Arferion Effeithiol' gan Dîm y Gymraeg BIPBC y llynedd, fel rhan o ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg i gofnodi enghreifftiau o arferion da/gorau mewn perthynas â hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyrff cyhoeddus: | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Holiadur arfer effeithiol - Wythnos<br><br><u>Rhaglen Hyfforddiant y Gymraeg ar gyfer Staff BIPBC</u><br><br>Mae BIPBC yn cyflogi tiwtor mewnol sy'n darparu ystod y cyrsiau hyfforddi a gwersi ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd, i'w helpu i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu eu sgiliau presennol yn yr iaith.<br><br>Yn flaenorol, yr oedd BIPBC wedi darparu nawdd i alluogi aelodau o'r staff i fynychu cyrsiau hyfforddiant allanol i ddysgu Cymraeg (a oedd yn cael eu trefnu gan sefydliadau eraill ac yn cael eu cynnal fel arall y tu allan i oriau gwaith), ond yn 2017, penderfynodd y Bwrdd Iechyd arloesi trwy recriwtio tiwtor amser llawn i weithio'n uniongyrchol gyda'i weithlu.<br><br>BIPBC oedd y sefydliad cyntaf yn y sector iechyd yng Nghymru i gymryd cam o'r fath. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ar yr un pryd, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu perthynas hirdymor lwyddiannus â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.<br><br>Oherwydd hyn - ynghyd â'r ystod o gyrsiau sydd bellach yn cael eu rhedeg yn uniongyrchol gan Diwtor y Gymraeg BIPBC - mae holl staff y Bwrdd Iechyd hefyd yn cael mynediad am ddim at y cyrsiau 'Cymraeg Gwaith' ar-lein a noddir gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r bartneriaeth hon hefyd wedi galluogi'r Bwrdd Iechyd i gefnogi Swyddog Cefnogi Hyfforddiant y Gymraeg, sy'n cynorthwyo â gwaith Tiwtor Cymraeg mewnol y sefydliad trwy fentora'r nifer fawr o aelodau staff BIPBC sy'n penderfynu cychwyn eu taith i ddysgu'r iaith trwy gyfranogi yn y cyrsiau 'Cymraeg Gwaith' ar-lein.<br><br>Yn ychwanegol, bydd y Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos â Chanolfan Genedlaethol y Gymraeg a Diwylliant Cymru yn Nant Gwrtheyrn, ac yn sgil hynny, mae sawl aelod o weithlu BIPBC wedi mynychu cyrsiau hyfforddi | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | preswyl ym Mhen Llŷn yn ystod blynyddoedd diweddar.<br><br>Yn sgil llwyddiant (hirdymor erbyn hyn) y Rhaglen Hyfforddiant Dysgu Cymraeg ar gyfer Staff BIPBC, penderfynwyd yn ddiweddar y dylid penodi ail diwtor mewnol.<br><br>Bydd hi'n ymuno ag Uned Hyfforddiant Dysgu Cymraeg y Bwrdd Iechyd y mis Medi hwn.<br><br>Mae rhagor o fanylion am y blaengaredd hwn ar gael yn y ddogfen PDF (cyfrwng Cymraeg) sydd wedi'i hatodi isod.<br><br>Cwblhawyd yr 'Holiadur Arferion Effeithiol' gan Dîm y Gymraeg BIPBC y llynedd, fel rhan o ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg i gofnodi enghreifftiau o arferion da/gorau mewn perthynas â hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyrff cyhoeddus:<br><br>Holiadur arfer effeithiol Rhaglen H | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | <u>Cynllun Dewis Iaith BIPBC</u><br><br>Mae Cynllun Dewis Iaith arobryn y Bwrdd Iechyd yn defnyddio magnetau oren â 'Cymraeg' arnynt i nodi pa gleifion (a staff) sy'n siarad Cymraeg - a hwyluso'r gwaith o gyflawni gwasanaethau dwyieithog ac egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' - ar wardiau ledled rhanbarth BIPBC.<br><br>Mae rhagor o fanylion am y cynllun hwn ar gael yn y diweddariad a ddarperir (isod) mewn perthynas â cham gweithredu 35.<br><br><u>Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog BIPBC</u><br><br>Mae Tîm y Gymraeg yn BIPBC yn cynnal cynllun 'Cwsmer Cudd' rheolaidd i fonitro agweddau amrywiol yn ymwneud â darparu gwasanaethau dwyieithog ar safleoedd y Bwrdd Iechyd ledled Gogledd Cymru.<br><br>Bydd arolygon chwarterol y cynllun yn rhoi sylw i ysbytai cymunedol, practisau a reolir a gwasanaethau dethol ym mhrif ysbytai acíwt y | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Bwrdd iechyd, a rhoddir sylw i'r ddarpariaeth gwasanaethau ffôn a derbynfa, a'r arwyddion dwyieithog sydd ar gael ar bob safle.<br><br>Ar ôl pob rownd o arolygiadau, rhoddir adroddiadau pwrpasol i reolwyr perthnasol, a bydd yr adroddiadau hynny yn cynnwys dadansoddiad o’r canfyddiadau perthnasol ac awgrymiadau ynghylch camau gweithredu posibl/gofynnol, ac fe’u gwahoddir yn sgil hynny i gydweithio ag aelodau Tîm y Gymraeg i sicrhau bod unrhyw newidiadau neu welliannau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl.<br><br>Felly, mae'r Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog yn helpu i sicrhau y caiff diffygion amrywiol eu nodi a'u hunioni'n ddi-oed ar safleoedd ledled Gogledd Cymru.<br><br>Yn wir, ers i’r cynllun ailgychwyn yn llawn yn gynharach eleni (ar ôl gorfod ei ohirio yn ystod pandemig COVID-19), mae’n ddiamau wedi ysgogi datblygiad cyffredinol a | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | chyfoethogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Bwrdd Iechyd, wrth i safleoedd / practisau / gwasanaethau amrywiol ymdrechu i adfer sefyllfa sy'n ymdebygu i'r sefyllfa arferol wedi dwy flynedd anodd iawn.<br><br><u>Datblygu Modiwl Hyfforddiant Cymru Gyfan ynghylch Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg</u><br><br>Bellach, mae gan holl Fyrddau Iechyd Cymru gyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer eu staff.<br><br>Trafodwyd y mater hwn yn un o gyfarfodydd Swyddogion y Gymraeg GIG Cymru a gadeiriwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019, ac wedi hynny, cytunodd Tîm y Gymraeg BIPBC i ysgwyddo'r cyfrifoldeb pennaf am y gwaith o gydlynu datblygiad modiwl ar-lein newydd ynghylch ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r gofyniad statudol newydd. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ar ôl creu cynnwys y cwrs arfaethedig, fe wnaeth aelod o Dîm y Gymraeg BIPBC gydweithio â SkillSet Ltd - cwmni o Basingstoke, Hampshire, sy'n cynnig atebion pwrpasol ym maes dysgu - i droi'r drafft cyntaf yn becyn hyfforddi hollol weithredol a rhyngweithiol.<br><br>Bu rhywfaint o oedi o ran datblygiad y prosiect yn sgil pandemig COVID-19, ac wedi hynny, cytunwyd ar ddrafft terfynol y modiwl hollol ryngweithiol ar ddechrau 2022. Yna, fe wnaeth SkillSet gydweithio'n uniongyrchol â Rheolwr Rhaglen Dysgu Digidol GIG Cymru i sicrhau y gellid uwchlwytho'r modiwl newydd i blatfform ESR (y mae Byrddau Iechyd ledled Cymru yn ei ddefnyddio i gynnig hyfforddiant i'w staff).<br><br>Lansiwyd y cwrs newydd yn swyddogol (trwy gyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru) yn Nhachwedd 2022, ac erbyn hyn, mae wedi'i ddynodi'n hyfforddiant gorfodol ar gyfer holl staff GIG Cymru. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r ymateb cychwynnol i'r modiwl hyfforddiant newydd (gan staff y GIG ar hyd a lled Cymru) wedi bod yn bositif iawn ac felly, rydym yn gobeithio y bydd y ffaith ei fod ar gael bellach yn cyfrannu at hwyluso darparu gwasanaethau gofal iechyd dwyieithog dros Gymru benbaladr, am flynyddoedd i ddod.<br><br>Bu'r broses o ddatblygu Pecyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg Ar-lein 'sy'n addas at ei ddiben' - gyda chynnwys sydd yr un mor gymwys a pherthnasol i staff ledled Cymru - yn un hir a llafurus (ar adegau) ac ni ellid fod wedi'i gyflawni'n llwyddiannus heb ddyfeisgarwch, gwaith caled a dyfalbarhad Tîm y Gymraeg BIPBC.<br><br>Gwnaeth Tîm y Gymraeg lunio cyfanswm o bedwar holiadur yn ymwneud ag arferion effeithiol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg, ac mae pob un wedi cael eu mabwysiadu gan y Comisiynydd ac maent wedi cael eu datblygu'n astudiaethau achos. Mae dwy o'r astudiaethau achos eisoes wedi | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | cael eu lansio ar wefan y Comisiynydd:<br><br>[Arferion effeithiol (welshlanguagecommissioner.wales)]<br><br>Caiff y ddwy astudiaeth achos arall eu lansio yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf.<br><br>Oherwydd y gwaith hwn, gwnaeth y Comisiynydd wahodd Tîm y Gymraeg i fod ar banel i drafod y gwaith a wnaed gan y Bwrdd Iechyd, ac i rannu gwybodaeth a phrofiad, yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023. | |
| 30. | Byddwn yn defnyddio'n Pecyn Cymorth Technegol Dwyieithog i sicrhau bod y gwasanaethau digidol yr ydym yn eu caffael a/neu'n datblygu yn cynnwys rhyngwyneb defnyddiwr dwyieithog lle bo hynny'n bosibl. O ran gwefannau | Rhowch enghreifftiau o ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Technoleg Dwyieithog pan yn caffael / datblygu gwasanaethau digidol newydd. I ba raddau gafodd gwasanaethau digidol eu cynhyrchu'n ddwyieithog?<br>Oes yna gofnodion o'r defnydd o wasanaethau digidol Cymraeg? | Mae Tîm y Gymraeg wedi cael rhan weithredol yn y Prosiect Asesu Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Ddementia, gyda chynrychiolaeth o'r tîm ar Grŵp Llywio'r Prosiect o'r cychwyn cyntaf.<br><br>Datblygodd The Kings Fund gyfres o adnoddau asesu amgylchedd sy'n ystyriol o ddementia sy'n cael eu defnyddio'n fyd-eang, dros | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gwybodaeth a chyngor byddwn yn dod a chyfieithwyr yn agosach at y broses creu cynnwys, gan gyd-ddrafftio yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel ein bod yn cyfathrebu yn gliriach yn y ddwy iaith. | Rhowch enghreifftiau o gyd-ddrafftio o ran gwefannau gwybodaeth a chyngor. Os na ddigwyddodd hyn, dywedwch pam. | ddegawd yn ôl. Adnoddau papur yw'r rhain sydd bellach yn cael eu cynnal gan Brifysgol Caerwrangon. Mae cyllid gan yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn cefnogi prosiect i droi'r adnoddau'n apiau i wneud asesu ein hysbytai a'n wardiau yn haws ar asesiadau cerdded-o-gwmpas. Gellir eu defnyddio hefyd i gynnwys myfyrwyr a chleifion yn y broses asesu i weld pa mor ystyriol o ddementia yw amgylcheddau, ac i ddysgu o'r broses a datblygu cynllun gweithredu. Mae'r adnodd yn nodi anghenion fel arwyddion gwell, llestri ystyriol o ddementia, clociau mawr a gwaith celf priodol. Mae adnoddau ar wahân ar gyfer wardiau, ysbytai, cartrefi gofal, mannau awyr agored, tai a chanolfannau iechyd. Mae'r gyfres o adnoddau asesu yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Mae'r disgrifiad o'r prosiect ar y fewnrwyd a'r cyfarwyddiadau ar ddefnyddio'r apiau hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae'r adnoddau asesu wedi cael eu diwygio i ofyn a yw amgylcheddau'n ystyried y Gymraeg, er enghraifft ar arwyddion i gleifion, byrddau | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | cyfeirio sy’n disgrifio’r tywydd a diwrnodau’r wythnos yn ogystal â gweithgareddau eraill. Mae lansiad yr apiau ar eu gwedd derfynol yn cael ei gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf 2023. Mae’r Bwrdd Iechyd yn falch o fod wedi bod yn arloesol a blaenllaw o ran sicrhau y darperir yn ddwyieithog ar gyfer y grŵp penodol hwn o gleifion.<br><br>Mae gwasanaethau digidol yn un o’r mannau y bydd Gwasanaethau’r Gymraeg yn canolbwyntio arno yn ystod 2023-2024, ar y cyd â’r Adran TGCh. | |
| 32. | Byddwn yn sicrhau bod Arweinwyr Gweithredol, Hyrwyddwyr a Swyddogion y Gymraeg yn cwrdd yn genedlaethol i rannu arferion gorau er mwyn sicrhau dull cyson o ymdrin â materion allweddol a datblygu mentrau i ddathlu llwyddiannau, gan gynnwys hyrwyddo *Mwy na geiriau* mewn cynlluniau gwobrau ac | Bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu digwyddiad cenedlaethol ar gyfer rhanddeiliaid perthnasol. Yn y cyfamser nodwch unrhyw gyfarfodydd / grwpiau eraill a gynhaliwyd i rannu arfer da a sicrhau dull cyson.<br><br>Hefyd nodwch a yw *Mwy na geiriau* yn cael ei hyrwyddo mewn cynlluniau gwobrau ac anrhydeddau. | <u>Grŵp Swyddogion Cymraeg GIG Cymru Gyfan</u><br><br>Mae aelodau Tîm y Gymraeg BIPBC yn cyflawni rôl amlwg yng Ngrŵp Swyddogion Cymraeg y GIG, sy'n cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod bob chwarter ac felly mae'n darparu cyfleoedd cyson i'r sawl sy'n cymryd rhan rannu arfer gorau - ac i ddatblygu ymagwedd gyson ar faterion allweddol - mewn | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | anrhydeddau sydd eisoes yn bodoli | | perthynas â chyflwyno *Mwy na geiriau...*<br><br>Grŵp Strategol Rheolwyr Iaith Gymraeg yn y GIG Cymru Gyfan<br>Mae Tîm y Gymraeg hefyd yn aelod amlwg o'r grŵp hwn sydd newydd ei ddatblygu, sy'n cael ei arwain gan y swyddogion gweithredol mewn sefydliadau, yn hytrach na chael ei arwain yn allanol. Mae'r grŵp hwn yn rhoi'r cyfle i rannu arfer gorau, ac i drafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder ar y cyd.<br><br>Gwobrau Cyrhaeddiad BIPBC<br><br>Yn absenoldeb cynllun acolâd cenedlaethol i hyrwyddo'r broses o gyflwyno *Mwy na geiriau...* yn llwyddiannus, caiff defnydd o'r Gymraeg yn BIPBC ei ddathlu bob blwyddyn ar hyn o bryd fel rhan o Wobrau Cyrhaeddiad (Staff) y Bwrdd Iechyd.<br><br>Mae'r anrhydeddau hyn yn cynnwys categori Iaith Gymraeg penodol, a chaiff y wobr ei chyflwyno i aelod o staff sydd wedi | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | gwneud 'ymdrechion arbennig i hybu defnydd o'r Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd.'<br><br>Mae hyn yn caniatáu i sbectrwm eang o staff gael eu hystyried ar gyfer y wobr, gan y gallai'r 'ymdrechion arbennig' dan sylw ymwneud ag unrhyw beth o ymrwymiad personol unigolyn i ddysgu'r Gymraeg; i ddatblygu a gweithredu mentrau sy'n gysylltiedig â pholisi, er mwyn hwyluso darparu gwasanaethau yn yr iaith honno (e.e. addasu proses gwaith er mwyn sicrhau bod cleifion sy'n medru'r Gymraeg yn cael defnyddio'r iaith pan fyddant yn derbyn gofal).<br><br>O ganlyniad, roedd yr enwebiadau ar gyfer gwobr eleni yn amrywio o Arbenigwr Chwarae ac Iechyd Cofrestredig, i Ymarferydd CAMHS, i Gynorthwyydd Theatr.<br><br>Yn 2022, gwnaeth Manuela Niemetscheck, sy'n gweithio fel Seiciotherapydd Celf, yn Ysbyty Gwynedd, ym Mangor, ennill Gwobr Cyrhaeddiad am y Gymraeg BIPBC. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Datblygodd fodel cyflawni dwyieithog ar gyfer Gwasanaethau Seicotherapi Celf a dechreuodd oruchwylio cymheiriaid yn rhithiol gyda Therapydd Celf Cymraeg ei iaith arall er mwyn adolygu'r model cyflawni dwyieithog.<br><br>Ochr yn ochr â Gwobr y Gymraeg ei hun, gellir dathlu darparu gwasanaethau dwyieithog yn llwyddiannus hefyd mewn nifer o gategorïau eraill o ran Gwobr Cyrhaeddiad BIPBC, fel y Wobr Arweinyddiaeth; y Wobr Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant; y Wobr am Ymchwil, Trawsnewid, Gwella ac Arloesi; y Wobr am Wirfoddoli a Gwobr y Filltir Ychwanegol.<br><br>Caiff yr holl wobrau hyn eu cyflwyno yn ystod seremoni, sy'n cael ei chynnal dros yr hydref fel arfer.<br><br><br>Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn BIPBC | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ar wahân i'r Gwobrau Cyrhaeddiad, mae pwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal iechyd dwyieithog hefyd yn cael ei amlygu trwy Wobr Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn yn y Bwrdd Iechyd.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r gystadleuaeth hon yn cael ei chynnal bob yn ail flwyddyn ac mae'n ddathliad o holl aelodau staff BIPBC sy'n ymrwymo i ddysgu'r Gymraeg (naill ai gyda Thiwtor y Gymraeg BIPBC neu o'u gwirfodd eu hunain), er mwyn defnyddio'r iaith yn y gweithle.<br><br>Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo ddiwethaf yn ymwneud â Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn ar Ddydd Gŵyl Dewi 2022, ac enillwyd y brif wobr gan Manuela Niemetscheck (y crybwyllwyd ei henw eisoes). | |
| 35. | Mae arwyddion gweledol nid yn unig yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau i wybod pa staff sy'n siarad Cymraeg, maen nhw hefyd yn cyfleu neges bod y Gymraeg yn rhan | Mae arwyddion gweledol yn cael eu defnyddio yn eang i ddynodi staff sy'n siarad Cymraeg, ond ceir ardaloedd o hyd lle nad yw'r symbolau yn cael eu defnyddio a mae rhai staff yn anfoddog i wisgo'r bathodyn Iaith Gwaith. | Yn unol â Safonau'r Gymraeg 53, 67 a 105, mae gofyn i BIPBC sicrhau bod bathodyn ar gael i aelodau o staff sy'n medru'r Gymraeg iddynt ei wisgo er mwyn cyfleu hynny ac i hyrwyddo | Yn flaenorol, byddai gwisgoedd gwaith yn cynnwys fersiynau wedi'u brodio o logo 'Cymraeg: iaith gwaith' yn cael eu darparu ar gyfer rhai |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 'arferol' o'r broses bob dydd o ddarparu gwasanaeth, ac yn adeiladu ar ethos o berthyn. Byddwn yn ymestyn y prosiect Iaith Gwaith ledled Cymru er mwyn i weithwyr sy'n gallu cynnig gwasanaethau'n Gymraeg, neu'n rhannol gynnig gwasanaethau'n Gymraeg, allu dangos hynny'n rhwydd drwy wisgo bathodyn neu laniard Iaith Gwaith. Bydd ein systemau TGCh hefyd yn casglu, yn dangos ac yn rhannu gwybodaeth sy'n rhoi gwybod i ni fel unigolion a staff pwy sy'n gallu siarad Cymraeg a pha wasanaethau y byddan nhw'n eu cynnig yn Gymraeg - er mwyn i ni allu defnyddio ein Cymraeg gyda nhw. (Mae'n bosibl bydd angen cyllid/adnoddau | Allwch chi fod yn hyderus bod y mwyafrif llethol o weithwyr yn eich sefydliad sy'n gallu cynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn dynodi hynny drwy wisgo'r bathodyn Iaith Gwaith?<br><br>Oes yna frandio clir yn y derbynfeydd / mannau aros i ddangos fod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig?<br><br>I ba raddau mae systemau TGCh yn cael eu defnyddio i ddal a rhannu gwybodaeth am ddewis iaith a sut y caiff y wybodaeth yma ei defnyddio wedyn? | gwisgo'r bathodyn ymysg aelodau o staff.<br><br><u>Bathodynnau</u><br><br>Mae Tîm y Gymraeg BIPBC yn darparu bathodyn pin oren 'Cymraeg: iaith gwaith' ar gyfer unrhyw aelod o staff sy'n gofyn am un.<br><br>Yn yr un modd, mae bathodynnau pin 'Dw i'n Dysgu Cymraeg' ar gael (yn rhad ac am ddim) i aelodau gweithlu BIPBC sy'n dysgu'r Gymraeg.<br><br>Tu hwnt i hyn, mae llawer o staff clinigol sy'n medru'r Gymraeg (e.e. nyrsys) yn gwisgo fersiwn wedi'i frodio o'r logo oren ar eu gwisgoedd gwaith.<br><br><u>Cortynnau gwddf</u><br><br>Oherwydd rheoliadau rheoli heintiau, mae polisi gwisg presennol y Bwrdd Iechyd yn gwahardd defnyddio cortynnau gwddf mewn mannau clinigol. | staff gofal iechyd (e.e. nyrsys) ar sail Cymru Gyfan a chafodd ehangu defnydd ohonynt - fel bod logos oren wedi'u brodio hefyd yn ymddangos ar wisgoedd gwaith a ddefnyddir gan grwpiau staff clinigol eraill - ei gynnwys fel targed blaenorol mewn Cynlluniau Gweithredu *Mwy na Geiriau...* yn y gorffennol.<br><br>Fodd bynnag, yn anffodus, ymddengys mai ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud yn hyn o beth (ar lefel genedlaethol) dros yr ychydig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ychwanegol er mwyn cyflawni hyn) | | Fodd bynnag, mae cortynnau gwddf (Cymraeg: iaith gwaith') a 'Dysgwr' yn dal i gael eu dosbarthu ymysg yr holl staff anghlinigol (ac yn enwedig ymysg staff y rheng flaen, fel derbynyddion).<br><br><u>Derbynfeydd / Ardaloedd Aros</u><br><br>Mae timau Derbynfeydd BIPBC yn derbyn arwyddion pabell plastig 'Defnyddiwch eich Cymraeg yma / Use your Welsh here', a gafodd eu cynllunio gan aelod o Dîm y Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd.<br><br>Gellir arddangos yr arwyddion hyn ar ddesgiau derbynfeydd er mwyn hysbysu cleifion / ymwelwyr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael a'u bod felly'n cael eu hannog i ddefnyddio'r iaith honno wrth sgwrsio â staff, os byddant yn dymuno gwneud hynny. | flynyddoedd diwethaf.<br><br>Mae'r broses flaenorol o archebu gwisgoedd gwaith yn cynnwys fersiwn wedi'i brodio o logo 'Cymraeg: iaith Gymraeg' wedi newid ac nid yw llawer o dimau - yn BIPBC a Byrddau Iechyd eraill, ledled Cymru - wedi cael gwybod am hyn hyd yn hyn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | <br><br><br>Mae'r arwyddion glas a gwyn brand 'Cymraeg: iaith gwaith' bellach i'w gweld wrth dderbynfeydd mewn lleoliadau BIPBC ledled gogledd Cymru.<br><br>Yn yr un modd, caiff staff eu hannog i arddangos posteri 'Defnyddiwch eich Cymraeg pan welwch yr arwydd hwn / Use your Welsh whenever you see this sign' mewn ardaloedd aros, er mwyn rhoi hwb pellach i gleifion / ymwelwyr ddefnyddio'r iaith honno wrth sgwrsio â gweithwyr y Bwrdd Iechyd.<br><br>Gellir archebu'r posteri A4 yn uniongyrchol (ac yn rhad ac am ddim) gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | <u>Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog BIPBC</u><br><br>Mae Tîm y Gymraeg BIPBC yn cynnal cynllun 'Siopwr Cudd' parhaus er mwyn monitro agweddau amrywiol ar ddarpariaeth gwasanaethau dwyieithog ar safleoedd y Bwrdd Iechyd ledled gogledd Cymru.<br><br>Mae arolygon chwarterol y cynllun yn cynnwys ysbytai cymunedol, practisau a reolir a gwasanaethau dethol ym mhrif ysbytai acíwt y Bwrdd Iechyd a chaiff sylw penodol ei roi i argaeledd ac ansawdd gwasanaethau derbynfa Cymraeg ym mhob lleoliad.<br><br>Felly, caiff defnydd o arwyddion pen bwrdd 'Defnyddiwch eich Cymraeg yma / Use your Welsh here' ac adnoddau 'Cymraeg: iaith gwaith' (fel posteri a bathodynnau pin) gan staff - er mwyn hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg - ei gofnodi, fel rhan o bob arolwg 'Siopwr Cudd'. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | <u>Cofnodi Sgiliau Cymraeg staff yn MS Outlook</u><br><br>Mae gwybodaeth am sgiliau Cymraeg aelodau staff BIPBC ar gael yn Llyfr Cyfeiriadau Cyffredinol All-lein Microsoft Outlook.<br><br>Mae'r cyfleuster 'Assistant' (sydd ar gael o dan dab 'General') o fewn paen gwybodaeth bersonol pob aelod o staff yn cael ei ddefnyddio i nodi p'un a yw'r unigolyn dan sylw yn 'Welsh Speaker'; yn 'Welsh Learner'; yn 'Speaks Some Welsh'; neu'n 'Non-Welsh Speaker.'<br><br>Cafodd y fenter hon ei datblygu a'i gweithredu gan BIPBC a hyd yma, nid yw wedi cael ei mabwysiadu gan Fyrddau Iechyd eraill yng Nghymru (er bod manylion am holl aelodau staff GIG Cymru ar gael yn y Llyfr Cyfeiriadau Cyffredinol).<br><br>Gan fod gan holl ddefnyddwyr MS Outlook fynediad at wybodaeth am sgiliau Cymraeg ein haelodau o staff, gellir ysgrifennu gohebiaeth a'i hanfon yn unol â dewisiadau | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ieithyddol pob unigolyn o ganlyniad.<br><br><br>Cynllun Dewis Iaith BIPBC a system STREAM<br><br>Mae Cynllun Dewis Iaith arobryn y Bwrdd Iechyd yn defnyddio magnetau oren 'Cymraeg' i dynnu sylw at gleifion (a staff) sy'n medru'r Gymraeg - ac i hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau dwyieithog ac egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' - ar wardiau ar draws rhanbarth BIPBC.<br><br>Ar ôl cael ei beilota yn y lle cyntaf ar wardiau dethol yn Ysbyty Gwynedd yn 2017, mae'r Cynllun Dewis Iaith wedi cael ei ehangu'n ddiweddarach i gynnwys wardiau yn Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Maelor Wrecsam a'r rhan fwyaf o safleoedd cymunedol BIPBC.<br><br>Uwchlaw popeth, mae defnyddio'r magnetau oren - sy'n cael eu rhoi ar fyrddau gwyn wrth erchwyn y gwely ac yn ymyl enwau gweithwyr perthnasol ar fyrddau staff - yn hwyluso'r broses o baru | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | defnyddwyr gwasanaeth sy'n medru'r Gymraeg â meddygon, nyrsys a chynorthwywyr gofal iechyd sy'n medru'r Gymraeg ar ein wardiau.<br><br>Ond tu hwnt i hyn, mae'n amlwg bod y Cynllun Dewis Iaith hefyd yn cyfrannu at hwyluso darpariaeth gwasanaeth ar raddfa ehangach yn y Bwrdd Iechyd, gan fod aelodau o'r gweithlu clinigol ehangach - fel ffisiotherapyddion neu fferyllwyr (a fydd, efallai, yn ymweld â wardiau'n achlysurol yn unig) yn gallu defnyddio'r magnetau hefyd er mwyn sicrhau bod eu gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol ag anghenion ieithyddol claf.<br><br>Ar ôl parhau i fod yn weithredol ar lawer o wardiau BIPBC trwy gydol pandemig COVID-19, gwnaeth y cynllun syml barhau i ffynnu yn ystod 2022-23 ac mae camau'n cael eu cymryd erbyn hyn i ffurfioli'r broses o'i roi ar waith ar fwy o wardiau.<br><br>Fel rhan o'r broses hon, gwnaeth aelodau Tîm y Gymraeg BIPBC | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | weithio gydag aelodau o Dîm TGCh y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod modd cynnal y Cynllun Dewis Iaith fel rhan o system STREAM sydd newydd ei rhoi ar waith.<br><br>Offeryn cynlllunio at ryddhau a ddatblygwyd yn fewnol yw STREAM, a'i bwriad yw cynorthwyo gyda llif cleifion mewn lleoliadau gofal iechyd.<br><br>Mae modd ei chyrchu trwy sgrin electronig ar bob ward (neu ar lechi electronig personol), ac mae'r rhaglen yn defnyddio data mewn amser real i gynorthwyo gofal cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd ac felly, ei bwriad yw disodli'r byrddau gwyn llaw / wrth erchwyn y gwely sy'n bodoli eisoes.<br><br>Nod y system yw cynnig mynediad gwell i wybodaeth sy'n bodoli eisoes (sy'n dod o WPAS a systemau olrhain Archebion Fferyllol), er mwyn cynnal y ffyrdd presennol o weithio a hwyluso profiadau cleifion, tra byddant yn derbyn gofal gan y Bwrdd Iechyd. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Yn unol â'r nod hwn, mae system STREAM yn darparu gwybodaeth am ddewisiadau ieithyddol unigol pob claf; gan ddefnyddio data sy'n dod yn awtomatig o WPAS, caiff fersiwn ddigidol o logo oren 'Cymraeg: iaith gwaith' ei arddangos ar y sgrin, yn ymyl enw pob claf lle deellir ei fod yn medru'r Gymraeg.<br><br>Mae hyn yn sicrhau bod yr holl aelodau staff sy'n defnyddio STREAM yn cael gwybod am bresenoldeb cleifion sy'n medru'r Gymraeg ar eu wardiau, sydd yn naturiol yn hwyluso cynnig Cynllun y Dewis Iaith.<br><br>Mae system STREAM eisoes wedi'i chyflwyno ar safleoedd prif ysbytai / ysbytai acíwt y Bwrdd Iechyd (ym Mangor, Bodelwyddan ac yn Wrecsam) ac mae cynlluniau ar waith ar hyn o bryd i ehangu ei defnydd i ysbytai cymunedol ar draws rhanbarth BIPBC. | |
| 37. | Byddwn yn datblygu ymhellach adnoddau geiriadurol, corpws | Rhowch wybodaeth am unrhyw fentrau yn eich sefydliad sy’n | <u>*Cysgliad* (*Cysill* a *Cysgeir*)</u> | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | terminoleg o safon uchel, systemau cof iaith ac adnoddau ymarferol i helpu staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, er enghraifft Gair i Glaf. Yn y tymor byr, bydd hyn yn cynnwys swyddogion y Gymraeg a chyfieithwyr yn cydweithio ar gasglu a chyfuno termau ynghyd â gallu a chapasiti cyfieithu. | ymwneud â therminoleg / cyfieithu. | Mae gan holl staff BIPBC fynediad at becyn meddalwedd *Cysgliad* ar eu cyfrifiadur / gliniadur gwaith.<br><br>Cafodd y pecyn hwn ei ddatblygu gan Ganolfan Bedwyr Prifysgol Bangor (h.y. Canolfan Gwasanaethau Cymraeg, Ymchwil a Thechnoleg y brifysgol) ac mae'n hwyluso'r broses o ysgrifennu yn Gymraeg.<br><br>Mae pecyn *Cysgliad* yn cynnwys *Cysill* - sy'n rhaglen gwirio gramadeg a sillafu Cymraeg - a chasgliad o eiriaduron Saesneg-Cymraeg, sydd wedi cael eu rhoi at ei gilydd fel rhan o *Cysgeir*.<br><br><u>Uned Gyfieithu BIPBC</u><br><br>Mae Tîm Cyfieithu'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ehangu, gan roi cymorth cyfieithu i BIPBC, Gofal Sylfaenol ac Uwch Adran Iechyd Cyhoeddus Cymru yng ngogledd Cymru. Mae hefyd yn darparu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Mae | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | trafodaethau pellach wedi'u cynnal gyda sefydliadau eraill gyda'r bwriad o ddechrau SLA tebyg gyda Bwrdd Iechyd arall yn ystod ail chwarter 2023-2024.<br><br>Mae'r Tîm wedi cymryd rhan mewn trafodaethau gyda Chanolfan Bedwyr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg, ymysg eraill, i drafod cyfleoedd cydweithio mewn perthynas â safoni terminoleg ac optimeiddio rhannu adnoddau.<br><br>Mae'r Tîm yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod terminoleg ac maent wrthi'n gweithio i sicrhau bod rhestrau terminoleg cynhwysfawr yn cael eu datblygu, er mwyn sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir yn briodol ar gyfer y gynulleidfa darged a'i bod yn gyson â'r derminoleg a ddefnyddir gan eraill yn y maes gofal iechyd.<br><br>Mae'r Tîm yn defnyddio meddalwedd cof cyfieithu yn ei waith o ddydd i ddydd ers nifer o flynyddoedd ac mae wrthi'n | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ystyried y posibilrwydd o roi meddalwedd cyfieithu peirianyddol ar waith ochr yn ochr â hyn, er mwyn gwella effeithlonrwydd a hwyluso rhannu banciau terminoleg gyda sefydliadau partner gyda'r bwriad o safoni terminoleg a gwella ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg. | |
| ADRAN 4 – Monitro'r Cynnydd | Bydd pob corff iechyd ac awdurdod lleol yn penodi rhywun i fod yn gyfrifol am sicrhau bod camau gweithredu a thargedau'r cynllun yn cael eu cyflawni. | Nodwch a gyflawnwyd hyn a phwy yn eich sefydliad sy'n gyfrifol am hyn. | Mae gan Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus BIPBC, Teresa Owen, gyfrifoldeb ar lefel y Bwrdd am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd.<br><br>Hi hefyd yw Cadeirydd Fforwm Strategol Cymraeg y Bwrdd Iechyd, yn arwain trafodaethau strategol am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd a Safonau'r Gymraeg a *Mwy na geiriau,* y mae'r ddwy yn eitemau sefydlog ar Gylch Busnes y Fforwm. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Yn ddiweddar, cafodd Teresa ei phenodi'n aelod o’r Bwrdd Cynghorol newydd Cyfan Gyfan ar gyfer *Mwy na geiriau...* (am gyfnod o bum mlynedd). | |

| **Unrhyw sylwadau eraill** |
|---|
| |

**Canllaw i'r sgôr RAG**

| | |
|---|---|
| **Red** | Nid yw'r mwyafrif ar y trywydd iawn ac mae angen gwneud newidiadau. |
| **Amber** | Y mwyafrif ar y trywydd iawn, ond lle i wella. |
| **Green** | Ar y trywydd iawn. |

**Rhowch sgôr RAG cyffredinol**

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor sy'n Adrodd: | **Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (HPF)** |
| Cadeirydd y Pwyllgor: | Jane Wild |
| Dyddiad y cyfarfodydd diwethaf: | 1 Medi 2023 |
| Paratowyd y papur gan: | Ysgrifenyddiaeth y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol |

**PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL / MATERION A YSTYRIWYD GAN Y PWYLLGOR**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod y materion canlynol wedi cael eu trafod yn y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol ar 1 Medi 2023:

- **Diweddariad ar y Strategaeth Ddigidol**
- **Strategaeth Gofal Sylfaenol**
- **Aelodaeth**

**--------------------------------------**

**Diweddariad ar y Strategaeth Ddigidol – Systemau Cofnodion Electronig am Gleifion**
Croesawodd y Fforwm y cyfle i roi sylwadau ar y cynlluniau i wella'r systemau cofnodion electronig am gleifion presennol ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd cefnogaeth gref dros yr angen am system integredig a chydnabyddiaeth o'r manteision yn sgil hynny, gan gynnwys diogelwch cleifion a recriwtio/cadw staff.
Roedd yr aelodau'n cefnogi'r dull systematig o weithredu ac integreiddio mwy nag un system (dull system o systemau) ac yn tynnu sylw at yr angen i unrhyw system sicrhau mynediad cyfyngedig lle bo angen, swyddogaeth arbenigol, yn ogystal â golwg gryno hygyrch. Tynnodd y Fforwm sylw hefyd at yr angen i ystyried sut mae gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu hymgorffori.

**Strategaeth Gofal Sylfaenol**
Roedd y Fforwm o blaid dull o wneud pethau'n wahanol ym maes gofal sylfaenol gan ganolbwyntio ar ddull lleol ac amlbroffesiynol a sicrhau profiad esmwyth i ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd yr aelodau'n awyddus i sicrhau bod unrhyw fodel yn galluogi defnyddio dull hyblyg o ddiwallu angen lleol, a thynnwyd sylw at bwysigrwydd dulliau arwain cryf ar lefel leol. Roedd y Fforwm hefyd yn dymuno tynnu sylw at fodolaeth arferion da ac ymgysylltiad mewn rhai meysydd, a gellid adeiladu ar y rheiny.

**Aelodaeth**
Mae Emma Adamson, cynrychiolydd y Fforwm ar gyfer nyrsio cymunedol a bydwreigiaeth, wedi ymgymryd â rôl Is-gadeirydd y Fforwm.

| |
|---|
| |
| **EITEMAU I'W HUWCHGYFEIRIO I'R BWRDD** |
| Dim |
| **Y CYFARFOD NESAF** |
| Bydd cyfarfod nesaf y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn cael ei gynnal ar 1 Rhagfyr 2023. |